

Bundle BCU Health Board - Welsh 24 September 2026

- 1 09:30 - MATERION RHAGARWEINIOL
- 1.1 09:30 - 26.171 Gair o groeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.2 09:33 - 26.172 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.3 09:35 - 26.173 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2026 a'r
Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2026
Dyfed Edwards, Cadeirydd
26.173.1 CYM Minutes from Health Board Meeting 30.07.26 V0.2 (Public)
26.173.2 CYM Minutes from AGM 29.07.26 V0.2 (Public)
- 1.4 09:40 - 26.174 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 1.5 09:45 - 26.175 Eitem Profiad (Tîm Cymunedol Dibyniaeth Fawr)
*Teresa Owen, Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol
Perthynol i lechyd a Gwyddorau lechyd*
26.175 CYM Community High Dependency Story - Board Sept 26
- 1.6 10:00 - 26.176 Adroddiad y Cadeirydd
Dyfed Edwards, Cadeirydd
26.176 CYM Chair's Report
- 1.7 10:10 - 26.177 Adroddiad y Prif Weithredwr
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
26.177 CYM CEO Report September 2026
- 1.8 10:20 - 26.178 Adroddiad yr Is-gadeirydd
Gareth Williams, Is-gadeirydd
- 2 10:25 - EITEMAU STRATEGOL
- 2.1 10:25 - 26.179 Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau
Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
26.179 CYM Citizen Experience Board Paper
- 2.2 10:40 - 26.180 Adroddiad Cynnydd: Cam 1 Ysbyty Brenhinol Alexandra
Stuart Keen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
26.180 CYM RAH Report for BCU Board 24.09.26 vers 1.0
- 2.3 10:55 - EGWYL
- 3 11:05 - PERFFORMIAD INTEGREDIG
- 3.1 11:05 - 26.181 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Cynllunio, lechyd y Boblogaeth a
Phartneriaethau
Clare Budden, Aelod Annibynnol
a) Cynllun Cyflawni Blynnyddol
b) Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio
Paolo Tardivel, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Trawsnewid a Chynllunio Strategol

26.181 CYM AAA Report for PPHP Committee 03.09.26 V1.0

- 3.2 11:15 - 26.182 Cynllun y Gaeaf
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
- 3.3 11:35 - 26.183 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys ac Argyfwng
Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
26.183 CYM UEC Progress Report
- 3.4 11:50 - 26.184 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
Caroline Turner, Aelod Annibynnol
26.184 CYM AAA Report for QSE Committee 03.09.2026 V2.0
- 3.5 11:55 - 26.185 Adroddiad Ansawdd Integredig
Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
- 3.6 12:10 - 26.186 Adroddiad Ansawdd Blynnyddol
Clara Day, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
26.186 CYM - Annual Quality report 2025 - 2026 Coversheet
26.186.1 CYM - Annual Quality Report 2025-2026
- 3.7 12:30 - 26.187 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth
Gareth Williams, Is-gadeirydd
26.187 CYM AAA Report for PFIG Committee 25.08.26 V1.0
- 3.8 12:35 - 26.188 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig
Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
26.188 CYM - IQPR Coversheet - Health Board v2 (002)
- 3.9 12:50 - 26.189 Adroddiad Ariannol
Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
26.189 CYM Finance Report 26-27 Coversheet Month 5 Final
- 3.10 13:00 - CINIO
- 4 13:30 - LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD
- 4.1 13:30 - 26.190 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio
Paul Lambert, Cadeirydd y Pwyllgor
26.190 CYM Audit Committee AAA Report 18.08.26 v2.0
- 4.2 13:35 - 26.191 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 2026-2027
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
26.191 CYM Board Assurance Framework Report
- 4.3 13:45 - 26.192 Adroddiad Blynnyddol Archwaeth Risg 2026-2027
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
26.192 CYM Risk Appetite Annual Review 2026-2027
- 4.4 13:55 - 26.193 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol
Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
26.193 CYM Corporate Governance Report V1.1
- 4.5 14:05 - 26.194 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Dyfed Jones, Aelod Annibynnol

26.194 CYM AAA Report for P&C Committee 13.08.26 V1.0

- 4.6 14:10 - 26.195 Adroddiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Diogeledd
Stuart Keen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
26.195 HS&S Board and Committee Coverpaper for Board (September 2026)
- 4.7 14:15 - 26.196 Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg
Teresa Owen, Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
26.196 CYM Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2025-2026
- 4.8 14:20 - 26.197 Adroddiadau Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori
Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, Gareth Williams
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Dyfed Jones
Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Peter Lewis
Pwyllgor Gweithredol, Carol Shillabeer
26.197.1 CYM AAA Report MHL Committee 06.08.26 V1.0
26.197.2 CYM AAA Report for Charitable Funds Committee V1.0
26.197.3 CYM SRG AAA Report 07.09.26 v1.0
26.197.4 CYM September Board EC Report - Public
- 5 14:25 - MATERION I GLOI
- 5.1 14:25 - 26.198 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 5.2 14:27 - 26.199 Dyddiad y cyfarfod nesaf – Dydd Iau, 26 Tachwedd 2026
Dyfed Edwards, Cadeirydd
- 5.3 14:29 - 26.200 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd
Dyfed Edwards, Cadeirydd



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion **Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd Iechyd**
a gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 30 Gorffennaf 2026
yn Venue Cymru, Llandudno

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol	
Enw	Teitl
Dyfed Edwards	Cadeirydd
Tehmeena Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu
Clare Budden	Aelod Annibynnol
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Clara Day	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol
Urtha Felda	Aelod Annibynnol
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol
Paul Lambert	Aelod Annibynnol
Peter Lewis	Aelod Cyswllt: Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
Chris Lothian-Field	Aelod Annibynnol
Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Billy Nichols	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
Fôn Roberts	Aelod Cyswllt (Cynrychiolwr Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol)
Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro – Trawsnewid a Chynllunio Strategol
Caroline Turner	Aelod Annibynnol
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol
Gareth Williams	Is-gadeirydd
Yn Bresennol	
Sue Irlam	Pennaeth Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu, Llais
Laura Jones	Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol
Stuart Keen	Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
Chris Lynes	Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio
Phylis Makurunje	Darpar Aelod o'r Bwrdd
Justine Parry	Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol

MATERION RHAGARWEINIOL

26.133 Gair o Groeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd, aelodau o'r cyhoedd a'r rheini a oedd yn gwylio ar-lein i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau ar ran Angela Wood a Mike Larvin.



Croesawodd y Cadeirydd hefyd gynrychiolwyr a oedd yn bresennol ar gyfer eitem **Ysbyty Cymunedol Tywyn** ynghyd â Sue Irlam, Pennaeth Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu, Llais a ymunodd â'r cyfarfod i gyfrannu at y drafodaeth.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod yr agenda'n cynnwys nifer o eitemau allweddol sy'n cynnwys **Gofal a Gynlluniwyd** a'r ymateb i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyllid a'r cymorth ychwanegol a gafwyd. Nodwyd hefyd bod **Gofal Brys a Gofal Argyfwng** yn parhau i gael ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd i dynnu sylw at gynnydd yn y maes hwn.

Nododd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Tehmeena Ajmal fel Prif Swyddog Gweithredu cyn gadael y Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2026 a diolchodd iddi am y cyfraniad y mae wedi'i wneud dros y 18 mis diwethaf, yn enwedig yn ystod cyfnod heriol a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

Croesawodd y Cadeirydd Chris Lynes hefyd a oedd yn bresennol ar ran Angela Wood a nododd y byddai Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn gadael y Bwrdd Iechyd ddiwedd mis Awst 2026. Diolchodd y Cadeirydd i Angela am ei chyfraniad sylweddol a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

26.134 Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

26.135 Cofnodion, heb eu cymeradwyo, cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2026 a 25 Mehefin 2026

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYTUNO** bod y cofnodion o gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 28 Mai 2026 a 25 Mehefin 2026 yn gofnod gwir a chywir.

26.136 Materion yn Codi a Chofnod o'r Camau Gweithredu

Cyflwynwyd y cofnod o'r camau gweithredu i'r aelodau, a nodwyd y cynnydd a wnaed.

Achos Busnes yr Adran Achosion Brys

- Cyfeiriwyd at gam gweithredu 26.131.1 gan nodi bod adroddiad drafft Arolygiaeth Iechyd Cymru wedi dod i law a'i fod yn cael ei adolygu i sicrhau cywirdeb ffeithiol. Mae Grŵp Goruchwylio yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â chamau nesaf yr adolygiad ac awgrymwyd y dylid cau'r cam gweithredu hwn.

Cynnig i ddod yn Bartner Maethu Cymru ac yn Gyflogwr sy'n Gyfeillgar i Faethu

- Mewn perthynas â cham gweithredu 26.102.1 nodwyd bod y Bwrdd yn cefnogi'r cynnig i ddod yn bartner Maethu Cymru a holodd a ellid bwrw ymlaen â hyn yn gynharach na mis Ionawr 2027. Nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer mis Awst 2026 a bod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofynion achredu. Os bydd y sefyllfa hon yn cael ei chyrraedd yn gynt, bydd diweddariad yn cael ei roi yn unol â hynny.

Adroddiad y Cadeirydd

- Cyfeiriwyd at gam gweithredu 25/129.1 o 2025 ynghylch pwysigrwydd darparu cyfleoedd i gefnogi pobl ifanc i mewn i'r gweithle a nododd y cysylltiad â Rhaglen Sylfeini'r Dyfodol gan



holi a ellid gwneud rhagor o gynnydd yn gyflymach. Cadarnhawyd y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod pennu agenda'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Materion yn Codi a'r Camau Gweithredu

- Mewn perthynas â cham 26.84.1 y cynigiwyd ei gau, gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch sicrhau bod gwerth a chynaliadwyedd yn ogystal ag arbedion yn dod yn fwy amlwg. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo drwy'r cam cychwynnol sy'n cynnwys nodi 2% o arbedion. Bydd y cam nesaf yn canolbwyntio ar werth a chynaliadwyedd ac ar ôl gwerthuso'r wybodaeth, bydd yn rhoi darlun cliriach o'r bwlch arbedion sy'n weddill. Bydd y cam olaf yn cynnwys dod â dewisiadau anoddach i'r Bwrdd ehangach er mwyn ystyried unrhyw gamau pellach sydd eu hangen.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYTUNO** i gau'r camau gweithredu y cynigiwyd eu cau.

26.137 Eitem Profiad

Fe wnaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd gyflwyno'r eitem profiad, a rhannwyd cyflwyniad fideo â'r Bwrdd:

- Nodwyd bod y fideo'n canolbwyntio ar effaith **Fedra'i** (iCAN) sy'n darparu cymorth iechyd meddwl yn y gymuned.
- Mae'r stori'n dangos gwerth **Fedra'i** a phwysigrwyd gweithio mewn partneriaeth â Caniad a phartneriaid ehangach ledled Gogledd Cymru, gan roi ffocws clir ar ymyrraeth gynnar a chysoni â'r **Strategaeth Iechyd Meddwl Genedlaethol**.
- Diolchwyd i'r tîm Iechyd Meddwl am eu gwaith yn y maes hwn, gan adlewyrchu'r ffaith bod ymyriadau cymunedol llai wedi dod yn fwyfwy pwysig, gyda'r potensial i wneud gwahaniaeth sylweddol, achub bywydau a chefnogi nodau ehangach yr **Adroddiad Iechyd Meddwl**.

Wrth drafod yr adroddiad, roedd y Bwrdd:

- Wedi'i galonogi gan y gwaith sy'n cael ei gyflawni a nododd fod y dull gweithredu'n cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru ac yn darparu cymorth amserol ac ymarferol drwy bartneriaid lleol a'r trydydd sector, gan adeiladu ar gryfderau'r gymuned i ddiwallu anghenion lleol.
- Wedi tynnu sylw at effaith gadarnhaol y gwasanaeth gan nodi ei rôl yn y gwaith o leihau stigma sy'n awgrymu bod angen gwella mynediad cymunedol ymhellach a'r gallu i ddarparu cymorth ataliol a allai leihau'r angen am asesiad mwy ffurfiol.
- Wedi awgrymu bod angen parhau i oruchwylio effaith ymyriadau cynnar, gan gynnwys sut gellid cofnodi canlyniadau y tu hwnt i amseroedd aros i ddangos lle mae pobl wedi cael eu cefnogi heb fod angen mynediad at wasanaethau mwy ffurfiol.
- Wedi nodi bod yr **Adroddiad Perfformiad** diwygiedig yn rhoi rhagolwg cliriach ar gynlluniau cyflawni ac arbedion yn erbyn blaenoriaethau'r Gweinidog ac y bydd yn galluogi meysydd o arfer da i fod yn fwy amlwg, gyda rhagor o fireinio wedi'i gynllunio wrth i'r adroddiad ddatblygu.
- Wedi cyfeirio at y **Fframwaith Canlyniadau** sy'n awgrymu'r nod o symud y tu hwnt i fesurau Llywodraeth Cymru i asesu i ba raddau y mae cymorth wedi mynd i'r afael ag anghenion unigol a nodi cyfleoedd i wella ymhellach.
- Wedi cydnabod gwerth cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn ogystal â'r manteision i wirfoddolwyr a buddiolwyr o ran effaith, cyllid a rhannu arferion da.
- Wedi diolch i bawb sy'n ymwneud â'r maes gwaith hwn sy'n cael effaith ar gymunedau lleol gan nodi'r heriau i gefnogi'r gwaith hwn yn y tymor hwy.



Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** eitem Profiad.

26.138 Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cadeirydd sylw at y canlynol:

- Mae ymgysylltu parhaus yn parhau yn dilyn yr etholiadau, gan gynnwys cyfarfodydd ag Aelodau newydd o'r Senedd a Gweinidogion yn nodi'r **ymweliadau Gweinidogol** sydd wedi digwydd yn Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd a Chanolfan Lawfeddygol Gogledd Cymru, Llandudno i ddarparu cyfleoedd cadarnhaol i arddangos y gwaith sy'n mynd rhagddo.
- Cafodd **'This Too Will Pass: My Bipolar Life'** ei ddangos yn Y Ganolfan, Porthmadog yn gynharach y mis hwn gyda Chris Eastwood yn rhannu ei brofiad ysbrydoledig o fyw gydag Anhwylder Deubegynol gan nodi'r gwaith sy'n digwydd gyda Llais yn y maes hwn.
- Mae nifer o **Seremonïau Graddio ar gyfer Interniaid a Gefnogwyd** wedi bod yn cael eu cynnal ledled y rhanbarth ac wedi cydnabod cefnogaeth a chyflawniadau pobl ifanc yn y gweithle a'r manteision a gafwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd gan bartneriaid.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.139 Adroddiad y Prif Weithredwr ac Adroddiad Cynnydd Uwchgyfeirio

Cyflwynwyd yr adroddiadau i'r Bwrdd, a thynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:

- Bydd nifer o newidiadau i'r Tîm Gweithredol dros y misoedd nesaf gan nodi y bydd Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn ymddeol ddiwedd mis Awst 2026 ar ôl 39 mlynedd yn y GIG. Mae hyn yn llwyddiant ysgubol, a diolchwyd i Angela am ei gwasanaeth a'i hymroddiad i'r GIG yng Ngogledd Cymru.
- Bydd Tehmeena Ajmal, y Prif Swyddog Gweithredu, hefyd yn gadael yn ystod mis Awst 2026 a diolchwyd am y rôl bwysig y mae Tehmeena wedi'i chwarae, gan gefnogi gwasanaethau a thimau a dangos ymrwymiad cryf i wella gofal mewn cymunedau.
- Mae Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad, wedi cael ei benodi'n ddiweddar i rôl Prif Swyddog Cyllid yn Ysbyty Athrofaol Gogledd Canolbarth Lloegr a bydd yn gadael y Bwrdd Iechyd ddechrau mis Hydref 2026.
- Mae recriwtio i'r tair rôl Weithredol allweddol hyn yn mynd rhagddo'n gadarnhaol, gyda phroses drylwyr yn cael ei chynnal i sicrhau cydweithwyr ar gyfer y swyddi heriol hyn.
- Mae nifer o uwchgynadleddau wedi cael eu cynnal gan gynnwys yr **Uwchgynhadledd Gofal Sylfaenol** a gynullwyd gan Weinidog y Cabinet dros lechyd a Gofal i ystyried sut gellid troi'r **Rhaglen Trawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn** yn ddarpariaeth ymarferol a bydd adroddiad ar hyn yn cael ei roi i'r Bwrdd maes o law.
- Cynhaliwyd **Uwchgynhadledd i Raddedigion** hefyd i ystyried y sefyllfa swyddi ar gyfer graddedigion Nyrsio, Bydwreigiaeth a Pharafeddygon sy'n cymhwyso yn ystod haf 2026, gan nodi bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnig rolau i'r rhai sydd wedi hyfforddi yng Ngogledd Cymru.

Adroddiad Cynnydd Uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd

- Cyflwynodd y **Prif Weithredwr Adroddiad Cynnydd Uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd** gan dynnu sylw at y ffaith bod cyfarfod y **Bwrdd Uwchgyfeirio** a gynhaliwyd yn ystod mis Gorffennaf 2026 wedi cael ei gynnal yng Ngogledd Cymru a'i gadeirio gan Weinidog y Cabinet dros lechyd a Gofal.



- Yn ystod y cyfarfod, cyhoeddodd Gweinidog y Cabinet dros lechyd a Gofal yr **Adolygiad dan Arweiniad Da** sydd ar y gweill a fydd yn darparu asesiad annibynnol o daith y Bwrdd lechyd tuag at welliant. Bydd yr adolygiad yn asesu effeithiolrwydd trefniadau arweinyddiaeth, llywodraethiant, diwylliant sefydliadol, gallu ac ansawdd, ynghyd â pharodrwydd y Bwrdd lechyd i sicrhau gwelliant cynaliadwy.
- Bydd manylion yr adolygiad yn dilyn. Fodd bynnag, nodwyd na fydd Ansawdd yn rhan o gwmpas yr adolygiad a bydd sesiwn frifio fanylach yn cael ei chynnal gydag aelodau'r Bwrdd maes o law.
- Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud mewn perthynas â **Gofal wedi'i Gynllunio** gan nodi bod perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn cleifion sy'n aros dros 104 wythnos rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn bodloni'r meini prawf isgyfeirio ar hyn o bryd. Mae cynlluniau bellach wedi'u cyflwyno i adlewyrchu'r camau gweithredu a gynigir i symud ymlaen ac i ddileu'r arosiadau o 104 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â **Diagnosteg** ac mae'r Bwrdd lechyd yn agos at gyrraedd y lefel isgyfeirio yn y maes hwn. Mae cynlluniau wedi cael eu cyflwyno i adlewyrchu'r camau gweithredu a gynigir i ddileu arosiadau Diagnostig dros 8 wythnos.
- Mae **Gofal Brys a Gofal Argyfwng** yn parhau i fod yn ffocws mawr i'r Bwrdd lechyd ac mae Gweinidog y Cabinet dros lechyd a Gofal yn annog y sefydliad i gyflawni'r meini prawf isgyfeirio yn y maes hwn erbyn diwedd mis Medi 2026.
- Mae gwaith yn parhau mewn perthynas ag Ansawdd, Cynllunio, Cyllid a'r Gweithlu a bydd cyfarfod y **Bwrdd Uwchgyfeirio** nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref 2026 i adolygu cynnydd yn y meysydd hyn.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at yr **Adolygiad dan Arweiniad Da** a holi sut mae hyn yn wahanol i **Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru**. Cadarnhawyd bod y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr yn cynnal **Adolygiadau dan Arweiniad Da** yn erbyn amrywiaeth o feini prawf, ond yng Nghymru bod y rôl sicrwydd gyfatebol yn cael ei chyflawni gan Archwilio Cymru gan nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol yn atebol i'r Senedd.
- Nodi y bydd yr **Adolygiad dan Arweiniad Da** yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o **Asesiad Strwythuredig y Bwrdd lechyd** yn ogystal ag amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol, gan gynnwys adolygu dogfennau, ymgysylltu â'r Bwrdd ac uwch arweinwyr, cyfweiliadau unigol, arsylwadau o gyfarfodydd a mewnbwn gan Banel Arbenigol a Grŵp Cyfeirio. Bydd y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad yn cael ei wneud ym mis Awst 2026, bydd y gwaith maes yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2026 a disgwylir adroddiad yn ystod mis Hydref 2026.
- Cydnabod y dirwedd wleidyddol newidiol a'r sylwadau a wnaed gan Aelodau newydd y Senedd, gan nodi pwysigrwydd cynnal sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth ar yr un pryd â pharhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y ddwy flynedd diwethaf a chydabod bod angen bod yn ofalus wrth i newidiadau gael eu rhoi ar waith yn y Tîm Gweithredol.
- Ailddatgan ymrwymiad y Bwrdd lechyd i roi pobl a chymunedau Gogledd Cymru wrth galon pob penderfyniad, gan ganolbwyntio ar y cyd ar ddarparu'r gofal gorau posibl a bwrw ymlaen â gwasanaethau o ansawdd uchel y mae pobl Gogledd Cymru yn eu haeddu.
- Myfyrio ar daith wella'r sefydliad dros y tair blynedd diwethaf, gan nodi bod cynnydd cynaliadwy yn cymryd amser, a chroesawu'r **Adolygiad Dan Arweiniad Da** fel cyfle i asesu sefyllfa bresennol y Bwrdd lechyd, ei gyfeiriad yn y dyfodol a sut mae cynnydd a chynlluniau i fynd i'r afael â heriau parhaus yn cael eu cyfleu'n gliriach i'r cyhoedd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.



26.140 Adroddiad yr Is-gadeirydd

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd yr Is-gadeirydd sylw at y canlynol:

- Pwysigrwydd cwrdd a siarad â staff a thimau ar draws y sefydliad a gwerth dysgu o brofiad pobl eraill.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Holi sut mae'r Bwrdd Iechyd yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag **Oedi wrth Drosglwyddo Gofal** (DTCOC) o ysbytai aciwt. Cadarnhawyd bod gwaith wedi cael ei wneud dros y misoedd diwethaf i gryfhau cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion a nodi gwelliannau, gan gynnwys camau gweithredu wedi'u targedu gydag Awdurdodau Lleol a gwaith ar wardiau i gefnogi cleifion i symud i'r lleoliad mwyaf priodol, ar yr un pryd â dysgu o arferion gorau ar draws Byrddau Iechyd eraill i lywio gwelliannau pellach mewn **Gofal Brys a Gofal Argyfwng** a llwybrau cleifion.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

EITEMAU STRATEGOL

26.141 Ysbyty Cymunedol Tywyn - Achos dros Newid

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro - Trawsnewid a Chynllunio Strategol sylw at y canlynol:

- Mae'r papur yn cyflwyno'r **Achos dros Newid** ar gyfer gwasanaethau yn **Ysbyty Cymunedol Tywyn** ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i fwrw ymlaen â'r opsiynau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.
- Diolchwyd i bawb sydd wedi cyfrannu at y drafodaeth hyd yma, gan nodi bod yr amser a'r ymdrech a roddwyd yn dangos pa mor gryf yw teimladau'r gymuned ynghylch y mater hwn.
- Mae cau **Ward Dyfi** dros dro yn 2023 yn tynnu sylw at yr heriau hirsefydlog sy'n gysylltiedig â chynnal gwasanaeth diogel a chynaliadwy i gleifion mewnol yn **Ysbyty Cymunedol Tywyn**.
- Deilliodd yr angen i gau **Ward Dyfi** o bryderon ynghylch diogelwch cleifion a sbardunwyd gan gyfyngiadau ar y gweithlu, gan gynnwys heriau o ran recriwtio a chadw staff nyrsio sy'n meddu ar y sgiliau priodol.
- Ers cau'r ward dros dro, mae adnoddau wedi cael eu hailgyfeirio i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymunedol amgen ar gyfer y boblogaeth leol gan gynnwys Ystafell Driniaeth, gwasanaeth Tuag Adref, Canolfan Llesiant, Uned Mân Anafiadau estynedig a darparu mwy o ofal yn y gymuned.
- Mae darpariaeth gofal iechyd wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda phwyslais cynyddol ar ddarparu gofal yn nes at y cartref, lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gallir eu hosgoi a chefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cymunedau eu hunain lle bynnag y bo hynny'n glinigol briodol.
- Mae'r boblogaeth a wasanaethir gan **Ysbyty Cymunedol Tywyn** yn heneiddio, gyda lefelau cynyddol o eiddilwch, nifer o gyflyrau hirdymor ac anghenion iechyd cymhleth sy'n gofyn am ofal amlddisgyblaethol cydgysylltiedig.
- Mae mwy a mwy o alw ar wasanaethau cymunedol i ymateb yn hyblyg i ystod ehangach o anghenion y boblogaeth, gan gynnwys cymorth priodol i bobl iau, unigolion sy'n wynebu heriau iechyd Meddwl ac ystod eang o wasanaethau gofal parhaus.



- Mae'r adolygiad wedi ceisio nodi modelau posibl sy'n glinigol effeithiol a chynaliadwy ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd cymunedol o **Ysbyty Cymunedol Tywyn** gan nodi bod cwmplas y gwaith wedi'i gyfyngu i fodel gweithredu **Ward Dyfi** a gwasanaethau ysbyty cymunedol sy'n uniongyrchol gysylltiedig a thynnu sylw at y ffaith bod materion ehangach fel deintyddiaeth a gwasanaethau lechyd Meddwl arbenigol y tu allan i'r cwmplas.
- Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd ym mis Mai 2025 i adolygu'r gwasanaeth a datblygu ateb cynaliadwy yn y dyfodol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal rhaglen o ddigwyddiadau ymgysylltu cyn-ymgyngori i ddeall profiadau lleol a chefnogi'r gwaith o ddatblygu opsiynau ymarferol.
- Rhwng mis Medi 2025 a mis Mehefin 2026, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned "ystafell gytbwys" i gynhyrchu a llunio rhestr fer o opsiynau i fod yn sail i ymgynghoriad gan nodi bod Ystafell Gytbwys 2 wedi cael ei hailadrodd ym mis Mawrth 2026 ar ôl canfod nad oedd y sgorio gwreiddiol yn gytbwys.
- Ategwyd proses yr ystafell gytbwys hefyd gan gyfres helaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan gynnwys mynd i amrywiaeth eang o sioeau, grwpiau a fforymau cymunedol.
- Nododd yr ymgysylltu cyn-ymgyngori gefnogaeth gref ymysg y cyhoedd i gadw a gwella gwasanaethau gofal iechyd lleol yn **Nhywyn**, gan bwysleisio pwysigrwydd darparu gofal yn nes at adref i boblogaeth wledig sy'n heneiddio.
- Roedd yr adborth yn dangos ymlyniad cryf at ddarpariaeth leol i gleifion mewnol gan hefyd nodi cefnogaeth i ehangu gwasanaethau cymunedol, cleifion allanol, adsefydlu ac ataliol sy'n cael eu darparu'n lleol.
- Er i ddadansoddiad manwl gael ei gynnal o'r opsiynau a gynhyrchwyd, nodwyd nad oedd unrhyw opsiwn a ffafir yn cael ei argymhell ac nad oes penderfyniad terfynol yn cael ei geisio ar hyn o bryd.
- Os cefnogir yr ymgynghoriad arfaethedig gan y Bwrdd, y nod yw profi'r dystiolaeth, y tybiaethau a'r asesiadau effaith a gyflwynir yn yr achos dros newid gan nodi bod y cyfnod ymgynghori yn caniatáu i ymatebion, tystiolaeth ychwanegol a chynigion amgen rhesymol gael eu darparu a fydd yn cael eu hystyried yn ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol.
- Tynnir sylw yn yr adroddiad at y ddau opsiwn sy'n cael eu cynnig yn dilyn yr ymgysylltu cyn-ymgyngori gan nodi'r cafeat sydd wedi'i gynnwys gydag Opsiwn B.
- Yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu cyn-ymgyngori, mynegwyd cefnogaeth i opsiwn hybrid i gadw gwasanaethau cymunedol presennol ac ailagor gwelyau cleifion mewnol. Fodd bynnag, daeth yr arfarniad technegol i'r casgliad na ellid cefnogi'r opsiwn hwn oherwydd pryderon ynghylch y gallu i gyflawni a chynaliadwyedd, yn enwedig o ran staffio ac adnoddau.
- Os caiff ei gymeradwyo gan y Bwrdd, bydd deunyddiau ymgynghori'n cael eu paratoi yn ystod mis Awst 2026 cyn cyfnod ymgynghori 12 wythnos sy'n dechrau ym mis Medi 2026. Yna bydd cyfnod o ddadansoddi ar ôl yr ymgynghoriad yn ystod mis Rhagfyr 2026 ac ym mis Mawrth 2027 bydd y Bwrdd yn gwneud y penderfyniad terfynol.
- Diolchwyd i'r holl staff yn **Ysbyty Cymunedol Tywyn** am eu gwytnwch a'u hymrwymiad yn ystod cyfnod heriol, ac am barhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r gymuned leol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at lythyr a dderbyniwyd gan **Fforwm De Meirionnydd** sydd wedi ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd a'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd yn y **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2026.



Rhannodd Sue Irlam, Pennaeth Eiriolaeth Cwynion ac Ymgysylltu, Llais, yr adborth a gasglwyd gan Llais, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Mae'r ymgysylltu cyn-ymgyngori wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhwysol iawn ac mae Llais yn croesawu'r newid yn y dull gweithredu a'r cyfleoedd a ddarperir ar gyfer cymryd rhan yn yr ymarferion ymgysylltu.
- Pe bai'r cynnig yn symud ymlaen i ymgynghoriad llawn, anogwyd pobl leol i ymgysylltu'n adeiladol a defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael i rannu eu barn gan nodi y bydd Llais yn darparu llais annibynnol i gefnogi a chynrychioli adborth y cyhoedd.
- Mae'r dogfennau a ddarperir yn gynhwysfawr ac yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod y Bwrdd Iechyd yn ymateb i gwestiynau'n brydlon ac yn llawn, gyda Chwestiynau Cyffredin yn cael eu rhannu mor eang â phosibl, gan gynnwys mewn fformatau hygyrch i'r rheini sydd heb fynediad digidol.
- Mae Llais wedi ymrwmo i fynd i gynifer o ddigwyddiadau ymgynghori â phosibl i gefnogi'r cyhoedd, darparu goruchwyliaeth annibynnol a helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn briodol.

Croesawodd y Cadeirydd y cyfraniad a'r gefnogaeth a ddarparwyd gan Llais gan nodi bod y Bwrdd yn cydnabod yr heriau parhaus i'r gweithlu o ran recriwtio, staffio a chynnal gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan dynnu sylw at yr angen am drafodaeth ehangach gydag Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid ar y model ar gyfer gwasanaethau gwledig yn y dyfodol ar draws pob sector.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Holli a yw rhaglen **Cymunedol o'r Cychwyn** wedi cael ei hystyried yn y cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Cadarnhawyd bod angen cydbwyso gofynion gwasanaeth ar unwaith â chynllunio tymor hwy, gan adeiladu ar asedau cymunedol sy'n seiliedig ar leoedd i gefnogi iechyd a llesiant, gan gynnwys gofal yn nes at adref a darpariaeth gofal diwedd oes mewn cymunedau.
- Cydnabod bod angen adolygu darpariaeth gwasanaethau gwledig ar draws pob cymuned gan nodi bod angen trafodaeth ehangach gyda Byrddau Iechyd cyfagos, Awdurdodau Lleol a phartneriaid ar y model ar gyfer gwasanaethau gwledig yn y dyfodol i gefnogi anghenion gwasanaeth. Cytunwyd bod hwn yn faes pwysig y mae angen ei ystyried ymhellach yng nghyd-destun darparu gwasanaethau a modelau gofal teg yn y dyfodol.
- Cydnabod yr heriau sy'n wynebu gofal iechyd gwledig a'r ffaith bod angen cryfhau gwasanaethau yn y gymuned, gan gadarnhau y bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen am **Gynllun Gofal Iechyd Gwledig** ar gyfer pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru.
- Diolch i Llais a Sue Irlam am eu cyfraniad, gan nodi pwysigrwydd deialog agored gyda chymunedau lleol.
- Nodi nad yw ystyried yr opsiynau yn benderfyniad terfynol, ac y bydd yr holl dystiolaeth a gofynion statudol yn cael eu hystyried yn ofalus cyn i ganlyniad yr ymgynghoriad ddychwelyd i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2027.
- Cymeradwyo'r opsiynau arfaethedig ar gyfer bwrw ymlaen â nhw mewn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYMERADWYO'R** opsiynau arfaethedig ar gyfer bwrw ymlaen â nhw mewn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol gan nodi nad oes penderfyniad terfynol yn cael ei geisio ar hyn o bryd ac mai bwriad yr ymgynghoriad yw profi'r dystiolaeth, y tybiaethau, yr asesiadau effaith a'r casgliadau a gyflwynir yn y ddogfen hon.



- **CYMERADWYO** dechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus a bod canlyniad yr ymgynghoriad wedi ei gynllunio ar gyfer mis Mawrth 2027 fel y disgrifir yn yr amserlen a nodir yn yr adroddiad.

26.142 Adroddiad Iechyd Meddwl

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r bwrdd a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed o ran parhau i wella'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws y Bwrdd Iechyd drwy'r **Grŵp Goruchwylio a Chyflawni Iechyd Meddwl**.
- Mae'r adroddiad yn rhan o drefniadau adrodd rheolaidd a nodwyd bod y Bwrdd wedi derbyn yr adroddiad blaenorol ym mis Ionawr 2026.
- Roedd adroddiadau **Adolygiad Gwasanaethau Gwahoddedig Coleg Brenhinol y Seiciatryddion** a'r **Grŵp Cyngori Arbenigol** yn sail i flaenoriaethau **Grŵp Goruchwylio a Datblygu Iechyd Meddwl** y Bwrdd Iechyd, a grëwyd i ddarparu goruchwyliaeth effeithiol a sbarduno'r ddarpariaeth, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr.
- Mae'r **Grŵp Goruchwylio a Datblygu Iechyd Meddwl** wedi datblygu cynllun gwaith clir sy'n seiliedig ar ei gwmpas a'i gylch gwaith, gyda phum ffrwd waith a nifer o elfennau allweddol i'w cyflawni. Mae Cyfarwyddwr Gweithredol wedi'i neilltuo i bob un o'r ffrydiau gwaith ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.
- Er bod gwaith sylweddol yn parhau mewn perthynas â gwella perfformiad a chanlyniadau cynaliadwy, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu fframwaith clir ar gyfer goruchwylio, atebolrwydd a gwella yn ogystal â datblygu **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Meddwl**.
- Mae'r fethodoleg ar gyfer cynllunio'r **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Meddwl** wedi cynnwys ymgynghori'n helaeth â defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr gofawyr ledled Gogledd Cymru mewn cyfres o ddigwyddiadau dros gyfnod o 18 mis ac mae'r prif themâu a nodwyd wedi'u cofnodi.
- Wrth symud ymlaen, bydd y **Fframwaith Canlyniadau Iechyd Meddwl** yn cael ei brofi a'i fireinio i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r safbwyntiau a rannwyd a bydd data ychwanegol yn cael ei gasglu o safbwynt y claf a'r timau.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad wedi cadw llygad barcud ar y gwaith hwn, gan gynnwys ystyried perfformiad a gweithgarwch yn y gymuned, a chroesawu'r adroddiadau cynnydd manwl a ddarparwyd.
- Cydnabod bod angen gwella mynediad at gymorth siarad a gwrando cynnar, cydnabod y cynnydd sylweddol a wnaed o ran lleihau lleoliadau y tu allan i'r ardal, a phwysleisio pwysigrwydd cryfhau profiad cleifion drwy roi mwy o lais i unigolion yn eu gofal.
- Cydnabod pwysigrwydd iechyd corfforol mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl a chroesawu'r cynnydd a wnaed hyd yma gan nodi y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn.
- Cyfeirio at anghenion datblygu mewn perthynas ag Ystadau a sut mae risgiau pwyntiau clymu yn cael eu rheoli. Cadarnhawyd bod gwaith blynyddol yn parhau i reoli risgiau pwyntiau clymu drwy asesiad clinigol a'r rhaglen pwyntiau clymu bresennol. Nodwyd hefyd y bydd diweddariad i'r **Strategaeth Ystadau** yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau nesaf ym mis Medi 2026.
- Croesawu'r cynnydd a wnaed ac awgrymu bod adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys cynlluniau mwy penodol a mesuradwy, gan gynnwys cerrig milltir ac amserlenni clir ar gyfer meysydd fel risgiau pwyntiau clymu a datblygu model gwasanaeth dementia.



- Cydnabod y gefnogaeth ddwys a ddarperir gan staff o fewn y ffrwd waith diwylliant, arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol gan awgrymu bod angen cefnogi staff yn y maes gwaith hwn a ddarparu cynllun cyfannol a mesuradwy.
- Datgan bod yr adroddiad yn rhoi sicrwydd ynghylch y cyfeiriad yn y dyfodol, gan nodi bod angen i'r **Grŵp Goruchwyllo a Chyflawni Iechyd Meddwl** gryfhau cydbwysedd cynlluniau, cerrig milltir ac effaith fesuradwy, gan barhau i ganolbwyntio ar argymhellion **Coleg Brenhinol y Seiciatryddion** a'r **Grŵp Cynghori Arbenigol**, gan adrodd i'r Bwrdd bob chwe mis i gynnal goruchwyliaeth.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** cynnydd a wnaed drwy'r Grŵp Goruchwyllo a Chyflawni Iechyd Meddwl ers y diweddariad blaenorol i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2026. Mae hyn yn cynnwys sefydlu un rhaglen wella strwythuredig ar draws y pum ffrwd waith strategol.
- **NODI'R** gostyngiad sylweddol mewn lleoliadau aciwt y tu allan i'r ardal, cydymffurfiaeth barhaus â safonau perfformiad y Mesur Iechyd Meddwl, canlyniad caffael llwyddiannus ar gyfer Cofnod Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl a'r cynnydd a wnaed o ran cryfhau sefydlogrwydd y gweithlu, ansawdd y gwasanaeth a phrofiad cleifion.
- **YSTYRIED AC ARDYSTIO'R** Fframwaith Canlyniadau Iechyd Meddwl drafft fel sylfaen ar gyfer cryfhau adroddiadau perfformiad, ansawdd a sicrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu.
- **NODI'R** adroddiad a chymryd sicrwydd rhesymol o'r trefniadau llywodraethiant, rheoli ansawdd a goruchwyllo a sefydlwyd drwy'r Grŵp Goruchwyllo a Chyflawni Iechyd Meddwl.

26.143 Atebion Digidol Iechyd Cymunedol Pob Oed - Achos Busnes Amlinellol

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Prif Weithredwr sylw at y canlynol:

- Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â system **Cofnodion Gofal Iechyd Electronig**.
- Mae'r system lawn wedi'i rhewi ar hyn o bryd wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei **Strategaeth Ddigidol**, ond mae cynnydd yn cael ei wneud gyda'r system **Cofnodion Gofal Iechyd Electronig Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu**.
- Mae cofnodion digidol yn ffactor pwysig sy'n galluogi cefnogi gwelliannau i ddarparu gofal mewn gwasanaethau cymunedol.
- Fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Cysylltu Gofal, mae Gofal Iechyd Digidol Cymru wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi'r gwaith o gaffael a gweithredu System Ddigidol Iechyd Cymunedol mewn Byrddau Iechyd ledled Cymru.
- Bydd cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn galluogi'r tendr i symud ymlaen, gydag Achos Busnes Llawn i ddilyn cyn dyfarnu unrhyw gontract. Mae'r dull arfaethedig hwn wedi cael ei adolygu a'i gefnogi gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi nad yw'r Achos Busnes Amlinellol yn nodi arbedion rhyddhau arian parod ond mae'n nodi uchelgais i dalu'r costau refeniw, sy'n gofyn am ddigon o hyblygrwydd ariannol a darlun cliriach o'r manteision disgwylidig.
- Holi pa Bwyllgor ddylai oruchwyllo'r maes gwaith hwn. Cadarnhawyd bod y cyfrifoldeb yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau ar hyn o bryd, gan nodi bod angen egluro'r cydbwysedd a'r oruchwyliaeth sy'n ofynnol gan y Pwyllgorau. Cytunodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol i weithredu ar hyn.



- Cydnabod mai'r Prif Weithredwr yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer y maes gwaith hwn a Chadeirydd **Bwrdd y Rhaglen Cofnodion Gofal Iechyd Electronig** hefyd, gan nodi'r angen i wneud penderfyniadau gan ystyried y dirwedd ehangach o ran **Cofnodion Gofal Iechyd Electronig**.
- Tynnu sylw at y ffaith bod angen ateb cyfredol i gefnogi cynnydd o ran trawsnewid, gan gynnwys rhaglen **Cymunedol o'r Cychwyn** ac integreiddio â rhaglenni presennol.

Cam Gweithredu:

- **26.143.1** Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol i egluro'r oruchwyliaeth sy'n ofynnol gan y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau mewn perthynas â'r gwaith ar ddatrysiadau digidol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **CYMERADWYO'R** Achos Busnes Amlinellol yn ei gyd-destun presennol, gan nodi y bydd Achos Busnes Llawn sy'n rheolaidd fforddiadwy yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n llawn cyn dyfarnu a gweithredu'r contract.
- **CYMERADWYO'R** ymarfer tendro i nodi'r ffordd orau o fwrw ymlaen o ran caffael, gan gadw'r opsiwn ar gyfer naill ai caffael dan arweiniad lleol neu gaffael cydweithredol gyda Byrddau Iechyd eraill, gan nodi y bydd unrhyw contract dilynol a ddyfernir yn dibynnu ar Achos Busnes Llawn sy'n rheolaidd fforddiadwy.
- **CEFNOGI'R** defnydd o adnoddau presennol y Bwrdd Iechyd i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn, gyda'r cytundeb y bydd yr Achos Busnes Llawn a gyflwynir i'w gymeradwyo, yn dilyn tendr caffael ffurfiol ar gyfer y system, yn dangos ac yn cynnig fforddiadwyedd parhaus.

26.144 Cynnig Cynaliadwyedd Practis Meddygon Teulu Gogledd Sir Ddinbych

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- Sefydlwyd practis **Healthy Prestatyn Iach** yn 2016 ar ôl i dri chontract meddygon teulu ddychwelyd ac roedd yn gwasanaethu tua 23,000 o gleifion i ddechrau.
- Mae nifer y cleifion wedi gostwng mwy nag 20% ond mae ffiniau'r practis a'r model gweithredu wedi aros yr un fath.
- Mae practisau annibynnol cyfagos wedi mynegi bod angen cynyddu eu rhestrau cleifion i wella cynaliadwyedd, cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu a chryfhau'r gwaith o gynllunio ar gyfer olyniaeth partneriaethau.
- Awgrymir trosglwyddo tua 5,000 o gleifion sy'n byw y tu allan i'r ffin amlinellol newydd i feddygfeydd cyfagos sydd wedi gwirfoddoli i gynyddu capasiti.
- Ni fyddai unrhyw glaf yn cael ei adael heb bractis meddyg teulu a byddai cleifion yn cael eu dyrannu'n awtomatig heb fod angen ailgofrestru.
- Cydnabuwyd bod angen ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt ac mae cyfnod o wyth wythnos ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhedeg rhwng 4 Mehefin a 31 Gorffennaf 2026 yn ogystal â nifer o gyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau briffio i randdeiliaid a sesiynau ymgysylltu.
- Mae dadansoddiad cychwynnol yn awgrymu y byddai'r rhan fwyaf o gleifion yn trosglwyddo i bractis sydd naill ai'n nes at eu cartref, neu ddim yn bellach oddi wrtho, na'u practis presennol, gan nodi y gallai nifer bach o gleifion wynebu amseroedd teithio hirach.
- Byddai newid ffiniau yn gofyn am adolygiad o fodelau gweithlu a gwasanaeth a bydd hyn yn cael sylw fel rhan o'r ffrwd waith.
- Gallai peidio â gwneud newidiadau gyfyngu ar gynaliadwyedd practisau cyfagos a chyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu.
- Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda phreswylwyr ac mae disgwyl dod i benderfyniad erbyn diwedd mis Awst 2026 gyda'r newid arfaethedig i'r ffin yn dod i rym o 1 Ionawr 2027 ymlaen.



Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymeradwyaeth derfynol y Bwrdd. Cadarnhawyd bod y newid i'r gwasanaeth yn fater a gedwir yn ôl ar gyfer y Bwrdd. Fodd bynnag, cytunwyd i egluro hyn y tu allan i'r cyfarfod.
- Holi a oes disgwyl i unrhyw swyddi gael eu heffeithio'n andwyol. Cadarnhawyd y gellid gofyn i nifer bach o staff weithio o wahanol feddygfeydd neu ganghennau a drosglwyddwyd i bractisau eraill.
- Cydnabod bod angen ailgydbwysu a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** cynigion i wella Cynaliadwyedd Meddygon Teulu yng Nghlwystr Gogledd Sir Ddinbych.
- **NODI** cynnydd y broses ymgysylltu a'r camau gweithredu sy'n cael eu hystyried yn dilyn adborth.
- **NODI'R** amserlen a'r broses ar gyfer y cynigion i newid y ffiniau.

PERFFORMIAD INTEGREDIG

26.145 Gofal wedi'i Gynllunio

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Prif Swyddog a'r Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- Bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â **Gofal wedi'i Gynllunio**.
- Yn ddiweddar, ymwelodd Gweinidog y Cabinet dros lechyd a Gofal â **Chanolfan Lawfeddygol Gogledd Cymru** yn Llandudno, a fydd yn darparu gwelliannau o ran darparu gwasanaethau cynaliadwy.
- Mae un **Cynllun Adfer Gofal wedi'i Gynllunio** newydd yn cael ei ddatblygu i ddod â'r gwaith o adfer, trawsnewid a chyflawni gwelliannau i wasanaethau bregus at ei gilydd mewn un fframwaith integredig sy'n seiliedig ar arbenigedd, i sicrhau newid cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Mae gwelliannau sylweddol a gyflawnwyd yn ystod 2025/26 wedi cael eu cynnal ac ar ddiwedd mis Mehefin 2026 roedd 2,167 o gleifion yn aros dros 104 o wythnosau gan nodi bod y sefyllfa hon yn dal yn weddol sefydlog ac yn gadarnhaol o'i chymharu â Byrddau Iechyd eraill.
- Bu newid sylweddol o ran gweithio mewn tîm ar draws y rhanbarth fesul arbenigedd yn hytrach na fesul safle, gan nodi y bydd adolygiadau arbenigol yn cael eu cynnal i sicrhau nad yw cleifion dan anfantais.
- Mae defnyddio theatrau yn parhau i fod yn her allweddol gan gydnabod bod angen capasiti ychwanegol i gefnogi adolygiad manwl a galluogi clinigwyr i sicrhau bod rhestrau theatr yn cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Bu gwelliannau parhaus mewn diagnosteg gyda pherfformiad cyfredol yn 66% gyda tharged o 75% yn nodi bod timau'n gweithio'n fwy effeithiol ac yn canolbwyntio ar adolygu galw a chapasiti.
- Mae cyllid wedi bod ar gael ledled Cymru, a gofynnwyd i Fyrddau Iechyd nodi cynlluniau ar gyfer cyflawni yn ystod y flwyddyn a chynaliadwyedd hirdymor. Wrth i ragor o gyllid gael ei sicrhau, bydd y ffocws ar gyflawni gymaint â phosibl yn fewnol, gan adeiladu ar welliannau i ofal wedi'i gynllunio a sicrhau capasiti digonol gan ddarparwyr gofal.



- Diolchwyd i'r holl dimau sy'n gweithio'n eithriadol o galed gyda'i gilydd i wneud gwelliannau yn y maes hwn.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Awgrymu y dylai adroddiadau perfformiad dynnu sylw'n glir at y cynnydd a wnaed, y sefyllfa bresennol a'r llwybr yn y dyfodol, wedi'u hategu gan naratif sy'n helpu'r cyhoedd i ddeall effaith y gwelliannau.
- Nodi pwysigrwydd cynnal y defnydd o theatrau gan gynnwys defnydd effeithiol o'r capasiti ychwanegol yng **Nghanolfan Lawfeddygol Gogledd Cymru**, Llandudno i gefnogi gwell cynhyrchiant, ochr yn ochr ag eglurder ynghylch y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella cynhyrchiant theatrau.
- Tynnu sylw at yr angen i rannu rhagor o wybodaeth â'r cyhoedd ynghylch perfformiad. Cadarnhawyd bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd, a bod gwaith yn cael ei wneud i rannu cynnydd ochr yn ochr â barn gytbwys o'r sefyllfa genedlaethol a'r gwelliannau pellach sydd eu hangen.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **TRAFOD** a **NODI'R** sefyllfa bresennol ar gyfer darparu perfformiad gofal wedi'i gynllunio yn Chwarter 1 a chyflawni'r Rhaglen Newid Gofal wedi'i Gynllunio, gan gynnwys cyfleoedd pellach.

26.146 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a **NODODD** y cynnwys.

26.147 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a thynnodd y Prif Swyddog Gweithredu sylw at y canlynol:

- **Gofal Brys a Gofal Argyfwng** yw un o risgiau mwyaf sylweddol y Bwrdd Iechyd o hyd, sy'n effeithio ar brofiad cleifion a staff.
- Mae rhai meysydd i'w gwella yn cael eu cynnal, ond nid yw hyn yn digwydd ar draws y system gyfan.
- Mae angen adolygu dewisiadau eraill yn lle mynd i **Adrannau Achosion Brys** fel rhan o'r **Rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn**.
- Mae'r ffocws yn parhau i fod ar gyflawni'r disgwyliadau a osodwyd ynghylch trosglwyddo cleifion o ambiwlansys a lleihau amseroedd aros 12 awr erbyn diwedd mis Medi 2026 gan nodi bod perfformiad drws ffrynt yn gwella, ond bod llif drwy ysbytai ac allan ohonynt yn parhau i fod yn faes heriol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â diwylliant a gweithio mewn tîm, gyda sesiwn ddysgu wedi'i chynllunio i fyfyrion ar y pwysau diweddar a chefnogi cydweithio agosach ar draws y tri safle.
- Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i wella'r broses ryddhau a lleihau hyd yr arhosiad, gan gynnwys cydweithio ag Awdurdodau Lleol ynghylch canolfannau rhyddhau.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at barodrwydd i dderbyn risg mewn perthynas â rhyddhau cleifion gan gydnabod bod angen dull gweithredu cymesur a chydbwysu'r risgiau o gadw cleifion yn yr ysbyty â chefnogi'r broses o ryddhau cleifion yn amserol a phriodol.
- Cydnabod y cymorth sydd ei angen i ryddhau gwelyau drwy weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a phartneriaid i wella llif cleifion ar draws lleoliadau aciwt a chymunedol.



- Nodi bod y cyfarfodydd **Gofal Brys a Gofal Argyfwng** wythnosol yn cefnogi gwell dealltwriaeth o'r data a chamau rheoli cliriach gyda'r angen i barhau i wreiddio disgyblaeth ddyddiol gyson i sicrhau bod timau'n hyderus ac yn gallu cynnal gwelliant.
- Cadarnhau bod cynnydd yn cael ei wneud gan gydnabod hefyd bod angen gwneud rhagor o waith.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** perfformiad cyfredol.
- **CEFNOGI'R** angen i weithredu'n gyflymach ar draws y system ar lif a rhyddhau cleifion.
- **CADARNHAU** bod angen cryfhau atebolrwydd gweithredol ar lefel safle a system.
- **CYTUNO** i gyflawni gwelliannau mesuradwy dros y 90 diwrnod nesaf.

26.148 Adroddiad Ansawdd Integredig

Roedd y Bwrdd wedi cael yr adroddiad, a thynnodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol sylw at y canlynol:

- Mae Digwyddiadau Byth yn parhau i gynyddu - gellir diffinio nifer ohonynt fel rhai y gellir eu hatal sy'n atgyfnerthu'r angen i ymchwilio i ffactorau cyfrannol, archwilio cydymffurfiaeth a chryfhau dysgu.
- Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** wedi cael eu diwygio ac mae hyn wedi'i gofnodi yn yr adroddiad.
- Mae **Adolygiad Arolygiaeth Iechyd Cymru** o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd wedi dynodi bod angen gwella'r safle. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y camau gweithredu sydd eu hangen ar unwaith ac mae safleoedd Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd yn cwblhau hunanasesiad yn erbyn y camau gweithredu hyn.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cyfeirio at y diwygiad i ganllawiau'r **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** gan nodi bod angen rhannu rhagor o wybodaeth i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofynion statudol. Cadarnhawyd y bydd y Pwyllgor Gwaith yn adolygu hyn yn fanylach o ran glynu wrth ddeddfwriaeth a gweithredu ymarferol, gan gytuno i ddosbarthu nodyn briffio y tu allan i'r cyfarfod.
- Awgrymu bod adroddiadau yn y dyfodol yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn a ddysgwyd o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau byth, gan gynnwys sut mae hyn yn cael ei wreiddio i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto a lleihau nifer y digwyddiadau dros amser. Cadarnhawyd y gall y gwasanaeth adolygu hyn yn fanylach ac y gellir darparu gwybodaeth ychwanegol yn y dyfodol.
- Tynnu sylw at yr adroddiad drafft o **Adolygiad Arolygiaeth Iechyd Cymru** o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd a oedd yn adrodd ar faterion diwylliannol parhaus gan nodi'r angen am sicrwydd bod argymhellion blaenorol wedi cael eu gwreiddio'n llawn. Cadarnhau bod grŵp wedi cael ei sefydlu i gryfhau trefniadau goruchwyllo a chefnogi cysondeb ar draws y sefydliad.
- Cadarnhau bod gwaith yn cael ei wneud i fireinio'r Adroddiad Ansawdd Integredig a gwella prosesau adrodd.

Cam Gweithredu:

- **26.148.1** Y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio i ddarparu nodyn briffio y tu allan i'r cyfarfod ar y gofynion deddfwriaethol a'r cynllun gweithredu ar gyfer diwygio canllawiau'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.



Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Ansawdd Integredig a'r cynnydd a wneir ar draws y meysydd ansawdd.
- **CEFNOGI'R** ffocws parhaus ar sicrhau gwelliannau yn y meysydd hynny.
- **CYMERADWYO'R** ffocws parhaus ar leihau risgiau rheoleiddiol a diogelwch cleifion, gan gynnwys cyflawni cynlluniau gwella Arolygiaeth Iechyd Cymru, cwblhau camau gweithredu hwyr a chryfhau trefniadau dysgu sefydliadol.
- **CYTUNO** bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn goruchwyllo'r meysydd eithrio allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn uwchgyfeirio i'r Bwrdd lle nad yw llwybrau gwella'n cael eu cyflawni.

26.149 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd - Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a **NODODD** y cynnwys.

26.150 Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Mae'r adroddiad yn parhau i gael ei ddatblygu a bydd yn cyd-fynd â threfniadau adrodd y Pwyllgor Gweithredol a'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth.
- Mae angen cyfarfodydd pellach gydag aelodau allweddol o'r Pwyllgor i adolygu a mireinio'r dull gweithredu.
- Mae strwythur yr adroddiad yn cynnwys adran ragarweiniol, Crynodeb Gweithredol ac adroddiadau ategol unigol sy'n nodi bod y siartiau data wedi cael eu cryfhau i ddarparu rhagolwg cliriach a'u cysoni â'r **Cynllun Tymor Canolig Integredig**, y meini prawf isgyfeirio a gofynion y Gweinidogion.
- Wrth symud ymlaen, bydd llai o ddyblygu gwybodaeth wrth i'r manylion ddatblygu'n adroddiad goruchwyllo sylweddol a chynhwysfawr, gan ddod â gwybodaeth allweddol o adroddiadau presennol at ei gilydd mewn un adroddiad cyfunol.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r symudiad tuag at adroddiad integredig a gofyn i fersiynau yn y dyfodol ddangos yn glir y camau a gymerwyd, yr effaith ganlyniadol, data hanesyddol a llwybrau gwella, gan gynnwys diweddariadau statws a symudiad dros amser.
- Cyfeirio at y gyfradd swyddi gwag a holi a oedd hwn yn faes sy'n peri pryder. Cadarnhau bod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu cyllidebau a sicrhau bod y llinellau sylfaen yn gywir. Mae swyddi gwag yn cael eu cadw i gefnogi myfyrwyr sydd newydd gymhwyso a **Rhaglen Sylfeini'r Dyfodol**, a disgwylir i'r sefyllfa wella dros y misoedd nesaf wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.
- Tynnu sylw at y perfformiad presennol o ran **Canser** a holi a oes modd darparu unrhyw sicrwydd yn y maes hwn. Cadarnhawyd bod **Cynllun Adfer Canser** wedi cael ei ddatblygu, gyda'r perfformiad ar hyn o bryd 90% yn erbyn y cynllun, er bod cynnal gwelliannau yn dal yn hanfodol o ystyried nifer sylweddol y cleifion.
- Cwestiynu'r cynllun i fynd i'r afael ag oedi hirsefydlog mewn asesiadau **Niwroddatblygiadol** ar gyfer plant. Cadarnhawyd y byddai cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu gan nodi y byddai dadansoddi data'n well a darparu asesiadau etifeddol yn sail i adroddiadau a gwelliannau i wasanaethau yn y dyfodol.



Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

26.151 Adroddiad Cyllid

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at y canlynol:

- Daeth y **Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol** a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2026 ag adolygiad 2025-2026 o gyfrifon i ben gyda barn ddiamod a diolchwyd i'r tîm am eu gwaith yn y maes hwn.
- Mae'r sefyllfa hyd yma yn adrodd diffyg o £17.1m yn erbyn y diffyg arfaethedig presennol o £46m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gan nodi'r amcan o gyflawni'r ddyletswydd statudol allweddol o fantoli'r gyllideb.
- Mae angen cyflawni targed arbedion estynedig o £63m i gyflwyno cynllun cytbwys sy'n nodi y byddai cyflawni'r cynllun yn arwain at liniaru £26m o gostau Cronfa Risg Cymru.
- Mae ffocws parhaus yn y maes hwn gyda thimau'n adolygu cynlluniau arbedion gwyrdd a chynaliadwyedd gan nodi y bydd cam nesaf y broses yn gofyn i'r Bwrdd wneud penderfyniadau i gau'r bwch sy'n weddill. Os cyrhaeddir y sefyllfa honno, y cynllun fydd ailbroffilio gan gynnal rheolaethau cost priodol ar yr un pryd.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cwestiynu cyfradd cyflawni hanesyddol cynlluniau arbedion coch, a nodwyd y byddai mynegiant cynnar a chymeradwyo amserol yn allweddol i gynnal cyfradd trosi uchel.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr adroddiad.

LLYWODRAETHIANT, RISG A SICRWYDD

26.152 Adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd: Y Pwyllgor Archwilio

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiad a **NODODD** y cynnwys.

26.153 Y Gofrestr Risg Gorfforaethol

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Yr adolygiad parhaus o risgiau corfforaethol a threfniadau sicrwydd y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gwaith i gryfhau sut mae'r Pwyllgor Gweithredol yn craffu ar Risgiau Corfforaethol.
- Datblygu fformat adrodd diwygiedig i roi mwy o ffocws ar faterion allweddol, symud risg, camau lliniaru a sicrwydd.
- Bod un Risg Gorfforaethol sy'n ymwneud â goruchwyliaeth reoleiddiol wedi lleihau a'i bod bellach o fewn lefel parodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Nodi bod naw Risg Gorfforaethol yn parhau i fod yn uwch na pharodrwydd y Bwrdd Iechyd i dderbyn risg.
- Pwysleisio pwysigrwydd cynlluniau lliniaru clir, amserlenni realistig a lleihau risgiau'n fesuradwy ar gyfer risgiau sy'n parhau i fod yn uwch na'r lefel parodrwydd i dderbyn risg.



- Croesawu'r gwaith parhaus o oruchwylio Risgiau Corfforaethol yn Weithredol ond pwysleisiwyd bod angen mwy o dystiolaeth o effeithiolrwydd camau lliniaru a chynnydd o ran lleihau amlygiad i risg.
- Trafod datblygu dull o adrodd ar risg sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau a gofyn am sicrwydd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn darparu llwybrau lleihau risg cliriach ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng risg, sicrwydd a pherfformiad y sefydliad.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI'R** Gofrestr Risgiau Corfforaethol gyfredol a'r sefyllfa sicrwydd.
- **NODI** bod naw Risg Gorfforaethol yn parhau i fod yn uwch na lefel parodrwydd y Bwrdd lechyd i dderbyn risg.
- **CYMERADWYO'R** gwaith parhaus o adolygu a chraffu'n Weithredol ar Risgiau Corfforaethol.
- **MYNNU** bod Arweinwyr Gweithredol yn sefydlu llwybrau lleihau risg clir ar gyfer pob risg sy'n parhau i fod yn uwch na lefel parodrwydd y Bwrdd lechyd i dderbyn risg.
- **CEFNOGI** datblygiad parhaus trefniadau adrodd ar risg a sicrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

26.154 Ymateb i Ymchwiliad Covid-19 y DU

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Yr ystyriaeth a roddodd y Bwrdd lechyd i ganfyddiadau Modiwlau 2, 3 a 4 Ymchwiliad Covid-19 y DU a'r asesiad o'u perthnasedd i wasanaethau lleol.
- Bod llawer o'r themâu a nodwyd yn adlewyrchu heriau cenedlaethol ehangach a heriau ar lefel system yn hytrach na materion sy'n unigryw i'r Bwrdd lechyd.
- Cynlluniau i sefydlu Grŵp Dysgu a Darganfod i ystyried y canfyddiadau'n fanylach, nodi unrhyw wersi a chatau gweithredu gofynnol, a goruchwylio ymateb y Bwrdd lechyd, gyda chyfarfodydd yn dechrau ym mis Medi 2026.
- Y themâu allweddol sy'n deillio o ganfyddiadau'r Ymchwiliad a phwysigrwydd sicrhau bod adroddiadau allanol yn y dyfodol yn cael eu hadolygu'n systematig er mwyn nodi'r goblygiadau i'r sefydliad.
- Y gwaith sy'n mynd rhagddo i gryfhau parodrwydd sefydliadol a sicrhau bod modd defnyddio'r gwersi a nodwyd ar gyfer digwyddiadau iechyd y cyhoedd yn y dyfodol a heriau mawr i'r system.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r dull rhagweithiol sy'n cael ei ddefnyddio i adolygu canfyddiadau'r Ymchwiliad ac ystyried eu perthnasedd i wasanaethau lleol.
- Cydnabod pwysigrwydd cofnodi'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau ac ymchwiliadau cenedlaethol i gefnogi gwelliant parhaus.
- Pwysleisio'r angen i sicrhau bod y gwersi a nodwyd yn cael eu troi'n gamau gweithredu ymarferol a'u gwreiddio yn nhrefniadau'r sefydliad.
- Cefnogi sefydlu'r Grŵp Dysgu a Darganfod i oruchwylio'r gwaith hwn a rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** canfyddiadau Adroddiadau Modiwlau 2, 3 a 4 Ymchwiliad Covid-19 y DU.
- **CYDNABOD** y gwahaniaeth rhwng cyfyngiadau ar draws y system ac ymateb y sefydliad.
- **NODI'R** cryfderau a ddangoswyd gan y Bwrdd lechyd.



- **CYMERADWYO'R** dull dysgu sefydliadol dan arweiniad Nyrsys Gweithredol.
- **CEFNOGI'R** trefniadau llywodraethu a'r camau nesaf.

26.155 Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Bwrdd, a thynnodd y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol sylw at y canlynol:

- Roedd y Polisi Rheoli Polisi Corfforaethol, a ddarparwyd yn y papurau ategol i'w cadarnhau, wedi bod yn destun ymgynghoriad ac adolygiad ar draws y Bwrdd Iechyd drwy'r prosesau llywodraethiant priodol.
- Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cryfhau fframwaith polisi'r Bwrdd Iechyd, roedd y broses rheoli polisi yn dal yn gymhleth ac roedd angen gwneud rhagor o waith i symleiddio'r trefniadau a gwella defnyddioldeb.
- Roedd cofnod trosglwyddo rhwng Pwyllgorau a'r Bwrdd wedi cael ei ddatblygu a byddai'n cael ei ymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol i ddarparu mwy o dryloywder ynghylch symud a goruchwyllo eitemau drwy'r strwythur llywodraethiant.
- Byddai'r Pwyllgor Archwilio yn cadw golwg ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.
- Datblygwyd protocol i sefydlu proses glir a chyson ar gyfer rheoli cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd.
- Byddai cwestiynau ac ymatebion cyhoeddus yn y dyfodol yn cael eu hadrodd drwy'r adroddiad llywodraethiant i gefnogi tryloywder ac atebolrwydd.
- Byddai siart llif ategol sy'n nodi'r broses ar gyfer rheoli cwestiynau cyhoeddus yn cael ei dosbarthu maes o law.

Wrth drafod yr adroddiad, fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Croesawu'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud i gryfhau'r prosesau llywodraethiant a threfniadau adrodd.
- Cefnogi cyflwyno'r cofnod trosglwyddo fel mecanwaith i wella tryloywder a gwelededd materion sy'n mynd rhagddynt rhwng y Pwyllgorau a'r Bwrdd.
- Cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod prosesau llywodraethiant yn parhau i fod yn gymesur, yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio.
- Croesawu datblygu protocol ffurfiol ar gyfer rheoli cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd a'r tryloywder ychwanegol y byddai hyn yn ei ddarparu.

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **NODI** cynnwys yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol.
- **NODI'R** penderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat a gosod y Sêl Gyffredin.
- **CADARNHAU** cymeradwyaethau o ran Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) yn unol â gofynion cenedlaethol.
- **NODI'R** sicrwydd a ddarperir drwy Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
- **CADARNHAU'R** Polisi Rheoli Polisi Corfforaethol gan nodi ei fod wedi cwblhau'r llwybr llywodraethiant, y broses ymgynghori a'r gymeradwyaeth ofynnol drwy'r Grŵp Goruchwyllo Polisi Gweithredol.
- **NODI'R** Weithdrefn Rheoli Polisi Corfforaethol sydd ynghlwm sy'n darparu'r fframwaith gweithredol sy'n cefnogi'r gwaith o weithredu'r Polisi ar draws y Bwrdd Iechyd.
- **CYMERADWYO'R** Protocol ar gyfer Rheoli Cwestiynau gan Aelodau o'r Cyhoedd.



26.156 Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cyngori:

Cyflwynwyd Adroddiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'r Grwpiau Cyngori canlynol i'r Bwrdd ac fe'u derbyniwyd:

- Pwyllgor Taliadau, Dyfed Edwards
- Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau, Clare Budden
- Pwyllgor Pobl a Diwylliant, Dyfed Jones
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Dyfed Jones
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, Peter Lewis
- Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, Emma Adamson
- Pwyllgor Gweithredol, Carol Shillabeer

Penderfynwyd bod y Bwrdd wedi:

- **DERBYN** yr adroddiadau a'u **NODI**.

MATERION I GLOI

26.157 Adolygu Effeithiolrwydd y Cyfarfod

Myfyriodd y Bwrdd ar y trafodaethau a gynhaliwyd a nododd y byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygu agenda cydsyniad ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

26.158 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:

Dydd Iau 24 Medi 2026 am 9.30am yn Venue Cymru, Llandudno.

26.159 Penderfyniad i Eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd

"Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn o ystyried natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, gan y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd, yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960."



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)
Cofnodion heb eu cadarnhau o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
a gynhaliwyd yn Gyhoeddus ar 29 Gorffennaf 2026
ym Marchnad y Frenhines, y Rhyl

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol	
Enw	Teitl
Dyfed Edwards	Cadeirydd
Tehmeena Ajmal	Prif Swyddog Gweithredu
Clare Budden	Aelod Annibynnol
Russell Caldicott	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Debbie Eyitayo	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Datblygu Sefydliadol
Urtha Felda	Aelod Annibynnol
Dyfed Jones	Aelod Annibynnol
Paul Lambert	Aelod Annibynnol
Chris Lothian-Field	Aelod Annibynnol
Jane Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
Billy Nichols	Aelod Annibynnol
Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd
Carol Shillabeer	Y Prif Weithredwr
Paolo Tardivel	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro – Trawsnewid a Chynllunio Strategol
Caroline Turner	Aelod Annibynnol
Rhian Watcyn Jones	Aelod Annibynnol
Gareth Williams	Is-gadeirydd
Yn Bresennol	
Laura Jones	Rheolwr Llywodraethiant Corfforaethol
Phylis Makurunje	Darpar Aelod o'r Bwrdd
Justine Parry	Cyfarwyddwr Dros Dro Digidol, Data a Thechnoleg
Philippa Peake-Jones	Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Helen Stevens-Jones	Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Pam Wenger	Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Gair o Groeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Aelodau'r Bwrdd, aelodau o'r cyhoedd, a'r rhai a oedd yn gwyllo ar-lein i'r cyfarfod. Nodwyd bod y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol yn rhoi cyfle i aelodau o'r cyhoedd ymgysylltu â chydweithwyr ac ymweld â'r stondinau sy'n arddangos y gwasanaethau iechyd a llesiant a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran Clara Day, Mike Larvin ac Angela Wood.

Datganiadau o Fuddiant yn Ymwneud â'r Agenda

Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.



Adroddiad Blynyddol 2025-2026: Adolygu'r Flwyddyn – Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr Adroddiad Blynyddol gan dynnu sylw at y canlynol:

- Pwysigrwydd cynnal digwyddiadau wrth galon cymunedau lleol i roi trosolwg o waith y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn flaenorol a dechrau'r flwyddyn gyfredol gan nodi bod yr Adroddiad Blynyddol yn rhoi cipolwg bras ar y gwaith pwysig hwn.
- Fel y Bwrdd Iechyd mwyaf yng Nghymru, croesawodd y Prif Weithredwr y cyfle i ddiolch i'r holl gydweithwyr ym mhob rhan o'r sefydliad am eu hymdrechion parhaus i ddarparu gwasanaethau bob dydd, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn gan gydnabod y gwaith rhyfeddol sy'n cael ei wneud gan staff.
- Diolchwyd i Aelodau'r Bwrdd, cydweithwyr Gweithredol, uwch arweinwyr a rheolwyr am eu cefnogaeth a'u harweinyddiaeth barhaus, gan gydnabod eu rôl flaenllaw yn ymateb i'r heriau a wynebwr gan y Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo o hyd i ddatblygu cymunedau lleol gan nodi y cytunwyd ar bedwar datganiad bwriad strategol eleni, gyda ffocws clir ar ofal sylfaenol a chymunedol a chreu system gofal iechyd fodern sy'n canolbwyntio ar bobl i ehangu'r ddarpariaeth gofal iechyd sydd ar gael ar draws cymunedau.
- Mae angen cryfhau'r berthynas waith gyda'r holl bartneriaid gan gynnwys y sector gwirfoddol, Heddlu Gogledd Cymru, y gwasanaethau Tân ac Achub, addysg bellach ac uwch a'r Gwasanaeth Carchardai.
- Mae nifer o heriau allweddol yn parhau gyda phryder sylweddol ymysg y cyhoedd ynghylch mynediad amserol at driniaeth ac amseroedd aros o fewn Gofal Brys a Gofal Argyfwng. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i sicrhau bod data ynghylch perfformiad yn y meysydd hyn yn cael ei rannu'n agored.
- Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â chynnal ystad fawr sy'n heneiddio, ar yr un pryd â sicrhau bod gwasanaethau'r GIG ar flaen y gad o ran technoleg newydd, gan gynnwys deallusrwydd artifisial.
- Mae rheoli cyllid y Bwrdd Iechyd yn effeithiol yn dal yn flaenoriaeth allweddol, gan gydnabod y cynnydd a wnaed a'r cyfrifoldeb sylweddol sy'n gysylltiedig â defnyddio £2.5bn o gyllid cyhoeddus yn briodol.
- Mae angen canolbwyntio'n barhaus hefyd ar gynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau.
- Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf i leihau rhestrau aros ac amseroedd aros, gan gyfeirio at y ffigurau a amlygwyd yn y cyflwyniad a chadarnhau bod y Bwrdd Iechyd bellach yn bodloni safonau isgyfeirio Llywodraeth Cymru ac yn parhau i weithio tuag at ddileu'r amseroedd aros hyn yn llwyr.
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl sy'n aros mwy na 12 mis am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol a diolchwyd i'r holl gydweithwyr dan sylw, gyda'r gwaith nawr yn canolbwyntio ar gynnal y cynnydd hwn a pharhau i symud ymlaen.
- Mae Rhaglen Meistr mewn Fferylliaeth newydd wedi cael ei lansio yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru a fydd yn helpu i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth fferylliaeth yng Ngogledd Cymru, ynghyd â buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau deintyddiaeth ac optometreg.
- Mae trefniadau cynllunio strategol wedi cael eu cryfhau'n sylweddol gyda'r nod o gyflawni Strategaeth Deng Mlynedd a Chynllun Gwasanaethau Clinigol i wella iechyd a llesiant poblogaeth Gogledd Cymru.
- Mae Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at well trefniadau llywodraethiant a chynnydd o ran adeiladu sylfaen gadarn, gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'n effeithiol.



- Mae buddsoddiad parhaus mewn cyfleusterau newydd - mae Canolfan Lawfeddygol Gogledd Cymru yn Ysbyty Llandudno yn symud yn nes at gael ei chwblhau a chynlluniau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl.
- Yn y dyfodol, bydd y ffocws ar adeiladu ar y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, gwella mynediad, lleihau amseroedd aros, gwella ansawdd gwasanaethau a lleihau niwed y gellir ei osgoi.
- Mae diwylliant y sefydliad, y gweithlu ac arweinyddiaeth yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol, gyda dros 200 o gydweithwyr yn cymryd rhan yn y rhaglen Arweinwyr Newid Diwylliant. Er bod angen rhagor o gynnydd, mae ymrwymiad clir i weithio gyda staff i greu sefydliad lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Adroddiad Ansawdd Blynyddol

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddorau Iechyd yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol gan dynnu sylw at y canlynol:

- Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ansawdd ac mae ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol yn ddogfen hanfodol ym maes gofal iechyd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2026.
- Yn ystod 2025/26, mae'r ffocws cyffredinol wedi bod ar gryfhau ansawdd, diogelwch, llywodraethiant a dysgu sefydliadol ar draws pob maes tra bo'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu o fewn Mesurau Arbennig.
- Un risg fawr i'r sefydliad yw darparu mynediad amserol i gleifion at ofal diogel ac effeithiol gan nodi bod cynnydd wedi bod yn y maes hwn gan gynnwys gostyngiadau sylweddol mewn amseroedd aros hir, gwell mynediad at Iechyd Meddwl ar gyfer asesu a thrin oedolion a phlant a gwell capasiti digidol drwy gyflwyno systemau electronig newydd.
- Bu rhai gwelliannau o ran llywodraethiant ansawdd gan gynnwys ymatebion prydlon i gwynion, cyflwyno'r System Rheoli Ansawdd a lleihau nifer y Digwyddiadau Byth.
- Wrth symud ymlaen, bydd ffocws clir ar gynlluniau i leihau gorlenwi mewn Adrannau Achosion Brys, rhyddhau cleifion yn fwy amserol a sicrhau bod pob rhan o'r system wedi'i chysoni'n briodol, ochr yn ochr â phartneriaid allanol, o amgylch gweledigaeth ar y cyd o'r hyn sydd angen ei gyflawni.
- Bydd ffocws parhaus hefyd ar wella perfformiad mewn llwybrau brys lle mae amheuaeth o ganser, y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn i ehangu gofal i gleifion yn nes at eu cartref a gwreiddio llais y claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn y gwaith o wella'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y dyfodol.

Cyflwyno Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig 2025-2026 a Barn yr Archwilydd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol y Cyfrifon Blynyddol a thynnodd sylw at y canlynol:

- Y gofynion perfformiad ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei ddyletswydd statudol gan gynnwys y targedau ariannol ychwanegol fel y nodwyd yn y cyflwyniad.
- Cyflwynwyd y cyfrifon blynyddol i Archwilio Cymru ar 31 Mai 2026 gan nodi nad oedd unrhyw newid i'r alldro o'r cyfrifon drafft i'r cyfrifon archwiliedig terfynol a gyflwynwyd.
- Llofnododd yr Archwilydd Cyffredinol y cyfrifon ar 30 Mehefin 2026 gan roi barn archwilio "gwir a theg" ar ddatganiadau ariannol 2025-26.
- Diolchwyd i'r holl gydweithwyr am eu gwaith caled i fodloni'r gofynion o ran terfynau amser.
- Cafodd y farn ar reoleidd-dra ei chymhwyso gan fod y gwariant yn uwch na'r terfyn adnoddau a awdurdodwyd yn y cyfnod o dair blynedd hyd at 2025-26 gan nodi nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi mantoli'r gyllideb.



- Ni chyflawnodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd cytbwys ac felly bydd yn gweithredu o dan Gynllun Un Flwyddyn.
- Darparwyd gwybodaeth yn y cyflwyniad mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn targedau ariannol, gwariant refeniw a chyfalaf a thalu anfonebau o fewn 30 diwrnod.
- Adroddwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cyfrifon drafft a therfynol i Lywodraeth Cymru, gan adrodd diffyg o £17.3m.
- O ran 2026-27, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cynllun diffyg o £43m, gan gynnwys targed arbedion o £46m. Byddai cyflawni targed arbedion 'ymestynnol' o £17m ychwanegol yn sicrhau dyraniad o £28m i liniaru costau ychwanegol disgwylidig Cronfa Risg Cymru a mantoli cyllideb y Bwrdd Iechyd.

Cyflwyniadau gan Gydweithwyr

Cam 1 Prosiect Ysbyty Brenhinol Alexandra

Cyflwynodd Steph O'Donnell, Cyfarwyddwr y Rhaglen a Jade Parry, Rheolwr Prosiectau Adeiladu, yr eitem gan dynnu sylw at y canlynol:

- Cytunwyd bellach ar gwmpas i fwrw ymlaen â'r prosiect hirddisgwyliedig hwn.
- Bydd yr amcanion buddsoddi strategol o ddod â gwasanaethau i mewn i'r adeilad yn cynnwys gwella'r safle, sicrhau manteision sylweddol i'r gymuned leol a chynyddu'r ystod o wasanaethau cynaliadwy a ddarperir i ddarparu gwell canlyniadau i gleifion a symud gofal yn nes at adref.
- Tynnwyd sylw at gwmpas Cam 1 yn y cyflwyniad, gan nodi'r ystod o wasanaethau a fydd ar gael ar safle Ysbyty Brenhinol Alexandra.
- Bydd nifer o fanteision gan gynnwys buddsoddi mewn iechyd a llesiant, datblygu gwasanaethau integredig, llai o bwysau ar Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd a mwy o weithgarwch economaidd.
- Mae'r tîm ar y safle ar hyn o bryd i ddechrau gweithio ar yr adeilad gan nodi y bydd rhai gwasanaethau'n cael eu hadleoli tra bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo.
- Tynnwyd sylw at yr amserlenni yn y cyflwyniad gyda'r nod o gwblhau'r gwaith adeiladu tua mis Medi 2027 a derbyn y cleifion cyntaf erbyn mis Tachwedd / Rhagfyr 2027.

Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA)

Cyflwynodd Jane Brady, y Prif Swyddog Gwybodaeth Nyrsio a Kate Davies, Nyrs Arweiniol Gwybodeg yr eitem gan dynnu sylw at y canlynol:

- Mae'r system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig (ePMA) wedi trawsnewid y ffordd mae meddyginiaethau'n cael eu presgripsiynu.
- Mae'r prosiect wedi'i gwblhau gyda mewnbwn gan gydweithwyr o ystod eang o dimau gan gynnwys Nyrsio, Fferylliaeth, Meddygaeth a'r timau gweithredol.
- Llwyddwyd i weithredu'r system yn gyflym ar raddfa fawr gan nodi ei bod wedi cael ei threialu i ddechrau i ganfod unrhyw wersi a ddysgwyd i lywio'r gwaith o'i chyflwyno'n ehangach a chefnogi gwelliant parhaus wrth ei gweithredu ymhellach.
- Mae cydweithio cryf wedi arwain at gasglu adborth yn barhaus, gyda thimau'n rhannu dysgu a gwybodaeth defnyddwyr drwy gydol y broses i alluogi'r timau i gyflawni'r rhaglen ar yr un pryd â chanolbwyntio ar ddiogelwch cleifion.
- Mae'r rhaglen bellach wedi symud i'r cam optimeiddio, gydag ymgysylltiad parhaus i gasglu adborth gan staff a nodi cyfleoedd i wella. Mae ymweliadau safle parhaus a chylchlythyrau chwarterol BetsiNet yn cefnogi ymgysylltiad defnyddwyr, a darperir cymorth wedi'i dargedu lle bo angen. Mae'r ffocws yn parhau ar sicrhau bod y system yn cael ei defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer gwelliannau ac uwchraddio yn y dyfodol.



- Mae'r rhaglen yn dechrau sicrhau manteision sylweddol, gan gynnwys gwell cynaliadwyedd, ymgysylltu'n well â staff, a stiwardiaeth wrthficrobaidd gryfach drwy arferion presgripsiynu mwy effeithiol. Mae gwelliannau hefyd o ran gofal mwy diogel i gleifion, llywodraethiant clinigol cryfach a phroses rheoli meddyginiaethau fwy diogel.
- Wrth symud ymlaen, bydd y ffocws ar optimeiddio a gwelliant parhaus, gan gynnwys gwreiddio arferion gorau ac ehangu manteision y system ymhellach. Bydd datblygiadau parhaus yn cael eu cyflawni mewn partneriaeth â chydweithwyr a thimau, gan gynnal dull gweithredu sy'n cael ei arwain yn glinigol gyda diogelwch cleifion wrth ei wraidd.
- Cydnabuwyd cyfraniad sylweddol yr holl staff dan sylw yn ddiolchgar.

Nododd y Cadeirydd fod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol yn rhoi cyfle i staff arddangos eu gwaith, rhannu'r datblygiadau sy'n digwydd a thynnu sylw at yr amrywiaeth o fentrau sy'n cael eu cynnal i wella iechyd a llesiant poblogaeth Gogledd Cymru.

Cwestiynau ac Atebion i'r Bwrdd Iechyd

Nododd y Cadeirydd fod nifer o gwestiynau wedi cael eu codi gan aelodau o'r cyhoedd ac y bydd y cwestiynau a'r atebion ar gael ar y wefan yn dilyn y cyfarfod.

Ymatebodd y Cadeirydd i nifer o'r cwestiynau a godwyd mewn perthynas ag Ysbyty Cymunedol Tywyn gan dynnu sylw at y canlynol:

- Mae diddordeb sylweddol o hyd ymysg y cyhoedd yn nyfodol Ysbyty Cymunedol Tywyn, gan nodi bod lefel y diddordeb yn adlewyrchu pwysigrwydd ystyried anghenion iechyd a gofal tymor hir a gofynion darparu gwasanaethau'r boblogaeth leol yn ardal Tywyn.
- Bydd y Bwrdd yn ystyried y camau nesaf yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhelir ar 30 Gorffennaf 2026 a bydd yn gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.
- Mae hyn yn dilyn rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys cyfarfodydd gyda grwpiau cymunedol a chynghorau cymuned. Bydd y safbwyntiau a'r adborth a geir yn helpu i lywio trafodaethau'r Bwrdd a llunio cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn yr ardal yn y dyfodol.
- Er nad yw Ysbyty Tywyn wedi cau, nid yw ward wedi bod yn gweithredu fel o'r blaen oherwydd heriau staffio, ac mae'n bwysig bod y derminoleg a ddefnyddir yn adlewyrchu'r sefyllfa hon yn gywir.
- Mae'r pryderon a fynegir gan gymunedau lleol wedi cael eu cydnabod, sy'n ymestyn y tu hwnt i ddyfodol yr ysbyty ei hun. Nodwyd bod trigolion mewn ardaloedd gwledig yn gallu teimlo bod gwasanaethau'n cael eu lleihau neu eu hanwybyddu, ac y bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r drafodaeth ehangach.
- Bydd angen i drafodaeth y Bwrdd ganolbwyntio ar y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn y dyfodol. Mae'r materion sy'n cael eu hystyried yn ymestyn y tu hwnt i un ward neu ysbyty ac yn adlewyrchu newidiadau ehangach yn anghenion y boblogaeth, argaeledd y gweithlu, a'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â recriwtio i amrywiaeth o rolau gofal iechyd.
- Efallai y bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gofyn am ddull cydweithredol gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried model darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Mae'n bwysig defnyddio iaith gywir a sensitif drwy gydol y trafodaethau, gan gydnabod cryfder y teimlad mewn cymunedau lleol, a phwysleisio y dylid mynegi ac ystyried safbwyntiau gwahanol yn barchus.



Ymatebodd y Cadeirydd i nifer o gwestiynau ychwanegol a godwyd, gan dynnu sylw at y canlynol:

- Codwyd cwestiwn mewn perthynas â defnyddio ysbytai cymunedol a nodwyd y bydd y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn yn darparu cyfleoedd yn y maes hwn ac uchelgais y Bwrdd Iechyd yw symud tuag at wasanaethau wedi'u harwain gan y gymuned gan nodi bod trafodaethau adeiladol yn digwydd yn y maes gwaith hwn.
- O ran cysylltu â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, cadarnhawyd bod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn fodlon cwrdd ag aelodau pryderus o'r cyhoedd gan dynnu sylw at y ffaith bod angen cadw at y prosesau a'r canllawiau sydd ar waith.
- Codwyd cwestiwn mewn perthynas â'r argymhellion yn adroddiad Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, a chadarnhawyd bod y Bwrdd yn parhau i oruchwylio a gweithredu yn unol â'r argymhellion sy'n parhau i gael sylw.
- Codwyd nifer o gwestiynau hefyd mewn perthynas ag ymateb i bryderon a chadarnhawyd bod gan y Bwrdd Iechyd dîm effeithiol iawn sy'n parhau i ddarparu ymatebion i'r holl ymholiadau a godwyd.

Holwyd a oedd gan unrhyw un gwestiwn a chodwyd y canlynol:

- Beth yw dyfodol Uned Ablett, ac yn benodol pa gynlluniau sydd ar waith i ddarparu adeilad priodol ar gyfer yr uned amenedigol?
- Cadarnhawyd bod gwaith yn parhau ochr yn ochr â deialog gyda Llywodraeth Cymru a bod disgwyl i'r Bwrdd Prosiect nesaf gael ei gynnal ym mis Awst 2026. Mae'r prosiect yn parhau i fod yn heriol ac mae trafodaethau'n parhau mewn perthynas ag adeiladu a dechrau cam nesaf y gwaith. Bydd papur yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith i'w drafod yn llawn cyn ei rannu ag aelodau'r Bwrdd. O ran yr uned amenedigol, y bwriad yw symud yr uned i Galedfryn ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r tîm.
- Nid oedd y Fforwm Pobl Hŷn yn Nhywyn yn gallu clywed ymateb y Cadeirydd mewn perthynas â'r cwestiynau a godwyd ynghylch Ysbyty Cymunedol Tywyn. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am deithio i'r cyfarfod a chadarnhaodd y bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael ar-lein ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd sy'n cael ei gynnal ar 30 Gorffennaf 2026.
- Codwyd cwestiwn ynghylch cau Hosbis Dewi Sant yng Nghaergybi ddiwedd y llynedd a holwyd sut mae hyn wedi symud ymlaen a beth yw dyfodol y gwasanaethau hyn?
- Cadarnhawyd bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan Hosbis Dewi Sant ac nid y Bwrdd Iechyd. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n agos gyda nifer o hosbisau i ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau lleol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu sut mae hosbisau'n cael eu hariannu ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu a yw'r gwasanaethau gofal lliniarol gofynnol ar gael ar Ynys Môn.

Sylwadau i Gloi

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a diolchodd i bawb a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod a chroesawodd yr adborth a gafwyd.

Bwrdd Iechyd

ADRODD STRAEON: TÎM DIBYNIAETH UCHEL CYMUNEDOL STORYTELLING: COMMUNITY HIGH DEPENDENCY TEAM

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Barry Walkden, Swyddog Profiad y Bobl
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Er Sicrwydd
	Community High Dependency Team Story English Final.mp4

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno stori claf o'r Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol (CHDT), sy'n tynnu sylw at effaith gofal arbenigol yn y gymuned ar unigolyn sy'n byw gydag anaf lefel uchel i'r asgwrn cefn ac sydd angen traceostomi a chymorth anadlu hirdymor.

Mae profiad y claf yn dangos cyfraniad sylweddol CHDT o ran galluogi unigolion ag anghenion iechyd cymhleth i aros yn ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae'r stori'n dangos rôl y tîm yn atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi, darparu ymyriadau clinigol arbenigol, a chefnogi llesiant corfforol ac ansawdd bywyd.

Mae'r claf yn disgrifio'r sicrwydd a ddaw oherwydd bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i reoli anghenion clinigol cymhleth, i ymateb i ddirywiad, ac i gydlyn gofal argyfwng pan fo angen. Mae'r stori hefyd yn tynnu sylw at yr

heriau i unigolion sy'n byw gydag anghenion dibyniaeth uchel a gwerth cymorth integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae'r stori hon am glaf yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal yn y gymuned a ddarperir gan y Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerydd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
N/A		

Acronymau / Rhestr Termiau
Acronyms / Glossary of Terms

N/A	
-----	--

ADRODD STRAEON: YR ADEGAU PWYSIG

1. Y SEFYLLFA SITUATION

- 1.1 Gofynnir i'r Bwrdd gael stori claf gan y Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol i roi sicrwydd ynghylch effaith a gwerth gwasanaethau cymunedol arbenigol i gleifion sydd ag anghenion gofal cymhleth iawn.

2 Y CEFNDIR BACKGROUND

- 2.1 Mae'r Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol yn darparu cymorth arbenigol i oedolion sy'n byw gyda salwch, clefyd, trawma neu anaf datblygedig y mae angen gofal parhaus cymhleth arnynt. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth amlddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael ag anghenion gofal corfforol, seicolegol, cymdeithasol a chefnogol, gan ganolbwyntio ar sicrhau'r annibyniaeth a'r ansawdd bywyd gorau posib.
- 2.2 Cafodd y claf yn y stori hon anaf i'r asgwrn cefn yn dilyn gwrthdrawiad traffig ar y ffordd yn 1999, gan arwain at detraplegia. Yn dilyn salwch anadlol sylweddol yn 2020, roedd angen traceostomi a chymorth awyru dros nos ar y claf, gan arwain at gyfranogiad gan y Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol.

3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

- 3.1 Mae stori'r claf yn dangos y canlynol:
- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi'i ddarparu yn amgylchedd cartref y claf.
 - Derbyniadau diangen i'r ysbyty wedi'u hatal drwy ganfod a rheoli dirywiad yn gynnar.
 - Profiad cadarnhaol i'r claf a hyder yn sgiliau'r gweithlu.
 - Cymorth i gynnal annibyniaeth ac ansawdd bywyd er gwaethaf anghenion gofal iechyd cymhleth.
 - Gwaith amlddisgyblaethol effeithiol i gefnogi cleifion sydd â gofynion gofal hirdymor, dibyniaeth uchel.

4 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION

- 4.1 Ni chynigir unrhyw risg newydd i'w huwchgyfeirio ar sail stori'r claf unigol hwn. Fodd bynnag, mae'r stori'n tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal capasiti

digonol yn y gweithlu, cymhwysedd arbenigol, dilyniant mewn gofal a mynediad prydlon at gymorth amlddisgyblaethol.

5 **ARGYMHELLION** **RECOMMENDATIONS**

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd: The Board is asked to:

- **NODI** profiad y claf a'r adborth cadarnhaol ynghylch y Tîm Dibyniaeth Uchel Cymunedol.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau
Link to Strategic Intentions	If more than one applies, please list below:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Pobl yn Gyntaf
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Mae'r stori hon gan glaf yn rhoi sicrwydd ategol yn erbyn BAF 26_03 – Methiant i Wella Mynediad, Canlyniadau a Phrofiad , gan ddangos cyfraniad gwasanaethau cymunedol arbenigol at wella canlyniadau, profiad ac annibyniaeth cleifion, ac atal derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi drwy ofal o ansawdd uchel sy'n cael ei ddarparu'n nes at adref.

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Ydy/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?	Canlyniad/Outcome: Do/Yes:	Naddo/No: x

<u>Templed WP8a</u>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cydymffurfiad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Dewiswch eitem. Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestwch hynny isod:	

	If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru iachach	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: Na - Ddim yn berthnasol	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list below:	
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Dyddiad y Cyfarfod Dyddiad y Cyfarfod	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Cyflwr Cyhoeddi	Agored/ Cyhoeddus
	Ddim yn berthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Enw a theitl awdur yr adroddiad	Dyfed Edwards Cadeirydd
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Enw a theitl Aelod Tîm Gweithredol Arweiniol	

Pwrpas yr Adroddiad Pwrpas yr Adroddiad	I'w nodi
--	----------

Crynodeb Gweithredol Crynodeb Gweithredol
Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am faterion allweddol o fewn y sefydliad a gwaith allanol gyda'r Llywodraeth a phartneriaid eraill

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymeryd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Ymgysylltu (mewnol/allanol) a gynhaliwyd hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyriaeth yn y Pwyllgor/Grŵp)		
Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Canlyniadau, Tystiolaeth a Data
Ddim yn berthnasol		



Adroddiad y Cadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Medi, 2026

Mae peth o'r gwaith rydw i wedi'i gyflawni ers fy adroddiad i'r Bwrdd Gorffennaf yn cael ei grynhoi isod:

Bwrdd a Phwyllgorau

Mae straeon cleifion a staff yn nodwedd bwysig o'n gwaith ar lefel pwyllgor a bwrdd. Maent yn rhoi mewnwleidiad i ni ar brofiad bywyd go iawn i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu a'n gweithlu. Dylai'r dystiolaeth hon, ynghyd ag adroddiadau eraill, megis **Dysgu o Ddigwyddiadau**, yr **Adroddiad Profiad Dinasyddion** a'r **System Rheoli Ansawdd**, helpu i lywio ein gwaith gwella a nodi meysydd o bryder neu feysydd cyfleoedd tebyg. Er bod llawer o hyn wedi bod yn ddefnyddiol, mae angen datblygu'r gwaith ymhellach er mwyn sicrhau ein bod ni, fel Bwrdd, hefyd yn cael gweld y camau gweithredu a'r gwelliant cynaliadwy ar draws y sefydliad yn dilyn adroddiadau o'r math. Bydd ein sesiynau **Datblygu'r Bwrdd** yn rhoi cyfle i ni ystyried hyn ymhellach gan fabwysiadu dull a fydd yn cefnogi'r gwelliant sydd ei angen.

Ar hyn o bryd rydym yn wynebu newid sylweddol o ran personél, yn enwedig ar lefel **Gweithredol**. Rydym yn dymuno'r gorau i gydweithwyr sy'n gadael y Bwrdd Iechyd ac yn diolch iddynt am eu cyfraniad i waith y sefydliad. Mae un **Aelod Annibynnol, sef Gareth Williams, Is-gadeirydd**, yn gadael wrth i'w dymor ddod i ben. Mae Gareth wedi gwasanaethu fel Aelod o'r Bwrdd ers recriwtio aelodau newydd gan y Llywodraeth flaenorol ym mis Mawrth 2023. Mae wedi cadeirio'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Integredig (PFIG), wedi gwasanaethu ar bwyllgorau eraill ac wedi ymgymryd â rôl Is-gadeirydd gan sicrhau gorolwg o wasanaethau Iechyd Meddwl a Gofal Sylfaenol, i gyd gydag ymroddiad ac ymrwymiad. Mae ei gyfraniad wedi bod yn sylweddol ac rwyf wedi bod yn ddiolchgar am ei gefnogaeth a'i gyngor doeth. Mae wedi gwneud gwahaniaeth. Diolch yn fawr Gareth.

Adolygiad wedi'i Arwain yn Dda

Mae'r Llywodraeth wedi comisiynu **adolygiad annibynnol o** drefniadau strategaeth, diwylliant, arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gydag aelodau'r panel ac yn cydlyn cyfarfodydd a chyfweiliadau ag unigolion a grwpiau. Bwriad yr adolygiad yw ceisio deall ymhellach achosion sylfaenol yr heriau sy'n parhau i effeithio ar berfformiad sefydliadol a gweithredol, ac ystyried a yw'r amodau cywir ar waith i gyflawni gwelliant cynaliadwy. Y canlyniad disgwyledig yw set glir o argymhellion a chamau gweithredu a fydd yn cryfhau arweinyddiaeth, llywodraethu ac effeithiolrwydd sefydliadol ymhellach, gan gefnogi ein gallu i ddarparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel a chynaliadwy i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu yma yn ein rhanbarth. Rydym yn gweld y gwaith fel adnodd posibl i'n cefnogi ar ein taith gwella fel Bwrdd Iechyd ac edrychwn ymlaen at y Llywodraeth yn rhannu canfyddiadau'r panel yr Hydref hwn.

Celfyddydau mewn lechyd

Yn ddiweddar, mynychais berfformiad cyntaf ffilm 'Hope' gyda staff a chleifion Tŷ Llywelyn yng nghanolfan gerdd a ffilm gymunedol Tape, Hen Golwyn. Roedd y ffilm hon yn seiliedig ar brosiect **The Shackleton Play gan staff a phobl yn eu gofal yn Nhŷ Llywelyn, Bryn y Neuadd**. Gyda chefnogaeth ein **Tîm Celfyddydau mewn lechyd**, adroddodd y ffilm hanes y prosiect, sut y cafodd ei ddatblygu, cynnwys cleifion a staff, ynghyd â chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol y celfyddydau. Roedd yn ysbrydoledig gweld y ffilm a gwrando ar farn y rhai a gymerodd ran mewn trafodaeth banel ar ôl y dangosiad. Y gobaith yw y bydd y ffilm yn gallu cael ei rhannu i gynulleidfa ehangach yn y dyfodol.

Isod mae crynodeb o rai o'm cyfarfodydd ac ymweliadau hyd at Fedi 3, 2026.

22 Gorffennaf	Grŵp Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus
22 Gorffennaf	Trafodaeth ymyrraeth gyda Pherfformiad a Gwelliant y GIG
22 Gorffennaf	Tehmeena Amjal, Prif Swyddog Gweithredu
23 Gorffennaf	Seremoni Raddio Interniaid a Gefnogir gan Gyngor Sir Fflint a Clwyd Alun
24 Gorffennaf	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
27 Gorffennaf	Y Gweinidog Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr GIG Cymru
27 Gorffennaf	Matthew Edwards, Archwilio Cymru
27 Gorffennaf	Cyfarfod Aelodau Annibynnol
27 Gorffennaf	Aelodau Annibynnol, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
27 Gorffennaf	Cyfarfod Perfformiad Wythnosol
27 Gorffennaf	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
28 Gorffennaf	Cyfarfod Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIG) ychwnageol
28 Gorffennaf	Pwyllgor Rheoli Cydffederasiwn GIG Cymru
28 Gorffennaf	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
29 Gorffennaf	Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol BIPBC
30 Gorffennaf	Cyfarfod Bwrdd BIPBC
3 Awst	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaeth, Ymgysylltu a Chyfathrebu
3 Awst	Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
3 Awst	Trafodaeth Cronfa Buddsoddi Cymunedol
4 Awst	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
5 Awst	Marc Jones AS, Carrie Harper AS
5 Awst	Hwb Iechyd a Llesiant Penygroes
6 Awst	Stuart Keen, Cyfarwyddwr Ystadau a'r Amgylchedd

10 Awst	Cyfarfod Rhagarweiniol Adolygiad Annibynnol BCUHB/NHSWP&I
10 Awst	Grŵp Goruchwyllo Cyllid
10 Awst	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
10 Awst	Grŵp Goruchwyllo Gofal Heb ei Drefnu
11 Awst	Cyfarfodydd gyda 2 Aelod o'r Cyhoedd yn ymwneud â gofal yn yr ysbyty
11 Awst	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
12 Awst	Rhestr fer ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd
13 Awst	Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant
13 Awst	Y Gweinidog Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr GIG Cymru a Phrif Weithredwr BCU
13 Awst	Gareth Williams, Is-gadeirydd
14 Awst	Gweithdy Fframwaith a Arweinir yn Dda Cadeiriau'r GIG, Caerdydd
17 Awst	Tîm y Gymraeg
17 Awst	Debbie Eyitayo, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol
17 Awst	Cyfweliadau ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
18 Awst	Pwyllgor Archwilio
18 Awst	Alun Jones, Gwella Iechyd Cymru
18 Awst	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol
18 Awst	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
19 Awst	Victoria Peach, Cyfarwyddwr IHC West
19 Awst	Mike Larvin Arfarniad Aelod Annibynnol
20 Awst	Ymweliad â Meddygfa Cefn Mawr gyda Steve Witherden AS a Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
20 Awst	Bwrdd Partneriaeth BIPBC a Sir y Fflint
20 Awst	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
24 Awst	Cyfweliadau Prif Swyddog Gweithredu
24 Awst	Morwenna Roberts, Prif Seicolegydd Clinigol
24 Awst	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr
24 Awst	Cyfarfod Perfformiad Wythnosol
25 Awst	Cyngor Gwynedd, Caernarfon. Hwb Iechyd Bangor
25 Awst	Grŵp Cymheiriaid Cadeiryddion
25 Awst	Premiere ffilm 'Gobaith' gyda staff a chleifion Tŷ Llywelyn, Cerddoriaeth a Ffilm Gymunedol Tâp, Hen Golwyn
25 Awst	Briffio ar Strategaeth, Paolo Tardivel gyda Gareth Williams, Is-gadeirydd a Clare Budden, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
26 Awst	Llywodraethu ac Atebolrwydd, Sefydliad Llywodraethu Da
27 Awst	Datblygu'r Bwrdd

28 Awst	Cyfarfod rhagarweiniol gydag ymgeisydd Cyfarwyddwr Cyllid
1 Medi	Cyfweliadau Arwain yn Dda gydag aelodau'r panel
1 Medi	Cyfarfod y Bwrdd gyda phanel Arwain yn Dda
1 Medi	Philip Ralfs, Dermatoleg Ysbyty Gwynedd
2 Medi	Cyfweliadau Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro
2 Medi	Clare Budden, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
2 Medi	Urtha Felda, Aelod Annibynnol
3 Medi	Y Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
3 Medi	Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE)

Bwrdd Iechyd**ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR**

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Carol Shillabeer, Prif Swyddog Gweithredol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w Nodi

Crynodeb Gweithredol / Executive Summary

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r prif weithgareddau a gyflawnwyd dan arweiniad y Prif Weithredwr rhwng 15 Gorffennaf ac 11 Medi 2026. Mae'r cyfnod adrodd wedi'i nodweddu gan ymgysylltiad parhaus â Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwellu GIG Cymru yn dilyn cyhoeddi Ymyriad dan Gyfarwyddyd Gweinidogol, ochr yn ochr â dechrau'r Adolygiad Annibynnol dan Arweiniad Da a chyflawni blaenoriaethau gwella'r Bwrdd Iechyd yn barhaus.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at newidiadau yn arweinyddiaeth y sefydliad a'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau parhad, ochr yn ochr â chynnydd o ran adfer gofal wedi'i gynllunio a gwaith i leihau amseroedd aros hir. Mae hefyd yn adlewyrchu bod adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael ei gyhoeddi, a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau ac i sicrhau gwelliant cynaliadwy.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod enghreifftiau o ragoriaeth ac arloesedd ar draws y sefydliad, gan gynnwys cydnabyddiaeth genedlaethol drwy restrau byr gwobrau GIG Cymru a HSJ, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad parhaus staff a phartneriaid i wella gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru.

Gofynnir i'r Aelodau nodi'r adroddiad.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)		
Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn		

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms	
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
CEO	Prif Swyddog Gweithredol

1.0 CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio i roi trosolwg o'r prif weithgareddau, y cynnydd a'r materion gan y Prif Weithredwr. Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 15 Gorffennaf ac 11 Medi.

2.0 PERTHYNAS Â LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Adolygiad dan Arweiniad Da

Ym mis Gorffennaf 2026, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ymyriad dan Gyfarwyddyd Gweinidogol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Fel rhan o'r ymyriad hwnnw, sefydlwyd Panel Adolygu Annibynnol i gynnal Adolygiad dan Arweiniad Da o'r sefydliad. Nod yr Adolygiad yw asesu a oes gan y Bwrdd Iechyd y strategaeth, y diwylliant, yr arweinyddiaeth, y trefniadau llywodraethu a'r atebolrwydd sydd eu hangen i sicrhau gwelliant sefydliadol cynaliadwy a chefnogi'r broses o ddod allan o Fesurau Arbennig yn y dyfodol.

Mae'r Adolygiad yn canolbwyntio ar strwythur sefydliadol, diwylliant a datblygiad y gweithlu; effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol; y gallu i arwain; trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd; aeddfedrwydd sefydliadol; cynllunio strategol; a'r gallu o ran gwella sefydliadol.

Dechreuodd yr Adolygiad ym mis Awst 2026 a disgwyli'r iddo ddod i ben ym mis Hydref 2026. Mae'r gweithgarwch hyd yma wedi cynnwys:

- Adolygiad cynhwysfawr o ddogfennau
- Arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau
- Cyfweiliadau ag aelodau'r Bwrdd ac uwch arweinwyr
- Sesiwn benodol o'r Panel i'r Bwrdd

- Sesiynau ymgysylltu â staff
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Ymweliadau â safleoedd aciwt a chymunedol ar draws Gogledd Cymru.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydlyn cyflwyniad tystiolaeth sylweddol sy'n ymdrin â strategaeth, llywodraethiant, effeithiolrwydd y Bwrdd, arweinyddiaeth, y gweithlu, ansawdd, perfformiad, cyllid, diwylliant, a dod allan o Fesurau Arbennig. Darparwyd gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol i gefnogi dealltwriaeth y Panel o daith adfer y sefydliad ers cael ei roi mewn Mesurau Arbennig ym mis Chwefror 2023. Mae'r Panel hefyd yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol a rhagor o ymgysylltiad wrth i amserlen yr Adolygiad fynd rhagddi. Ar ben hynny, mae dros 30 o ymweliadau a sesiynau ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn y bwrdd iechyd ar draws y rhanbarth.

Mae'r Adolygiad yn parhau i fynd rhagddo ac nid oes unrhyw ganfyddiadau, casgliadau nac argymhellion wedi dod i law eto.

2.2 Cymorth Perfformiad a Gwella GIG Cymru – 4 Piler

Ers cyhoeddi'r Ymyriad dan Gyfarwyddyd Gweinidogol ym mis Gorffennaf 2026, mae gwaith wedi parhau gyda Pherfformiad a Gwella GIG Cymru i sefydlu'r trefniadau cymorth ar draws y pedwar piler allweddol, sef *perfformiad gweithredol, ansawdd a diogelwch, y gweithlu ac adferiad ariannol*.

Mae gwaith maes wrthi'n mynd rhagddo fel rhan o adolygiad penodol o drefniadau Ansawdd a Diogelwch. Mae'r adolygiad yn archwilio llywodraethiant, diogelwch cleifion, rheoli ansawdd a sicrwydd ar draws y sefydliad i asesu effeithiolrwydd ac i nodi cyfleoedd i wella ymhellach. Bydd y canfyddiadau'n sail i gam nesaf y cymorth gwella ac yn helpu i gryfhau fframwaith llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd.

3.0 DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

3.1 Y Tîm Gweithredol

Ers fy adroddiad diwethaf, mae nifer o newidiadau i'r Tîm Gweithredol wedi cael eu cyfleu ar draws y sefydliad. Hoffwn gydnabod cyfraniad sylweddol cydweithwyr Gweithredol sy'n gadael y Bwrdd Iechyd a diolch iddynt am eu hymrwymiad, eu harweinyddiaeth a'u gwasanaeth.

Mae Angela Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, wedi ymddeol yn dilyn gyrfa hir a nodedig ym maes gofal iechyd. Hoffwn hefyd gydnabod cyfraniadau Tehmeena Ajmal, sydd wedi gadael y sefydliad yn ddiweddar, yn ogystal â Russell Caldicott a Stuart Keen, sydd ill dau wedi cael swyddi newydd y tu allan i'r Bwrdd Iechyd.

. Hoffwn ddiolch yn bersonol i bob unigolyn am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u cyfraniad gwerthfawr yn ystod eu hamser gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae pob un ohonynt wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi ein sefydliad a'n helpu i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl Gogledd Cymru. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch o waelod calon iddynt am bopeth y maent wedi'i gyflawni ac am y gwahaniaeth y maent wedi'i wneud. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddynt ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn sicrhau parhad o ran arwain a chyflawni, mae nifer o drefniadau arwain dros dro wedi cael eu rhoi ar waith. Mae Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro wedi cael ei benodi a bydd yn dechrau yn ei swydd ar 5 Hydref 2026, a bydd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro yn ymuno â'r sefydliad ddechrau mis Tachwedd 2026. Bydd y penodiadau hyn yn darparu capasiti ac arweinyddiaeth ychwanegol yn ystod cyfnod o drawsnewid, ac yn cefnogi'r gwaith parhaus o gyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd o ran gwella.

Ochr yn ochr â'r trefniadau dros dro hyn, mae cynlluniau'n cael eu datblygu i recriwtio i'r swyddi Gweithredol parhaol. Bydd y dull hwn yn sicrhau sefydlogrwydd a pharhad y sefydliad yn y tymor byr, ar yr un pryd â sicrhau trefniadau arwain parhaol ar gyfer y dyfodol. Gellir sicrhau'r Bwrdd bod cynlluniau cadarn ar waith i gynnal atebolrwydd clir, cadernid sefydliadol a goruchwyliaeth weithredol drwy gydol y cyfnod hwn o newid.

3.2 Adfer Gofal wedi'i Gynllunio

Mae Gweinidog Cabinet Llywodraeth Cymru dros lechyd a Gofal wedi cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol sylweddol i helpu i leihau amseroedd aros ac adfer gwasanaethau gofal wedi'i gynllunio ledled Cymru. Gofynnwyd i'r bwrdd iechyd gyflwyno cynigion am rywfaint o'r cyllid hwn i gefnogi'r cynnydd tuag at leihau'r amseroedd aros hiraf ac, ar ôl cael cymeradwyaeth y Bwrdd, gwnaed cais o fewn yr amserlenni gofynnol. Rydym nawr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a thîm Pobl a Thrawsnewid y GIG i bennu lefel y cymorth ariannol sydd ar gael a'r disgwyliadau cyflawni cysylltiedig. I'r perwyl hwn, bydd cynllun cyflawni manwl a llwybr gwella yn cael eu cwblhau, gan adeiladu ar y ceisiadau a gymeradwywyd gan y Bwrdd a nodi'r gwelliannau y gellir eu cyflawni'n realistig ac y byddant yn cael eu hadrodd a'u monitro drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth ym mis Hydref. Rhoddir diweddariad pellach i'r Bwrdd ym mis Tachwedd.

Mae amseroedd aros hir yn parhau i fod yn bryder sylweddol i gleifion a'r sefydliad ac, er bod y buddsoddiad hwn yn gyfle pwysig i gyflymu cynnydd ac yn cael ei groesawu, mae'n bwysig cydnabod maint yr her. Bydd gwelliant cynaliadwy yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol yn ogystal â gwelliannau parhaus mewn cynhyrchiant, capasiti, ailddylunio llwybrau a gweithio rhanbarthol i gael ateb cyflawn i'r heriau sylfaenol o ran galw a chapasiti.

3.3 Adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Adran Achosion Brys Ysbyty Glan Clwyd

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolwg dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mai 2026 ac mae bellach wedi cyhoeddi ei hadroddiad. Roedd yr adroddiad yn nodi pryderon sylweddol yn ymwneud â diogelwch cleifion, llywodraethiant, arweinyddiaeth a threfniadau goruchwylio, ac arweiniodd at ddynodi'r adran yn Wasanaeth sydd Angen ei Wella'n Sylweddol. Amlygodd y canfyddiadau agweddau annerbyniol ar brofiad cleifion, gan gynnwys amseroedd aros hir, gorlenwi, a heriau yn ymwneud â phreifatrwydd ac urddas. Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn y canfyddiadau'n llawn ac yn ymddiheuro i gleifion na chawsant ofal o'r safon y dylent ei disgwyl.

Mae gwella gofal cleifion ym maes gofal brys a gofal argyfwng yn flaenoriaeth i'r bwrdd iechyd ac mae'r holl gamau gweithredu gofynnol o adroddiad yr arolwg bellach ar waith yn yr adran drwy raglen waith gynhwysfawr. Er mwyn sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal dros y tymor hwy, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddangos bod gwelliannau'n cael eu gwreiddio a'u trosi'n welliannau mesuradwy o ran diogelwch a phrofiad cleifion.

Mae cydweithwyr yn yr Adran Achosion Brys yn gweithio'n galed dan bwysau mawr yn gyson ac roeddwn yn falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod gwerthfawrogiad y cyhoedd o'u gofal ac yn cydnabod tosturi, proffesiynoldeb ac ymrwymiad y staff sy'n gweithio mewn adran sy'n wynebu pwysau gweithredol parhaus. Gwyddom fod problemau systemig sylweddol a hirsefydlog sy'n dwysáu'r pwysau mewn adran sy'n brysur drwy'r amser, ac rydym wedi cael ein calonogi bod AGIC, yn eu harolwg dilynol ym mis Awst, wedi nodi cynnydd cadarnhaol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys llif cleifion, llesiant staff a threfniadau llywodraethu, ac wedi cydnabod y gwaith sydd wedi cael ei wneud i gefnogi staff ac i fynd i'r afael â'r materion hynny. Hoffwn ddiolch i gydweithwyr sydd, gyda'i gilydd, wedi gyrru'r gwelliannau hyn yn eu blaen ac sy'n parhau i ganolbwyntio ar welliannau pellach ar draws yr adran ac yn ehangach.

Bydd y Bwrdd yn cael diweddariad manylach ar y canfyddiadau, y camau gwella a'r risgiau parhaus drwy'r adroddiad Gofal Brys a Gofal Argyfwng sydd ar yr agenda heddiw.

4.0 CYFARFODYDD/YMWELIADAU

4.1 Cyfarfodydd Briffio'r Prif Swyddog Gweithredol

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Adolygiad Annibynnol dan Arweiniad Da yn parhau i ddatblygu yn unol â'r rhaglen y cytunwyd arni. Yn ystod y cyfnod adrodd, rwyf wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i uwch arweinwyr a chydweithwyr ehangach i egluro pwrpas a chwmpas yr adolygiad, annog cyfranogiad a chefnogi ymgysylltiad agored, gonest a thryloyw â'r broses.

Roedd sesiynau ymgysylltu cynnar gydag uwch arweinwyr wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cynnal gwelededd a chyfathrebu rheolaidd drwy gydol cyfnod yr

adolygiad. Mewn ymateb, gofynnwyd i sesiynau briffio wythnosol y Prif Swyddog Gweithredol barhau drwy gydol yr Adolygiad dan Arweiniad Da i ddarparu diweddariadau rheolaidd, rhannu gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg, mynd i'r afael â chwestiynau, a chefnogi cydweithwyr i ymgysylltu.

Ochr yn ochr â'r adolygiad, mae'r Bwrdd wedi parhau i weithio gyda'r Sefydliad Llywodraethu Da fel rhan o'i Raglen Datblygu'r Bwrdd. Mae'r Sefydliad Llywodraethu Da wedi rhoi cymorth gwerthfawr wrth baratoi a briffio Aelodau o'r Bwrdd ac uwch arweinwyr ar gyfer yr Adolygiad dan Arweiniad Da.

4.2 Tîm Gwella Iechyd, Canolfan Iechyd Parc Caia

Ym mis Awst, roeddwn yn ddigon ffodus i ymweld â'r Tîm Gwella Iechyd, yng Nghanolfan Iechyd Parc Caia, Wrecsam, i ddysgu mwy am ehangder y gweithgarwch atal a gwella iechyd sy'n cael ei ddarparu ar hyd a lled Gogledd Cymru. Roedd yr ymweliad yn gyfle i glywed gan gydweithwyr am effaith eu gwaith yn cefnogi cymunedau iachach, yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn hyrwyddo llesiant, yn ogystal â thrafod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu gwasanaethau atal. Cefais gyfle hefyd i gydnabod ymrwymiad y staff a diolch iddynt am y cyfraniad pwysig y maent yn ei wneud i gefnogi uchelgais tymor hwy'r Bwrdd Iechyd ar gyfer iechyd y boblogaeth.

4.3 Partneriaeth Ddysgu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ochr yn ochr â'r Cadeirydd, es i gwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i archwilio cyfleoedd i ddatblygu partneriaeth ddysgu rhwng ein sefydliadau. Mae llawer o debygrwydd rhwng y byrddau iechyd ac roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar sut gallwn rannu dysgu, cryfhau gallu arwain, a chefnogi gwelliant sefydliadol drwy ddull cydweithredol. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd wrth i drafodaethau fynd rhagddynt ac wrth i gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ddatblygu.

4.4 Cefn Mawr

Ochr yn ochr â'r Cadeirydd, cefais gwrdd â chynrychiolwyr etholedig lleol a rhanddeiliaid cymunedol yng Nghefn Mawr yn Nyffryn Dyfrdwy. Buom yn trafod materion a blaenoriaethau gofal iechyd lleol. Roedd yr ymweliad yn gyfle gwerthfawr i glywed yn uniongyrchol gan bartneriaid lleol a chryfhau'r berthynas â'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

5.0 CYDNABYDDIAETH

5.1 Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)

Roeddwn wrth fy modd bod yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd unwaith eto wedi cyflawni canlyniadau rhagorol yn Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) ac wedi cael ei chydabod fel yr Adran Achosion Brys

â'r sgôr uchaf yn y DU ar gyfer boddhad cyffredinol hyfforddeion. Asesiad blynyddol ledled y DU sy'n cael ei gwblhau gan feddygon dan hyfforddiant yw arolwg y GMC, ac mae'n cael ei ystyried yn un o'r mesurau pwysicaf o ansawdd amgylcheddau hyfforddiant clinigol, gan ymdrin â meysydd fel goruchwyliaeth, cyfleoedd dysgu, gwaith tîm, llwyth gwaith a diwylliant y gweithle.

Mae'r cyflawniad hwn yn arbennig o nodedig o ystyried y pwysau sylweddol y mae gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yn eu hwynebu ar hyn o bryd, ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad, proffesiynoldeb a chefnogaeth y cydweithwyr sy'n gweithio yn yr adran.

5.2 Gwobrau cydnabod staff

Dros yr wythnosau nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal ei Wobrau Staff blynyddol, gan roi cyfle pwysig i gydnabod a dathlu cyfraniad eithriadol cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad. Bydd y gwobrau'n rhoi sylw i'r ymroddiad, tosturi, arloesedd a gwaith tîm y mae staff yn eu harddangos bob dydd wrth ddarparu gofal a gwasanaethau i bobl Gogledd Cymru.

Mae'r gwobrau'n gyfle i gydnabod cyflawniadau unigolion a thimau sydd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr, yn aml mewn amgylchiadau heriol. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr enwebiadau a ddaeth i law yn adlewyrchu ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwydnwch ein gweithlu, ac yn tynnu sylw at yr enghreifftiau niferus o arferion rhagorol sy'n digwydd ar draws y sefydliad.

Edrychaf ymlaen at ymuno â chydweithwyr yn y digwyddiad i ddathlu llwyddiannau'r rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol a'r enillwyr. Beth bynnag fo'r canlyniad, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cael ei enwebu, i bawb sydd wedi trefnu'r digwyddiad hwn, ac i bawb sy'n parhau i wneud gwahaniaeth drwy ei ymroddiad a'i ymrwymiad i wella gwasanaethau i'n cymunedau.

5.3 GWOBRAU GIG CYMRU

Rwy'n falch bod pedwar prosiect sy'n cynnwys cydweithwyr o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd y rhestr fer yng Ngwobrau GIG Cymru 2026. Mae'r prosiectau hyn sydd ar y rhestr fer yn adlewyrchu ehangder y gwaith gwella, arloesi a gweithio mewn partneriaeth sy'n digwydd ar draws ein sefydliad ac maent yn cynnwys mentrau sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal osteoarthritis dwylo arbenigol yn nes at y cartref, cryfhau gwydnwch sefydliadol a diwylliant tîm, cefnogi fferyllwyr cymunedol i ganfod a thrin pwysedd gwaed uchel, a datblygu swyddi newydd yn y gweithlu drwy Sgrinio Coluddion Cymru.

Mae cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr genedlaethol yn dipyn o gamp ac yn cydnabod ymrwymiad, arbenigedd ac ymroddiad ein staff a'n partneriaid. Hoffwn longyfarch pawb sy'n rhan o hyn a diolch iddynt am eu hymdrechion parhaus i wella gwasanaethau, canlyniadau a phrofiadau i bobl Gogledd Cymru.



5.4 CYDNABYDDIAETH GENEDLAETHOL I OFAL OED-GYFEILLGAR YN Y GYMDOGAETH

Mae'r model Gofal Oed-gyfeillgar yn y Gymdogaeth, a ddatblygwyd drwy waith partneriaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, Sefydliad yr Enfys ac amrywiaeth o bartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol, wedi cyrraedd y rhestr fer mewn dau gategori yng Ngwobrau HSJ 2026: Trawsnewid Gofal i Bobl Hŷn a Datblygiad Arloesol Gofal yn y Gymuned a'r Gymdogaeth.

Mae'r rhestr fer yn cydnabod ymrwymiad hirsefydlog i ddatblygu dulliau integredig yn y gymuned sy'n cefnogi pobl hŷn i aros yn ddiogel, yn iach ac yn annibynnol gartref drwy atal, adsefydlu, ailalluogi a darparu gofal cydgysylltiedig yn y gymdogaeth. Mae'r gydnabyddiaeth genedlaethol hon yn tystio i ymroddiad staff a phartneriaid ledled Gogledd Ddwyrain Cymru ac mae'n dangos yr effaith gadarnhaol y gellir ei chael drwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, ac rwy'n hynod falch o'u llwyddiant.

5.0 CASGLIAD

Bwriad yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r prif weithgareddau a gyflawnir gan y Prif Weithredwr yn ogystal â materion pwysig i dynnu sylw atynt a allai fod yn destun adroddiadau manylach eraill neu beidio. Croesewir adborth ar yr adroddiad.

6.0 ARGYMHELLION

Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd

- **NODI**r diweddariadau a ddarperir yn yr adroddiad hwn;

ASESIAD / ASSESSMENT

Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities

1.  sefyc  effeith   

Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
If more than one applies, please list below:

Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles

Pobl yn Gyntaf
Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
If more than one applies, please list below:

Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework

Nid yw'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn arwain at unrhyw risgiau corfforaethol newydd. Mae'r meysydd ffocws yn ystod y cyfnod adrodd, yn enwedig arweinyddiaeth a llywodraethu, cyflawni blaenoriaethau gwella, adfer perfformiad a chryfhau atebolrwydd, yn cyd-fynd â'r risgiau presennol yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn parhau i gael eu rheoli drwy drefniadau llywodraethu ac uwchgyfeirio sefydledig. Mae ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Tîm Cefnogi Ymyriadau yn darparu craffu a sicrwydd ychwanegol yn erbyn y risgiau hyn, gyda chynnydd a materion yn cael eu hadrodd drwy'r Tîm Gweithredol, cyfarfodydd goruchwyllo perthnasol a phwyllgorau'r Bwrdd yn unol â Fframwaith Atebolrwydd GIG Cymru.

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS

Cydraddoldeb

A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)

Equality

Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)

Do/Yes: ☐

Naddo/No: ☒

Canlyniad/Outcome:

Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:
If no, please include rationale:

Dim angen

Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol

A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol?

Socio-Economic Impact Assessment

Do/Yes: ☐

Naddo/No: ☒

Canlyniad/Outcome:

Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:
If no, please include rationale:

Dim angen

<i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>		
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Mae pob un yn berthnasol	Meysydd Ansawdd Domains of Quality Mae pob un yn berthnasol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant</u> <u>Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Amherthnasol	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (y 5R) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog? Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Dim angen
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data? Data Protection Impact Assessment	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:	

<i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd lechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Resource Impact (People / Financial)	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â DINASYDDION A'U PROFIADAU

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Helen Stevens-Jones, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Ymgysylltu a Chyfathrebu
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w nodi

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae'r Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel i'r Bwrdd Iechyd o adborth dinasyddion rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026, gyda materion yn dod i'r amlwg o fis Gorffennaf lle mae'r rhain yn llywio'r darlun strategol yn sylweddol. Mae'n dwyn ynghyd ymgysylltu uniongyrchol â chleifion, sgysiau cymunedol, gohebiaeth wleidyddol, ymgysylltu digidol a gwaith Llais.

Ar draws y llwybrau hyn, y prif themâu yw:

- Amseroedd aros a mynediad ar draws gofal wedi ei gynllunio, diagnosteg, gofal sylfaenol a deintyddiaeth y GIG
- Cyflyrau gofal brys ac argyfwng, capasiti ysbytai a llif cleifion
- Parhad a chydlynu gofal, yn enwedig wrth ryddhau cleifion a rhwng gwasanaethau
- Cyfathrebu, cymryd rhan a hyder yn y ffordd y gwneir penderfyniadau
- Mynediad yng nghefn gwlad, trafnidiaeth, allgáu digidol a dimensiynau eraill ar degwch

Ochr yn ochr â'r pryderon hyn, mae dinasyddion yn cydnabod staff tosturiol a phroffesiynol yn gyson, amgylcheddau glân a chroesawgar, gofal drwy'r Gymraeg a gwasanaethau cymunedol ymatebol. Mae adborth lleol yn cynhyrchu newidiadau adnabyddadwy ar lefel gwasanaeth. Mae ailymddangosiad parhaus prif themâu'r system yn dangos bod angen tystiolaeth gryfach o effaith ar draws y sefydliad o hyd.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Trafodwyd fersiwn drafft o'r Adroddiad yn y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	03.09.26	Wedi'i gefnogi

Acronymau / Rhestr Termau
Acronyms / Glossary of Terms

GP	Meddyg Teulu
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol

ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â DINASYDDION A’U PROFIADAU

1. SEFYLLFA

1.1 PWRPAS

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg strategol a sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ynghylch adborth a gafwyd gan ddinasyddion rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2026. Mae'n canolbwyntio ar y themâu sy'n deillio o ryngweithio â chleifion, ymgysylltu uniongyrchol, gohebiaeth wleidyddol, trafodaeth ddigidol a gwaith Llais. Mae materion sy'n dod i'r amlwg o fis Gorffennaf ymlaen yn cael eu cynnwys lle maent yn cyfrannu'n sylweddol at y darlun strategol.

Mae'r adroddiad yn ystyried nid yn unig beth mae dinasyddion yn ei ddweud, ond beth mae hyn yn ei olygu i'r Bwrdd Iechyd: lle mae adborth yn cael ei drosi'n newid, lle mae themâu'n parhau i fodoli a pha sicrwydd pellach sydd ei angen bod gwelliant yn cael ei brofi'n gyson.

2. CEFNDIR

2.1 Beth mae dinasyddion yn ei ddweud wrthym: Prif themâu

Ar draws y dystiolaeth a oedd ar gael, y prif themâu yn ystod y cyfnod hwn oedd:

- Amseroedd aros a mynediad ar draws gofal wedi ei gynllunio, diagnosteg, gofal sylfaenol a deintyddiaeth y GIG
- Cyflyrau gofal brys ac argyfwng, capasiti ysbytai a llif cleifion
- Parhad a chydlynu gofal, yn enwedig wrth ryddhau cleifion a rhwng gwasanaethau
- Cyfathrebu, cymryd rhan a hyder yn y ffordd y gwneir penderfyniadau
- Mynediad yng nghefn gwlad, trafnidiaeth, allgáu digidol a dimensiynau eraill ar degwch

Mae'r themâu hyn yn gyson iawn ar draws gwahanol ffynonellau. Roedd gohebiaeth wleidyddol a sylwadau Llais fel arfer yn cyfeirio at amseroedd aros gofal wedi ei gynllunio, mynediad at ddeintyddiaeth y GIG, oedi o ran diagnosis, mynediad at iechyd meddwl a gofal trawsffiniol. Roedd y drafodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar ofal brys, capasiti gwelyau, rhyddhau a darpariaeth gymunedol. Amlygodd ymgysylltu uniongyrchol effeithiau ymarferol ac emosiynol ansicrwydd, teithio a diffyg parhad.

Ochr yn ochr â'r pryderon hyn, roedd pobl yn dweud dro ar ôl tro bod staff yn garedig, yn broffesiynol ac yn dosturiol. Roedd cyfweiliadau uniongyrchol â chleifion hefyd yn nodi glendid, esboniadau clir, cynnwys teuluoedd a gofal drwy'r Gymraeg fel cryfderau pwysig. Roedd ysbytai cymunedol, GIG 111, gofal parafeddygol yn y

cartref a gwasanaethau mewnwythiennol yn y gymuned ymysg y gwasanaethau ymatebol lleol a gafodd ganmoliaeth drwy'r ymgysylltu â Llais.

Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd ffynonellau sydd â gwahanol ddibenion a lefelau o gynrychiolaeth. Mae gohebiaeth wleidyddol, eiriolaeth ynghylch cwynion a chyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ennyn pryder na phrofiad cadarnhaol arferol; mae gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol yn werthfawr ond yn gymharol fach. Felly, dylid darllen y canfyddiadau fel gwybodaeth wedi ei thriongli am brofiad a risg sy'n codi dro ar ôl tro, yn hytrach nag fel mesur sy'n cynrychioli'r holl ofal yn ystadegol.

2.2 Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan

Rhwng 1 Ebrill 2026 a 30 Mehefin 2026, cafodd y Bwrdd Iechyd 16,387 o ymatebion i Arolwg Profiad Pobl Cymru Gyfan. O'r rhain, cwblhawyd 96.03% gan gleifion a 3.96% gan ofalwyr, aelodau o'r teulu neu eraill. At ei gilydd, roedd 86.61% o'r ymatebwyr yn siarad yn gadarnhaol ynghylch eu profiad o gael mynediad at wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Roedd 18.14% yn dweud ei fod yn 'dda' a 68.47% yn 'dda iawn'.

Fe wnaeth 73.52% o bobl rannu profiadau cadarnhaol o gwmpas yr amser roeddent wedi aros, gyda 29.94% o ymatebwyr yn dweud bod yr amser aros yn 'weddol gywir', 11.01% yn teimlo ei fod 'ychydig yn fyrrach na'r disgwyl' a 32.57% yn teimlo ei fod 'yn llawer byrrach na'r disgwyl'.

Yn ogystal, dywedodd 86.46% o'r ymatebwyr eu bod bob amser yn cael eu trin ag urddas a pharch, tra dywedodd 90.99% eu bod bob amser yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

Data arolwg allweddol arall:

- 75.35% o bobl 'bob amser' yn cael gofal da
- 79.31% o bobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnyn nhw 'bob amser'
- 77.40% o bobl yn cael eu cynnwys 'bob amser' mewn penderfyniadau am ofal
- 81.69% o bobl yn dweud bod pethau 'bob amser' cael eu hegluro iddynt mewn ffordd y gallent ei deall

Mae Arolwg Profiad Pobl GIG Cymru bellach ar gael i'r cyhoedd mewn naw o'r ieithoedd a siaredir amlaf yng Nghymru, ynghyd ag arolwg fideo iaith Arwyddion Prydain.

2.3 Profiad uniongyrchol y claf, dysgu a gwella

Yn ystod Chwarter 1, cynhaliodd y Gwasanaeth Profiad Pobl 27 o ymweliadau 'Care 2 Share' ar draws gwasanaethau aciwt, cymunedol ac arbenigol, gan glywed yn uniongyrchol gan fwy na 103 o gleifion, gofalwyr a staff. Y themâu cadarnhaol cryfaf

oedd gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfathrebu ac ymwneud clir, glendid, ansawdd bwyd mewn sawl maes a gwerthfawrogi gofal yn Gymraeg.

Roedd meysydd i'w gwella a oedd yn codi dro ar ôl tro yn cynnwys amseroedd ymateb i alwadau, cyfathrebu wrth dderbyn i'r ysbyty, trosglwyddo a rhyddhau, mynediad at fwyd a diod addas, ac argaeledd offer a meddyginiaethau. Cafodd adborth ei uwchgyfeirio'n uniongyrchol i'r timau clinigol a gweithredol perthnasol, gan arwain at weithredu'n brydlon. Roedd enghreifftiau'n cynnwys mynd i'r afael ag anghenion urddas a symudedd claf, cryfhau'r gwaith o reoli pryderon arlwyo a'r gloch-alw, gwella'r gwaith o nodi anghenion iaith Gymraeg, ac adolygu'r oedi gyda meddyginiaethau'n cyrraedd uned cemotherapi.

Mae mynediad at adborth hefyd wedi cael ei ehangu drwy bosteri cod QR ar draws y tri ysbyty aciwt a thrwy sicrhau bod llwybrau'r arolwg ar gael mewn naw iaith sy'n cael eu siarad yn gyffredin ac yn iaith Arwyddion Prydain. Adolygwyd 14 o ddogfennau gwybodaeth i gleifion drwy'r Panel Darllenwyr, a chyflwynwyd sesiynau ymwybyddiaeth o ddehongli i wasanaethau wedi eu targedu.

Mae rheolwyr ward a gwasanaethau yn cael adborth cleifion bob mis a disgwylir iddynt adolygu themâu a nodi gwelliannau priodol. Mae dysgu'n cael ei ystyried drwy Grwpiau Profiad Cleifion a Gofalwyr y Gymuned Iechyd Integredig a Gwasanaethau Arbenigol, gyda themâu ehangach a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu hadrodd drwy'r Grŵp Profiad Cleifion a Gofalwyr i'r Grŵp Cyflawni Ansawdd.

Mae adborth dinasyddion hefyd yn cyfrannu fwyfwy at gynllunio strategol a datblygu gwasanaethau, gan gynnwys y Strategaeth Deng Mlynedd, y Cynllun Gwasanaethau Clinigol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn ogystal â rhaglenni ymgysylltu a newid gwasanaethau penodol yn Nhywyn, Llannerch Banna, Prestatyn a'r Rhyl.

Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos y gall adborth lleol arwain at newid amserol ac ymarferol. Yr her barhaus o ran sicrwydd yw dangos bod dysgu sy'n digwydd dro ar ôl tro yn cael ei gyfuno, ei rannu a'i gynnal yn gyson ar draws gwasanaethau, a bod profiad dinasyddion yn dylanwadu ar flaenoriaethau ar draws y sefydliad yn ogystal â gwelliannau gweithredol lleol.

3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

Er mwyn cryfhau sicrwydd bod llais y dinesydd yn arwain at newid pendant, cyflwynir themâu allweddol i'r Pwyllgor Gweithredol sy'n deillio o ymgysylltu â dinasyddion yn ystod y cyfnod hwn, ochr yn ochr â'r camau a gymerwyd a'r arwyddion cynnar o effaith.

3.1 Amseroedd aros a mynediad at ofal

Dywedodd pobl: Arosiadau hir yw'r pryder mwyaf cyson o hyd ar draws gofal wedi ei gynllunio, diagnosteg a mynediad at wasanaethau. Roedd gohebiaeth wleidyddol

a sylwadau Llais yn cyfeirio at wasanaethau orthopedig, dermatoleg ac offthalmoleg yn benodol, yn ogystal ag oedi mewn profion diagnostig a chanlyniadau. Disgrifiodd pobl fwy o boen, ansawdd bywyd yn gwaethygu, canslo ar fyr rybudd a phryder pan nad oedd llawer o gyfathrebu am eu lle ar restr aros na beth fyddai'n digwydd nesaf.

Roedd ymgysylltiad Llais yn lleol yn Sir Ddinbych, a oedd yn cynnwys 165 o bobl rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026, yn atgyfnerthu'r themâu hyn. Nododd amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg, orthopaedeg a gastroenteroleg; anhawster cael mynediad at rai practisau meddygon teulu; a phobl yn methu cael gofal deintyddol ar y GIG. Mae hyn ochr yn ochr ag adroddiadau cadarnhaol o glinigau lleol prydlon a gwasanaethau cymunedol, sy'n dangos amrywiaeth mewn profiad yn ôl gwasanaeth a lle.

Mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn dal yn bryder mawr. Dywedodd pobl eu bod yn teithio'n bell, yn talu'n breifat neu'n mynd heb ofal, ac mae newidiadau sy'n gysylltiedig â chontract deintyddol newydd y GIG wedi achosi dryswch. Roedd adborth y cyhoedd ar gyfer yr Asesiad o Anghenion Fferyllol yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch timau fferylliaeth defnyddiol a gwybodus a'r gwasanaethau ehangach maent yn eu darparu. Fodd bynnag, cyfeiriodd pobl hefyd at giwiau hir, prinder stoc, oedi wrth ddosbarthu, oriau agor cyfyngedig ac absenoldeb gwasanaethau danfon.

Camau a gymerwyd:

Er mwyn lleihau amseroedd aros hir i bobl sy'n aros am apwyntiadau, mae'r Rhaglen Gofal wedi ei Gynllunio yn cydlynu 16 o fentrau gwella, gan gynnwys clinigau ychwanegol gyda'r nos ac ar benwythnosau, defnyddio capasiti allanol mewn arbenigeddau pwysedd uchel, dilysu rhestrau aros, atgyfeiriadau electronig, Llwybrau Iechyd Cymunedol, trefniadau archebu wedi eu moderneiddio a datblygu dull gweithredu 'Un Rhestr Aros' ar draws y Bwrdd Iechyd. Yn ystod Chwarter 1, dilyswyd dros 31,000 o lwybrau cleifion, gan arwain at gau bron i 8,000 o lwybrau; cyflwynwyd atgyfeiriadau electronig ar draws 10 arbenigedd; darparwyd 228 o Lwybrau Iechyd Cymunedol; a chyflawnodd teledermosgopi gyfradd rhyddhau o 66%.

Mae'r camau hyn yn cyfrannu at ryw faint o welliant mesuradwy. Rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Mai 2026, gostyngodd nifer y bobl a oedd yn aros mwy na dwy flynedd am driniaeth 76%. Roedd y nifer a oedd yn aros y tu hwnt i'r targed diagnostig wyth wythnos hefyd wedi gostwng 52% rhwng mis Ionawr a mis Mai 2026, o 21,800 i 10,461. Fodd bynnag, cynyddodd y rhestr aros gyffredinol yn ystod mis Ebrill a mis Mai, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gyfrif am gyfran anghymesur o'r amseroedd aros hiraf yng Nghymru. Gan hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i drosi mwy o weithgarwch a rheoli llwybrau'n well yn amseroedd aros sy'n gyson fyrrach a phrofiad gwell i gleifion.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn i leihau amseroedd aros, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnig cymorth i bobl wrth iddynt aros am asesiad neu driniaeth. Mae gwybodaeth

ac adnoddau hunanreoli ar gael drwy'r rhaglen 'Aros yn Iach' / 'While You Wait', sy'n rhoi cyngor ar reoli symptomau, cynnal llesiant a chael gafael ar gymorth priodol wrth aros am ofal. Y nod yw helpu pobl i reoli effaith arosiadau hir a gwella dealltwriaeth o ba gymorth sydd ar gael yn ystod y cyfnod hwn.

Er mai bwriad y camau hyn yw lleihau amseroedd aros a gwella'r profiad o aros, mae'r adborth yn dal i dynnu sylw at faterion cyfathrebu ac ansicrwydd fel meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

3.2 Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Dywedodd pobl: Mae gofal brys a gofal mewn argyfwng yn parhau i gael eu cysylltu ag arosiadau hir, gorlenwi, gofal yn y coridor a diffyg cysur ac amwynderau sylfaenol. Er bod yr ohebiaeth wleidyddol yn cynnwys llai o achosion yn yr Adran Achosion Brys nag ym mis Ionawr i fis Mawrth, roedd adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru am Ysbyty Glan Clwyd wedi arwain at drafodaeth gyhoeddus newydd a hanesion personol o bobl yn aros yn hir, oedi cyn rhyddhau cleifion a phrofiadau gwael.

Roedd trafodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol yn aml yn cysylltu pwysau'r Adran Achosion Brys ag argaeledd gwelyau, oedi cyn rhyddhau cleifion a chapasiti adsefydlu neu gamu i lawr cyfyngedig. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, cofnododd y gwaith monitro 6,651 o ymgysylltiadau yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd, a chafodd 77% ohonynt eu categoreiddio fel rhai negyddol. Nid yw hwn yn arolwg barn cynrychiadol, ond mae'n ddangosydd defnyddiol o ddwystr a chyfeiriad trafodaethau ar-lein yn ystod y cyfnod.

Er gwaethaf rhwystredigaeth, roedd pobl yn gwahaniaethu'n gyson rhwng perfformiad y system a staff rheng flaen, gan fynegi cefnogaeth i nyrsys, meddygon, parafeddygon a chydweithwyr eraill sy'n gweithio dan bwysau.

Camau a gymerwyd:

Mae'r Cynllun Gwella Gofal Brys ac Argyfwng wedi cael ei adnewyddu o gwmpas tair blaenoriaeth: Rhyddhau i Adfer ac Asesu, eiddilwch ac ymgysylltu clinigol. Mae cynlluniau 90 diwrnod, penodol i'r safle, ar waith, wedi eu hategu gan oruchwyliaeth wythnosol dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredol a monitro trosglwyddo o ambiwlansiau yn fanylach, arosiadau 12 awr, amser brysennu ac amser cyn cael asesiad clinigol.

Mae'r camau gweithredol sydd ar waith yn cynnwys cryfhau cydymffurfiaid â throsglwyddo o ambiwlansiau drwy well goruchwyliaeth weithredol; trefniadau staffio a diogelwch cryfach ar gyfer cleifion sy'n cael gofal mewn ardaloedd heb eu dynodi; gweithredu'r weithdrefn Aros Ymlaen yn raddol; adolygu staffio o ran y galw brig; gweithredu achos busnes yr Adran Achosion Brys; a gweithio i greu gofod asesu

clinigol ychwanegol. Mae'r dull Aros Ymlaen yn Ysbyty Maelor Wrecsam wedi arwain at welliant ym mherfformiad trosglwyddo o ambiwlansiau, ac mae'r amser cyn asesiad clinigol uwch yn dangos tuedd sy'n gwella.

Mae uwch arweinydd wedi cael ei benodi'n ddiweddar yn Gyfarwyddwr Adfer ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad cryfach ar draws y rhanbarth, gan sbarduno gwelliant a thrawsnewid i wella llif a diogelwch cleifion. Mae Gofal Brys ac Argyfwng yn ymestyn ymhell y tu hwnt i Adrannau Achosion Brys, felly bydd y cynlluniau'n dod â chydweithwyr a phartneriaid at ei gilydd ar draws y llwybr cyfan i ddarparu gwell gofal i gymunedau.

Mae hyn yn parhau i fod yn her gymhleth i'r system gyfan, ac er bod rhywfaint o gynnydd wedi ei wneud, mae angen gwelliant parhaus pellach. Mae'r rhaglen yn parhau i ganolbwyntio ar lif a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ei gyfanrwydd fel y brif ffordd o wella diogelwch, urddas a phrofiad mewn Adrannau Achosion Brys. Er na fydd y camau hyn yn dileu pryderon ar unwaith am ofal mewn coridorau na chysur cleifion sy'n aros am ofal, dylai lleihau oedi a gwella llif cleifion leihau'r pwysau sy'n cyfrannu at y materion hyn. Bydd angen rhagor o sicrwydd bod cleifion yn gweld gwelliannau mewn perfformiad drwy ofal mwy amserol, urddasol a chyfforddus.

3.3 Parhad, cydlynu a rhyddhau

Dyweddodd pobl: Mae pontio rhwng gwasanaethau yn bwynt bregusrwydd sy'n codi dro ar ôl tro. Disgrifiodd cleifion ansicrwydd wrth symud rhwng adrannau, gwybodaeth gyfyngedig am yr hyn a fyddai'n digwydd nesaf a phryderon nad oeddent bob amser yn cael eu cydnabod. Adroddodd Llais bryderon am gydlynu gofal canser, gofal ar ôl rhyddhau, gofal diwedd oes a chydabod a chynnwys gofalyr di-dâl wrth gynllunio trefniadau rhyddhau.

Mae Adroddiad Gweithgarwch Gwasanaeth Profiad y Bobl Chwarter 1 yn rhoi enghreifftiau cyferbyniol o gydlynu ar y pwynt rhyddhau. Mae stori 'Dying Matters' yn disgrifio gofal diwedd oes tosturiol a chydgyssylltiedig a ddarperir gan Dîm Gofal Ychwanegol Môn, Canolfan Iechyd Biwmares a Nyrsys Ardal. I'r gwrthwyneb, mae stori'r 'Esgid Goll' yn tynnu sylw at golli urddas a pharhad a brofwyd pan gafodd unigolyn hŷn ei rhyddhau i ofal preswyl heb un o'i hesgidiau hi.

Mae Gwasanaeth Profiad y Bobl wedi bwydo pryderon ynghylch pontio a rhyddhau yn uniongyrchol i arweinwyr gweithredol, ac mae Llais yn parhau i godi'r angen i ofalwyr gael eu nodi a'u cynnwys. Mae ehangu ap AiDi a chymorth llyfrgell digidol i oedolion sy'n ofalwyr yng Ngwynedd yn ddatblygiadau cadarnhaol, ond nid ydynt yn disodli cyfranogiad cyson rhwng unigolion mewn penderfyniadau rhyddhau.

Camau a gymerwyd:

Mae adolygiadau rhyddhau ar draws y system, dan arweiniad y Weithrediaeth, bellach yn cael eu cynnal bob wythnos, wedi eu hategu gan ddilysu rhestrau cleifion sydd wedi eu dal yn ôl a dangosfwrdd newydd sy'n tynnu sylw at achosion o Oedi yn y Llwybr Gofal.

Mae'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol wedi datblygu dull gweithredu a phwrpas cyffredin gyda'r bwriad o gryfhau cydberchnogaeth ar ryddhau a mynd i'r afael ag oedi ar draws ffiniau sefydliadol.

Mae camau pellach yn cynnwys cyflymu adolygiadau o gleifion sy'n aros am fwy na 21 diwrnod, gwreiddio archwiliadau llif, cryfhau'r defnydd o egwyddorion Rhyddhau i Adfer ac Asesu a Chartref yn Gyntaf, a datblygu llwybrau rhyddhau sy'n cael eu harwain gan feini prawf i wardiau rhithwir, Ysbytai yn y Cartref a chlinigau poeth.

Bu gwelliant o fis i fis ers mis Ebrill o ran oedi yn y tri ysbyty aciwt, ond nid yw hyn wedi cael ei ailadrodd eto mewn ysbytai cymunedol, ac mae nifer y diwrnodau a gollir oherwydd oedi yn dal yn anwadal. Gan hynny, mae'r ffocws presennol ar wreiddio arferion rhyddhau cyson a dangos bod gwell llif yn cyd-fynd â gwell cyfathrebu a chynnwys i gleifion a gofalwyr.

3.4 Cyfathrebu, cymryd rhan a hyder

Dyweddodd pobl: Mae cyfathrebu yn nodwedd o ofal unigol ac yn ffactor sy'n dylanwadu ar hyder yn y sefydliad. Mae pobl yn gwerthfawrogi esboniadau clir a chael eu cynnwys mewn penderfyniadau, ond yn disgrifio gorbryder pan fydd gwybodaeth yn cael ei hoedi, yn anghyson neu'n anodd ei llywio. Adroddodd Llais hefyd am anfodlonrwydd â rhai ymatebion i gwynion ac am drafferth dod o hyd i'r pwynt cyswllt cywir.

Roedd yr ymgysylltu ynghylch newidiadau arfaethedig i ffiniau Prestatyn lach yn dangos hyn yn glir. Roedd cleifion yn poeni am barhad perthnasoedd, trosglwyddo cofnodion a phresgripsiynau, mynediad at wasanaethau arbenigol presennol, gallu practisiau derbyn ac effaith ymarferol teithio ychwanegol. Roedd rhai'n cwestiynu a oedd y penderfyniad eisoes wedi ei wneud, ac a fyddai eu barn yn dylanwadu ar y canlyniad o ddifri.

Camau a gymerwyd:

Fel yr amlinellir yn adran 2.3, mae'r Bwrdd Iechyd yn ehangu mynediad at adborth ac yn defnyddio profiad uniongyrchol cleifion i gynorthwyo gwelliannau ymarferol ar lefel gwasanaeth. Ochr yn ochr â hyn, mae dysgu yn sgil ymgysylltu yn llywio sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfathrebu ac yn cynnwys pobl wrth ddatblygu cynigion gwasanaeth.

O ran Prestatyn Iach, trefnwyd sesiynau ymgysylltu pellach ar ôl i'r cyfathrebu cychwynnol achosi dryswch a phryder. Rhoddwyd gwybodaeth gliriach i gleifion am statws y cynnig, trosglwyddo cofnodion a phresgripsiynau, parhad cymorth arbenigol a diogelu mynediad at feddygon teulu. Mae pryderon ynghylch trafndiaeth a hygyrchedd hefyd wedi cael eu nodi i'w hystyried drwy'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd y gwersi a ddysgir hyn yn llywio newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, yn enwedig yr angen i egluro cynigion yn gynnar ac yn glir, ac osgoi creu'r argraff bod penderfyniadau eisoes wedi cael eu gwneud.

3.5 Trafndiaeth, tegwch a mynediad yng nghefn gwlad

Dywedodd pobl: Mae daearyddiaeth wledig yn gwaethygu problemau mynediad. Disgrifiodd y dinasyddion bellteroedd teithio hir, trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig, anawsterau parcio mewn ysbytai, gwasanaethau lleol bregus a heriau o ran cael gafael ar ofal sylfaenol, deintyddiaeth, diagnosteg a gwasanaethau arbenigol. Mynegodd pobl hŷn bryder hefyd ynghylch y defnydd cynyddol o systemau digidol ac a oes dewisiadau amgen ystyrlon nad ydynt yn ddigidol yn dal ar gael.

Mae briff iechyd gwledig a baratowyd ar gyfer Prif Swyddog Meddygol Cymru yn nodi ffactorau strwythurol ehangach, gan gynnwys amddifadedd cudd, fforddiadwyedd tai, pwysau tymhorol, recriwtio a chadw'r gweithlu, cysylltedd digidol ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae hefyd yn tynnu sylw at gryfder ymatebion sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gan gynnwys cynlluniau trafndiaeth, hybiau llesiant, rhaglenni gweithgarwch corfforol a chymorth iechyd meddwl yn y gymuned.

Camau a gymerwyd:

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod natur wledig yr ardal yn parhau i greu rhwystrau sylweddol o ran cael gafael ar ofal, gan gynnwys pellteroedd teithio hir, opsiynau trafndiaeth cyfyngedig, anawsterau cael gafael ar rai gwasanaethau a'r risg o allgáu digidol. Ni ellir mynd i'r afael â'r heriau hyn yn gyflym ac mae llawer yn adlewyrchu ffactorau daearyddol, demograffig a seilwaith ehangach. Fodd bynnag, mae rhaglenni gwaith yn cael eu datblygu i wella mynediad lleol a lleihau'r angen i deithio lle bynnag y bo modd.

Mae'r rhaglen Cymunedau drwy Ddylunio yn dod â gwaith at ei gilydd gyda'r bwriad o ddarparu mwy o ofal yn nes at y cartref, cryfhau cyfraddau atal a lleihau dibyniaeth y gellir ei hosgoi ar wasanaethau ysbyty. Sicrhawyd cyllid cenedlaethol ac mae'r blaenoriaethau cychwynnol yn cynnwys gofal cymunedol brys a gofal cymunedol yr un diwrnod, rheoli cyflyrau hirdymor ac atal. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu Canolfannau Diffyg Anadl a model eiddilwch, ac mae timau Gofal Sylfaenol, Radioleg a Phrofion Pwynt Gofal yn asesu cyfleoedd i ehangu gwaith diagnosteg gymunedol.

Mae gwaith gofal brys cysylltiedig yn cynnwys datblygu model Un Pwynt Mynediad, gweithredu Fframwaith Ymateb i Gwympiadau yn y Gymuned a darparu cymorth atal codymau i gartrefi gofal. Bwriad y datblygiadau hyn yw gwella mynediad lleol a

lleihau teithio diangen neu bresenoldeb diangen mewn ysbytai, yn enwedig yn achos pobl hŷn a phobl sy'n fwy agored i niwed.

Er mai megis dechrau mae llawer o'r cynlluniau hyn o hyd ac nad yw manteision mesuradwy wedi eu dangos eto, maent yn cynrychioli dull tymor hwy o fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau gwledig o ran mynediad at ofal. Ni ellir datrys yr holl faterion a godwyd drwy wasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn unig, a bydd angen parhau i gydweithio â sefydliadau partner i fynd i'r afael â heriau ehangach sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, cysylltedd digidol a seilwaith cymunedol.

Gan hynny, bydd angen ystyried natur wledig, trafnidiaeth, allgáu digidol, anghenion o ran y Gymraeg a mynediad at lwybrau ymarferol nad ydynt yn ddigidol yn benodol drwy gynllunio ar sail lleoedd ac asesu effaith newidiadau i wasanaethau unigol.

3.6 Gofal tosturiol a chryfderau i adeiladu arnynt

Dywedodd pobl: Ar draws yr holl ffynonellau tystiolaeth, roedd pobl yn parhau i gydnabod caredigrwydd, parch a phroffesiynoldeb staff. Disgrifiodd cleifion staff yn cymryd amser i egluro gofal, cynnwys teuluoedd a'u gweld fel unigolion. Roedd gofal Cymraeg yn cynyddu cysur a hyder, ac roedd amgylcheddau glân a chroesawgar yn hwb i ymdeimlad o ddiogelwch.

Canmolwyd gwasanaethau ymatebol yn y gymuned hefyd, gan gynnwys ysbytai cymunedol Rhuthun a Dinbych, GIG 111, gofal parafeddygon yn y cartref, gwasanaethau mewnwythiennol cymunedol a'r Clinig Diagnosis Cyflym yn Ysbyty Gwynedd. Cyflwynwyd tri deg naw o wobrau Dydd Gwener Teimlo'n Dda yn ystod y chwarter, gan ddarparu llwybr ychwanegol ar gyfer cydnabod timau a rhannu profiadau cadarnhaol.

Mae'r cryfderau hyn yn darparu sylfaen bwysig ar gyfer gwella, gyda chyfle pellach i nodi beth sy'n galluogi profiad cadarnhaol a lledaenu'r gwersi hyn a dysgwyd yn fwy cyson ar draws gwasanaethau.

4. YMGYSYLLTU AR DDATBLYGIADAU STRATEGAETH A GWASANAETH

Mae ymgysylltu yn llywio datblygiad strategol ar ddwy lefel gysylltiedig. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith a wnaed hyd yma wedi arwain y Bwrdd Iechyd i ddod â'r Strategaeth Deng Mlynedd a'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol at ei gilydd fel portffolio cynllunio strategol integredig, gyda chysylltiad cliriach rhwng uchelgais strategol, y model clinigol yn y dyfodol a chyflawni. Bydd safbwyntiau rhanddeiliaid yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth strategol a'r achos dros newid, gyda rhagor o ymgysylltu wedi ei gynllunio ynghylch dewisiadau strategol a chyfaddawdau, blaenoriaethau a chanlyniadau, y Strategaeth Deng Mlynedd ddrafft a'r Model Clinigol fydd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol. Mae Bwrdd Rhaglen Cynllunio Strategol ar y cyd a threfniadau ymgysylltu, cynghori a sicrwydd ategol yn cael eu sefydlu i oruchwylio'r gwaith hwn.

Mae ymgysylltu hefyd yn siapio datblygiadau gwasanaeth strategol unigol. Mae ymgynghoriad Ysbyty Cymunedol Llannerch Banna bellach yn mynd rhagddo ac mae'n cynnwys sesiynau galw heibio a chyfarfodydd cymunedol, ac mae ymgysylltu parhaus yn Nhywyn wedi bod yn ceisio casglu barn trigolion drwy gydol y flwyddyn a'r haf. Yn Ysbyty Brenhinol Alexandra, mae ymgysylltu â staff a diweddariadau rheolaidd yn ategu gwaith cynllunio gweithredol ar gyfer Cam 1.

Mae gwaith ymgysylltu Prestatyn Iach yn enghraifft dda o adborth yn dylanwadu ar gynnig sy'n datblygu. Mae proses wyth wythnos wedi cynnwys cyfathrebu uniongyrchol ag aelwydydd yr effeithir arnynt, pedwar digwyddiad cymunedol, llwybrau ar-lein, dros y ffôn, e-bost ac ysgrifenedig, sesiynau staff ac ymgysylltu â Llais, cynrychiolwyr etholedig, practisau meddygon teulu a rhanddeiliaid cymunedol. Mae adborth am fynediad at feddygon teulu, parhad gofal, teithio a thrafnidiaeth yn llywio'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac ystyried diwygiadau i ffiniau, darpariaeth amgen a threfniadau gweithredu cyn i'r cynnig terfynol gael ei gyflwyno er mwyn penderfynu arno.

Gyda'i gilydd, mae'r gweithgarwch hwn yn dangos dull gweithredu sy'n datblygu lle mae ymgysylltu'n cyfrannu at ddewisiadau strategol, dylunio gwasanaethau a lliniaru.

5. SICRWYDD I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO, IECHYD Y BOBLOGAETH A PHARTNERIAETHAU

Mae adborth dinasyddion yn cael ei gasglu drwy amrywiaeth gynyddol o ffynonellau, ac mae cysondeb themâu ar draws arolygon, ymgysylltu uniongyrchol, sgysiau cymunedol, gohebiaeth wleidyddol ac adroddiadau Llais yn rhoi darlun credadwy o'r prif faterion sy'n ymwneud â phrofiad. Ceir tystiolaeth bod adborth yn cynhyrchu newid ymarferol ar lefel gwasanaeth a'i fod yn cyfrannu fwyfwy at gynllunio strategol a datblygu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae angen rhagor o sicrwydd bod dysgu cylchol yn cael ei rannu, ei gynnal a'i drosi'n systematig fel bod modd gweld gwelliannau cyson ar draws y sefydliad,

6. ARGYMHELLION

6.1 Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd wneud y canlynol:

- **NODI'R** themâu allweddol yn yr adborth gan ddinasyddion.
- **CYDNABOD** llais y dinesydd o ran llunio penderfyniadau ac amcanion ar lefel sefydliadol, yn ogystal â gwelliannau gweithredol.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	4. Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiad
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Pobl yn Gyntaf Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Mae llawer o'r themâu a amlygir yn y papur hwn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r risgiau presennol ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Iechyd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRR). Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud â mynediad amserol ac amseroedd aros, ansawdd a diogelwch gofal, cadernid y gweithlu, anghydraddoldebau iechyd, ac enw da/hyder y cyhoedd. Mae'r adborth gan ddinasyddion a gyflwynir yma yn atgyfnerthu meysydd sydd eisoes wedi eu nodi fel risgiau strategol ac yn darparu rhagor o dystiolaeth i lywio mesurau lliniaru a sicrwydd.
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru Iachach Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do / Yes: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y papur hwn, gan ei fod yn darparu crynodeb strategol o adborth dinasyddion yn hytrach na chynnig neu weithredu newidiadau penodol i wasanaethau. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel y bo'n briodol i gefnogi cynigion i newid gwasanaethau unigol.
	Do / Yes: ☐	Naddo / No: ☒

Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Canlyniad/Outcome: Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Nid oes angen Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol ar gyfer y papur hwn, gan ei fod yn darparu crynodeb strategol o adborth dinasyddion yn hytrach na chynnig neu weithredu newidiadau penodol i wasanaethau.
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Diwylliant a Gwerthfawrogi Pobl Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Meysydd Ansawdd Domains of Quality Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru Iachach	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod If more than one applies, please list:	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog	Do / Yes: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	

A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog: Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do / Yes: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do / Yes: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Mae risg i enw da ac i hyder y cyhoedd mewn perthynas ag amseroedd aros, capasiti gwelyau, prinder staff, gofal coridor ac oedi gydag ambiwlansys, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrwydd prydlon, cyfathrebu ffeithiol clir, a mynd i'r afael â chamwybodaeth i gynnal hyder y cyhoedd a lleihau ansicrwydd	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

Y Bwrdd Iechyd

PROSIECT CAM 1 YSBYTY BRENHINOL ALEXANDRA: ADRODDIAD CYNNYDD

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Jacqueline Casson, Rheolwr Rhaglen Stephanie O'Donnell, Rheolwr Rhaglen
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Stuart Keen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I Gynnig Sicrwydd

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae'r papur hwn yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch cynnydd Rhaglen Ddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA) ac yn cynnig sicrwydd bod y rhaglen yn parhau i gael ei rheoli a'i chyflawni'n effeithiol.

Cynhaliwyd Adolygiad o Sicrwydd ynghylch y Prosiect (PAR) gan Lywodraeth Cymru rhwng 24 a 26 Awst 2026, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, cyfwelwyd â 18 o randdeiliaid ac adolygwyd 49 o ddogfennau'r rhaglen. Nodai'r PAR bod canlyniad yr asesiad yn 'Ambr' ar y cyfan, gan ddatgan:

*Mae canlyniad yr Asesiad o Hyder ynghylch y Gallu i Gyflawni (DCA) ar gyfer Asesiad PAR prosiect Cam 1 Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA) yn **Ambr**. Mae hynny'n golygu yr ymddengys bod cyflawni llwyddiannus yn ddichonol, ond mae anawsterau sylweddol eisoes yn bodoli ac maent yn gofyn am sylw gan reolwyr. Ymddengys y gellir datrys y rhain ar hyn o bryd, ac os eir i'r afael â hwy yn ddi-oed, ni ddylent achosi gwariant gormodol/arafu amserlen y prosiect.*



Argymhelliad: Gall y prosiect symud ymlaen i'r cam nesaf ag amodau, ond rhaid i'r prosiect reoli pob amod sy'n gysylltiedig ag amser yn foddhaol o fewn yr amserlen gytunedig.

Dyma'r adolygiad PAR cyntaf o'r prosiect, ac fe wnaeth y Tîm Adolygu ganfod fod hyder yn yr elfen adeiladu; mae costau cyflawni rhagamcanol ar y trywydd iawn i allu parhau o fewn y cyllid a gymeradwywyd ar gyfer yr Achos Busnes Llawn (FBC), gan gynnwys arian wrth gefn, ond ceir rhywfaint o risg yn ymwneud â'r amserlen gyflawni a'r proffil gwariant rhagamcanol. Fe wnaeth y Tîm Adolygu ganfod bod hyder o ran cyflawni yn is yn yr agweddau cynllunio gwasanaethau; roedd gweithgarwch gwasanaeth, gweithlu ac ariannol wedi'i ohirio i bob pwrpas nes byddai'r model gwelyau ail-alluogi wedi'i gymeradwyo. Roedd y Tîm Adolygu hefyd yn bryderus ynghylch gwydnwch cyffredinol llywodraethu'r prosiect, yn sgil diffyg SRO wedi'i benodi, yr angen i symleiddio byrddau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau, a sicrhau cefnogaeth gan uwch swyddogion yn y sefydliad i allu bwrw ymlaen â chynllunio gwasanaethau.

Fe wnaeth y Tîm Adolygu ganfod bod staff rheoli cyfalaf, gwasanaethau a phrosiectau, ynghyd â chynghorwyr cyfalaf cysylltiedig a'r prif bartner cyflawni, yn canolbwyntio ar gyflawni ac wedi ymroddi i sicrhau llwyddiant, gan gynnig lefel dda o wydnwch o ran cyflawni.

Y Rhaglen

- Cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a'r cerrig milltir allweddol o ran cyflawni gan Fwrdd Rhaglen YBA ym mis Awst 2026. Dechreuodd y contractwyr symud i'r safle ar 27 Gorffennaf 2026, ac fe wnaeth MTX feddiannu'r safle a dechrau'r gwaith dymchwel ar 17 Awst 2026.
- Mae cynllunio parodrwydd i weithredu yn parhau i fynd rhagddo ochr yn ochr â'r rhaglen ddatblygu, ac mae ffrydiau gwaith Modelu Gwasanaethau, Staffio, Cyllid a Buddion, Offer, ac Ymgysylltu ar y gweill.
- Mae gwaith i ynysu cyflenwadau'r holl gyfleustodau wedi'i gwblhau, ac mae cebl trydan foltedd isel wedi'i symud.
- Mae Adeilad Edith Vizard – ble'r oedd y clinigau Deintyddiaeth Gymunedol a Seicoleg Glinigol yn ogystal â swyddfeydd gweinyddol – wedi cael ei wagio'n llwyddiannus; mae gwaith dymchwel wedi dechrau, ac mae trefniadau parcio amgen wedi'u rhoi ar waith ar gyfer cleifion a staff.
- Mae ymgysylltiad staff yn parhau trwy gyfathrebu rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd misol gyda rhanddeiliaid, diweddariadau ar hysbysfyrdau, cynnwys ar dudalen we bwrpasol a blwch post y rhaglen.
- Mae gwaith yn parhau i ddatblygu'r ffrydiau gwaith sy'n ymwneud ag Offer, Refeniw a Budd-daliadau, y Gweithlu a Modelau Gwasanaethau.
- Mae'n argoeli y caiff gwaith adeiladu'r rhaglen ei gwblhau erbyn 13 Medi 2027, a rhagwelir y caiff y claf cyntaf ei weld ar 5 Tachwedd 2027.

Cyllid

Nodir proffil cyllid cyfalaf y rhaglen isod:






Cyfanswm y Buddsoddiad Cyfalaf: £33.586 miliwn, yn cynnwys:

- £23.173m o Raglen Cyfalaf Cymru Gyfan
- £10.413m o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ail-gydbwysu (ICRF)

£M	2025-2026	2026-2027	2027-2028
Cyllideb	£0	£24,579,000	£12,282,000
Gwariant Hyd yn Hyn	£1,377,423	£40,000	
Gwariant a Ragwelir hyd at Ddiwedd y Flwyddyn	£1,377,423	£18,749,000	

Risgiau ac Anawsterau:

Bydd y rhaglen yn olrhain Risgiau ac Anawsterau, yn cynnwys y Risgiau o ran Cyfalaf y cyfrifir eu costau, trwy gyfrwng dangosfwrdd a gaiff ei adolygu'n fisol. Isod, amlinellir dangosyddion allweddol y Dangosfwrdd ar gyfer Awst 2026:



Y risgiau a'r materion canlynol yw'r eitemau â'r sgôr uchaf yng Nghofrestr Risgiau'r Rhaglen, gan gynnwys pob risg sydd â sgôr o 16 neu fwy ar hyn o bryd a'r camau gweithredu cysylltiedig. Rhestru anawsterau sydd â sgorau uwch wedi'r adran hon.

Risgiau

Rhif	Disgrifiad	RAG	Mesur Lliniaru/y Diweddariad Diweddaraf
3	Gall oedi o ran cyflawni gwaith Scottish Power Energy Networks (SPEN) effeithio'n negyddol ar amserlenni'r rhaglen a pheryglu cyflawni cerrig milltir allweddol y prosiect.	20	Ymgysylltwyd yn rheolaidd â SPEN i sicrhau y gwnaiff y gwaith gofynnol ynghylch y cyflenwad trydan fynd rhagddo.
4	Gall oedi wrth nodi digon o gyllid cylchol effeithio ar fforddiadwyedd y model gwasanaethau ac achosi pwysau ariannol heb ei ddatrys i'r Bwrdd Iechyd.	16	Mae gwaith ar y cyd ag Arweinwyr yr IHC yn parhau i nodi a sicrhau cyllid refeniw cylchol.
6	Gallai oedi wrth gadarnhau'r model clinigol ar gyfer y cyfleuster â gwelyau effeithio ar recriwtio a defnyddio'r gweithlu, a cheir goblygiadau posibl o ran amserlenni'r rhaglen a chostau refeniw cylchol.	16	Yng nghyfarfod Bwrdd y Rhaglen ym mis Awst, cymeradwywyd adolygiad o ddichonoldeb y model gwelyau arfaethedig, a chynhaliwyd gweithdy penodol i lywio argymhellion.
8	Gall oedi neu ddiffyg perfformiad gan awdurdodau statudol effeithio ar gyflawni'r rhaglen, gan arwain at gostau uwch ac oedi o ran cyflawni cerrig milltir allweddol.	16	Mae ymgysylltu â Dŵr Cymru, Gwasanaethau Prifffyrdd ac awdurdodau statudol eraill yn parhau i allu cyflawni cymeradwyaethau ac amodau cynllunio sydd heb eu cwblhau ar hyn o bryd.

Anawsterau

Disgrifiad	Datrysiad/Mesur Lliniaru
Mae diffyg trefniadau olyn pendant ar gyfer rôl yr Uwch Berchennog Cyfrifol wedi creu ansicrwydd o ran arwain a llywodraethu'r rhaglen a gwneud penderfyniadau.	Wedi'i uwchgyfeirio at sylw'r Prif Weithredwr a'i godi mewn trafodaethau â thîm y PAR
Mae'r gofyniad i sicrhau cyllid refeniw cyn recriwtio, ynghyd â'r angen i bennu gofynion yn ymwneud â'r gweithlu cyn y gellir cwblhau cyllidebau, wedi creu dibyniaeth gylchol sy'n effeithio ar y gallu i weithredu gwasanaethau a chynllunio'r gweithlu.	Mae gwaith ar y gweill i gadarnhau amseriad trosglwyddo cyllidebau ac i nodi trefniadau ariannu dros dro i gynorthwyo i recriwtio a chychwyn defnyddio'r gweithlu cyn trosglwyddo'r gwasanaethau.

Mae diffyg Cyfarwyddwr parhaol yn IHC y Canol wedi creu ansicrwydd ynghylch perchnogaeth y model clinigol a'r trefniadau yn ymwneud â chyllid refeniw, gan effeithio ar arweinyddiaeth y rhaglen a'r broses gwneud penderfyniadau.	Mae trefniadau arweinyddiaeth rhanbarthol wedi'u cadarnhau. Bydd angen cadarnhau Arweinyddiaeth Glinigol y rhaglen a'r atebolrwydd am ei chyllid refeniw.
--	---

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad / Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Staff YBA	3ydd Dydd Gwener Bob Mis	Mae cyfarfod briffio misol trwy gyfrwng MS Teams a digwyddiadau wyneb yn wyneb rheolaidd yn cynorthwyo i ymgysylltu â staff. Mae hynny'n cynnig diweddariadau ynghylch cynnydd y rhaglen, gan gynnig cyfle i staff ofyn cwestiynau a mynegi pryderon ar yr un pryd. Cynigir ymatebion i ymholiadau a godwyd yn flaenorol hefyd, gan sicrhau cyfathrebu rheolaidd, tryloywder ac ymgysylltu drwy gydol proses cyflawni'r rhaglen.
Tîm Prosiect Cam 1 YBA	Dydd Mawrth 1af Bob Mis	Mae Tîm Prosiect YBA yn cynorthwyo i sicrhau ymgysylltu rheolaidd rhwng timau'r Bwrdd Iechyd, contractwyr a phartneriaid cyflawni, gan gynnig dull ar gyfer cynllunio, datrys problemau a monitro cynnydd ar y cyd.
Grŵp Parodrwydd i Weithredu YBA	4ydd Dydd Mawrth Bob Mis	Bydd y Grŵp Parodrwydd i Weithredu yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i gynorthwyo i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i sicrhau y bydd gwasanaethau yn barod i ddechrau gweithredu.
Ymgysylltu ag Awdurdodau Statudol	Yn parhau	Ymgysylltu â Dŵr Cymru, Scottish Power Energy Networks (SPEN), yr Adran Priffyrdd a

		Chyngor Sir Ddinbych i gynorthwyo i gyflawni amodau'r caniatâd cynllunio, cwblhau gwaith yn ymwneud â chyfleustodau a chyflawni'r rhaglen.
PAR Llywodraeth Cymru	24 - 26 Awst 2026	Adolygiad annibynnol ynghylch sicrwydd yn cynnwys cyfweiliadau â rhanddeiliaid ac adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen.
CCB BIPBC	29 Gorffennaf 2026	Cyflwynwyd gwybodaeth am gynnydd y rhaglen, y buddion i'r gymuned a chynlluniau at y dyfodol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Bwrdd Iechyd ar 29 Gorffennaf 2026.
Ymgynghoriad Cyhoeddus ynghylch y Caniatâd Cynllunio	Ymgynghoriad Cyhoeddus yn para mis yn cychwyn ar 15 Awst 2025	Ar 15 Awst 2025, dechreuwyd ymgymryd ag ymgynghoriad cyhoeddus yn para pedair wythnos fel rhan o broses y cais am ganiatâd cynllunio. Gwahoddwyd rhanddeiliaid i gynnig adborth ynghylch y cynigion, ac roedd tudalen we bwrpasol ar gyfer y prosiect a digwyddiad galw heibio ar gyfer y cyhoedd i ategu hynny.

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms

PAR	Adolygiad o Sicrwydd ynghylch Prosiect
SPEN	Scottish Power Energy Network
YBA	Ysbyty Brenhinol Alexandra
IHC	Cymuned Iechyd Integredig
SRO	Uwch Berchennog Cyfrifol
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CCB	Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
SPSCG	Grŵp Strategol Cynllunio a Newid Gwasanaethau
ADP	Cynllun Cyflawni Blynnyddol



CAM 1 YSBYTY BRENHINOL ALEXANDRA: ADRODDIAD CYNNYDD

1.0 Y SEFYLLFA

- 1.1** Mae cam adeiladu Rhaglen Datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA) wedi cychwyn, ac mae gwaith dymchwel bellach yn mynd rhagddo ac mae gweithgareddau i baratoi i ddechrau gweithredu yn mynd rhagddynt ar yr un pryd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad ynghylch cyflawni'r rhaglen ar gyfer y Bwrdd a sicrwydd bod y cerrig milltir, y risgiau a'r ffactorau cyddibynnol yn dal i gael eu rheoli'n weithredol.

2.0 CEFNDIR

2.1 Cyd-destun a Gwreiddiau'r Mater

Mae Rhaglen Ddatblygu Ysbyty Royal Alexandra (YBA) yn rhaglen i fuddsoddi cyfalaf strategol er mwyn gallu cynnig gwasanaethau iechyd a gofal newydd ac estynedig ar gyfer cymunedau Gogledd Sir Ddinbych. Mae'r rhaglen wedi cyrraedd carreg filltir arwyddocaol, oherwydd mae'r cam Adeiladu wedi cychwyn, ac mae gwaith i Baratoi i Ddechrau Gweithredu yn digwydd ar yr un pryd, ac felly, cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Bwrdd er mwyn cynnig sicrwydd ynghylch cynnydd, risgiau, anawsterau a threfniadau cyflawni.

2.2 Hanes neu Duedd Berthnasol

Sicrhawyd caniatâd cynllunio i fwrw ymlaen â'r datblygiad ym mis Rhagfyr 2025 yn sgil rhaglen o waith i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Cadarnhawyd cymeradwyaeth a chyllid gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror eleni. Dechreuodd y contractwyr symud i'r safle ar 27 Gorffennaf 2026, a dechreuodd y gwaith dymchwel ar 17 Awst 2026. Cymeradwywyd y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a'r cerrig milltir allweddol ar gyfer cyflawni'r rhaglen gan Fwrdd Rhaglen YBA ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r rhaglen yn parhau ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith adeiladu ym mis Medi 2027 ac i ddechrau cynnig gwasanaethau ym mis Tachwedd 2027.

2.3 Cysylltiadau â thrafodaethau blaenorol y Bwrdd / Pwyllgor / Grŵp

Mae'r Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau (SPSCG) wedi cael diweddariadau rheolaidd ynghylch cynnydd Rhaglen Ddatblygu YBA drwy drefniadau llywodraethu ac adrodd sefydledig. Yn ogystal, caiff y rhaglen ei goruchwyllo gan Fwrdd Rhaglen YBA â chymorth gan Dîm y Prosiect a Grŵp Parodrwydd i Weithredu, sy'n monitro cynnydd, risgiau, materion a chyddibyniaethau allweddol.

2.4 Fframwaith Statudol / Rheoleiddiol

Caiff y rhaglen ei chyflawni yn unol â gofynion llywodraethu cyfalaf Llywodraeth Cymru a rhwymedigaethau cynllunio statudol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgymryd ag Adolygiad o Sicrwydd ynghylch y Prosiect rhwng 24 a 26 Awst 2026. Fe wnaeth yr adborth cychwynnol amlygu cynnydd cadarnhaol a chynnig cyfarwyddyd defnyddiol, ac rydym yn disgwyl am yr adroddiad terfynol ffurfiol.

2.5 Perthnasedd i'r Sefydliad

Mae'r rhaglen yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd drwy wella mynediad at wasanaethau gofal iechyd, galluogi modelau gofal newydd ac estynedig, a chyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd. Mae'r rhaglen hefyd yn cynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau ehangach y sefydliad sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau, cynaliadwyedd a chynnig gofal yn nes at gartrefi cleifion.

2.6 Crynodeb o'r Camau a Weithredwyd Hyd yn Hyn

Mae cynnydd sylweddol wedi'i gyflawni hyd yn hyn, gan gynnwys y contractwr yn symud safle i ddechrau'r gwaith adeiladu a dymchwel, cwblhau gwaith i ynysu cyflenwadau cyfleustodau, symud cebl trydan foltedd isel, adleoli defnyddwyr Adeilad Edith Vizard a dechrau'r gwaith dymchwel. Mae gweithgareddau i baratoi i fod yn barod i weithredu yn parhau ar yr un pryd, ac maent yn cynnwys cynllunio'r gweithlu, modelu gwasanaethau, cynllunio ariannol ac olrhain buddion, cynllunio a chaffael offer ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac ategir y gwaith hwn gan drefniadau sefydledig i lywodraethu'r rhaglen.

Mae Dangosfwrdd diweddaraf y Rhaglen wedi'i gynnwys yn Atodiad A, i gynnig rhagor o fanylion.

3.0 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

3.1 Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r cynnydd a'r diweddariadau rheolaidd drwy law'r Grŵp Cynllunio Strategol a Newid Gwasanaethau (SPSCG).

3.2 Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y trefniadau i sicrhau olyniaeth o ran rôl yr Uwch Berchennog Cyfrifol, a chefnogi sefydlu trefniadau arwain parhaol er mwyn sicrhau parhad o ran goruchwyllo a llywodraethu'r rhaglen, gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd am y Modelau Refeniw a Chlinigol.

4.0 RISGIAU ALLWEDDOL / ANAWSTERAU Y DYLLID EU HUWCHGYFEIRIO

4.1 Mae Cofrestr Risgiau ac Anawsterau'r Rhaglen yn nodi risgiau ac anawsterau y mae'n rhaid eu rheoli'n weithredol.

4.2 Nodir y Risgiau Allweddol isod:

Rhif	Disgrifiad	RAG	Mesur Lliniaru/y Diweddariad Diweddaraf
3	Gall oedi o ran cyflawni gwaith Scottish Power Energy Networks (SPEN) effeithio'n negyddol ar amserlenni'r rhaglen a pheryglu cyflawni cerrig milltir allweddol y prosiect.	20	Ymgysylltwyd yn rheolaidd â SPEN i sicrhau y gwnaiff y gwaith gofynnol ynghylch y cyflenwad trydan fynd rhagddo. Mae datrysiaid diwygiedig ar gyfer cynllunio'r gwaith a chynnig ynghylch y costau cysylltiedig wedi'u derbyn, ac mae'r trefniadau masnachol yn cael eu cwblhau.
4	Gall oedi wrth nodi digon o gyllid cylchol effeithio ar fforddiadwyedd y model gwasanaethau ac achosi pwysau ariannol heb ei ddatrys i'r Bwrdd Iechyd.	16	Mae gwaith yn parhau i nodi a sicrhau cyllid refeniw cylchol. Mae ffynonellau cyllid posibl wedi'u nodi, ac mae rhagor o waith ar y gweill i fynd i'r â gweddill y cyllid sy'n ofynnol ac i ddiweddarau'r model ariannol wrth i'r broses cynllunio gwasanaethau ddatblygu.
6	Gallai oedi wrth gadarnhau'r model clinigol ar gyfer y cyfleuster â gwelyau effeithio ar recriwtio a defnyddio'r gweithlu, a cheir goblygiadau posibl o ran amserlenni'r rhaglen a chostau refeniw cylchol.	16	Yng nghyfarfod Bwrdd y Rhaglen ym mis Awst, cymeradwywyd adolygiad o ddichonoldeb y model gwelyau arfaethedig, a chynhaliwyd gweithdy penodol i lywio argymhellion. Mae gwaith yn parhau i asesu dichonoldeb y prosiect, yn weithredol ac yn ariannol.
8	Gall oedi neu ddiffyg perfformiad gan awdurdodau statudol effeithio ar gyflawni'r rhaglen, gan arwain at gostau uwch ac oedi o ran cyflawni cerrig milltir allweddol.	16	Mae ymgysylltu â Dŵr Cymru, Gwasanaethau Prifffyrdd ac awdurdodau statudol eraill yn parhau i allu cyflawni cymeradwyaethau ac amodau cynllunio sydd heb eu cwblhau ar hyn o bryd. Mae anawsterau yn ymwneud â'r cais cynllunio a nodwyd gan Dŵr Cymru yn cael eu datrys ar hyn o bryd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cytundeb ynghylch cynllun y groesfan arfaethedig.

5.0 ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Bwrdd:

- **NODI** cynnydd Rhaglen Ddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra (YBA)

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	3. Gwella Mynediad, Deilliannau a Phrofiad
Link to Strategic Intentions	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hwy isod: 1. Ffocws ar Iechyd a Lles
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Pobl yn Gyntaf Cynllunio Cynhwysol Gwario'n Ddoeth Tegwch a Hygyrchedd
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi cynnig tystiolaeth i gadarnhau 'ystyriaeth briodol' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (y Ddyletswydd Gyffredinol): Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome: Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Cydraddoldeb 2010 - y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi cynnig tystiolaeth i gadarnhau 'ystyriaeth briodol' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome: Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:	

	If no, please include rationale:	
<i>Ydych chi wedi cwblhau Asesiad Integredig o'r Effaith ar Gydraddoldeb (WP8a)?</i> WP8a Template	Do/Yes: ☒ Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome: Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	Naddo/No:
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Y Ddeddf Hawliau Dynol <i>A ydych chi wedi ymdrin â phryderon yn ymwneud â'r Ddeddf Hawliau Dynol yn WP8a?</i>	Do/Yes: ☒ Canlyniad/Outcome: Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	Naddo/No: ☐
Cydymffurfiaeth â gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg <i>A ydych chi wedi ymgymryd ag Asesiad o'r Effaith?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☐
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	

Cydymffurfiaeth â'r gofyniad i sicrhau 'Ystyriaeth Briodol' ynghylch Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A ydych chi wedi ymdrin ag egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog yn WP8a?</i>	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome: Mae Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd wedi'u cwblhau i gynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Mae Pob Un yn Berthnasol Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru Iachach Cymru Fwy Cyfartal Cymru o Gymunedau Cydlynus.	
Effaith ar yr Amgylchedd / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Nac oes - Amherthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome: Mae'r holl Asesiadau o Effaith wedi'u cwblhau i	

Data Protection Impact Assessment <i>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</i>	gynorthwyo i ddatblygu'r rhaglen ac i wneud penderfyniadau.	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Mae natur yr adroddiad hwn yn hollol weinyddol a chaiff ei gyflwyno er gwybodaeth yn unig. Ni weithredir dyletswyddau cysylltiedig y sector cyhoeddus (nid oes unrhyw effeithiau cysylltiedig ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig).
Cyfreithiol Legal	Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol yn ymwneud â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Oes (Cynhwyswch ragor o fanylion isod)	
	Disgwylir i'r rhaglen ddylanwadu'n gadarnhaol ar enw da'r Bwrdd Iechyd, gan amlygu ymrwymiad y Bwrdd i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwella mynediad at wasanaethau gofal iechyd o ansawdd uchel i gymunedau lleol.	
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Resource Impact (People / Financial)	Oes (Cynhwyswch ragor o fanylion isod)	
	Disgwylir effaith sylweddol ar y gweithlu ac ar adnoddau ariannol, gan gynnwys recriwtio aelodau o'r staff (41 WTE) a sefydlu cyllidebau refeniw cylchol newydd i gynorthwyo i gynnig gwasanaethau newydd ac estynedig.	



ATODIAD A: DANGOSFWRDD Y RHAGLEN YM MIS AWST

Dangosfwrdd Cyfarwyddwr Rhaglen Ysbyty Brenhinol Alexandra Awst2026

1. Crynodeb Gweithredol

Cam 1:
Mae paratoadau ar gyfer yr Adolygiad Sicrwydd Prosiect ar y gweill; mae'r amserlen wedi'i chadarnhau ac mae ffiliau'n cael eu rhannu â Llywodraeth Cymru.
Mae gwaith adeiladu paratoadol ar y gweill. Cynhaliwyd gwaith ynysu trydanol ar ddechrau mis Awst, a chytunwyd ar symud cebl Foltedd Isel gyda'r Adran Ystadau a SPEN; bydd y gwaith hwn yn digwydd ddydd Sadwrn 15 Awst.
Mae tîm MTX wedi dechrau gosod y safle ac mae ffensys diogelwch yn cael eu codi o amgylch y safle.
Bydd y contractwr dymchwel yn dechrau ar y safle ar 17/08/26.
Mae gwerthusiadau technegol a masnachol ar gyfer gwaith TEF wedi'u cwblhau.
Mae'r adroddiad ar Ganlyniadau Caffael ar gyfer gwaith TEF yn cael ei ddilyn i fyny.
Mae'r broses o symud clinigau allan o adeilad Edith Vizard wedi'i drefnu. Cytunwyd ar gynlluniau i ddarparu llety ar gyfer staff gweinyddol ac un Seicolegydd Clinigol yn adeilad RAH. Mae dau aelod o staff yn dymuno aros yn adeilad Edith Vizard; mae Asesiad Risg wedi'i gynnal a'i rannu gyda'r tîm a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyl ar gyfer Gofal Sylfaenol.
Mae ymgysylltu â staff yn parhau. Cafwyd ymatebion i ymholiadau a godwyd yn uniongyrchol ac drwy'r cyfeiriad e-bost adborth, sy'n cael ei fonitro. Mae hysbysfyrddau dwyieithog wedi'u diweddarau ar draws y safle ac mae galwadau 'Teams' misol i staff wedi'u trefnu.
Cyflwynwyd y Rhaglen i'r SPSCG ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ddiwedd mis Gorffennaf, a chafwyd adborth cadarnhaol.
Mae swyddi'r Uwch Swyddog Cyfrifol a'r Cyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig yn wag. Bydd y Cyfarwyddwr Ystadau ac Amgylchedd yn cadeirio bwrdd y rhaglen ac yn arwain y broses PAR ar gyfer y Bwrdd Iechyd.

Cam 2:
Mae Cam 2 RAH wedi'i ohirio yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, tra'n aros i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus ynghylch cyflawni Cam 1

2. Er gwybodaeth / I'w adrodd / I'w benderfynu gan Fwrdd y Rhaglen

Diffyg cadarnhad o Uwch-swyddog Cyfrifol a Chyfarwyddwr Cymuned Iechyd Integredig

Yr angen i ailgyfeirio'r system ddraenio

3. Risgiau Mwyaf

Diwygiadau i fodlu gwasanaethau, e.e. y cyfleuster gyda gwelyau	16
Costau refferniw ychwanegol ar gyfer cyllidebau Cymunedau Iechyd Integredig	16
Risg o oedi oherwydd ail-lwybro cebl foltedd isel	16
Risg o oedi oherwydd argaeledd tîm yr Ystadau ar gyfer gwaith ynysu cyn dymchwel	16
Risg o oedi yn ymwneud â chwrdd â dyddiadau SPEN	12
Risg o oedi oherwydd awdurdodau statudol	12

4. Sefyllfa Crynodeb Risg

Risk Tiers and Review				Risk Score Changes	
Tier	Score	Frequency	No. Risks		
1	score 15-25	Monthly	5	No. of Risks Improved	6
2	score 9-12	Bimonthly	6	No. of Risks Deteriorated	8
3	score <8	Quarterly	41	No. of Risks Unchanged	43


5. Cerrig Milltir sydd i Ddod

Gwagio Edith Vizard	14/08/26	
Ail-lwybro cebl foltedd isel	15/08/26	
Dechrau'r gwaith dymchwel	17/08/26	
Pwer MTX ar waith	13/07/27	
Cwblhau MTX	13/09/27	
Claf Cyntaf	05/11/27	

6. Cynllunio Ariannol


£M	2025-2026	2026-2027	2027-2028
Cyllideb	£0	£24,579,000	£12,282,000
Gwariant hyd yma	£1,377,423	£40,000	
Rhagolwg hyd at ddiwedd y flwyddyn	£1,377,423	£18,749,000	

7. Crynodeb Ariannol





Llwybr Critigol Ysbyty Brenhinol Alexandra





Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		03/09/2026	Adroddiad: Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau - BIPBC	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr oedi cenedlaethol parhaus o ran gweithredu'r Cofnod Gofal Iechyd Electronig. Tynnodd y Pwyllgor sylw at y goblygiadau cysylltiedig o ran diogelwch cleifion i gleifion yng Ngogledd Cymru. • Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar oedi i'r rhaglen System Rheoli Gwybodaeth Labordai genedlaethol. Er bod yr elfen microbioleg wedi cael ei rhoi ar waith ar 24 Awst 2026, mae oedi cenedlaethol parhaus yn effeithio ar gamau dilynol, gan greu risgiau i gymorth systemau etifeddol a gwydnwch gweithredol yn nes ymlaen yn y flwyddyn ariannol. Nododd yr aelodau y cynlluniau wrth gefn a wnaed gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a byrddau Iechyd eraill, a gofynnwyd am sicrwydd bod y mesurau lliniaru'n parhau'n gadarn. Cytunodd y Pwyllgor y dylid tynnu sylw'r Bwrdd at y mater, ochr yn ochr â phryderon ehangach ynghylch dibyniaethau cenedlaethol sy'n effeithio ar amcanion trawsnewid digidol. • Mae anghydraddoldebau Iechyd sylweddol yn parhau ledled Gogledd Cymru. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith Llesiant, Atal ac Angori Gogledd Cymru a menter Marmot Place Sir Ddinbych a gofynnodd am ddiweddariad cynnydd chwe mis ar gyflawni, canlyniadau a dysgu. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd y byddai'r gwaith hwn yn cael ei integreiddio i'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth Deng Mlynedd a'r modelau Clinigol ar gyfer y dyfodol.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Matrics Aeddfedrwydd Cynllunio ar ran y Bwrdd.	

		- Nododd y Pwyllgor y cynnydd sylweddol a wnaed mewn perthynas â chodio clinigol, gyda'i effaith yn cael ei hadlewyrchu drwy adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. - Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am newid ffin Prestatyn Iach a chafodd sicrwydd bod ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd wedi digwydd, gyda'r cynnig terfynol yn cael ei ddiwygio mewn ymateb i adborth gan y gymuned. Roedd yr aelodau'n cydnabod hyn fel enghraifft gadarnhaol o ymgysylltu ystyrlon sy'n cefnogi darpariaeth gofal sylfaenol gynaliadwy ar draws clwstwr Gogledd Sir Ddinbych.
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau hysbysu'r Bwrdd am y canlynol: - Mae angen rhagor o sicrwydd mewn perthynas â meysydd yn y Cynllun Cyflawni Blyneddol nad ydynt ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni ar hyn o bryd. Trafododd y Pwyllgor yr angen i newid y dull o adrodd, er mwyn sicrhau bod pob pwyllgor yn cymryd atebolrwydd am y camau gweithredu yn ei Gynllun Cyflawni Blyneddol, a chael sicrwydd ynghylch camau cywiro ac amserlenni ar gyfer meysydd o fewn ei gylch gorchwyl; gan dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw risgiau uchel. - Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd cadarnhaol sy'n cael ei wneud ar draws y portffolio Digidol, Data a Thechnoleg, gan gynnwys gwelliannau sylweddol mewn perfformiad codio clinigol, gweithredu rhaglenni digidol allweddol yn llwyddiannus, a chyflawni achrediad y Sefydliad Desgiau Gwasanaeth, gan wneud BIPBC y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru ac yn un o ddim ond nifer fach o sefydliadau yn y DU i dderbyn y gwybodaeth hon. - Hoffai'r Pwyllgor weld adolygiad o Strategaeth Ystadau Archwilio Cymru fel y gall ystyried sut y gallai unrhyw argymhellion lywio'r adolygiad o'r Strategaeth Ystadau bresennol. - Treuliodd y pwyllgor amser yn ystyried nifer o'r meysydd galluogi y bydd angen eu siapio i fodloni'r Strategaeth Deng Mlynedd a'r model Gwasanaethau Clinigol sy'n cael ei ddatblygu – ystadau, digidol, iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldeb iechyd.
2d	Adolygu Risgiau	Derbyniwyd y risgiau fel rhan o'r agenda Cydsyniad.
2e	Rhannu gwersi	Nid oedd unrhyw wersi i'w rhannu.
3	Camau i'w hystyried gan	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau i fonitro Gwasanaethau Diogelu Iechyd o safbwynt ansawdd.

	Bwyllgorau eraill	Y Pwyllgor perthnasol i fonitro ac adolygu camau gweithredu'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol sy'n dod o dan ei gylch gorchwyl.
--	-------------------	---

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD CYNNYDD AR OFAL BRYD AC ARGYFWNG

Dyddiad y Cyfarfod	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi	Agored/Cyhoeddus
	Ddim yn Berthnasol
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad	Bridget Elliott, Cyfarwyddwr Adfer Gofal Brys ac Argyfwng
Enw a theitl yr Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol	Carol Shillabeer, Prif Weithredwr

Pwrpas yr Adroddiad	Er sicrwydd
----------------------------	-------------

Crynodeb Gweithredol

Ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud o ran ymateb i arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC), gan weithredu'r buddsoddiad gofal brys ac argyfwng (UEC) a gymeradwywyd gan y Bwrdd, a datblygu Cynllun Gwella UEC cynhwysfawr.

Mae'r camau gweithredu a gymerwyd ar unwaith wedi canolbwyntio ar gryfhau diogelwch cleifion, ansawdd a goruchwyliaeth weithredol drwy wella monitro gweithredol, buddsoddi yn y gweithlu, gwella trefniadau llif cleifion a gweithdrefnau gweithredu safonol. Mae'r hyn a ddysgwyd o'r arolygiad wedi cael ei adolygu a'i gymhwyso ar draws holl adrannau brys y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwreiddio camau gweithredu sy'n deillio o arolygiad AGIC yn benodol mewn Rhaglen Gwella UEC ehangach, gan gydnabod bod llawer o'r materion a nodwyd yn adlewyrchu heriau hirsefydlog ar draws y system sy'n ymwneud â llif cleifion, capasiti'r gweithlu, prosesau rhyddhau ac arweinyddiaeth weithredol. Mae'r dull hwn yn darparu un fframwaith ar gyfer sicrhau gwelliannau cynaliadwy i ansawdd, diogelwch, mynediad, llif a phrofiad cleifion ledled Gogledd Cymru.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r buddsoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026, gyda'r ffocws nawr yn symud o gynllunio i gyflawni, ac effaith fesuradwy. Bydd Cynllun Gwella Gofal Brys ac Argyfwng, sydd i fod i gael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Medi 2026, yn darparu rhaglen waith

gyfunol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cynlluniau lleol y Gymuned Iechyd Integredig a gofynion rheoleiddio. Ochr yn ochr â'r Adroddiad Perfformiad Integredig, bydd y cynllun gwella yn rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd, risgiau, perfformiad ac effeithiolrwydd camau gwella. Ochr yn ochr â datblygu'r cynllun gwella, mae gwaith hefyd wedi canolbwyntio ar gryfhau'r trefniadau llywodraethiant presennol ar gyfer rhaglen UEC, gan gynnwys y cynnig am fforwm pwrpasol i gydlynu gwelliannau gofal brys ac argyfwng yn gyson ar draws y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys sefydlu Grŵp Cyflawni Gweithredol Craidd UEC bob pythefnos a datblygu Model Gweithredu UEC ar draws BIPBC, wedi'i gefnogi gan set o safonau craidd. Nod y trefniadau hyn yw gwella cysondeb, atebolrwydd, gafael gweithredol ac aliniad â rhaglenni trawsnewid ehangach.

Er bod cynnydd da wedi'i wneud, mae gwelliant yn parhau i fod yn ansicr ac mae llawer o heriau sylfaenol yn parhau. Bydd llwyddiant parhaus yn cael ei bennu gan welliannau amlwg i ddiogelwch cleifion, profiad cleifion, mynediad, llif a pherfformiad gweithredol.

Gofynnir i'r Bwrdd oruchwylio'r ddarpariaeth yn ofalus a cheisio sicrwydd bod buddsoddiad cymeradwy, camau gwella a gofynion AGIC yn cael eu rhoi ar waith yn llawn, bod risgiau'n cael eu rheoli'n weithredol, a bod gwelliannau mesuradwy'n cael eu cyflawni a'u cynnal.

Gofynnir i'r Bwrdd:

- **NODI'R** cynnydd a wnaed mewn ymateb i arolygiad AGIC yn YGC.
- **NODI'R** cynnydd o ran defnyddio'r buddsoddiad UEC a gymeradwywyd gan y Bwrdd, a datblygu Cynllun Gwella UEC.
- **CYMERADWYO'R** bwriad i gryfhau trefniadau llywodraethiant UEC, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cyflawni Gweithredol Craidd UEC.
- **CEFNOGI'R** gwaith o ddatblygu Model Gweithredu UEC ar draws BIPBC a Safonau Craidd UEC.
- **CAEL** sicrwydd parhaus drwy adrodd yn y dyfodol ar gyflawni, effaith, risgiau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Gwella UEC.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) hyd yma (gan gynnwys beth sydd wedi'i dderbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad	Canlyniad, Tystiolaeth a Data
Amh		

Acronymau / Geirfa

UEC	Gofal Brys ac Argyfwng
AB	Adran Brys
IHC	Cymuned Iechyd Integredig
AGIC	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
YGC	Ysbyty Glan Clwyd

ADRODDIAD AR GYNNYDD GOFAL BRYD AC ARGYFWNG

1. Y SEFYLLFA / SITUATION

- 1.1 Ers i'r Bwrdd gyfarfod ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2026, mae Gofal Brys ac Argyfwng (UEC) wedi parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau'r sefydliad.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb y Bwrdd Iechyd i arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC), y cynnydd o ran gweithredu'r buddsoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd i gefnogi gwelliannau, datblygu Cynllun Gwella UEC Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a chynigion i gryfhau trefniadau llywodraethiant i gefnogi darpariaeth gynaliadwy.

2 Y CEFNDIR / BACKGROUND

Ymateb i Arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

- 2.1 Canfu arolygiad AGIC bryderon sylweddol yn ymwneud â diogelwch cleifion, ansawdd a darpariaeth weithredol yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC). Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal gwell goruchwyliaeth weithredol ac wedi sefydlu rhaglen gydlynol o gamau gwella.
- 2.2 Mae'r camau a roddwyd ar waith hyd yma yn cynnwys trefniadau monitro ansawdd ac adolygu gweithredol cryfach, mwy o staff nyrsio a meddygol parhaol, gwelliannau mewn prosesau llif cleifion, cyflwyno gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer aros ymlaen a gofal mewn meysydd heb eu dynodi, a goruchwyliaeth weithredol ddyddiol fwy cyson. Mae adolygiadau ansawdd hefyd wedi cael eu cynnal ar draws holl adrannau brys y Bwrdd Iechyd yn erbyn y camau gweithredu uniongyrchol a nodwyd yn dilyn arolygiad AGIC i sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y sefydliad.
- 2.3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'n glir na ddylid rheoli'r ymateb i ganfyddiadau AGIC fel cynllun gweithredu rheoleiddiol annibynnol. Mae llawer o'r materion a nodwyd yn adlewyrchu pwysau ehangach a hirsefydlog ar draws y system gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys llif cleifion, capasiti'r gweithlu, trefniadau rhyddhau ac arweinyddiaeth weithredol. O ganlyniad, mae camau gweithredu sy'n deillio o'r arolygiad yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Gofal Brys ac Argyfwng ehangach i sicrhau bod gwelliannau o ran ansawdd, diogelwch, llif a chadernid gwasanaethau yn cael eu cyflawni drwy un rhaglen waith gydlynol.

3 **MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION**

Cyflawni Cynllun Gwella UEC a Buddsoddiad y Bwrdd

- 3.1 Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2026, roedd yn cydnabod maint a natur frys yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, ac fe gymeradwywyd buddsoddiad i gefnogi adferiad a gwelliant.
- 3.2 Ers y penderfyniad hwnnw, mae'r ffocws wedi symud o gymeradwyo i weithredu, gan sicrhau bod buddsoddiad y cytunwyd arno yn cael ei drosi'n gapasiti ychwanegol yn y gweithlu, trefniadau gweithredol cryfach a gwelliannau mesuradwy i ofal cleifion. Bydd y Bwrdd yn parhau i ofyn am sicrwydd bod y buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio yn ôl y bwriad a'i fod yn cyfrannu at welliannau cynaliadwy i ganlyniadau cleifion, diogelwch a pherfformiad gweithredol.
- 3.3 Mae Cynllun Gwella Gofal Brys ac Argyfwng y Bwrdd Iechyd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gyda chydweithwyr Gweithredol a disgwylir iddynt gytuno arno cyn diwedd mis Medi 2026. Mae'r cynllun yn sefydlu un fframwaith ar gyfer gwella gofal brys ac argyfwng ledled Gogledd Cymru ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cynlluniau lleol y Gymuned Iechyd Integredig (IHC), a chamau gweithredu sy'n deillio o arolygiad AGIC.
- 3.4 Mae'r Cynllun Gwella yn rhoi adroddiad cynhwysfawr o'r canlynol:
- 3.4.1 cynnydd yn erbyn camau gweithredu a cherrig milltir y cytunwyd arnynt
 - 3.4.2 gweithredu'r buddsoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd
 - 3.4.3 ymgorffori camau gweithredu sy'n deillio o arolygiad AGIC
 - 3.4.4 prif risgiau cyflawni a dibyniaethau
 - 3.4.5 tystiolaeth o'r effaith ar ansawdd, diogelwch, llif cleifion a phrofiad cleifion
 - 3.4.6 meysydd lle mae cynnydd yn parhau i fod yn annigonol neu lle mae angen ymyrraeth bellach.
- 3.5 Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried yr Adroddiad Perfformiad Integredig yn rhywle arall ar yr agenda hon. Mae'r adroddiad hwnnw'n darparu asesiad manwl o berfformiad gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys dangosyddion gweithredol, llwybrau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio dyblygu'r wybodaeth honno.
- 3.6 Felly, dylid darllen yr Adroddiad Perfformiad Integredig a Chynllun Gwella UEC gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi dealltwriaeth glir i'r Bwrdd o'r canlynol:

- 3.6.1 y sefyllfa bresennol o ran perfformiad
- 3.6.2 yr ymateb i ganfyddiadau AGIC yn Ysbyty Glan Clwyd
- 3.6.3 gweithredu'r buddsoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd, ac effaith y buddsoddiad hwnnw
- 3.6.4 cyflwyno rhaglen wella ehangach UEC
- 3.6.5 cynnydd o ran gwella ansawdd, diogelwch, llif cleifion a phrofiad cleifion
- 3.6.6 meysydd lle mae angen gwella neu ymyrryd ymhellach.

Cryfhau Trefniadau Llywodraethiant a Datblygu Model Gweithredu UEC

- 3.7 Wrth ddatblygu Cynllun Gwella Gofal Brys ac Argyfwng, daeth yn amlwg nad yw'r trefniadau llywodraethiant presennol yn darparu fforwm pwrpasol ar gyfer cydlynu a goruchwyllo datblygiad gweithredol gofal brys ac argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd.
- 3.8 O ganlyniad, nid oes un mecanwaith ar hyn o bryd ar gyfer diffinio, gweithredu a sicrhau gweledigaeth ar y cyd o ofal brys ac argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd. Ar ben hynny, mae Cyfarwyddwyr Cymuned Iechyd Integredig wedi bod yn arwain nifer o raglenni newid mawr, ac nid yw adnoddau Trawsnewid a Gwella'r Bwrdd Iechyd bob amser wedi cael eu halinio'n gyson i gefnogi'r ddarpariaeth ar draws y tair Cymuned Iechyd Integredig. Mae Bwrdd Rhaglen presennol UEC hefyd wedi wynebu heriau wrth ddiffinio a chytuno ar ei rôl a'i bwrpas.
- 3.9 Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, cynigir bod y strwythur llywodraethiant presennol yn cael ei gryfhau drwy sefydlu Grŵp Cyflawni Gweithredol Craidd UEC bob pythefnos. Byddai'r grŵp hwn yn darparu gafael, cydlyniant a goruchwyliaeth weithredol ar draws gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, a byddai'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu Model Gweithredu UEC Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y dyfodol.
- 3.10 Byddai'r model gweithredu arfaethedig yn sefydlu fframwaith sefydliadol cyffredin ar gyfer gofal brys ac argyfwng ar draws y Bwrdd Iechyd, wedi'i gefnogi gan gyfres o Safonau Craidd Gofal Brys ac Argyfwng BIPBC. Byddai'r safonau hyn yn diffinio disgwyliadau nad ydynt yn agored i drafodaeth sy'n ymwneud â mynediad, llif cleifion, osgoi derbyniadau, gofal brys, prosesau rhyddhau ac arweinyddiaeth. Y bwriad yw sicrhau mwy o gysondeb o ran ansawdd, perfformiad a phrofiad cleifion beth bynnag fo'u lleoliad, gan gadw digon o hyblygrwydd i ymateb i anghenion y boblogaeth leol ac amgylchiadau gweithredol.
- 3.11 Byddai'r trefniadau llywodraethiant arfaethedig hefyd yn cryfhau'r aliniad rhwng cyflawni gweithredol a rhaglenni gwella ehangach y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y Rhaglen Tair Colofn a Cymunedol o'r Cychwyn. Bydd cydweithio rheolaidd rhwng arweinwyr rhaglenni yn helpu i sicrhau bod

ffrydiau gwaith rhyngddibynnol yn cael eu cydlynu'n effeithiol, bod llai o ddyblygu a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon.

- 3.12 Yr uchelgais yw sefydlu un system gofal brys ac argyfwng ar draws BIPBC, a ddarperir drwy Gymunedau Iechyd Integredig sy'n ymateb yn lleol, gan weithredu i set gyffredin o safonau, llwybrau a chanlyniadau sy'n sicrhau bod pob dinesydd yn cael y gofal cywir, yn y lle cywir, y tro cyntaf.

4 **RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO**

5 **KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION**

Sicrwydd y Bwrdd a'r Camau Nesaf

- 5.1 Mae cynnydd graddol wedi bod ers mis Gorffennaf 2026, gan gynnwys cymryd camau gwella ar unwaith, cryfhau trefniadau goruchwyllo a datblygu fframwaith gwella mwy integredig. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod llawer o'r heriau sylfaenol sy'n wynebu UEC yn hirsefydlog a bod y gwelliant yn dal yn ansicr.
- 5.2 Nid cynhyrchu cynlluniau, dyrannu buddsoddiadau na chwblhau gweithredoedd unigol yn unig fydd yn profi llwyddiant. Bydd llwyddiant yn cael ei bennu gan a yw'r mesurau hyn yn arwain at welliannau parhaus a mesuradwy i ddiogelwch cleifion, profiad cleifion, mynediad, llif a pherfformiad gweithredol.
- 5.3 Felly, bydd angen i'r Bwrdd oruchwyllo'r ddarpariaeth yn ofalus a cheisio sicrwydd am y canlynol:
- 5.3.1 bod y buddsoddiad a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn cael ei weithredu yn ôl y bwriad
 - 5.3.2 bod cerrig milltir a chamau gwella y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni
 - 5.3.3 bod camau gweithredu sy'n deillio o arolygiad AGIC yn cael eu cwblhau'n llawn
 - 5.3.4 bod risgiau a rhwystrau rhag cyflawni yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio'n brydlon
 - 5.3.5 bod gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd, diogelwch, profiad cleifion a pherfformiad gweithredol yn cael eu cyflawni a'u cynnal.
- 5.4 Bydd angen parhau i ganolbwyntio ar lif cleifion, sefydlogrwydd y gweithlu, arweinyddiaeth glinigol, disgyblaeth weithredol a gweithio mewn partneriaeth os yw'r Bwrdd Iechyd am sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn gofal brys ac argyfwng a chyflawni'r safonau gofal a ddisgwyllir gan gleifion, staff a rheoleiddwyr.

6 ARGYMHELLION / RECOMMENDATIONS

6.1 Gofynnir i'r Bwrdd / The Board is asked to:

- **NODI'R** cynnydd a wnaed mewn ymateb i arolygiad AGIC yn YGC.
- **NODI'R** cynnydd o ran defnyddio buddsoddiad cymeradwy UEC, a datblygu Cynllun Gwella drafft UEC.
- **CYMERADWYO'R** bwriad i gryfhau trefniadau llywodraethiant UEC, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cyflawni Gweithredol UEC.
- **CEFNOGI'R** gwaith o ddatblygu Model Gweithredu UEC ar draws BIPBC a Safonau Craidd UEC.
- **CAEL** sicrwydd parhaus drwy adrodd yn y dyfodol ar gyflawni, effaith, risgiau a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Gwella UEC.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	3. Gwell Mynediad, Canlyniadau a Phrofiadau
Link to Strategic Intentions	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch isod:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	BAF25-01 Mynediad Amserol at Ofal Diogel ac Effeithiol i Gleifion BAF24-07 Mynediad Amserol at Ofal

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Do/Yes: ☒	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a? Templed WP8a	Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒
	Do/Yes:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	

	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Ydy/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Nac ydy/No: ☒
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Nac ydy/No: ☒
Cydymffurfiad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome: Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒
Mae'r gwelliannau llywodraethu, rheoli risg, cynllunio a goruchwyllo a ddisgrifir yn yr amcan hwn yn cryfhau elfennau **Cynllunio Ansawdd a Rheoli Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd yn benodol. I gleifion a staff, mae hyn yn golygu safonau mwy cyson, atebolrwydd cliriach a llwyfan mwy sefydlog ar gyfer gwella ansawdd yn y dyfodol ar draws y Bwrdd Iechyd.

Amcan 2: Datblygu Strategaeth a Newid Hirdymor

Trosolwg

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar drawsnewid hirdymor, gan gynnwys cynllunio strategol, iechyd y cyhoedd, gofal yn y gymuned, digidol a data, ystadau, gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth, a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu cyfeiriad strategol cliriach a chryfhau'r sylfeini ar gyfer newid cynaliadwy.

Y Gwelliannau Allweddol a Gyflawnwyd

1. Bwriad Strategol a Chynllun Gwasanaethau Clinigol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu **Bwriad Strategol ar gyfer Iechyd a Llesiant yng Ngogledd Cymru** newydd, wedi'i greu ar y cyd â staff, partneriaid, cleifion, gofalwyr a chymunedau. Mae hwn yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y canlynol:

- system iechyd sy'n fwy ataliol
- mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref.
- gwell cymorth i bobl sydd â chyflyrau hirdymor
- gwell mynediad, canlyniadau a phrofiad
- GIG modern, sydd wedi'i alluogi'n ddigidol

Bu'r Cynllun Gwasanaethau Clinigol yn mynd rhagddo, gyda Cham 1 wedi'i gyflawni'n rhannol, a bwriedir ymgymryd â gwaith datblygu llwybrau pellach ar gyfer Ch4.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Cynllun cliriach a mwy cydlynol ar gyfer sut y bydd gwasanaethau'n gwella dros y degawd nesaf, wedi'i lunio gan leisiau pobl leol.

2. Cynllunio a Chomisiynu

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei swyddogaethau cynllunio a chomisiynu, gan gynnwys:

- **Gwreiddio'r Fframwaith Cynllunio Integredig, gan sicrhau bod ansawdd, gweithlu, cyllid a pherfformiad yn cael eu hystyried gyda'i gilydd:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o gynllunio. Drwy edrych ar ansawdd, staffio, cyllid a pherfformiad fel un darlun cysylltiedig, gall y sefydliad wneud penderfyniadau mwy cytbwys sy'n cefnogi gofal diogel, effeithiol a chynaliadwy i gleifion.
- **Cryfhau'r gwaith o gynllunio capasiti a gallu:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn datblygu ei dimau cynllunio, gan wella capasiti a sgiliau arbenigol. Mae hyn yn galluogi'r sefydliad i ddeall anghenion iechyd lleol yn well, dylunio gwasanaethau o amgylch cleifion, ac ymateb yn fwy effeithiol i heriau a galw yn y dyfodol.
- **Bwrw ymlaen ag adolygiadau comisiynu, er gwaethaf newidiadau mewn arweinyddiaeth a heriau o ran capasiti:** Mae comisiynu'n cynnwys penderfynu pa wasanaethau y dylid eu darparu a sut y dylid eu cyflawni. Er gwaethaf newidiadau mewn arweinyddiaeth a phwysau ar gapasiti staff, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i fwrw ymlaen ag adolygiadau comisiynu allweddol. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod o ansawdd uchel, yn cynnig gwerth am arian, ac yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cleifion a chymunedau.
- **Paratoi ar gyfer allbynnau'r Matrics Aeddfedrwydd Cenedlaethol** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Matrics Aeddfedrwydd Cenedlaethol, sef adnodd cenedlaethol sydd wedi'i ddylunio i asesu pa mor dda

mae prosesau cynllunio a chomisiynu yn gweithio. Bydd y gwaith paratoi hwn yn helpu'r sefydliad i nodi cryfderau, tynnu sylw at feysydd i'w gwella, a pharhau i godi safon y gofal mae'n ei ddarparu.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n well ac sy'n fwy ymatebol i anghenion lleol ac sy'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir.

3. Ystadau a Chyfleusterau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bwrw ymlaen â sawl cynllun cyfalaf mawr, gan gynnwys:

- **Yr Ysgol Feddygol newydd:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gefnogi datblygiad yr Ysgol Feddygol newydd a fydd yn helpu i hyfforddi meddygon y dyfodol yn lleol. Disgwylir i'r buddsoddiad hwn gryfhau gweithlu'r dyfodol a gwella mynediad at ofal o ansawdd uchel i gleifion ar draws y rhanbarth.
- **Hybiau Cymunedol:** Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar greu Hybiau Cymunedol sy'n dod ag amrywiaeth o wasanaethau iechyd a llesiant at ei gilydd o dan yr un to. Bwriad yr hybiau hyn yw ei gwneud hi'n haws i bobl gael gafael ar gymorth yn nes at eu cartref a chael gofal sydd wedi'i gydlynw'n well yn eu cymunedau.
- **Gwella Amgylcheddau Clinigol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn uwchraddio meysydd clinigol i greu mannau mwy diogel, modern a chyfforddus i gleifion a staff. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu i reoli heintiau'n well, gwella profiad cleifion, a sicrhau bod cyfleusterau'n bodloni'r safonau presennol ar gyfer darparu gofal o ansawdd uchel.

Mae heriau o hyd mewn perthynas â'r canlynol:

- **Ailddatblygu Uned Ablett:** Mae heriau parhaus wedi effeithio ar y cynnydd o ran ailddatblygu Uned Ablett, gan gynnwys cymhlethdod y prosiect a'r angen am fuddsoddiad sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio drwy'r problemau hyn i sicrhau bod y cyfleusterau iechyd meddwl yn ddiogel, yn fodern ac yn addas i'r diben yn y dyfodol.
- **Risgiau Hinsawdd:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau cynyddol yn sgil risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, megis tywydd eithafol a'r angen i leihau allyriadau carbon. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn mae angen cynllunio a buddsoddi tymor hir i sicrhau bod yr adeiladau'n wydn, yn ynni-effeithlon, ac yn gallu cynnal gofal iechyd cynaliadwy.
- **Rhesymoli'r Ystâd:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu ei ystâd i sicrhau bod adeiladau'n cael eu defnyddio'n effeithiol a'u bod yn darparu gwerth am arian. Mae angen ymgymryd â gwaith cynnal a chadw sylweddol ar rai safleoedd, neu nid ydynt bellach yn addas ar gyfer darparu gofal iechyd modern. Mae hynny'n creu heriau wrth benderfynu ar y ffordd orau o'u defnyddio neu eu disodli gan sicrhau mynediad at wasanaethau ar yr un pryd.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gwell cyfleusterau mewn rhai ardaloedd, gyda chynlluniau clir i fynd i'r afael â heriau sydd wedi bodoli ers tro mewn perthynas â'r ystadau.

4. Digidol a Data

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran cryfhau'r seilwaith digidol a gallu data:

- **80% o ddyfeisiau wedi'u huwchraddio i Windows 11, gan wella diogelwch a pherfformiad:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi uwchraddio'r rhan fwyaf o'i gyfrifiaduron a dyfeisiau i Windows 11. Mae hyn yn sicrhau diogelwch cryfach, perfformiad cyflymach ac amgylchedd digidol mwy dibynadwy i staff, gan eu helpu i ddarparu gofal mwy diogel ac effeithlon.
- **Parhau i gyflwyno Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn electronig (ePMA), gan leihau camgymeriadau â meddyginiaethau:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ehangu'r defnydd o ePMA, sy'n disodli siartiau cyffuriau papur â system ddigidol. Mae hyn yn lleihau'r risg o gamgymeriadau â meddyginiaethau, yn gwella cyfathrebu rhwng timau clinigol, ac yn cefnogi rhagnodi mwy diogel i gleifion.
- **Cynnydd o ran caffael Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl:** Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar ddewis system cofnod iechyd electronig newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl. Bydd y system hon yn galluogi staff i gael gafael ar yr wybodaeth ddiweddaraf yn haws, a bydd hynny'n gwella'r gwaith o gydlyn gofal a chefnogi canlyniadau gwell i gleifion.
- **Rhoi dangosfwrdd IRIS ar waith, gan ddarparu data amser real i dimau clinigol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno dangosfwrdd IRIS sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i dimau clinigol at wybodaeth allweddol am lif cleifion, capasiti a galw. Mae hyn yn helpu staff i wneud penderfyniadau cyflymach a mwy gwybodus, ac mae'n gwella'r prosesau rheoli gwasanaethau yn gyffredinol.
- **Datblygu dadansoddeg ragfynegol a chynigion awtomeiddio:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu adnoddau digidol newydd sy'n defnyddio data i ragweld y galw yn y dyfodol ac awtomeiddio tasgau arferol. Nod y datblygiadau arloesol hyn yw rhyddhau amser staff, cefnogi ymyriadau cynharach, a helpu gwasanaethau i gynllunio'n fwy effeithiol.
- **Mae'r gwaith o gyflawni Cam 5 System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) wedi'i gynllunio ar gyfer Ch4:** Mae cam nesaf WPAS i fod i gael ei gyflawni yn Chwarter 4. Bydd y gwaith uwchraddio hwn yn gwella sut mae gwybodaeth am gleifion yn cael ei chofnodi a'i rheoli, gan gefnogi llwybrau llyfnach a phrosesau gweinyddol mwy effeithlon.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal mwy diogel a mwy effeithlon, llai o oedi, a gwell defnydd o amser staff.

5. Rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau **arbedion o £44.9 miliwn**, sydd dros ei darged o £40 miliwn. Mae'r arbedion hyn yn helpu i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen ac yn cefnogi sefydlogrwydd ariannol tymor hir. Mae hyn wedi'i gyflawni drwy:

- **Optimeiddio Meddyginiaethau:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu sut mae meddyginiaethau'n cael eu rhagnodi a'u defnyddio i sicrhau bod cleifion yn cael y triniaethau mwyaf effeithiol ar yr un pryd â lleihau gwastraff. Mae hyn yn cynnwys defnyddio meddyginiaethau gwerth gorau a gwella arferion rhagnodi i gefnogi ansawdd a fforddiadwyedd.
- **Lleihau Amrywiadau Diangen:** Mae gwaith wedi mynd rhagddo i sicrhau bod cleifion yn cael gofal cyson o ansawdd uchel lle bynnag y maent yn defnyddio gwasanaethau. Drwy leihau gwahaniaethau diangen yn y ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu, gall y Bwrdd Iechyd wella canlyniadau a gwneud gwell defnydd o adnoddau.
- **Gwella Effeithlonrwydd:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ffyrdd o symleiddio prosesau, lleihau oedi a gwneud gwell defnydd o amser staff a chyfarpar. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu gwasanaethau i redeg yn fwy esmwyth ac yn rhyddhau adnoddau i ail-fuddsoddi mewn gofal cleifion.
- **Cryfhau Llywodraethiant Ariannol:** Mae goruchwyliaeth ariannol gryfach a phrosesau gwneud penderfyniadau cliriach wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i reoli ei gyllideb yn fwy effeithiol. Mae hyn yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal iechyd cynaliadwy.
- **Cyflawni Prosiectau Gwerth sydd wedi ennill gwobrau:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu nifer o brosiectau arloesol sy'n gwella gofal cleifion yn ogystal â sicrhau arbedion. Mae rhai o'r mentrau hyn wedi cael cydnabyddiaeth yn genedlaethol am ddangos sut y gall gofal o ansawdd uchel a gwerth ariannol fynd law yn llaw â'i gilydd.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o adnoddau ar gael ar gyfer gofal rheng flaen, canlyniadau gwell, a gwasanaethau mwy cynaliadwy.

6. Cynllunio'r Gweithlu

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bwrw ymlaen â'r canlynol:

- **Y Fframwaith Cynllunio Gweithlu Strategol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei ddull hirdymor o gynllunio'r gweithlu. Mae'r fframwaith hwn yn helpu'r sefydliad i ddeall anghenion staffio yn y dyfodol, nodi bylchau, a sicrhau bod gan wasanaethau'r bobl iawn, gyda'r sgiliau iawn, yn y mannau iawn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.
- **Canllawiau Cynllunio Swyddi:** Mae canllawiau cynllunio swyddi diwygiedig wedi cael eu cyflwyno i gefnogi disgwyliadau cliriach a mwy cyson ar gyfer staff clinigol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod amser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn cefnogi dosbarthiad llwyth gwaith teg, ac yn gwella cydlynid cyffredinol o ran gofal cleifion.

- **Cynlluniau Lleihau Salwch:** Mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi cynlluniau wedi'u targedu ar waith i ostwng lefelau salwch staff. Mae'r rhain yn cynnwys gwell cefnogaeth ar gyfer llesiant staff, ymyrryd yn gynharach pan fydd problemau iechyd yn codi, a gwell mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol. Gall lefelau salwch is helpu i gynnal dilyniant mewn gofal a lleihau pwysau ar dimau.
- **19% o ostyngiad mewn defnydd o asiantaethau:** Mae'r Bwrdd lechyd wedi sicrhau gostyngiad sylweddol yn y defnydd o staff asiantaeth. Mae hyn yn golygu bod mwy o wasanaethau'n cael eu darparu gan dimau parhaol sy'n adnabod y sefydliad a'i gleifion yn dda. Mae lleihau'r ddibyniaeth ar asiantaethau hefyd yn gwella dilyniant mewn gofal ac yn helpu i reoli costau'n fwy effeithiol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Timau mwy sefydlog, gwell dilyniant mewn gofal, a gwell llesiant ymysg staff.

Effaith ar Gleifion a Staff

- Cyfeiriad strategol mwy clir.
- Gwella'r gyfatebiaeth rhwng adnoddau ac angen.
- Gwella'r gallu digidol.
- Gwasanaethau mwy cynaliadwy.
- Prosesau cynllunio a chomisiynu cryfach.
- Gwella sefydlogrwydd y gweithlu.

Heriau a'r hyn mae'r Bwrdd lechyd yn ei wneud yn eu cylch

- **Mae oedi â'r Cofnod lechyd Electronig yn genedlaethol wedi effeithio ar amserlenni, ac mae cynlluniau lliniaru ar waith:** Mae oedi cenedlaethol wrth gyflwyno'r system Cofnod lechyd Electronig newydd wedi effeithio ar amserlenni arfaethedig y Bwrdd lechyd ar gyfer gwelliannau digidol. Er mwyn lleihau'r effaith ar gleifion a staff, mae'r Bwrdd lechyd wedi rhoi cynlluniau lliniaru ar waith, gan gynnwys cryfhau'r systemau presennol ac addasu amserlenni prosiectau fel bod modd sicrhau cynnydd lle bo hynny'n bosibl.
- **Mae capasiti comisiynu yn parhau i fod yn heriol, ac mae recriwtio a datblygu ar y gweill:** Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu heriau o ran cael digon o staff arbenigol i gefnogi'r gwaith comisiynu. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae ymdrechion recriwtio'n mynd rhagddynt ac mae'r staff presennol yn cael eu cefnogi drwy hyfforddi a datblygu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan y sefydliad y capasiti sydd ei angen i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau diogel ac effeithiol.
- **Mae cyfyngiadau ystadau yn parhau i effeithio ar ddiagnosteg a'r gallu i ehangu gwasanaethau, ac mae cynllunio cyfalaf wedi'i gryfhau:** Mae rhai o adeiladau a chyfleusterau'r Bwrdd lechyd yn cyfyngu ar ei allu i ehangu gwasanaethau diagnostig a datblygu modelau gofal newydd. Er mwyn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd lechyd wedi cryfhau ei brosesau cynllunio cyfalaf ac mae'n blaenoriaethu buddsoddiad lle bydd yn cael yr effaith fwyaf ar fynediad cleifion ac ansawdd gwasanaethau.

Cysondeb â Meysydd Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r gwaith sydd wedi cael ei wneud o dan Amcan 2 yn cryfhau gallu'r Bwrdd Iechyd i fodloni safonau ansawdd cenedlaethol fel a ganlyn:

- **Diogel:** Mae uwchraddio digidol, rhagnodi electronig a gwell ystadau yn lleihau risgiau, yn atal gwallau ac yn cefnogi amgylcheddau clinigol mwy diogel.
- **Effeithiol:** Mae cynllunio a chomisiynu cryfach yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio drwy ddefnyddio tystiolaeth, data a gwybodaeth glinigol, ac mae hynny'n gwella'r canlyniadau.
- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae gofal yn y gymuned, cyd-gynhyrchu a'r Bwriad Strategol yn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl a chymunedau lleol.
- **Amserol:** Mae cynllunio mynediad gwell ac ailgynllunio llwybrau yn helpu i leihau oedi a gwella llif drwy wasanaethau.
- **Effeithlon:** Mae gwaith cynaliadwyedd ariannol a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddoeth ac yn lleihau gwastraff.
- **Teg:** Mae ffocws ar atal, anghydraddoldeb a modelau cymunedol yn helpu i sicrhau mynediad teg at ofal ledled Gogledd Cymru.

Sut mae hyn yn cefnogi'r System Rheoli Ansawdd

Mae'r amcan hwn yn cryfhau elfennau **Cynllunio Ansawdd** a **Gwella Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd, sef y rhannau sy'n sicrhau bod newid hirdymor yn cael ei strwythuro, ei seilio ar dystiolaeth, a'i alinio â'r Ddyletswydd Ansawdd.

O safbwynt y cyhoedd, mae hyn yn golygu:

- **Safonau hirdymor cliriach** o ran sut y dylai gofal da edrych
- **Gwasanaethau wedi'u dylunio'n well** ac sy'n cael eu cynllunio o amgylch ansawdd, diogelwch a chanlyniadau
- **Gwaith gwella mwy cyson**, wedi'i gefnogi gan ddata a thystiolaeth
- **Cyswllt cryfach rhwng strategaeth a gofal rheng flaen**, gan sicrhau bod newidiadau o fudd i gleifion
- **Sylfaen fwy sefydlog** ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol ar draws pob safle a gwasanaeth

Drwy wreiddio cynllunio strategol, gallu digidol, datblygu ystadau a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn y System Rheoli Ansawdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu system lle nad yw ansawdd yn brosiect untro ond mae'n rhan o ymarfer bob dydd a phenderfyniadau hirdymor.

Amcan 3: Creu Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu Tosturiol

Trosolwg

Mae diwylliant tosturiol, cynhwysol sy'n seiliedig ar werthoedd yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gryfhau arweinyddiaeth, gwella llesiant staff, datblygu'r gweithlu, a meithrin diwylliant lle mae dysgu, caredigrwydd ac atebolrwydd wedi'u gwreiddio ar bob lefel. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn sawl maes, gan gydnabod bod angen ymdrech barhaus dros amser er mwyn sicrhau newid diwylliannol.

Y Gwelliannau Allweddol a Gyflawnwyd

1. Cryfhau Diwylliant a Gwerthoedd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwysig i ddeall a gwella diwylliant y sefydliad:

- **Cwblhau'r Adroddiad Synthesis Diwylliant ac Arweinyddiaeth:** Mae dadansoddiad cynhwysfawr wedi cael ei wneud, gan ddod ag adborth staff, gwybodaeth ymgysylltu, asesiadau arweinyddiaeth, a data'r sefydliad at ei gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun clir o gryfderau diwylliannol y Bwrdd Iechyd yn ogystal â'r meysydd lle mae angen gwella. Mae'n sylfaen ar gyfer newid diwylliannol hirdymor.
- **Datblygu'r Cynllun Gwella Diwylliant:** Ar sail y canfyddiadau, mae'r Bwrdd Iechyd wedi creu Cynllun Gwella Diwylliant sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth dosturiol, diogelwch seicolegol, cryfhau lleisiau'r staff, a hyrwyddo ymddygiad cyson sy'n adlewyrchu gwerthoedd y sefydliad. Nod y cynllun hwn yw creu amgylchedd gwaith sy'n fwy cefnogol, parchus a chynhwysol.
- **Gwelliannau'r Arolwg Staff:** Mae canlyniadau'r arolwg staff diweddar yn dangos symudiad cadarnhaol mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys cyfathrebu, gwaith tîm, a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy. Mae'r gwelliannau hyn yn dangos cynnydd cynnar o ran meithrin diwylliant iachach yn y sefydliad yn ogystal â gwella profiadau'r staff o ddydd i ddydd.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mae diwylliant iachach yn y sefydliad yn arwain at ofal mwy diogel, gwell cyfathrebu, a gwasanaethau mwy ymatebol.

2. Datblygu Arweinyddiaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn cryfhau gallu arweinyddiaeth ar draws pob lefel:

- **Ehangu llwybrau arweinyddiaeth:** Mae amrywiaeth o raglenni datblygu wedi cael eu darparu ar gyfer darpar arweinwyr, arweinwyr newydd, arweinwyr canol ac uwch arweinwyr. Mae nifer dda wedi mynychu'r rhaglenni hyn ac wedi rhoi adborth cadarnhaol; maent wedi helpu arweinwyr i feithrin y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i gefnogi timau a gwella gofal i gleifion.

- **Cryfhau ymdrechion hyfforddi a mentora:** Mae adolygiad o'r ddarpariaeth hyfforddi wedi arwain at lwybrau cliriach a gwell mynediad i staff sy'n awyddus i gael cymorth â'u datblygiad personol a phroffesiynol. Mae hyn yn helpu arweinwyr i fyfyr, tyfu a rheoli heriau'n fwy effeithiol.
- **Datblygu fframweithiau cymhwysedd:** Mae cymhwyseddau arwain wedi cael eu cysoni â gwerthoedd y Bwrdd Iechyd a'r egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol cenedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod arweinwyr ar bob lefel yn deall yr ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a'u bod yn gallu dangos arweinyddiaeth dosturiol, gynhwysol ac effeithiol.
- **Ehangu'r rhwydwaith Arweinyddiaeth Dosturiol a Chyfunol:** Mae'r rhwydwaith hwn wedi parhau i dyfu, gan ddarparu lle i arweinwyr rannu dysgu, cefnogi ei gilydd, a hyrwyddo arweinyddiaeth dosturiol ar draws y sefydliad. Mae'r rhwydwaith hwn yn helpu i wreiddio diwylliant lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi i ddarparu gofal o ansawdd uchel.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mae arweinyddiaeth well yn arwain at ofal mwy diogel a chyson a phrofiad mwy cadarnhaol i gleifion a theuluoedd.

3. Llesiant Staff a Phrofiad y Gweithlu

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella llesiant staff a lleihau pwysau y gellir eu hosgoi:

- **Gweithredu'r cynllun lleihau salwch:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno camau wedi'u targedu i gefnogi iechyd a llesiant staff. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad cynharach at gymorth, gwell adnoddau llesiant, a rheoli pwysau yn y gweithle yn well. Y nod yw lleihau straen, gwella presenoldeb, a helpu staff i gadw'n iach yn y gweithle.
- **Ymgysylltu'n well â staff:** Mae cyfathrebu mwy rheolaidd, digwyddiadau gwrando a chyfleoedd i staff fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau wedi cryfhau lleisiau'r staff. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a'u bod yn gallu cyfrannu at welliannau o ran y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
- **Defnyddio 19% yn llai o staff asiantaeth:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi lleihau ei ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn sylweddol. Mae hyn wedi gwella dilyniant mewn gofal i gleifion, gan fod mwy o wasanaethau'n cael eu darparu gan dimau parhaol sy'n adnabod y sefydliad yn dda. Mae hefyd wedi helpu i leihau costau a gwella sefydlogrwydd mewn timau.
- **Cryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi drafftio ei Fframwaith Cynllunio Gweithlu Strategol ac mae'n datblygu canllawiau cynllunio swyddi wedi'u diweddarau. Mae'r camau hyn yn helpu i sicrhau bod gan wasanaethau'r staff cywir, gyda'r sgiliau cywir, yn y mannau cywir, gan gefnogi gofal diogel a chynaliadwy i gleifion.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Timau mwy sefydlog, llai o apwyntiadau yn cael eu canslo, a dilyniant mewn gofal

4. Ymgysylltu â Staff a Phartneriaid

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ymgysylltiad ag ystod eang o staff a phartneriaid, gan gydnabod bod perthnasoedd cryf yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel. Mae'r ymgysylltiad wedi'i gryfhau gyda:

- **Rhwydweithiau Staff:** Mae rhwydweithiau staff wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio diwylliant y sefydliad, gan gefnogi cynhwysiant, a rhoi cipolwg ar brofiad y gweithlu.
- **Undebau Llafur:** Mae gweithio mewn partneriaeth ag Undebau Llafur wedi dwysau, gan gefnogi deialog adeiladol, datrys materion yn gynnar, a ffocws ar y cyd ar lesiant staff a gwasanaethau diogel.
- **Prifysgolion:** Mae cydweithio â phartneriaid academiaidd wedi ehangu, gan gefnogi gwaith ar y cyd ar ymchwil, arloesi, addysg a datblygu'r gweithlu.
- **Awdurdodau Lleol:** Mae ymgysylltu â phartneriaid awdurdodau lleol wedi cryfhau, yn enwedig o ran gofal cymunedol, atal a chynllunio gwasanaethau integredig.
- **Partneriaid y Trydydd Sector:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio'n agos gyda sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, gan gydnabod eu rôl hanfodol o ran cefnogi llesiant a darparu cymorth yn y gymuned.
- **Grwpiau Cymunedol:** Mae cysylltiadau cryfach â grwpiau cymunedol wedi helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llunio gan leisiau lleol ac yn adlewyrchu anghenion cymunedau amrywiol.

Mae hyn wedi cynnwys:

- **Ehangu'r rhwydwaith Arweinyddiaeth Glinigol a Gofal:** Mae'r rhwydwaith hwn wedi tyfu, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i staff rheng flaen ddylanwadu ar benderfyniadau a gwella gwasanaethau.
- **Gwella cyfathrebu mewnol:** Mae sianeli cyfathrebu wedi cael eu cryfhau i sicrhau bod staff yn cael diweddariadau cliriach a mwy amserol ac yn cael mwy o gyfleoedd i rannu adborth.
- **Cynnwys staff yn y gwaith o ailgynllunio gwasanaethau:** Mae staff wedi bod yn ymwneud mwy â'r gwaith o ailgynllunio llwybrau a gwasanaethau, gan sicrhau bod newidiadau'n cael eu llywio gan brofiad rheng flaen a gwybodaeth glinigol.
- **Cryfhau gweithio mewn partneriaeth mewn perthynas â'r gweithlu, atal a gofal yn y gymuned:** Mae ymdrechion i weithio ar y cyd â phartneriaid wedi cynyddu mewn meysydd allweddol fel cynllunio'r gweithlu, iechyd ataliol a modelau gofal yn y gymuned, gan gefnogi gwasanaethau mwy integredig a chynaliadwy.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mae gwasanaethau'n fwy tebygol o gael eu dylunio gyda mewnbwn gan y rhai sy'n darparu ac yn derbyn gofal.

Effaith ar Gleifion a Staff

- Diwylliant mwy tosturiol a chefnogol.
- Gwell galluedd arwain.
- Gwell ymgysylltiad a llesiant staff.
- Gweithlu mwy sefydlog.
- Gweithio'n gryfach mewn partneriaeth.

Heriau a'r hyn mae'r Bwrdd lechyd yn ei wneud yn eu cylch

- **Mae gwreiddio ymddygiad arwain newydd yn gyson ar draws pob safle yn dal yn flaenoriaeth:** Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau arweinyddiaeth, mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod ymddygiad arwain tosturiol a chyson yn cael ei wreiddio ym mhobman. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi arweinwyr ar bob lefel drwy hyfforddiant a disgwyliadau cliriach fel bod staff yn gweld yr un diwylliant cadarnhaol ar draws pob safle a gwasanaeth.
- **Mae angen buddsoddiad parhaus i gynnal gwelliannau mewn llesiant:** Er bod llesiant staff wedi gwella mewn sawl maes, mae angen ffocws ac adnoddau parhaus i gynnal y cynnydd hwn. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn mentrau llesiant, gwella mynediad at gymorth, a sicrhau bod gan staff amgylcheddau gwaith iach a diogel.
- **Mae prinder yn y gweithlu yn parhau i effeithio ar rai gwasanaethau:** Fel llawer o sefydliadau gofal iechyd, mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i wynebu prinder mewn rhai grwpiau staff. Gall hyn effeithio ar gapasiti gwasanaethau ac amseroedd aros. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Bwrdd lechyd yn cryfhau ymdrechion recriwtio, yn ehangu cyfleoedd hyfforddi, ac yn gwella'r gwaith o gynllunio'r gweithlu i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

Cysondeb â Meysydd Ansawdd lechyd a Gofal

Mae'r gwaith a gyflawnir o dan Amcan 3 yn cefnogi'r meysydd ansawdd cenedlaethol yn uniongyrchol drwy gryfhau'r diwylliant, yr arweinyddiaeth ac amodau'r gweithlu sy'n sail i ofal diogel ac effeithiol:

- **Diogel:** Mae arweinyddiaeth gryfach, gwell llesiant staff a diwylliant mwy cefnogol yn helpu i leihau camgymeriadau, gwella cyfathrebu a chreu amgylcheddau clinigol mwy diogel.
- **Effeithiol:** Mae gwell trefniadau cynllunio'r gweithlu, disgwyliadau arwain cliriach, a gwaith tîm gwell yn cefnogi gofal mwy dibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae diwylliant tosturiol yn sicrhau bod staff yn gwrando, yn cyfathrebu'n dda ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i gleifion a theuluoedd.
- **Amserol:** Mae staffio mwy sefydlog, llai o achosion salwch, a llai o ddefnydd o asiantaethau yn helpu i leihau oedi, canslo a tharfu ar wasanaethau.
- **Effeithlon:** Mae arweinyddiaeth gryfach a llai o ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn gwella dilyniant, yn lleihau gwastraff ac yn cefnogi gwell defnydd o adnoddau.
- **Teg:** Mae ymgysylltu'n gynhwysol â rhwydweithiau staff, partneriaid a chymunedau yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion pob grŵp a bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.

Sut mae hyn yn cefnogi'r System Rheoli Ansawdd

Mae'r amcan hwn yn cryfhau cwadrant **Diwylliant Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd, y rhan sy'n sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso i ddarparu gofal o ansawdd uchel bob dydd.

O safbwynt y cyhoedd, mae hyn yn golygu:

- **Amgylchedd mwy tosturiol a pharchus**, lle mae staff yn cael eu hannog i ddweud eu dweud, lleisio pryderon, a dysgu o brofiad.
- **Safonau ymddygiad ac arweinyddiaeth mwy cyson**, sy'n helpu i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n ddibynadwy ar draws pob safle.
- **Gweithlu sy'n teimlo'n ddiogel yn seicolegol**, sy'n hanfodol ar gyfer nodi risgiau'n gynnar ac atal niwed.
- **Aliniad gwell rhwng arweinyddiaeth, gwerthoedd ac ansawdd**, gan sicrhau nad proses yn unig ydy gwella ond rhan o ymarfer bob dydd.
- **Sylfaen gryfach ar gyfer gwelliant parhaus**, gan fod timau sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn gallu arloesi, dysgu ac addasu'n well.

Drwy wreiddio arweinyddiaeth dosturiol, cryfhau lleisiau'r staff, a gwella llesiant, mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu'r amodau diwylliannol sydd eu hangen er mwyn i'r System Rheoli Ansawdd weithredu'n effeithiol, gan sicrhau bod ansawdd, diogelwch a dysgu wrth galon y ffordd mae gofal yn cael ei ddarparu.

Amcan 4: Gwella Ansawdd, Canlyniadau a Phrofiad

Trosolwg

Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar wella diogelwch cleifion, effeithiolrwydd clinigol, profiad cleifion, mynediad at ofal, ac ansawdd gwasanaethau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'n cynnwys gwelliannau o ran atal, gofal sylfaenol a chymunedol, gofal wedi'i gynllunio, canser, diagnosteg, gofal brys a gofal argyfwng, iechyd meddwl, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, gwasanaethau niwroddatblygiadol, dementia, ac arbenigeddau sy'n cael eu herio. Dyma'r maes gwelliant mwyaf i'r cyhoedd yn ogystal â'r maes mwyaf amlwg.

Y Gwelliannau Allweddol a Gyflawnwyd

1. Atal ac Ymyrryd yn Fuan

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o atal a helpu'n fuan:

- **Mae rhaglenni pwysau iach, rhoi'r gorau i ysmegu a'r celfyddydau mewn iechyd wedi cyflawni'r canlynol:** Mae amrywiaeth o raglenni wedi cael eu darparu i gefnogi ffyrdd iachach o fyw, gan gynnwys gwasanaethau i helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu, cynnal pwysau iach, a gwella llesiant drwy weithgareddau celfyddydol. Nod y cynlluniau hyn yw atal salwch, cefnogi iechyd hirdymor a gwella ansawdd bywyd.
- **Model presgripsiynu cymdeithasol wedi'i ddylunio ar y cyd â chymunedau a phartneriaid:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n agos â chymunedau lleol a sefydliadau partner i ddylunio model presgripsiynu cymdeithasol newydd. Mae'r dull hwn yn cysylltu pobl â chymorth anfeddygol, megis grwpiau cymunedol, gweithgareddau a gwasanaethau cynghori, er mwyn helpu i wella llesiant a lleihau'r pwysau ar wasanaethau gofal iechyd traddodiadol.
- **Datblygu'r Fframwaith Angori Llesiant ac Atal, gan gefnogi gwydnwch cymunedol:** Mae fframwaith newydd wedi cael ei greu i arwain sut mae'r Bwrdd Iechyd yn cefnogi atal a llesiant ar draws y rhanbarth. Mae'n canolbwyntio ar gryfhau gwydnwch cymunedol, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a sicrhau bod atal yn rhan annatod o ymarfer bob dydd.
- **Cryfhau'r gwaith gwella brechu, gan gynnwys allgymorth wedi'i dargedu:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wneud cynnydd o ran nifer y bobl sy'n cytuno i gael brechiadau drwy allgymorth wedi'i dargedu, clinigau cymunedol a gwaith agosach gyda phartneriaid lleol. Mae'r ymdrechion hyn yn helpu i amddiffyn grwpiau agored i niwed, lleihau lledaeniad salwch, a chadw cymunedau'n iachach.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o gymorth i gadw'n iach, llai o dderbyniadau i'r ysbyty, a chymorth yn gynharach cyn i broblemau waethygu.

2. Gofal Sylfaenol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bwrw ymlaen â nifer o welliannau ym maes gofal sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cwblhau gwaith paratoi Cymunedol o'r Cychwyn, gan ddod â meddygon teulu, nyrsys cymunedol, therapyddion, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector at ei gilydd i ddylunio modelau gofal lleol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r gwaith paratoi cychwynnol ar gyfer y rhaglen Cymunedol o'r Cychwyn, sy'n dod ag ystod eang o weithwyr proffesiynol a phartneriaid cymunedol at ei

gilydd. Mae'r dull cydweithredol hwn yn helpu i ddylunio modelau gofal lleol sy'n diwallu anghenion cleifion yn well, gan sicrhau bod gwasanaethau'n fwy cydgysylltiedig ac yn haws cael gafael arnynt.

- **Bwrw ymlaen â gwaith paratoi Model Gofal Sylfaenol i Gymru, gan gysoni gwasanaethau lleol â disgwyliadau cenedlaethol:** Mae gwaith wedi mynd rhagddo i baratoi ar gyfer gweithredu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau gofal sylfaenol lleol fel meddygfeydd, fferyllfeydd a thimau cymunedol yn cyd-fynd â safonau cenedlaethol ac yn gallu darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson.
- **Cryfhau capasiti nyrsio ardal a gofal lliniarol ar benwythnosau, gan wella gofal diwedd oes:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau cynnydd yng nghapasiti nyrsio ardal a gofal lliniarol ar benwythnosau. Mae hyn yn golygu bod mwy o gleifion sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes yn gallu cael gofal amserol a thosturiol yn eu cartref neu gymuned, gan leihau oedi a gwella cysur ac urddas.
- **Oedi â'r adolygiad clwstwr, ond mae'r gwaith paratoi wedi'i gwblhau ar gyfer ailgynllunio yn y dyfodol:** Er bod yr adolygiad ffurfiol o glystyrau gofal sylfaenol wedi cael ei ohirio, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r gwaith paratoi angenrheidiol i gefnogi'r gwaith o ailgynllunio yn y dyfodol. Bydd y gwaith paratoi hwn yn helpu i sicrhau bod clystyrau yn gallu cydweithio'n fwy effeithiol i fodloni anghenion eu poblogaethau lleol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mynediad gwell at ofal sylfaenol, cefnogaeth fwy cydgysylltiedig, a mwy o ofal yn nes at y cartref.

3. Gofal yn y Gymuned

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau gwasanaethau yn y gymuned:

- **Cynyddu atgyfeiriadau Gofal Cymunedol Uwch yng Nghonwy, gan gefnogi pobl gartref a lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau i'r gwasanaeth Gofal Cymunedol Uwch yng Nghonwy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth cyflym i bobl yn eu cartrefi eu hunain, ac mae hynny'n eu helpu i gadw'n iach ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae'n cynnig asesiad, triniaeth ac adsefydlu amserol yn y gymuned.
- **Cryfhau capasiti nyrsio ardal, gan gynnwys darpariaeth ar benwythnosau:** Mae buddsoddiad ychwanegol wedi cael ei wneud mewn timau nyrsio ardal, gan gynnwys mwy o gapasiti ar benwythnosau. Mae hyn yn sicrhau bod mwy o gleifion yn gallu cael gofal nyrsio hanfodol yn eu cartrefi eu hunain, ac mae hynny'n gwella dilyniant ac yn lleihau oedi cyn cael cymorth.
- **Bwrw ymlaen ag achosion busnes ar gyfer gwasanaethau cymunedol estynedig:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu achosion busnes i ehangu gwasanaethau yn y gymuned. Nod y cynigion hyn yw cynyddu mynediad

lleol at ofal, lleihau'r pwysau ar ysbytai, a chefnogi pobl i aros yn annibynnol am fwy o amser.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gall mwy o bobl dderbyn gofal yn eu cartrefi, gan leihau'r angen i gael eu derbyn i'r ysbyty.

4. Gofal wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg

Gofal wedi'i Gynllunio

- **Gwell dilysu, optimeiddio atgyfeiriadau ac asesu cyn llawdriniaeth:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau prosesau allweddol mewn gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys dilysu rhestrau aros yn fwy cadarn, optimeiddio atgyfeiriadau'n well, a gwelliannau mewn asesiadau cyn llawdriniaeth. Mae'r camau hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn y lle cywir, ar yr adeg gywir, a'u bod yn gwbl barod am lawdriniaeth, gan wella diogelwch a lleihau oedi.
- **Manteision perfformiad cynnar sydd i'w gweld mewn sawl arbenigedd:** Mae arwyddion cynnar o welliant yn dod i'r amlwg mewn nifer o arbenigeddau, gydag amseroedd aros byrrach a llwybrau mwy effeithlon. Mae'r rhain yn adlewyrchu effaith gwaith gwella wedi'i dargedu a gwell defnydd o gapasiti clinigol.
- **Ailgyflwyno'r gwaith modelu galw/capasiti yn 2026/27:** Oherwydd pwysau parhaus a chymhlethdod y system, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ail-gyflwyno ei waith modelu galw a chapasiti manwl yn 2026/27. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn realistig, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael.

Canser

- **25% o ostyngiad mewn amseroedd aros >62 diwrnod:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau gwelliant sylweddol mewn llwybrau canser, gyda 25% o ostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 62 diwrnod am driniaeth. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith penodol ar ddiagnosteg gynharach, brysennu cyflymach, a chydlynu gwell ar draws gwasanaethau.
- **Teledermatoleg estynedig a brysennu dan arweiniad nyrsys:** Mae teledermatoleg a brysennu dan arweiniad nyrsys wedi cael eu hehangu, sy'n golygu bod modd asesu atgyfeiriadau canser y croen yn fwy cyflym. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn cael sicrwydd cyflymach neu'n cael eu huwchgwyfeirio'n amserol i ofal arbenigol, ac mae hynny'n lleihau ymweliadau diangen â'r clinig ac yn gwella effeithlonrwydd llwybrau'n gyffredinol.
- **Agor Canolfan Maggie's:** Mae agor Canolfan Maggie's yn darparu lle pwrpasol sy'n cynnig cymorth emosiynol, seicolegol ac ymarferol i bobl y mae canser yn effeithio arnynt. Mae hyn yn gwella profiad cleifion a theuluoedd drwy sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth o ansawdd uchel ochr yn ochr â'u gofal clinigol.

- Cynnydd o ran dychwelyd gwasanaethau radiotherapi. Mae'r gwaith i ddychwelyd gwasanaethau radiotherapi yn mynd rhagddo fel bod rhagor o gleifion yn cael triniaeth yn nes at eu cartref. Mae hyn yn lleihau amser teithio, yn gwella mynediad ac yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio mwy ar y claf o ran gofal cancer.

Diagnosteg

- **Rhoi'r Rhaglen System Gwybodaeth Radioleg (RISP) ar waith:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi'r RISP ar waith yn llwyddiannus, sy'n moderneiddio sut mae ceisiadau, canlyniadau ac adroddiadau delweddu'n cael eu rheoli. Mae'r system hon yn cefnogi mynediad cyflymach at wybodaeth, yn gwella cyfathrebu rhwng timau clinigol ac yn helpu cleifion i symud yn fwy esmwyth drwy lwybrau diagnostig.
- **Cynnydd wedi arafu yn sgil cyfyngiadau ystadau ac oedi cenedlaethol:** Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'r gwaith o ehangu capasiti diagnostig ymhellach wedi cael ei arafu gan gyfyngiadau yn ystâd y Bwrdd Iechyd ac oedi mewn rhaglenni cenedlaethol. Mae'r heriau hyn yn effeithio ar y gallu i gynyddu capasiti delweddu a chyflwyno cyfarpar newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i flaenoriaethu atebion i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn a gwella mynediad at ddiagnosteg amserol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Diagnosis a thriniaeth cyflymach, llai o oedi, a gwell cefnogaeth i bobl â chanser.

5. Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd cynnar wrth wella gofal brys a gofal argyfwng, yn enwedig mewn cryfhau llif ysbyty, datblygu modelau bregusrwydd a chamfeydd, ac wrth baratoi ar gyfer cyflwyno protocol trosglwyddo ambiwlans 45 munud.

- **Gwella llif ysbytai:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella llif cleifion drwy ysbytai, gan helpu i leihau oedi wrth asesu, trin a rhyddhau cleifion. Mae cydlynad gwell rhwng timau a phrosesau mwy effeithlon yn golygu bod modd gwneud penderfyniadau yn gyflymach a gwella profiad cleifion.
- **Datblygu modelau ymateb i eiddilwch a chodymau:** Mae modelau gofal newydd ar gyfer pobl sy'n eiddil neu sydd mewn perygl o gwmpo wedi cael eu datblygu a'u hehangu. Mae'r dulliau hyn yn canolbwyntio ar asesiadau cynnar a chymorth cyflym, helpu pobl i gadw'n ddiogel gartref, osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, a chael y gofal iawn ar yr adeg iawn.
- **Paratoi ar gyfer y protocol trosglwyddo o ambiwlans cyn pen 45 munud:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi paratoi ar gyfer cyflwyno'r protocol trosglwyddo o ambiwlans cyn pen 45 munud sy'n ceisio lleihau oedi i griwiau ambiwlans a sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel ac yn brydlon i ofal yr

ysbyty. Mae'r gwaith paratoi hwn yn cynnwys prosesau gwell, llwybrau uwchgyfeirio cliriach, a gweithio'n agosach â'r gwasanaeth ambiwlans.

Fodd bynnag, mae perfformiad yn erbyn y safonau allweddol yn parhau i fod yn anghyson, ac mae pwysau gweithredol parhaus yn dal i effeithio ar lif cleifion, amseroedd aros a'r profiad cyffredinol. Mae'r risgiau diogelwch cleifion cysylltiedig, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â oedi wrth asesu, gorlwytho ac estyniadau drosglwyddo ambiwlans, wedi cael eu hystyried yn fanwl gan y Bwrdd, gyda ffocws parhaus ar leihau'r risg, esgyn a chyflawni gweithredoedd gwelliant. Er bod y ffordd ymlaen yn gadarnhaol, bydd unrhyw welliant parhaus yn dibynnu ar roi newid ar waith yn gyflym ac yn eang ar draws y system gyfan.

6. Gwasanaethau Iechyd Meddwl, CAMHS, Anableddau Dysgu a Niwroddatblygiadol Iechyd Meddwl Oedolion

- **80% wedi cael eu gweld o fewn 28 diwrnod mewn iechyd meddwl gofal sylfaenol:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl gofal sylfaenol, gyda 80% o bobl bellach yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod unigolion yn cael cyngor, asesiad ac ymyrraeth gynnar yn amserol.
- **Cryfhau gwasanaethau amenedigol ac anhwylder bwyta:** Mae buddsoddiad wedi cael ei wneud i wella gwasanaethau arbenigol i bobl sy'n cael anawsterau iechyd meddwl amenedigol a'r rhai sy'n byw gydag anhwylderau bwyta. Mae'r gwelliannau hyn yn cefnogi mynediad cynharach at ofal a thriniaeth wedi'i theilwra'n well.
- **Cynnydd ar argymhellion Coleg Brenhinol y Seiciatryddion:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i weithredu ar argymhellion gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion, gan gryfhau llywodraethu clinigol, gwella llwybrau a gwella ansawdd gofal ar draws gwasanaethau iechyd meddwl.
- **Bwrw ymlaen â phroses gaffael Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl:** Mae'r gwaith i gaffael Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl wedi mynd rhagddo. Bydd y system hon yn gwella sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu, yn cefnogi gofal mwy diogel, ac yn helpu staff i gydlynu triniaeth yn fwy effeithiol.

CAMHS

- **Rhoi cynllun adfer ar waith:** Mae cynllun adfer cynhwysfawr wedi cael ei roi ar waith i wella mynediad, lleihau amseroedd aros a chryfhau'r gwasanaethau a ddarperir i blant a phobl ifanc.
- **Rhoi systemau rhybuddio cynnar ar waith:** Mae systemau rhybuddio cynnar newydd wedi cael eu cyflwyno i nodi risgiau'n gynharach a sicrhau eu bod yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol, gan helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.
- **Lansio grwpiau "Dechrau Arni":** Mae grwpiau cymorth rhagarweiniol newydd wedi cael eu lansio i helpu pobl ifanc i ddechrau ar eu taith therapiwtig yn gynt, ac mae'n cynnig arweiniad cynnar a strategaethau ymdopi wrth iddynt aros am gymorth mwy dwys.

Niwroddatblygiadol

- **Hybiau Cymorth Cynnar yn lleihau'r galw:** Mae Hybiau Cymorth Cynnar yn darparu cymorth amserol i deuluoedd, gan helpu i fynd i'r afael â phryderon yn gynharach a lleihau'r pwysau ar wasanaethau niwroddatblygiadol arbenigol.
- **Datblygu model sy'n cael ei arwain gan anghenion:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu model sy'n cael ei arwain gan anghenion ac sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar lwybrau diagnostig. Y nod yw gwella canlyniadau a lleihau oedi.
- **Galw mawr yn parhau:** Er gwaethaf y cynnydd, mae'r galw am asesiadau niwroddatblygiadol a chymorth yn dal i fod yn uchel. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i flaenoriaethu gwelliannau i gapasiti a mynediad.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mynediad cynharach at gymorth, gwell dilyniant, a gofal mwy arbenigol i'r rhai sydd ei angen.

7. Dementia

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau gwasanaethau dementia:

- **Gwella Llwybr Cymorth y Cof.** Mae Llwybr Cymorth y Cof wedi cael ei wella i sicrhau bod pobl sydd â phryderon ynghylch y cof yn cael asesiad cynharach, gwybodaeth gliriach, a chymorth mwy cydlynol. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu unigolion a'u teuluoedd i gael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir.
- **Gwella adnoddau hyfforddiant ac atal.** Mae staff ar draws lleoliadau iechyd a gofal wedi cael hyfforddiant dementia ychwanegol, ac mae hynny wedi'u helpu i adnabod symptomau'n well, cefnogi unigolion yn dosturiol, a hyrwyddo atal. Mae adnoddau newydd hefyd wedi cael eu datblygu i helpu cymunedau i ddeall ffactorau risg a ffyrdd o gynnal iechyd yr ymennydd.
- **Nifer o gynlluniau peilot ar y gweill i ymgymryd â gwelliannau.** Mae nifer o brosiectau peilot yn cael eu profi i wella gofal dementia, gan gynnwys dulliau newydd o ran ymyrraeth gynnar, cymorth cymunedol, a chymorth gofalwyr. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn helpu i lunio gwasanaethau yn y dyfodol a sicrhau eu bod yn bodloni anghenion pobl sy'n byw gyda dementia ynghyd â'u teuluoedd.

Beth mae hyn yn ei olygu i'r cyhoedd:

Diagnosis cynharach, gwell cefnogaeth i deuluoedd, a gwell ansawdd bywyd.

8. Gwasanaethau sy'n cael eu herio

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd mewn sawl arbenigedd sy'n cael ei herio:

- **Oncoleg ar y trywydd iawn i ostwng lefel rhybudd:** Mae gwelliannau mewn llwybrau canser, amseroedd aros a chydlynad gwasanaethau yn golygu bod

Oncoleg ar y trywydd iawn i ostwng lefel rhybudd o oruchwyliaeth uwch. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd parhaus mewn perfformiad a llywodraethu clinigol.

- **Gwelliannau ym maes Fasgwlaidd, Dermatoleg, Plastigau, Offthalmoleg ac Wroleg:** Mae gwaith wedi'i dargedu ar draws nifer o arbenigeddau dan bwysau wedi arwain at well llif cleifion, llai o ôl-groniadau, a llwybrau mwy effeithlon. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu cleifion i gael gafael ar driniaeth yn gynt ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n fwy cynaliadwy.
- **Mae gweithdai Gwneud Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf (GIRFT) yn sail i gynlluniau gwella:** Cynhaliwyd y gweithdai hyn gyda thimau clinigol, gan roi cipolwg manwl ar amrywiadau, galw a chyfleoedd i wella. Mae'r canfyddiadau hyn bellach yn llywio cynlluniau gweithredu sy'n benodol i arbenigeddau.
- **Cynyddu capasiti mân lawdriniaethau:** Mae capasiti ychwanegol ar gyfer mân lawdriniaethau wedi cael ei greu, ac mae hynny wedi helpu i leihau amseroedd aros a sicrhau bod modd cwblhau rhagor o driniaethau mewn lleoliadau cymunedol neu achosion dydd.
- **Gwella clinigau brys ac archwiliadau:** Mae capasiti clinigau brys wedi cael ei gryfhau, ac mae archwiliadau rheolaidd yn helpu i sicrhau bod cleifion sydd â'r angen clinigol mwyaf yn cael eu blaenoriaethu'n briodol. Mae hyn yn cefnogi gofal mwy diogel ac ymatebol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal mwy diogel, amseroedd aros byrrach, a gwasanaethau mwy dibynadwy.

Effaith ar Gleifion a Staff

- Mynediad cyflymach at ofal.
- Canlyniadau gwell ym maes canser ac iechyd meddwl.
- Mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref.
- Systemau diogelwch a dysgu cryfach.
- Gwella profiad cleifion

Heriau a'r hyn mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud yn eu cylch

- **Mae prinder yn y gweithlu yn parhau i effeithio ar sawl arbenigedd:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu prinder mewn rolau cymorth a chlinigol allweddol, ac mae hynny'n effeithio ar gapasiti rhai arbenigeddau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae ymgyrchoedd recriwtio, recriwtio rhyngwladol, gwell llwybrau hyfforddi a gwell mentrau cadw staff yn cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau gweithlu mwy sefydlog.
- **Mae capasiti diagnosteg yn dal i fod yn gyfyngedig:** Mae capasiti diagnosteg cyfyngedig yn parhau i greu tagfeydd mewn llwybrau cleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ehangu capasiti drwy amserlennu gwell, buddsoddiad wedi'i dargedu, gweithio mewn partneriaeth a chynllunio tymor hir i fynd i'r afael â chyfyngiadau o ran ystadau a chyfarpar.

- **Mae angen gwella'r llwybr dementia ymhellach:** Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae angen cryfhau'r llwybr dementia ymhellach er mwyn sicrhau asesiadau amserol, cymorth cyson a gwell cydlynid ar draws gwasanaethau. Mae cynlluniau peilot i ymgymryd â gwelliannau a hyfforddiant gwell yn cael eu defnyddio i lunio'r cam datblygu nesaf.
- **Mae angen cyflymu'r broses o drawsnewid gofal sylfaenol:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod yn rhaid i drawsnewid ym maes gofal sylfaenol symud yn gyflymach er mwyn diwallu'r galw cynyddol a chefnogi gofal yn y gymuned. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflymu modelau newydd, cryfhau timau amlddisgyblaethol, a gwella mynediad ar draws cymunedau lleol.

Cysondeb â Meysydd Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r gwelliannau a sicrhawyd o dan Amcan 4 yn cefnogi'r meysydd ansawdd cenedlaethol yn uniongyrchol drwy gryfhau diogelwch, canlyniadau, mynediad a phrofiad ar draws ystod eang o wasanaethau:

- **Diogel:** Mae systemau diogelwch cryfach, ymyriadau cynharach, gwella llif gofal brys a gofal argyfwng, a monitro llwybrau canser a diagnostig yn well, i gyd yn helpu i leihau niwed a sicrhau bod cleifion yn cael y gofal iawn ar yr adeg iawn.
- **Effeithiol:** Mae canlyniadau gwell ym maes canser, iechyd meddwl, dementia a gofal wedi'i gynllunio yn dangos bod gwasanaethau'n dod yn fwy dibynadwy ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae gwelliannau o ran atal, cymorth cynnar a gofal yn y gymuned hefyd yn cefnogi iechyd a llesiant hirdymor.
- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae profiad gwell i gleifion, mwy o ofal yn cael ei ddarparu'n nes at y cartref, a gwell cymorth i bobl â dementia, cyflyrau hirdymor ac anghenion iechyd meddwl, yn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i unigolion a theuluoedd.
- **Amserol:** Mae lleihau amseroedd aros ym maes canser, diagnosteg, gofal brys ac iechyd meddwl yn golygu bod pobl yn cael eu gweld yn gynt, ac mae hynny'n helpu i atal dirywiad a gwella adferiad.
- **Effeithlon:** Mae gwelliannau sy'n seiliedig ar werth, optimeiddio atgyfeiriadau'n well, a gwasanaethau cymunedol cryfach yn helpu i leihau defnydd diangen o ysbytai ac yn gwneud gwell defnydd o amser staff ac adnoddau.
- **Teg:** Mae rhaglenni atal, hybiau cymorth cynnar, allgymorth brechu wedi'i dargedu, a modelau gofal sylfaenol a chymunedol cryfach, yn helpu i sicrhau mynediad teg at gymorth ledled Gogledd Cymru.

Sut mae hyn yn cefnogi'r System Rheoli Ansawdd

Mae Amcan 4 yn cryfhau cwadrantau **Rheoli Ansawdd a Gwella Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd, sef y rhannau sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n ddiogel, yn ddibynadwy ac yn gwella'n barhaus.

O safbwynt y cyhoedd, mae hyn yn golygu:

- **Safonau gofal mwy cyson,** oherwydd bod gwasanaethau'n cael eu monitro'n agosach a'u cefnogi i fodloni disgwyliadau clir.

- **Canfod risgiau'n gynharach**, diolch i well data, gwell systemau diogelwch a goruchwyliaeth glinigol gryfach.
- **Gweithredu'n gynt pan fydd problemau'n codi**, gyda thimau'n defnyddio gwybodaeth amser real i ymateb yn gyflym.
- **Gwelliant parhaus**, wrth i wasanaethau ddefnyddio dysgu, archwiliadau ac adborth gan gleifion i wneud newidiadau sydd o fudd i gleifion.
- **Gwell canlyniadau a phrofiadau**, oherwydd bod gwelliannau'n seiliedig ar dystiolaeth, anghenion cleifion a safonau ansawdd cenedlaethol.

Drwy gryfhau Rheoli Ansawdd (monitro, diogelwch, perfformiad) a Gwella Ansawdd (profi newidiadau, dysgu, ailgynllunio), mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu system lle nad yw gwelliannau'n brosiectau ynysig, maent yn rhan o ymarfer bob dydd ar draws pob gwasanaeth.

Amcan 5: Sefydlu Amgylchedd Effeithiol ar gyfer Dysgu a Datblygu Sgiliau

Trosolwg

Mae diwylliant dysgu cryf yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol sy'n gwella'n barhaus. Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gryfhau systemau dysgu, gallu ymchwilio ac arloesi, partneriaethau academaidd, deallusrwydd digidol, a sgiliau gwella ansawdd y Bwrdd Iechyd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran adeiladu sylfeini sefydliad sy'n dysgu, gan gydnabod bod angen datblygu ymhellach i wreiddio'r gwelliannau hyn yn gyson.

Y Gwelliannau Allweddol a Gyflawnwyd

1. Cryfhau Systemau Dysgu

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau pwysig i wella sut mae dysgu'n cael ei gofnodi a'i rannu, a sut y gweithredir arno:

- **Gwreiddio Polisi Pryderon a Chwynion Integredig.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwreiddio ei bolisi integredig newydd yn llawn ar gyfer rheoli pryderon a chwynion. Mae hyn wedi gwella cysondeb, prydlondeb a thryloywder o ran sut mae materion yn cael eu trin, ac mae hynny'n helpu i sicrhau bod cleifion, teuluoedd a staff yn cael ymatebion clir a bod dysgu'n cael ei gofnodi'n fwy effeithiol.
- **Sefydlu Fforwm Dysgu.** Mae Fforwm Dysgu newydd nawr yn dod â themâu ynghyd o ddigwyddiadau, cwynion, adolygiadau o farwolaethau, archwiliadau ac adborth cleifion. Mae hyn yn creu dull mwy systematig a chydlynol o ddysgu, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws timau ac yn cael ei defnyddio i sbarduno gwelliannau.
- **Datblygu Ystorfa Ddysgu.** Mae'r ystorfa ganolog wedi cael ei chreu i storio astudiaethau achos, y gwersi a ddysgwyd, ac enghreifftiau o arfer da. Mae'r adnodd hwn yn sicrhau bod dysgu'n hygyrch ar draws y sefydliad, gan helpu staff

i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym a'i chymhwyso i'w gwasanaethau eu hunain.

- **Gwella adolygiadau thematig.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei allu i nodi patrymau a mynd i'r afael â materion systemig drwy adolygiadau thematig mwy cadarn. Mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth ddyfnach o heriau sy'n codi dro ar ôl tro ac yn helpu i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu targedu, eu bod yn gynaliadwy, a'u bod yn cael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, mae'r Bwrdd Iechyd yn fwy tebygol o ddysgu ohono, rhannu'r hyn a ddysgwyd, a'i atal rhag digwydd eto.

2. Ymchwil ac Arloesi

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei seilwaith ymchwil ac arloesi:

- **Gwella prosesau llywodraethu, gan alluogi ymchwil i ddechrau'n gyflymach ac yn fwy diogel:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi symleiddio ei brosesau llywodraethu ymchwil, gan alluogi astudiaethau i ddechrau'n gynt ar yr un pryd â chynnal safonau uchel o ddiogelwch a goruchwyliaeth. Mae hyn yn helpu i roi triniaethau, technolegau a dulliau newydd ar waith yn fwy effeithlon.
- **Canolbwyntio ar gynyddu gweithgarwch ymchwil, yn enwedig mewn meysydd sy'n cyd-fynd ag anghenion y boblogaeth:** Mae ymdrechion ar y gweill i ehangu gweithgarwch ymchwil, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr amodau a'r blaenoriaethau sydd bwysicaf i'r boblogaeth leol. Mae hyn yn sicrhau bod ymchwil yn cefnogi canlyniadau gwell ar gyfer cymunedau ar draws y rhanbarth.
- **Cydweithio'n agosach â phrifysgolion, gan gefnogi ymchwil ar y cyd, arloesedd a datblygiad y gweithlu:** Mae partneriaethau â phrifysgolion wedi'u cryfhau, gan alluogi mwy o brosiectau ymchwil ar y cyd, mentrau arloesi a chyfleoedd i ddatblygu staff. Mae'r cydweithrediadau hyn yn helpu i ddod ag arbenigedd academiaidd i leoliadau clinigol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y dyfodol.
- **Cymorth ar gyfer gyrfaedd academiaidd clinigol, gan gynnwys sefydlu Grŵp Cymuned Fuddiant:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn llwybrau gyrfa academiaidd clinigol, gan helpu staff i gyfuno ymchwil ag ymarfer clinigol. Mae Grŵp Cymuned Fuddiant newydd wedi cael ei sefydlu i gysylltu clinigwyr, rhannu'r hyn a ddysgwyd, ac annog mwy o staff i gymryd rhan mewn ymchwil ac arloesi.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil, cael gafael ar driniaethau newydd, a sylfaen dystiolaeth gryfach ar gyfer gofal.

3. Partneriaethau Academiaidd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau partneriaethau â sefydliadau academiaidd:

- **Datblygu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth gyda phrifysgolion allweddol.** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu cytundebau ffurfiol â'r prifysgolion mawr. Mae'r Memoranda Cyd-ddealltwriaeth hyn yn nodi blaenoriaethau cyffredin ac yn creu sylfaen gryfach ar gyfer cydweithio ym maes addysg, ymchwil ac arloesi.
- **Lansio'r garfan MPharm gyntaf, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu fferylliaeth y dyfodol.** Mae lansio'r garfan Meistr mewn Fferylliaeth (MPharm) gyntaf yn garreg filltir bwysig. Mae'n cefnogi hyfforddi fferyllwyr y dyfodol yn y rhanbarth, gan helpu i adeiladu gweithlu cynaliadwy a chryfhau'r cysylltiadau rhwng dysgu academiaidd ac ymarfer clinigol.
- **Cryfhau'r gwaith ar y cyd ar ymchwil, arloesedd a chynllunio'r gweithlu.** Mae cydweithio â phartneriaid academiaidd wedi dwysau ar draws sawl ardal, gan gynnwys prosiectau ymchwil, mentrau arloesi, a chynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf a bod anghenion gweithlu'r dyfodol yn cael eu bodloni.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Cyflenwad cryfach o glinigwyr medrus wedi'u hyfforddi yn y cyd-destun lleol, gan wella cynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol.

4. Sefydliad sy'n cael ei Arwain gan Wybodaeth

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran cryfhau ei ddeallusrwydd digidol a'i allu i ddadansoddi:

- **Rhoi dangosfwrdd IRIS ar waith, gan ddarparu data amser real ar ansawdd, perfformiad a llif:** Yn sgil cyflwyno dangosfwrdd IRIS, caiff timau fynediad uniongyrchol at wybodaeth gyfredol am lif cleifion, perfformiad gwasanaethau, a dangosyddion ansawdd. Mae hyn yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau'n gyflymach ac yn helpu staff i ymateb yn rhagweithiol i bwysau sy'n dod i'r amlwg.
- **Datblygu dadansoddeg ragfynegol, gan helpu i ragweld galw a chynllunio adnoddau:** Mae adnoddau dadansoddeg ragfynegol newydd yn cael eu defnyddio i ragweld galw ac i nodi risgiau posibl yn gynharach. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gynllunio staff, gwelyau a chymorth cymunedol yn fwy effeithiol, gan wella gwytnwch a phrofiad cleifion.
- **Datblygu cynigion Awtomeiddio Prosesau Robotig, gan leihau'r baich gweinyddol:** Mae gwaith i gyflwyno Awtomeiddio Prosesau Robotig wedi mynd rhagddo, gyda chynigion bellach ar waith i awtomeiddio tasgau gweinyddol arferol. Bydd hyn yn rhyddhau amser staff, yn lleihau camgymeriadau ac yn galluogi timau i ganolbwyntio mwy ar waith sy'n delio â chleifion
- **Gwell adrodd ac ansawdd data, gan gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gwell:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau prosesau ansawdd data a gwella adnoddau adrodd. Mae hyn yn sicrhau bod gan arweinyddwyr a

thimau clinigol wybodaeth fwy dibynadwy, ac mae hynny'n cefnogi dealltwriaeth gliriach a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth, llai o oedi, a gwell defnydd o amser staff.

5. Gallu i Wella Ansawdd

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o wella ansawdd:

- **Cyflawni prosiectau gwella ansawdd arobryn, gan gynnwys Rhagsefydlu a Llwybr Green Hand:** Cafodd nifer o brosiectau gwella ansawdd eu cydnabod yn genedlaethol, gan ddangos gallu cynyddol y Bwrdd Iechyd i gyflawni newid ystyrlon. Mae mentrau fel Rhagsefydlu a Llwybr Green Hand wedi gwella'r canlyniadau i gleifion, gwella diogelwch, a chefnogi gofal mwy effeithlon.
- **Datblygu cysyniad Academi Gwerth, gan gefnogi staff i ddefnyddio egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth:** Mae cysyniad Academi Gwerth newydd wedi cael ei greu i helpu staff i ddeall a defnyddio gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Mae hyn yn helpu timau i ganolbwyntio ar y canlyniadau sydd bwysicaf i gleifion ynghyd â gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.
- **Ehangu hyfforddiant gwella ansawdd, gan wella gallu ar draws timau:** Mae mwy o staff ar draws y sefydliad bellach yn cael hyfforddiant gwella ansawdd, gan helpu i feithrin cyd-ddealltwriaeth o ddulliau gwella a chryfhau diwylliant dysgu parhaus.
- **Gwell aliniad rhwng blaenoriaethau gwella ansawdd, gwerth a chlinigol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i sicrhau bod gwaith gwella ansawdd yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau clinigol a gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ymdrechion gwella yn cael eu targedu, eu cydlynu a'u canolbwyntio ar feysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gleifion.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gwelliannau mwy cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gwella canlyniadau a phrofiadau yn uniongyrchol.

Effaith ar Gleifion a Staff

- Dysgu mwy o ddigwyddiadau a chwynion.
- Diwylliant ymchwil cryfach.
- Gwella mynediad at arloesedd.
- Gwneud mwy o benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata.
- Gwella gallu gwella ansawdd ar draws timau.

Heriau a'r hyn mae'r Bwrdd Iechyd yn ei wneud yn eu cylch

- **Mae capasiti ymchwil yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac mae recriwtio a datblygu ar y gweill:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu cyfyngiadau o ran

capasiti ymchwil, sy'n cyfyngu ar raddfa a chyflymder gweithgareddau ymchwil. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r gwaith o recriwtio i rolau allweddol yn mynd rhagddo, ochr yn ochr â buddsoddi mewn hyfforddi a datblygu i adeiladu gweithlu ymchwil cryfach i'r dyfodol.

- **Mae angen datblygu llwybrau gyrfa academiaidd ymhellach:** Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae angen cryfhau llwybrau gyrfa academiaidd ar gyfer clinigwyr a gweithwyr proffesiynol eraill o hyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid mewn prifysgolion i greu llwybrau cliriach i staff gyfuno ymarfer clinigol ag ymchwil ac addysgu, gan helpu i ddenu a dal gafael ar dalent.
- **Mae angen parhau i wreiddio systemau dysgu ar draws pob safle:** Mae systemau dysgu newydd, fel y Fforwm Dysgu, yr ystorfa ac adolygiadau thematig gwell ar waith, ond mae angen eu gwreiddio ymhellach i sicrhau defnydd cyson ar draws pob safle a gwasanaeth. Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar gryfhau mabwysiadu, gwella ymwybyddiaeth a chefnogi timau i gymhwyso dysgu mewn ymarfer bob dydd.

Cysondeb â Meysydd Ansawdd Iechyd a Gofal

Mae'r gwelliannau a sicrhawyd o dan Amcan 5 yn cefnogi'r meysydd ansawdd cenedlaethol yn uniongyrchol drwy gryfhau sut mae'r Bwrdd Iechyd yn dysgu, yn gwella ac yn defnyddio tystiolaeth i siapio gofal:

- **Diogel:** Mae systemau dysgu cryfach, adolygiadau thematig gwell a phrosesau digwyddiadau a chwynion gwell yn helpu'r Bwrdd Iechyd i nodi risgiau'n gynharach, deall beth aeth o'i le, ac atal materion tebyg rhag digwydd eto.
- **Effeithiol:** Mae partneriaethau ymchwil, arloesi ac academiaidd yn sicrhau bod gofal yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae gan staff fynediad gwell at ddata, gwybodaeth ac adnoddau gwella, gan gefnogi ymarfer clinigol mwy dibynadwy.
- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae dysgu o ddata adborth, cwynion a phrofiad cleifion yn sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i bobl. Mae ymchwil ac arloesi hefyd yn helpu i ddatblygu dulliau newydd sy'n gwella ansawdd bywyd.
- **Amserol:** Mae cylchoedd dysgu cyflymach, dangosfyrddau data amser real a dadansoddeg ragfynegol yn helpu timau i ymateb yn gyflymach i faterion sy'n dod i'r amlwg, gan leihau oedi a gwella mynediad at ofal.
- **Effeithlon:** Mae awtomeiddio, gwella ansawdd data, a gallu gwella ansawdd cryfach yn lleihau dyblygu, yn symleiddio prosesau, ac yn cefnogi gwell defnydd o amser staff ac adnoddau.
- **Teg:** Mae systemau dysgu hygyrch, cyfleoedd ymchwil cynhwysol a gwaith atal sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn helpu i sicrhau bod gwelliannau o fudd i bob grŵp ac yn lleihau anghydraddoldebau.

Sut mae hyn yn cefnogi'r System Rheoli Ansawdd

Mae Amcan 5 yn cryfhau cwadrant **Dysgu o Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd, sef y rhan sy'n sicrhau bod y sefydliad yn dysgu'n barhaus, yn rhannu gwybodaeth yn eang, ac yn defnyddio tystiolaeth i sbarduno gwelliannau.

O safbwynt y cyhoedd, mae hyn yn golygu:

- **System iechyd sy'n dysgu o gamgymeriadau**, yn hytrach na'u hailadrodd, oherwydd bod dysgu'n cael ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i rannu'n fwy cyson.
- **Defnyddio tystiolaeth ac ymchwil yn well**, gan sicrhau bod gofal yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio a bod triniaethau ac arloesi newydd yn cael eu cyflwyno'n ddiogel.
- **Gwneud mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth**, wedi'u hategu gan ddata amser real, dadansoddeg ragfynegol a systemau gwybodaeth gwell.
- **Staff sydd mewn gwell sefyllfa i wella gwasanaethau**, diolch i hyfforddiant gwella ansawdd estynedig, strwythurau gwella cliriach, a mynediad at adnoddau ymarferol.
- **Diwylliant lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi**, gan helpu i greu gofal mwy diogel, mwy dibynadwy a mwy tosturiol ar draws pob safle.

Drwy gryfhau Dysgu o Ansawdd, mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu sylfeini sefydliad dysgu go iawn, un lle mae gwybodaeth yn arwain at weithredu, lle mae gwelliannau'n cael eu gwneud yn barhaus, a lle mae cleifion yn elwa ar wasanaethau mwy diogel, mwy effeithiol a mwy ymatebol.

Gwrando ar Ddinasyddion, Cymunedau a Rhanddeiliaid

Trosolwg

Mae gwrando ar bobl Gogledd Cymru yn ganolog i ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'r Ddyletswydd Ansawdd. Eleni, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o ymgysylltu, cyd-gynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth, gan sicrhau bod lleisiau cleifion, gofalwyr, staff a chymunedau yn siapia penderfyniadau a dyluniad gwasanaethau.

Y Gwelliannau Allweddol a Gyflawnwyd

1. Cryfhau Ymgysylltiad â Dinasyddion

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ehangu ei weithgareddau ymgysylltu i sicrhau bod gan bobl a chymunedau lais cryfach wrth lunio gwasanaethau. Mae hyn wedi cynnwys:

- **Bwrdd Llais leuenctid, sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau:** Mae Bwrdd Llais leuenctid penodol wedi cael ei

sefydlu ac mae'n rhoi llwyfan ystyrion i bobl ifanc gael rhannu eu barn a dylanwadu ar sut mae gwasanaethau'n cael eu datblygu. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion a phrofiadau dinasyddion iau yn cael eu hadlewyrchu yn y gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.

- **Cynlluniau peilot ymgysylltu â chynghorwyr, gan wella cyfranogiad democrataidd lleol:** Mae cynlluniau peilot ymgysylltu â chynghorwyr lleol wedi cryfhau mewnbyn democrataidd i wasanaethau ieuchyd. Mae'r cynlluniau peilot hyn yn cefnogi cyfathrebu cliriach; gwell dealltwriaeth o anghenion y gymuned, a datrys problemau mewn ffordd fwy cydweithredol.
- **Ymgysylltu digidol, gan alluogi cyfranogiad ehangach:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ehangu ei ddefnydd o adnoddau digidol i gyrraedd mwy o bobl, gan ei gwneud yn haws i ddinasyddion rannu adborth, cymryd rhan mewn ymgynghoriadau a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i wasanaethau.
- **Fframwaith Ymgysylltu Ffordd Betsi, sy'n darparu dull cyson o ymgysylltu:** Mae fframwaith ymgysylltu newydd, sef Ffordd Betsi, wedi cael ei gyflwyno i sicrhau dull cyson o ansawdd uchel i gynnwys cleifion, gofalwyr a chymunedau. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi ymgysylltu mwy cynhwysol, tryloyw ac ystyrion.
- **Siarter Sefydliad Angori, sy'n cryfhau partneriaethau cymunedol:** Drwy fabwysiadu Siarter Sefydliad Angori, mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei ymrwymiad i gefnogi cymunedau lleol drwy gyflogaeth, caffael, cynaliadwyedd a gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y sefydliad yn cael yr effaith gymdeithasol ac economaidd gadarnhaol fwyaf bosibl.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Rhagor o gyfleoedd i ddylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu.

2. Cyd-gynhyrchu gyda Chymunedau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o gyd-gynhyrchu, gan weithio ochr yn ochr â chymunedau, partneriaid a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol i ddylunio gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy. Mae'r prif ddatblygiadau yn cynnwys:

- **Cymunedol o'r Cychwyn, gan ddod â chymunedau, clinigwyr a phartneriaid at ei gilydd i ail-ddylunio gofal lleol:** Mae dull gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn wedi creu mannau strwythuredig lle mae trigolion lleol, clinigwyr a sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd i siapio gwasanaethau. Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith ail-ddylunio'n seiliedig ar anghenion go iawn y gymuned a chryfderau lleol.
- **Model presgripsiynu cymdeithasol, wedi'i ddylunio ar y cyd â chymunedau a phartneriaid y trydydd sector:** Mae model presgripsiynu cymdeithasol newydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r hyn

sydd bwysicaf i gymunedau. Mae partneriaid y trydydd sector wedi chwarae rhan ganolog, gan helpu i greu dull mwy cyfannol yn y gymuned o ymdrin â llesiant.

- **Fframwaith Angori Llesiant ac Atal, gan gefnogi gwydnwch cymunedol:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Fframwaith Angori Llesiant ac Atal i gryfhau gwydnwch cymunedol. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi mentrau lleol sy'n hybu iechyd, yn lleihau anghydraddoldebau, ac yn adeiladu cymunedau cryfach a mwy cysylltiedig.
- **Hybiau Cymorth Cynnar, sy'n darparu cymorth yn fwy cynnar i blant a theuluoedd:** Mae Hybiau Cymorth Cynnar wedi cael eu datblygu i gynnig cymorth amserol a chydlynol i blant a theuluoedd. Mae'r hybiau hyn yn dod â nifer o asiantaethau a phartneriaid cymunedol at ei gilydd, gan sicrhau bod teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol yn well.

3. Y Gymraeg a Chynhwysiant Diwylliannol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o drin darpariaeth y Gymraeg a chynhwysiant diwylliannol, gan gydnabod eu pwysigrwydd o ran diogelwch, urddas a mynediad teg. Mae'r prif welliannau yn cynnwys:

- **Cynnig Rhagweithiol Gwell:** Mae'r Cynnig Rhagweithiol wedi cael ei gryfhau ar draws gwasanaethau, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gofal yn Gymraeg heb orfod gofyn. Mae hyn yn cefnogi cyfathrebu gwell, yn gwella hyder cleifion, ac yn hyrwyddo profiad sy'n fwy sensitif yn ddiwylliannol.
- **Hyfforddiant estynedig:** Mae cyfleoedd hyfforddiant iaith Gymraeg wedi cael eu hehangu, gan alluogi mwy o staff i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Mae hyn yn cynnwys dysgu rhagarweiniol, cefnogaeth â sgysiau, a rhaglenni uwch ar gyfer siaradwyr rhugl.
- **Asesiadau gwell:** Mae gwasanaethau wedi gwella'r ffordd maent yn asesu ac yn cofnodi anghenion ieithyddol a diwylliannol cleifion. Mae hyn yn sicrhau bod siaradwyr Gymraeg a phobl o gefndiroedd diwylliannol amrywiol yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn cael eu cefnogi'n briodol drwy gydol eu gofal.
- **Integreiddio cryfach o fewn cynllunio:** Mae ystyriaethau'r iaith Gymraeg a chynhwysiant diwylliannol nawr yn cael eu hymgorffori'n fwy cyson wrth gynllunio gwasanaethau, datblygu'r gweithlu, a dylunio polisïau. Mae hyn yn sicrhau bod cynhwysiant yn rhan annatod o sylfeini'r gwasanaethau a ddarperir yn hytrach na bod yn rhywbeth sy'n cael ei ychwanegu'n ddiweddarach.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal sy'n fwy hygyrch a phriodol yn ddiwylliannol.

4. Gweithio gyda Phartneriaid

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei bartneriaethau ag ystod eang o sefydliadau, gan gydnabod bod cydweithio effeithiol yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Mae'r prif bartneriaid yn cynnwys:

- **Awdurdodau Lleol:** Mae'r cydweithio â chynghorau lleol wedi dwysáu, yn enwedig o ran gofal yn y gymuned, atal, tai, a phenderfynyddion iechyd ehangach. Mae'r cydweithio hwn yn cefnogi gwasanaethau mwy cydlynol a chanlyniadau gwell i drigolion lleol.
- **Prifysgolion:** Mae partneriaethau â sefydliadau academiaidd wedi parhau i dyfu, gan gefnogi ymchwil, arloesedd, datblygiad y gweithlu, a dysgu ar y cyd. Mae'r perthnasoedd hyn yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu llywio gan y dystiolaeth ddiweddaraf ac arferion gorau.
- **Sefydliadau'r Trydydd Sector:** Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau'r ffordd mae'n ymgysylltu â sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, gan gydnabod eu rôl hanfodol o ran cefnogi llesiant, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a darparu cymorth yn y gymuned.
- **Grwpiau Cymunedol:** Mae cysylltiadau cryfach â grwpiau cymunedol yn sicrhau bod lleisiau lleol yn siapia dyluniad gwasanaethau a darpariaeth. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau cymunedau amrywiol ar draws y rhanbarth.
- **Rhwydweithiau a Byrddau Rhanbarthol:** Mae cymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau a phartneriaethau rhanbarthol wedi gwella'r trefniadau cydlynol ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chyhoeddus. Mae hyn yn cefnogi cynllunio mwy integredig a dull gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â heriau ar draws y system.

Mae hyn wedi cefnogi gwelliannau fel a ganlyn:

- **Atal:** Mae partneriaethau cryfach wedi galluogi mentrau atal mwy cydlynol, gan helpu cymunedau i aros yn iach am fwy o amser, a lleihau galw y gellir ei osgoi ar wasanaethau.
- **Iechyd Meddwl:** Mae cydweithio ag awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector a grwpiau cymunedol wedi cryfhau cymorth cynnar, gwella mynediad at wasanaethau yn y gymuned, a llwybrau gwell i bobl ag anghenion iechyd meddwl.
- **Gofal yn y Gymuned:** Mae cydweithio ar draws sectorau wedi cefnogi modelau gofal cymunedol mwy integredig, gan sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir yn nes at adref a gwella'r dilyniant rhwng gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwirfoddol.
- **Datblygu'r Gweithlu:** Mae partneriaethau â phrifysgolion, byrddau rhanbarthol a sefydliadau lleol wedi ehangu cyfleoedd ar gyfer hyfforddi, recriwtio a datblygu gyrfaedd, gan helpu i adeiladu gweithlu mwy cynaliadwy a medrus.

- **Ymchwil ac Arloesi:** Mae cydweithio agosach â phartneriaid academiaidd a rhanbarthol wedi cryfhau capasiti ymchwil, cefnogi prosiectau arloesi, ac wedi helpu i roi syniadau a thystiolaeth newydd ar waith yn gyflymach.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal mwy cydgysylltiedig a gwell defnydd o adnoddau lleol.

Effaith ar Gleifion a Chymunedau

- Mwy o ddylanwad dros ddyluniad gwasanaethau.
- Gwell mynediad at wybodaeth ac ymgysylltiad.
- Partneriaethau cymunedol cryfach.
- Gwell hygyrchedd diwylliannol ac ieithyddol.

Heriau a'r hyn mae'r Bwrdd lechyd yn ei wneud yn eu cylch

- **Mae angen i ymgysylltiad fod yn fwy cyson ar draws pob ardal.** Er bod y gweithgareddau ymgysylltu wedi ehangu, mae lefelau cyfranogiad yn dal i amrywio ar draws gwasanaethau ac ardaloedd. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio i gryfhau cydlyniant, darparu arweiniad cliriach, a chefnogi timau i fabwysiadu dull mwy cyson a chynhwysol o ymgysylltu.
- **Mae angen dulliau gweithredu wedi'u targedu ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd.** Mae rhai cymunedau'n parhau i ymgysylltu llai oherwydd rhwystrau fel iaith, mynediad digidol, ymddiriedaeth neu ffactorau diwylliannol. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu dulliau gweithredu wedi'u targedu sy'n cael eu harwain gan y gymuned, gan weithio gyda phartneriaid lleol, grwpiau llawr gwlad a chyfryngwyr dibynadwy i sicrhau bod y lleisiau hyn yn cael eu clywed.
- **Mae angen gwreiddio ymdrechion cyd-gynhyrchu yn gynharach mewn prosesau cynllunio.** Er bod cyd-gynhyrchu wedi cryfhau, nid yw eto'n rhan gyson o gamau cynharaf y prosesau cynllunio. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod cynnwys y gymuned yn dod yn rhan arferol o ddylunio gwasanaethau o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach nag yn ddiweddarach yn y broses.

Cysondeb â Meysydd Ansawdd lechyd a Gofal

Mae'r gwaith a gyflawnir o dan yr amcan hwn yn cefnogi'r meysydd ansawdd cenedlaethol yn uniongyrchol drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu siapio gan y bobl sy'n eu defnyddio, a bod penderfyniadau'n adlewyrchu gwir anghenion y gymuned:

- **Diogel:** Drwy wrando'n fwy astud ar gleifion, gofalwyr a chymunedau, mae'r Bwrdd lechyd yn cael gwell dealltwriaeth o risgiau, rhwystrau a phryderon diogelwch. Mae hyn yn helpu gwasanaethau i ymateb yn gynharach ac i ddylunio llwybrau mwy diogel.
- **Effeithiol:** Pan fydd gwasanaethau'n cael eu dylunio gyda'r bobl sy'n eu defnyddio, maent yn fwy tebygol o ddiwallu anghenion, gwella canlyniadau, ac

adlewyrchu'r hyn sy'n gweithio mewn lleoliadau go iawn. Mae ymgysylltu hefyd yn cryfhau atal a chymorth cynnar, sy'n allweddol i effeithiolrwydd hirdymor.

- **Canolbwyntio ar yr unigolyn:** Mae mwy o gyfranogiad, cyd-gynhyrchu a gwell darpariaeth Gymraeg yn sicrhau bod gofal yn adlewyrchu dewisiadau, gwerthoedd a hunaniaeth ddiwylliannol pobl. Dyma graidd gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- **Amserol:** Mae llwybrau wedi'u cyd-gynllunio a modelau yn y gymuned yn helpu i wella mynediad, lleihau oedi, a sicrhau bod pobl yn cael cymorth yn gynharach, yn enwedig drwy Hybiau Cymorth Cynnar ac ailgynllunio gofal sylfaenol.
- **Effeithlon:** Mae gweithio gyda chymunedau a phartneriaid yn helpu i wneud gwell defnydd o asedau lleol, yn osgoi dyblygu, ac yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio o amgylch galw go iawn yn hytrach na rhagdybiaethau.
- **Teg:** Mae ymgysylltu cynhwysol, allgymorth wedi'i dargedu a darpariaeth Gymraeg gryfach yn helpu i sicrhau bod pob grŵp, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu clywed yn aml, yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau a chael gafael ar ofal sy'n bodloni eu hanghenion.

Sut mae hyn yn cefnogi'r System Rheoli Ansawdd

Mae'r gwaith hwn yn cryfhau cwadrantau **Cynllunio Ansawdd a Diwylliant Ansawdd** y System Rheoli Ansawdd, sef y rhannau sy'n sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio gyda phobl, nid dim ond ar eu cyfer, a bod staff yn gwerthfawrogi gwrando, dysgu a phartneriaeth.

O safbwynt y cyhoedd, mae hyn yn golygu:

- **Gwasanaethau sy'n seiliedig ar brofiad bywyd**, sy'n sicrhau bod penderfyniadau'n adlewyrchu'r hyn sydd bwysicaf i gleifion, gofalwyr a chymunedau.
- **Diwylliant lle mai gwrando yw'r norm**, sy'n helpu staff i ddeall gwir effaith gwasanaethau a nodi cyfleoedd i wella.
- **Cynllunio a dylunio gwell**, oherwydd bod ymgysylltu a chyd-gynhyrchu yn rhoi cipolwg ar anghenion, disgwyliadau a rhwystrau na all data yn unig eu datgelu.
- **Gofal mwy cynhwysol a phriodol yn ddiwylliannol**, wedi'i gefnogi gan ddarpariaeth Gymraeg gryfach ac ymgysylltiad wedi'i dargedu â chymunedau amrywiol.
- **Sylfaen gryfach ar gyfer gwelliant parhaus**, gan fod adborth gan y gymuned, profiad cleifion a gweithio mewn partneriaeth yn dod yn rhan annatod o'r ffordd mae gwasanaethau'n datblygu.

Drwy wreiddio llais y dinesydd, cyd-gynhyrchu a chynhwysiant diwylliannol mewn ymarfer bob dydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn adeiladu system lle mae ansawdd yn cael ei yrru gan y bobl sy'n dibynnu ar wasanaethau yn ogystal â data a safonau. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer darparu gofal sy'n ddiogel, yn dosturiol ac yn ymatebol ledled Gogledd Cymru

Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Trosolwg

Mae gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi'i seilio ar yr ymrwymadau sydd wedi'u nodi yn y **Bwriad Strategol ar gyfer Iechyd a Llesiant**, y **Cynllun Tymor Canolig Integredig**, a'r **Cynllun Cyflawni Blynnyddol**. Er bod cynnydd wedi'i wneud, mae'r sefydliad yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau'r ansawdd, diogelwch a'r cysondeb y mae pobl Gogledd Cymru yn eu disgwyl ac yn eu haeddu. Mae'r Bwrdd wedi bod yn glir y dylai gwelliant gael ei gefnogi gan ganolbwyntio parhaus ar ddiogelwch cleifion, rheoli risg a lleihau amrywiad diangen mewn gofal, gan roi sylw arbennig i'r meysydd lle mae perfformiad a chanlyniadau yn aros yn is na'r safonau a ddisgwylir.

Mae tair egwyddor graidd yn siapio cyfeiriad y Bwrdd Iechyd yn y dyfodol:

- **Darparu gofal diogel o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn**
- **Adeiladu system iechyd gynaliadwy a modern sydd wedi'i galluogi'n ddigidol**
- **Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a staff i ddylunio gwasanaethau gwell**

Bydd y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar atgyfnerthu cynnydd, cyflymu trawsnewid, a chryfhau'r sylfeini ar gyfer gwelliant hirdymor.

Blaenoriaethau Allweddol ar gyfer 2026/27

1. Gwreiddio'r System Rheoli Ansawdd

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i wreiddio'r System Rheoli Ansawdd ar draws pob gwasanaeth, gan sicrhau:

- Cynllunio Ansawdd Cyson
- Rheoli Ansawdd Dibynadwy
- Gwellu Ansawdd Systematig
- Dysgu o Ansawdd Cryf

Bydd hyn yn lleihau amrywiadau, yn cryfhau diogelwch, ac yn gwella canlyniadau.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal mwy cyson a dibynadwy ni waeth ble mae pobl yn byw na pha wasanaeth maent yn ei ddefnyddio.

2. Gwellu Mynediad a Lleihau Amseroedd Aros

Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Lleihau amseroedd aros hir am driniaeth canser ymhellach
- Gwellu llif gofal brys a gofal mewn argyfwng
- Cryfhau llwybrau gofal wedi'i gynllunio

- Ehangu dewisiadau yn y gymuned yn lle gofal ysbyty
- Gwella capasiti diagnosteg

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Amseroedd aros byrrach, diagnosis cynharach, a mynediad gwell at y gofal cywir ar yr adeg gywir.

3. Cryfhau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn cyflymu'r canlynol:

- Gweithredu Cymunedol o'r Cychwyn
- Alinio'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru
- Ehangu Gofal Cymunedol Uwch
- Trawsnewid iechyd meddwl yn y gymuned
- Modelau integredig yn yr ardal

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o ofal yn cael ei ddarparu yn nes at y cartref, gan leihau'r pwysau ar ysbytai a gwella dilyniant.

4. Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl, CAMHS a Niwroddatblygiadol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Cryfhau llwybrau argyfwng
- Gwella mynediad at therapi seicolegol
- Ehangu cymorth cynnar i blant a phobl ifanc
- Bwrw ymlaen â'r Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl
- Gwella llwybrau dementia a chymorth

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Cymorth cynharach, gwell dilyniant, a phrofiad gwell i bobl sydd ag anghenion iechyd meddwl.

5. Trawsnewid Digidol

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Parhau i gyflwyno system Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau yn electronig (ePMA)
- Bwrw ymlaen â'r Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl
- Cryfhau seilwaith digidol
- Ehangu data amser real a dadansoddeg ragfynegol
- Gwella mynediad digidol i staff a chleifion

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gofal mwy diogel a mwy effeithlon a llai o oedi yn cael ei achosi gan hen systemau.

6. Gweithlu a Diwylliant

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Rhoi'r Fframwaith Cynllunio Gweithlu Strategol ar waith
- Cryfhau datblygu arweinyddiaeth
- Gwella llesiant staff
- Defnyddio hyd yn oed llai o staff asiantaeth
- Gwreiddio arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Timau mwy sefydlog, cyfathrebu gwell, a phrofiad gwell i gleifion.

7. Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth a Chynaliadwyedd

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Ehangu rhaglenni gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth
- Lleihau amrywiadau diangen
- Cryfhau llywodraethiant ariannol
- Gwella cynaliadwyedd amgylcheddol
- Datblygu'r Academi Gwerth

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Gwell canlyniadau, defnydd mwy effeithlon o adnoddau, a GIG sy'n fwy cynaliadwy.

8. Cryfhau Ymgysylltiad a Chyd-gynhyrchu

Bydd y Bwrdd Iechyd yn:

- Ehangu'r Bwrdd Llais leuenctid
- Cryfhau ymgysylltiad â'r gymuned
- Gwreiddio cyd-gynhyrchu yn y gwaith o ailgynllunio gwasanaethau
- Gwella'r ddarpariaeth Gymraeg
- Cryfhau partneriaethau ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymunedau yng Ngogledd Cymru:

Mwy o ddylanwad dros y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu.

Casgliad

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd cynnar pwysig, mae'n cydnabod bod hyn yn deillio o sylfaen isel ac bod perfformiad a ansawdd yn parhau i fod yn is na'r safonau a ddisgwylir mewn nifer o feysydd. Mae maint a chymhlethdod y heriau, yn enwedig mewn gofal brys ac argyfyngus, yn parhau i gyflwyno risg i brofiad a chanlyniadau cleifion, ac mae'r rhain yn gofyn am ganolbwyntio a goruchwyliaeth barhaus gan y Bwrdd. Bydd y flwyddyn i ddod yn gofyn am gyflwyno disgybledig, arweinyddiaeth gryfach a gwaith partneriaeth parhaus i sicrhau gwelliant yn gyflym ac ar raddfa eang. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i'r dasg hon ac i sicrhau bod cleifion ledled Gogledd Cymru yn derbyn gofal diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel yn gyson.



Y Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd:		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor:		25/08/2026	Adroddiad: Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
A gafwyd cworwm:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth (PFIGC) yn parhau i gyfarfod yn ddeufisol. Ystyriodd y Pwyllgor yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor PFIG - BIPBC	
2a	Rhybudd	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno Rhybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Parhaodd diffyg misol a oedd yn fwy na'r disgwyl ym Mis 4. Mae diffyg y flwyddyn hyd yma yn £22.9 miliwn o'i gymharu â diffyg cynlluniedig o £14.3 miliwn. Er gwaethaf cynnydd da o ran nodi arbedion, nid yw'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar y ffigur terfynol. - Mae cyflawni arbedion rheolaidd cynaliadwy yn parhau i fod yn heriol. Mae rhai cyfleoedd yn dibynnu ar gapasiti gweithredol ychwanegol, deallusrwydd data a gweithredu'r Ffrwd Waith Amrywiadau Clinigol yn llwyddiannus, er mwyn mynd i'r afael â materion dwfn a systemig. - Mae rhestrau aros cyffredinol wedi dechrau cynyddu, gan greu risg o ran cyflawni llwybrau gofal wedi'u cynllunio a thargedau dad-ddwysáu. - Mae perfformiad canser yn parhau i fod yn sylweddol is na'r safon genedlaethol, gyda phwysau parhaus ar lwybrau dermatoleg, y colon a'r rhefr, y fron ac wroleg. - Tynnwyd sylw at bryderon ynghylch capasiti ac ansawdd endosgopi, ochr yn ochr â heriau parhaus o ran perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac arosiadau 12 awr yn arbennig. - Nodwyd cynnydd mewn Digwyddiadau Byth a chwynion, ac mae angen craffu a gwella'n barhaus. - Roedd y Pwyllgor yn pryderu na chafwyd diweddariadau ar gyfer rhai o'r prif gyflawniadau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod y cylch adrodd presennol.	
2b	Sicrwydd	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno rhoi Sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: O ran Gwerth a Chynaliadwyedd, cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod trefniadau llywodraethu a monitro cadarn ar waith, gyda gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau meincnodi,	

		gwireddu buddion a mesur gwerth y tu hwnt i arbedion ariannol. • Cafwyd cynnydd da o ran nodi arbedion yn y flwyddyn gyfredol ac, er ei fod yn heriol, nid yw gofynion Llywodraeth Cymru am £63 miliwn o arbedion er mwyn mantoli'r gyllideb, yn amhosibl. • Mae cynlluniau adfer wedi'u targedu, trefniadau monitro perfformiad a rhaglenni gwella ar waith ar draws pob maes allweddol sy'n peri pryder. • Dangosodd y rheolwyr ddealltwriaeth glir o'r heriau, y risgiau a'r camau gweithredu gofynnol, a bu goruchwyliaeth reolaidd drwy drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd.
2c	Hysbysu	Mae'r Pwyllgor PFIG yn dymuno Hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Mae angen parhau i oruchwyllo cyflawni'r rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd, yn arbennig o ran trosi cyfleoedd a nodwyd yn arbedion cynaliadwy, gwelliannau cynhyrchiant a manteision mesuradwy i gleifion a gwasanaethau. • Er bod cynnydd mewn sawl maes perfformiad, mae risgiau sylweddol yn parhau o ran cyflawni yn erbyn nifer o dargedau cenedlaethol a meini prawf dad-ddwysáu. • Mae angen ffocws parhaus ar adfer gofal wedi'i gynllunio, gwella canser, llif gofal brys a gofal mewn argyfwng, capasiti diagnostig a pherfformiad ansawdd a diogelwch. • Dylai'r Bwrdd barhau i oruchwyllo llwybrau adfer ac effaith camau gwella sy'n cael eu rhoi ar waith ar draws y sefydliad yn ofalus.. • Mae cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (er yn llai nag y gofynnwyd amdano) wedi'i sicrhau i gefnogi rhaglenni gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg a gofal brys ac mewn argyfwng, er bod risgiau cyflawni yn parhau.
2d	Adolygu Risgiau	Derbyniodd PFIG sicrwydd a chymeradwyodd ddiweddariad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan nodi: • Adolygodd y Pwyllgor y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a oedd wedi'i ddiweddarau, a chafodd sicrwydd ei fod yn darparu aliniad cliriach rhwng y Bwriad Strategol, amcanion, risgiau a sicrwydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP); fodd bynnag, tynnodd yr aelodau sylw at yr angen am amlygu mwy o gamau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y meysydd hynny lle mae diffyg hyder yn y ddarpariaeth. Rhybuddiodd yr aelodau hefyd fod rhai o'r cyflawniadau (gan gynnwys rhai lle adroddwyd bod hyder yn uchel) yn ymddangos yn afrealistig yng ngoleuni'r cynnydd gwirioneddol o ran mynd i'r afael â phroblemau heriol.

2e	Rhannu gwersi a ddysgwyd	Nid oedd unrhyw eitemau dysgu penodol i dynnu sylw'r Bwrdd atynt ar yr achlysur hwn.
3	Caiff y camau gweithredu eu hystyried gan Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad	Cynhelir adolygiad manwl o berfformiad endosgopi a phryderon ansawdd trwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD ANSAWDD A PHERFFORMIAD INTEGREDIG

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 September 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Olivia Shorrocks Cyfarwyddwr Perfformiad Director of Performance
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Russell Caldicott Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Executive Director of Finance
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Er gwybodaeth

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi sefyllfa bresennol y Bwrdd Iechyd o ran metrigau ansawdd y cytunwyd arnynt, ac yn nodi'r camau allweddol sydd eu hangen i wella perfformiad a sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad gwrthrychol i'r Bwrdd (yn seiliedig ar waith dadansoddi), yn tynnu sylw at faterion perfformiad, ac yn rhannu gwybodaeth a data hirdymor am y gwelliannau sydd ar y gweill.

Gofynnir i aelodau nodi'r sefyllfa bresennol a lefelau sicrwydd yn erbyn metrigau perfformiad.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) **Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)**

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn		



ADRODDIAD ANSAWDD A PHERFFORMIAD INTEGREDIG

1.0 Y SEFYLLFA / SITUATION

1.1 Mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig yn sail i Fframwaith Perfformiad ac Atebolrwydd y bwrdd iechyd, ac mae'n integreiddio dangosyddion perfformiad allweddol a gymerwyd o:

- Elfennau allweddol i'w cyflawni o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig blynyddol
- Meini prawf isgyfeirio mesurau arbennig
- Mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru
- Prif elfennau i'w cyflawni mewn ymateb i Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac argymhellion ffurfiol eraill.

2.0 Y CEFNDIR / BACKGROUND

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn asesu perfformiad y sefydliad, gan amlinellu cyflawniadau allweddol, meysydd heriol, a'r camau sy'n cael eu cymryd i sbarduno gwelliannau yn erbyn y meysydd canlynol:

- Perfformiad gweithredol a mynediad
- Ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion
- Cyllid a chynaliadwyedd
- Pobl a lleoedd
- Iechyd y boblogaeth ac atal

Mae'n dwyn ynghyd ddata meintiol, dadansoddiad naratif a chyd-destun strategol i gyflwyno trosolwg cynhwysfawr o berfformiad gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd. Mae'r mesurau perfformiad a'r targedau a nodir yn yr adran hon yn cyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27.

3.0 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 Perfformiad a mynediad

Gwnaeth y bwrdd iechyd gynnydd parhaus o ran lleihau amseroedd aros **gofal wedi'i gynllunio** dros y flwyddyn ariannol hyd at fis Mawrth 2026 gyda nifer y cleifion sy'n aros dros 104 wythnos wedi gostwng 79% erbyn diwedd mis Mawrth 2026 o'i anterth ym mis Gorffennaf 2024. Nid yw nifer y cleifion sy'n aros dros ddwy flynedd wedi gwella ers diwedd mis Mawrth, gyda chynnydd o 5% wedi'i

nodi mewn amseroedd aros hir. Roedd nifer fach o gleifion wedi bod aros mwy na thair blynedd yn niwedd mis Gorffennaf ac er bod y rhain yn cael eu rheoli'n weithredol, mae'n dangos pa mor fregus yw'r cynnydd a wnaed hyd yma.

Mae'r bwrdd iechyd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, wedi datblygu cynllun cynhwysfawr sydd wedi'i ddylunio i ddileu pob un o'r toriadau 104 wythnos dros yr 8 mis nesaf. Mae disgwyl cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o gyllid ychwanegol i gefnogi'r cynllun adfer integredig sengl a gyflwynwyd cyn bo hir.

Roedd perfformiad **canser** 1% yn uwch na'r trywydd ym mis Gorffennaf 2026 ar 57.1% ond mae'n dal i fod gryn dipyn yn is na'r targed cenedlaethol. Mae angen i'r bwrdd iechyd fod dros 55% am bedwar mis yn olynol i gyrraedd targed isgyfeirio mesurau arbennig Llywodraeth Cymru. Yn unol â phrotocolau y cytunwyd arnynt, mae data cancer yn cael ei ailgyflwyno bob chwarter ac arweiniodd ailgyflwyno data Ionawr – Mawrth 2026 at berfformiad gwell gyda pherfformiad mis Chwefror a mis Mawrth yn uwch na'r trothwy isgyfeirio o 55%.

Trothwy isgyfeirio	Ionawr-26	Chwefror-26	Mawrth-26
55%	54.8%	57.1%	58.3%

Mae heriau o hyd yng ngwasanaethau'r croen, y fron, wroleg, y colon a'r rhefr, a'r pen a'r gwddf, gan adlewyrchu pwysau parhaus o ran capasiti, llwybrau a galw. Mae comisiynu wedi'i dargedu yn digwydd i gefnogi'r gwaith o roi cynlluniau adfer ar waith.

Mae perfformiad **diagnostig** wedi parhau i wella gyda chanran y cleifion sy'n cael eu gweld o fewn wyth wythnos wedi cynyddu o 47.1% ddiwedd mis Ionawr 2026 i 68.3% ddiwedd mis Gorffennaf 2026 - gostyngiad o tua 14,500 o gleifion sy'n aros dros 8 wythnos. Mae cyfyngiadau capasiti yn parhau o fewn gwasanaethau allweddol, yn enwedig radioleg, endosgopi ac uwchsain nad yw'n obstetreg, lle mae'r galw o bob llwybr h.y. cleifion mewnol, brys, cancer a galw arferol ochr yn ochr â phwysau o ran y gweithlu yn parhau i effeithio ar berfformiad.

Roedd y perfformiad yn erbyn canran y bobl sy'n cael **therapi seicolegol i oedolion** o fewn 26 wythnos i'r atgyfeiriad wedi gwella rhywfaint rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf, ond mae'n dal yn is na'r safon genedlaethol o 80% gyda 55.13% o gleifion yn dechrau triniaeth o fewn 26 wythnos ym mis Gorffennaf. Er bod disgwyl i berfformiad wella'n raddol wrth i gamau adfer gael eu cymryd, mae cyflawni'r safon genedlaethol yn dal yn heriol.

Mae mynediad i blant sydd angen asesiadau **niwroddatblygiad** yn dal yn is na'r disgwyliadau ar 16.9% o fewn 26 wythnos i BIPBC o'i gymharu â tharged o 80%. Mae ffocws ar leihau amseroedd aros dros 3 blynedd, gyda chefnogaeth comisiynu allanol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 67% yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na 3 blynedd rhwng mis Rhagfyr 2025 a mis Gorffennaf 2026. Er

bod y cynnydd hwn yn galonogol, mae'r rhagolygon presennol yn dangos y bydd diffyg capasiti o hyd o ran clirio'r garfan sy'n aros tair blynedd erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae gwasanaethau gofal brys ac argyfwng ar draws y bwrdd iechyd yn parhau i weithredu dan bwysau parhaus, ac yn cyflwyno risgiau i ddiogelwch a phrofiad cleifion, ansawdd gofal, lles staff ac enw da'r sefydliad.

Mae'r perfformiad o'i gymharu â'r safon trosglwyddo 45 munud wedi gwella 21% dros y ddau fis diwethaf, gyda gwelliannau i'w gweld ym mhob safle. Roedd sefyllfa mis Awst 587 o gleifion yn well na'r llwybr y cytunwyd arno (57% o fewn 45 munud), gan ddangos cynnydd cadarnhaol o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo. Er gwaethaf y gwelliant hwn, mae'r perfformiad yn dal yn is na'r disgwyliad cenedlaethol o ddim trosglwyddiadau sy'n fwy na 45 munud.

Mae gwasanaethau gofal brys a gofal argyfwng yn parhau o dan bwysau sylweddol, gyda risgiau parhaus i ddiogelwch a phrofiad cleifion, ansawdd gofal, lles staff ac enw da'r sefydliad. Er gwaethaf gostyngiad o 2.9% mewn cludiant ambiwlans ym mis Awst, cynyddodd nifer yr achosion o hunan-bresenoldeb 6.5%, gan ychwanegu at y galw ar draws llwybrau gofal brys a gofal argyfwng. Roedd perfformiad 12 awr adrannau achosion brys wedi gwella ychydig i 17%, mae'r hyder i gyflawni'r targed isgyfeirio mesurau arbennig o lai na 10% erbyn diwedd mis Medi yn dal yn isel. Mae cyfyngiadau llif ar draws y system ac oedi cyn darparu gofal yn parhau i effeithio ar berfformiad.

Cyhoeddodd AGIC ei hadroddiad ym mis Medi yn dilyn ei harolygiad dirybudd o'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd ym mis Mehefin 2026, pan nododd fod y gwasanaeth yn faes sy'n peri pryder sylweddol. Mae'r meysydd y mae angen eu gwella yn ymwneud â diogelwch mannau aros, gofal brys paediatrig, rheoli meddyginiaethau ac offer, a goruchwyllo diogelu. Mae cynllun adfer manwl wedi cael ei ddatblygu i ymateb i'r pryderon a godwyd.

3.2 Ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion

Adroddwyd ar un digwyddiad byth yn ystod mis Awst 2026, gan ddod â'r sefyllfa gronnus i saith yn ystod 2026/27. Mae'r bwrdd iechyd yn allanolyn o'i gymharu â'r byrddau iechyd eraill yng Nghymru, ac yn cyfrif am 42% o'r digwyddiadau byth a gofnodwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf (ac eithrio achos mis Awst).

Mae angen rhoi sylw gweithredol o hyd i themâu sy'n codi dro ar ôl tro sy'n ymwneud â chydymffurfio â safonau diogelwch gweithdrefnau mewnwithiol, rheoli meddyginiaethau a llywodraethu clinigol.

Mae rhaglen ar y gweill ar draws y bwrdd iechyd i gyfuno'r holl Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Ymwithiol (LocSSIPs) a sicrhau bod rhaglenni archwilio parhaus ar waith. Bwriad y rhaglen waith yw ymestyn trefniadau sicrwydd ar draws yr holl weithdrefnau mewnwithiol a chryfhau adrodd drwy brosesau llywodraethu.

Mae nifer y cwynion agored wedi cynyddu gyda'r data diweddaraf yn dangos 374 o gwynion agored yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Medi 2026, cynnydd o hanner cant o gwynion agored o ddechrau mis Awst. Ardal y Gymuned Iechyd Integredig ganolog sydd â'r nifer uchaf o gwynion agored. Mae lefel barhaus y cwynion agored yn adlewyrchu'r her barhaus o gydbwysu'r galw newydd â gallu gwasanaethau i ymchwilio ac ymateb i bryderon.

3.3 Cyllid a chynaliadwyedd

Mae'r cynllun ariannol a gyflwynwyd gan y bwrdd iechyd yn nodi bwlch o £89 miliwn i fantoli'r gyllideb. Ar ôl ymgorffori targed arbed arfaethedig o £46 miliwn o arbedion wedi'u targedu, mae diffyg arfaethedig o £43 miliwn yn dal i fodoli, sy'n golygu nad oes disgwyl i'r sefydliad gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol ar hyn o bryd.

Ar ddiwedd mis 5 (Awst) 2026, mae'r bwrdd iechyd yn adrodd am ddiffyg o £29.3 miliwn hyd yma, sy'n £11.4 miliwn yn fwy na'r diffyg disgwyledig o £17.9m ar gyfer y flwyddyn hyd yma oherwydd pwysau sy'n ymwneud yn bennaf â thâl, diffyg talu, presgripsiynu a gofal iechyd parhaus.

Mae'r rhagolwg presennol ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn ddiffyg o £43 miliwn, sy'n gyson â'r cynllun ariannol a gyflwynwyd. Mae cyflawni'r rhagolwg hwn yn dibynnu ar nifer o dybiaethau allweddol, yn cynnwys:

- Gweithredu camau adfer yn llwyddiannus sy'n ddigon i leihau'r gyfradd rhedeg fisol sylfaenol i'r lefelau sydd wedi'u cynllunio ac adennill y gorwariant o'r flwyddyn hyd yma.
- Cyllid llawn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl ddyfarniadau cyflog 2026/27 a'r codiadau cyflog cysylltiedig.

- Derbyn yr holl ffrydiau incwm sy'n cael eu rhagweld.

Ym mis Awst 2026, mae cynlluniau arbedion gyda gwerth disgwylledig o £47.5 miliwn wedi cael eu datblygu, cynnydd o £3.6m ers y mis blaenorol. O'r cynlluniau a nodwyd, dim ond £31.8 miliwn sydd wedi cael ei adrodd fel gostyngiad yn y gyllideb, sy'n tynnu sylw at yr angen am waith pellach sylweddol i ganfod a chyflawni arbedion sy'n rhyddhau cyllideb reolaidd ac adfer llwybr ariannol cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei disgwyliad bod y bwrdd iechyd yn gweithio i gyflawni ei ddyletswydd ariannol allweddol a chyflwyno cynllun ariannol cytbwys. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen i'r bwrdd iechyd gyflawni rhaglen arbedion uwch o £63 miliwn, sy'n cynrychioli £17 miliwn yn ychwanegol uwchlaw'r targed arbedion o £46 miliwn sydd wedi'i ymgorffori ar hyn o bryd yn y cynllun ariannol a gyflwynwyd.

Byddai cyflawni'r targed ymestyn hwn yn golygu bod modd lliniaru £26 miliwn o gostau Cronfa Risg Cymru drwy gymorth Llywodraeth Cymru, gan ganiatáu i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun cytbwys ar gyfer 2026/27 a chyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol o fantoli'r gyllideb.

Mae methu â chyflawni'r ddyletswydd ariannol statudol yn peryglu mynediad at oddeutu £82 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn cynyddu'n sylweddol yr her ariannol sy'n wynebu'r sefydliad ac yn cyfyngu ar ei allu i gynnal gwasanaethau, buddsoddi yn y gweithlu a seilwaith, a chefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau adfer gweithredol.

3.4 Pobl a lleoedd

Mae perfformiad y gweithlu yn dal yn weddol sefydlog, gyda dangosyddion allweddol yn dangos rhywfaint o gynnydd er gwaethaf heriau recriwtio parhaus. Cynyddodd y gyfradd swyddi gwag i 9.2% ym mis Awst, wedi'i sbarduno'n bennaf gan dwf arfaethedig y sefydliad, gan gynnwys swyddi nyrsio ychwanegol i gefnogi recriwtio nyrsys graddedig ac ehangu graddau hyfforddiant meddygol, yn hytrach na gostyngiadau mewn staff parhaol. Mae oedi wrth recriwtio a swyddi gwag anodd eu llenwi yn dal i effeithio ar gynnydd, er bod gwelliannau'n cael eu gwneud i brosesau rheoli sefydliadau.

Mae cynllunio gweithlu strategol yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau, trawsnewid y gweithlu a blaenoriaethau cynhyrchiant, gan gynnwys gweithredu'r Polisi Cynllunio Swyddi Meddygon Ymgynghorol a Meddygon Arbenigedd a Meddygon Arbenigol a chamau gweithredu i leihau dibyniaeth ar staff dros dro. Mae'r defnydd o asiantaethau wedi gostwng i 2.3%, gyda gwariant wedi gostwng yn sylweddol o un flwyddyn i'r llall a pherfformiad ar y trywydd iawn i gyflawni targed lleihau 30% Llywodraeth Cymru.

Mae trosiant yn dal yn isel ac yn sefydlog ar 7.1%, tra bod absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu ychydig i 6.2%, wedi'i sbarduno'n bennaf gan absenoldeb tymor hir. Mae cydymffurfiaeth â'r adolygiad datblygu perfformiad blynyddol yn 80.3%, ac mae hyfforddiant gorfodol yn dal yn uwch na'r targed ar 90.2%.

4.0 ASESU

Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran sicrhau adferiad parhaus ac mae risg o lithriant wrth i restrau aros ddechrau tyfu. Mae perfformiad yn erbyn safonau cenedlaethol yn parhau i fod yn is na'r disgwyl mewn nifer o wasanaethau, yn enwedig gofal brys a gofal mewn argyfwng, canser a gofal wedi'i gynllunio. Ochr yn ochr â'r heriau gweithredol hyn, mae'r bwrdd iechyd yn wynebu risg ariannol sylweddol, gyda chyflawni'r ddyletswydd ariannol statudol yn hanfodol i gynnal mynediad at gyllid cymorth Llywodraeth Cymru a chefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol. Mae cynlluniau ar waith, ond bydd cyflawni'n gyflym yn hanfodol yn ystod gweddill 2026/27.

5.0 ARGYMHELLION / RECOMMENDATIONS

- 5.1 Mae'r holl eithriadau a nodir yn y papur hwn yn cael eu monitro ac yn destun craffu sylweddol. Er gwaethaf hyn, mae risg sylweddol na fydd tafl-lwybrau'r bwrdd iechyd yn cael eu cyflawni yn ystod y chwarter hwn. Felly, gofynnir i aelodau'r pwyllgor ddarparu goruchwyliaeth a her gadarn, gan sicrhau bod cynlluniau adfer yn cyflawni gwelliant mesuradwy a bod camau rheoli yn gymesur â graddfa'r heriau gweithredol, ansawdd ac ariannol sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms	
A&E	Damweiniau ac Achosion Brys
AB	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
ADHD	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
ASD	Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig
BCU/BCUHB	
C&V	

CRR	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
CTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
ENT	Cyfeirnod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
GDS	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
GP	Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)
HDda	Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
AaGIC	Meddyg Teulu
IHC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
LPMHSS	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
MH&LD	Cymuned Iechyd Integredig
MMR	Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol
GIG	Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
NR	Y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela
PADR	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
PFIG	Achlysurol/anghylchol
QSE	Adolygiad Datblygu ac Arfarnu Perfformiad
SB	Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth
SM	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau
WAST	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
WG	
YTD	

	Mesurau Arbennig Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru Llywodraeth Cymru hyd yma
--	---

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	    
	4. Gwella ansawd, califiadau a phrofiad Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Tegwch a Hygyrchedd Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	CRR 25-01 Mynediad Amserol Cleifion at Ofal Diogel ac Effeithiol CRR 25-06 Cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd Ariannol CRR 25-08 Diffyg Cydymffurfio â Gofynion Rheoleiddiol a Deddfwriaethol

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	

<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Mae pob un yn berthnasol	Meysydd Ansawdd Domains of Quality Mae pob un yn berthnasol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru Iachach	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog: Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	

<i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
Enw Da Reputational	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	

Bwrdd Iechyd**ADRODDIAD CYLLID PBC 2026-27 – MIS 5 (AWST)**

Dyddiad y Cyfarfod	24 September 2026
Statws Cyhoeddi	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur yr Adroddiad	Michelle Jones, Pennaeth Adroddiadau Ariannol Daniel Eyre, Pennaeth Datblygu Cyfalaf
Enw a theitl yr Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol	Russell Caldicott, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

Pwrrpas yr Adroddiad	I'w Nodi
-----------------------------	----------

Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar ddiwedd Mis 5 (Awst 2026), ynghyd â chynnydd yn erbyn y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd a chyflawni rhaglen arbedion 2026/27.

Adroddiad Cyllid

Dywedodd y Bwrdd Iechyd fod diffyg o £6.4m yn ystod y mis ym Mis 5, sydd £2.8m yn waeth na'r diffyg o £3.6m yn y cynllun ariannol a broffiliwyd ym Mis 5.

Y diffyg yn y flwyddyn hyd yma yw £29.3m, sy'n amrywiant anffafriol o £11.4m, o'i gymharu â'r diffyg o £17.9m a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn hyd yma. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau gwariant sy'n fwy na'r cynllun o tua £2.2m y mis, sy'n cael ei sbarduno'n bennaf gan bwysau sy'n ymwneud â thâl, peidio â thalu, rhagnodi a Gofal Iechyd Parhaus (CHC).

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiad gwirioneddol a'r amrywiad a ragwelir bob mis ar gyfer 2026/27:

	2026/27 Monthly Variance													
	Actual					Forecast								
	April	May	June	July	August	Sept	Oct	Nov	Dec	Jan	Feb	Mar	Year to Date Position	Full Year Forecast Outturn Position
	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Total Monthly Surplus/ (Deficit)	(5.4)	(5.6)	(6.2)	(5.8)	(6.4)	(4.8)	(3.8)	(2.2)	(1.8)	(1.8)	(1.8)	2.60	(29.3)	(43.0)

Mae'r rhagolwg presennol ar gyfer 2026/27 yn parhau i fod yn ddiffyg o £43 miliwn, sy'n gyson â'r cynllun ariannol a gyflwynwyd. Mae cyflawni'r rhagolwg hwn yn dibynnu ar nifer o dybiaethau allweddol, yn cynnwys:

- Gweithredu camau adfer yn llwyddiannus sy'n ddigon i leihau'r gyfradd rhedeg fisol sylfaenol i'r lefelau sydd wedi'u cynllunio ac adennill y gorwariant o'r flwyddyn hyd yma.
- Cyllid llawn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer holl ddyfarniadau cyflog 2026/27 a'r codiadau cyflog cysylltiedig.
- Derbyn yr holl ffrydiau incwm sy'n cael eu rhagweld.

Mae'r camau Rheoli a Gafael Uwch a weithredwyd yn flaenorol, a nodir isod, yn parhau i fod ar waith a byddant yn parhau tan o leiaf ddiwedd chwarter 3 yn 2026-27, a gallent wedyn ymestyn hyd ddiwedd y flwyddyn:

- Gwariant nad yw'n ymwneud â Chyflogau - Goruchwylio mewn meysydd nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ofal clinigol
- Cyflogau – Goruchwyliaeth a rheolaethau a roddir ar recriwtio allanol
- Gweithlu Dros Dro – Goruchwylio a chraffu ar yr arweinyddiaeth Weithredol Glinigol

Mae'r gwariant yn parhau i fod yn uwch na'r gyfradd weithredu a gynlluniwyd. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd nodi a gweithredu camau lliniaru ychwanegol i leihau'r sylfaen gostau sylfaenol ac adfer yr amrywiant anffafriol o'r flwyddyn hyd yma.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd ei disgwyliad bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i gyflawni ei ddyletswydd ariannol allweddol a chyflwyno cynllun ariannol cytbwys. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen i'r Bwrdd Iechyd gyflawni rhaglen arbedion uwch o £63 miliwn, sy'n cynrychioli £17 miliwn yn ychwanegol uwchlaw'r targed arbedion o £46 miliwn sydd wedi'i ymgorffori ar hyn o bryd yn y cynllun ariannol a gyflwynwyd.

Byddai cyflawni'r targed ymestyn hwn yn golygu bod modd lliniaru'r £26 miliwn o gostau Cronfa Risg Cymru drwy gymorth Llywodraeth Cymru, gan ganiatáu i'r

Bwrdd Iechyd gyflwyno cynllun cytbwys ar gyfer 2026/27 a chyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol o fantoli'r gyllideb.

Risgiau Ariannol

Mae'n hanfodol cyfyngu ar gostau sy'n gor-reddeg, a'u gwrth-droi, er mwyn cyflawni'r cynllun ariannol a gyflwynwyd ar gyfer 2026/27. Ar hyn o bryd asesir mai tua £30.4m yw'r risg ariannol gronol i gyflawni cynllun ariannol 2026/27 (ac eithrio'r risg o gael y cyllid cylchol amodol o £82m).

Mae lliniaru gorwariant a chyrraedd y targed ymestyn arbedion ychwanegol yn allweddol i sicrhau sefyllfa gytbwys a'r ddyletswydd ariannol allweddol.

Arian parod

Y balans arian terfynol ar gyfer mis Mehefin oedd £8.8m, gan gynnwys £4.6m o arian parod a oedd yn cael ei gadw ar gyfer gwariant refeniw a £4.2m ar gyfer prosiectau cyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld balans arian parod terfynol o (£35.1m) ar gyfer 2026-27 sy'n cynnwys (£40.5m) o arian refeniw a £4.1m o arian cyfalaf, a byddwn yn gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.

Arbedion

Mae Cynllun Ariannol 2026/27 yn gofyn am gyflawni £46.0m o arbedion cylchol yn y gyllideb, sy'n cyfateb i 2.4% o gyllidebau cylchol heb gynnwys cyllid wedi'i neilltuo.

Mae'r gwaith o nodi, monitro ac adrodd ar arbedion yn cael ei reoli drwy'r fframwaith Gwerth a Chynaliadwyedd, gan ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth Gwerth Clinigol, y Gweithlu, Gofal Iechyd Parhaus, Rheoli Meddyginiaethau, a Heb Gynnwys Cyflogau a Chaffael.

Ar ddiwedd Mis 5 (Awst), mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi cynlluniau cynilo Gwyrdd gwerth £47.5m, sy'n gynydd o £3.6m ers y mis blaenorol. O'r arbedion a nodwyd, mae £23.9m yn gylchol, gyda'r effaith yn £32.6m dros flwyddyn lawn.

O'r cynlluniau a nodwyd, nodwyd y byddai'r gyllideb yn gostwng o £31.8 miliwn, sy'n tynnu sylw at yr angen am gryn dipyn o waith pellach i ganfod a chyflawni arbedion sy'n rhyddhau cyllideb reolaidd ac adfer llwybr ariannol cynaliadwy.

Mae cyfleoedd arbed eraill gwerth £10.9m yn dal i gael eu dosbarthu fel cyfleoedd â statws Coch a chyfleoedd sydd ar y gweill. Mae gwaith yn parhau i symud y cynlluniau hyn ymlaen i statws Gwyrdd a sicrhau manteision y gellir eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Cyfanswm yr arbedion a dargedwyd i'w cyflawni yn y flwyddyn hyd yma yw £19.2m (5/12fed o'r targed blyneddol o £46m) a chyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd hyd yma yw £24.0m. O'r arbedion hyn, mae £14.4m yn cael ei ryddhau o'r gyllideb, gan arwain at ddiffyg o £4.8m yn yr arbedion y gellir eu hechdynnu o'r gyllideb o'i gymharu â'r targed ar gyfer y flwyddyn hyd yma, gan dynnu sylw at yr angen am waith pellach sylweddol i ganfod a chyflawni arbedion rhyddhau cyllideb reolaidd ac adfer llwybr ariannol cynaliadwy.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r arbedion a dargedwyd o £46m a nodwyd yn y cynllun cychwynnol ac arweiniodd hynny at ddiffyg o £43m. Fodd bynnag, mae angen nodi a chyflawni'r targed ymestyn o £17m erbyn hyn ar y cyd â lliniaru costau sy'n gor-redeg er mwyn gallu cyflwyno cynllun diwygiedig sydd (gyda £26m o liniaru costau Cronfa Risg Cymru) yn adennill costau a'r ddyletswydd ariannol allweddol.

Rhaglen Gyfalaf

Y Terfyn Adnoddau Cyfalaf sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2026-27 yw £60.0m, a rhagwelir y bydd yn cael ei wario'n llawn.

Adroddwyd bod £2.197m o incwm wedi'i roi o Fis 4 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys £0.8m o incwm a roddwyd ac £1.397m mewn perthynas ag Ailddatblygu Helipad Ysbyty Gwynedd.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried mewn Pwyllgor/Grŵp)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad	Canlyniad, Tystiolaeth a Data

Acronymau / Rhestr Termiau

IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
CRL	Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Adroddiad Cyllid M3 2026-27 PBC

Gweler Atodiad A – Adroddiad Cyllid M05 PBC 2026/27 – Awst 2026

ASESIAD	
Cysylltiad â Bwriadau Strategol	4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Mae'r papur hwn yn cyd-fynd â'r nod strategol o sicrhau cydbwysedd ariannol ac mae'n ategu nifer o flaenoriaethau sefydliadol.
Egwyddorion Cynllunio	Gwario'n Ddoeth
Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd) Atodiad A Risgiau BAF BAF SP14 – Ystadau a Chyfalaf <i>(Mae risg o fethu cyflawni a darparu amgylchedd adeiledig, offer a chyd-destun digidol diogel a chydymffurfiol oherwydd cyfyngiadau o ran cyllid cyfalaf, a allai effeithio'n niweidiol ar allu'r Bwrdd Iechyd i weithredu gwasanaethau diogel a chynaliadwy drwy raglen adnewyddu briodol, ac arwain at niwed y byddai modd ei osgoi i gleifion, staff a'r cyhoedd, a niwed i enw da ac ymglyfreitha.)</i> BAF24-03 – Cyflawni Gwerth a Chynaliadwyedd Ariannol <i>(Mae risg na fydd y Bwrdd Iechyd yn gallu sicrhau dyraniadau rheolaidd (untro) cyfredol mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, gan fod y dyraniadau hyn yn amodol ar fodloni cynlluniau ariannol y cytunwyd arnynt. Os na lwyddir i sicrhau'r adnodd hwn, bydd yn rhaid i wasanaethau weithredu o fewn amlen ariannol lai o lawer. Yr amcan yw sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor neu sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o'i wariant).</i> Dolen i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol: CRR24-06 Addasrwydd a Diogelwch Safleoedd CRR26/27-Fin-01 Cyflawni Cynllun Ariannol a Chynaliadwyedd Ariannol 2026/27
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant	Cymru Gydnerth Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:

ASESIADAU O'R EFFAITH		
Cydraddoldeb A ydych chi wedi ymgymryd ag Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Ddim yn berthnasol

<i>Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i>	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
Asesiad o Effaith Cymdeithasol-Economaidd <i>Ydych chi wedi cynnal Asesiad o Effaith Cymdeithasol-Economaidd</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i asesu'r gofyniad i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith Gymdeithasol ac Economaidd fesul prosiect.
<u>Ansawdd</u> <i>Ydych chi wedi cynnal Sgriniad Asesiad Effaith Ansawdd?</i>	Galluogwyr Ansawdd Data i Wybodaeth	Parthau Ansawdd Effeithiol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u>	Cymru Gydnerth	

Effaith Amgylcheddol/Cynaliadwyedd (5R)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
Y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog <i>Ydych chi wedi ystyried y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog?</i>	Do: ☐	Naddo: ☒
	Canlyniad:	Na - Ddim yn berthnasol
	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
Asesiad Effaith Diogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do: ☒	Naddo: ☐
	Canlyniad:	Dim data personol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.
	Os naddo, nodwch y rhesymeg:	
	Do: ☒	Naddo: ☐

Asesiad o'r Effaith Gwrth-dwyll <i>Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau gwrth-dwyll</i>	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	
Materion Cyfreithiol	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw da	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Goblygiadau dirywiad y rhagolwg i enw da.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i>	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Mae'r Bwrdd Iechyd yn cael £82 miliwn o gyllid cylchol amodol gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflawni cynllun 2025/26 (a) sicrhau balans ariannol £40 miliwn a (b) isgyfeirio o Fesurau Arbennig £42 miliwn er mwyn i'r cronfeydd hyn gael eu derbyn yn rheolaidd (ar gael ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol). Os na fydd y cynllun yn cael ei wella a'i gyflawni, bydd y cyllid o £82m mewn perygl o gael ei adfachu gan Lywodraeth Cymru ac mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd y modelau gwasanaeth presennol.	



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol

Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		18/08/2026	Adroddiad: Pwyllgor Archwilio
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda y gellir cael gafael arni yma: Pwyllgor Archwilio - BIPBC	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Archwilio rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae argymhellion archwilio sylweddol hirsefydlog yn dal ar agor, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â sicrwydd cyfyngedig ac anfoddhaol; gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth gliriach o gwblhau, effeithiolrwydd, ac effaith. - Mae angen mwy o afael ar gydymffurfio â pholisïau, polisïau hwyr a sicrwydd ar Gylchlythyrau Iechyd Cymru, Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gofynion rheoleiddio, yn enwedig lle mae diogelwch cleifion neu lefel uchel o risg i'r sefydliad yn gysylltiedig. - Mae rhai risgiau corfforaethol yn parhau i fod yn uwch na'r hyn a ddymunir am gyfnodau estynedig, a phwysleisiodd yr aelodau yr angen am raglenni gwaith clir, cerrig milltir a thystiolaeth o leihau risg. - Adroddodd y tîm Archwilio Mewnol nifer o adolygiadau sicrwydd cyfyngedig, gan gynnwys Codi Llais heb Ofn, newid gofal a gynlluniwyd, trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gweithredol, Safonau Ymddygiad Busnes, Cydymffurfiaeth Reoleiddiol ym maes Fferylliaeth, cynlluniau gwella gwasanaethau sy'n cael eu herio ac eitemau digidol nad ydynt yn Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT). - Cafodd y Prosiect Cyfuno Meddygaeth Niwclear sicrwydd anfoddhaol, gyda phryderon ynghylch fforddiadwyedd refeniw, llywodraethu, uwchgyfeirio, cymeradwyo, oedi, a gwybodaeth am gostau sydd wedi dod i ben. - Nododd yr adolygiad Llywodraethu Cyfalaf wendidau mynych mewn disgyblaeth achosion busnes, atebolrwydd, sicrwydd, caffael, rheoli contractau, a gwireddu buddion. - Amlygodd adroddiadau cyllid fwy o daliadau sydd ar nodyn ffeil y tu allan i'r broses archebion prynu arferol, ochr yn ochr â ffocws parhaus ar ordaliadau'r gyflogres, hen ddyledion, costau esgeuluster clinigol, a dileu stoc fferylliaeth fel colledion.	

2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Archwilio roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod trefniadau llywodraethu'n cael eu cryfhau drwy Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, adroddiadau sicrwydd y pwyllgor, a phrosesau cynllunio gwelliannau mewn llywodraethu corfforaethol. • Mae Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd yn darparu gwell cysondeb rhwng Bwriad Strategol, amcanion Cynllun Tymor Canolig Integredig, risgiau corfforaethol, sicrwydd a bylchau, gyda dilysu pellach wedi'i gynllunio cyn i'r Bwrdd ei ystyried. • Cadarnhaodd y rheolwyr fod tystiolaeth yn cael ei hadolygu cyn cau argymhellion yr archwiliad a bod argymhellion sicrwydd cyfyngedig ac anfoddhaol yn destun camau dilynol. • Roedd y gwaith o Atal Twyll yn dal ar y trywydd iawn ar gyfer Chwarter 1, gyda'r holl ddangosyddion perfformiad allweddol wedi'u cyflawni ac achosion agored wedi'u lleihau. • Adroddodd y tîm Archwilio Allanol fod ei raglen yn mynd rhagddi yn ôl y bwriad, gan gynnwys asesiad strwythuredig, ystadau, gwasanaethau canser, a gwaith gofal sylfaenol. • Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau Safonau Cynnal Busnes, datganiadau o fuddiant, rhoddion a lletygarwch, contractau anrhydeddus a threfniadau llywodraethu partneriaeth academiaidd. • Mewn perthynas ag adolygiad o'r Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Chymdeithas, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod cyngor ynghylch Atal Twyll wedi cael ei ystyried ac y bydd yr hyn a ddysgwyd yn ehangach yn cael ei ddefnyddio drwy'r adolygiad llywodraethu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi adolygu'r adroddiadau AAA a gyflwynwyd gan Bwyllgorau'r Bwrdd ac mae'n nodi tystiolaeth o graffu effeithiol ar bwyllgorau, herio ac uwchgyfeirio o ran risgiau a materion arwyddocaol i'r sefydliad. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gall y Bwrdd ddibynnu'n rhesymol ar weithrediad fframwaith sicrwydd y Pwyllgor a thryloywder y materion yr adroddir arnynt trwy Bwyllgorau'r Bwrdd.
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Archwilio hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd bod y Pwyllgor yn cryfhau ei rôl ehangach o ran archwilio, risg a sicrwydd; bydd hyn yn gofyn am ddiffiniadau clir o rolau, adroddiadau AAA

		cyson a chylchoedd cyfarfodydd sy'n cefnogi sicrwydd amserol i'r Bwrdd. • Dylai'r Bwrdd barhau i oruchwylio'r gwaith o gyflawni ac effaith camau gweithredu sy'n deillio o argymhellion yr archwiliad, yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â sicrwydd cyfyngedig ac anfoddhaol. • Dylai adroddiadau ganolbwyntio'n gliriach ar ganlyniadau, effaith barhaus, gwireddu buddion a gwelliant mesuradwy, yn hytrach na gweithgarwch yn unig. • Mae risgiau sy'n uwch na'r hyn a ddymunir yn gofyn am raglenni gwaith cliriach gyda chanlyniadau, cerrig milltir, perchnogaeth ac amserlenni wedi'u diffinio. • Mae cynlluniau trawsnewid cyfalaf a gwasanaethau yn gofyn am ddisgyblaeth gryfach o ran achosion busnes, gan gynnwys canlyniadau referniw, llwybrau llywodraethu, uwchgyfeirio, cyfrifoldebau Uwch Swyddog Cyfrifol, a gwireddu buddion. • Mae llywodraethu digidol y tu allan i reolaeth ganolog DDaT yn gofyn am afael gan y sefydliad, amserlenni realistig, a goruchwyliaeth briodol gan bwyllgorau. • Dylai'r Bwrdd ddisgwyl i'r adolygiad llywodraethu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi arwain at gynllun gwella clir gyda pherchnogaeth, cerrig milltir, dyddiadau targed ac asesiad ar risg weddilliol.
2d	Adolygu Risgiau	• Adolygodd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a nododd fod nifer o risgiau yn dal i fod y tu hwnt i'r hyn y mae'n barod i'w dderbyn. • Croesawyd Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd o ran ei fod yn cynnig mwy o gysondeb, ond gofynnodd yr aelodau fod canlyniadau mesuradwy, effaith barhaus a chamau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaeth a sicrwydd, yn cael eu dangos yn well. • Dylai goruchwyliaeth risg ar lefel pwyllgor gael ei chysylltu'n ôl â rôl sicrwydd ehangach y Pwyllgor Archwilio, yn enwedig lle mae risgiau'n mynd ar draws ffiniau pwyllgorau.
2e	Rhannu gwersi	• Wrth gau argymhellion yr archwiliad, dylid canolbwyntio ar effeithiolrwydd ac effaith, nid ar gwblhau camau gweithredu yn unig. • Amlygodd adolygiad y Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Chymdeithas bwysigrwydd llywodraethu cadarn ar ddechrau partneriaethau, gan gynnwys contractau, datganiadau, contractau anrhydeddus, rheolaethau ariannol a threfniadau gwerth am arian. • Dylai'r hyn a ddysgir am lywodraethu cyfalaf gael ei wreiddio ar draws cynlluniau yn y dyfodol, gan ddatblygu achosion busnes cryfach, uwchgyfeirio, caffael, rheoli contractau a gwireddu buddion.

		Dylai adroddiadau AAA Pwyllgorau fod yn fwy cyson ac wedi'u teilwra i gyfrifoldebau pob pwyllgor.
3	Camau i'w hystyried gan y Bwrdd neu Bwyllgorau eraill	Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau: ystyried tueddiadau esgeuluster clinigol a dysgu cysylltiedig am ansawdd a diogelwch; cael sicrwydd ynghylch cydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a gofynion rheoleiddiol. Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant: parhau i oruchwyllo camau gweithredu Codi Llais heb Ofn, trefniadau adborth staff, y weithdrefn gordalu, a dysgu am Atal Twyll sy'n gysylltiedig â'r gweithlu. Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth: goruchwyllo'r Prosiect Cyfuno Meddygaeth Niwclear, gwelliannau i lywodraethu cyfalaf, disgyblaeth achos busnes, canlyniadau refeniw, gwireddu buddion, a dim archebion prynu/dim rheoli tâl. Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Phartneriaethau: ystyried risgiau llywodraethu digidol nad ydynt yn ymwneud â DDaT a chael sicrwydd ynghylch cynlluniau gweithredu ac amserlenni. Llwybr y Bwrdd/pwyllgor perthnasol: derbyn cynllun gwella terfynol ar gyfer adolygiad llywodraethu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Bwrdd Iechyd

FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD 2026-2027

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Jody Evans Pennaeth Cynorthwyol Rheoli Risgiau
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Er Sicrwydd

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei adnewyddu'n gynhwysfawr i gyd-fynd â Bwriadau Strategol diwygiedig a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, gan roi fframwaith cryfach ar gyfer nodi, monitro a rheoli'r prif risgiau strategol. Mae'r fframwaith wedi cael ei adolygu a'i herio'n helaeth gan Gyfarwyddwyr Gweithredol, y Grŵp Craffu ar Risgiau, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio cyn ei gyhoeddi yn y Porth Rheoli Risgiau.

O safbwynt sicrwydd, croesawodd y Pwyllgor Archwilio y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran cysoni amcanion strategol, prif risgiau, rheolaethau, camau lliniaru a threfniadau sicrwydd. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y fframwaith diwygiedig yn sylfaen gryfach i'r Bwrdd oruchwylio risgiau strategol ac yn gwella amlygrwydd y berthynas rhwng bwriad strategol, dod i gysylltiad â risg a chyflawni sefydliadol.

Nododd gwaith craffu'r Pwyllgor mai **Sicrwydd Cyfyngedig** yn bennaf yw'r sefyllfa sicrwydd bresennol o hyd, nid oherwydd bod trefniadau llywodraethu neu reoli yn ddiffygiol, ond oherwydd bod y dystiolaeth sydd ar gael yn gwyro'n fwy tuag at ddangos gweithgarwch, cyflawni rhaglenni a goruchwyliaeth yn hytrach na dangos canlyniadau mesuradwy, lleihau risg ac effaith sefydliadol. Er bod rheolaethau, prosesau llywodraethu a threfniadau craffu wedi'u hen sefydlu ar y cyfan, mae

angen eu datblygu ymhellach i gryfhau sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, adrodd ar wireddu buddion a ffynonellau sicrwydd annibynnol. Felly, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio'r sefyllfa sicrwydd gyffredinol a nododd fod y sicrwydd cryfaf yn deillio ar hyn o bryd o drefniadau llywodraethu, rheolaethau rheoli a mecanweithiau goruchwyllo. Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd parhau i aeddfedu'r fframwaith drwy ddatblygu mesurau canlyniadau cliriach, adroddiadau gwireddu buddion gwell a throngli gwybodaeth am risgiau, perfformiad a sicrwydd yn well.

Daeth y Pwyllgor Archwilio i'r casgliad bod Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar ei newydd wedd yn welliant sylweddol yn nhrefniadau rheoli risgiau strategol y Bwrdd Iechyd ac yn rhoi hyder rhesymol i'r Bwrdd bod systemau priodol ar waith i nodi, monitro a rheoli'r prif risgiau strategol. Fodd bynnag, mae angen parhau i ganolbwyntio ar ddangos yn gliriach bod rheolaethau'n cyflawni gwelliannau cynaliadwy ac yn lleihau'r risgiau strategol sy'n dod i'r amlwg dros amser.

Yn unol â hynny, gall y Bwrdd gael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu a goruchwyllo cadarn ar waith, gan gydnabod sylw'r Pwyllgor Archwilio bod cryfhau tystiolaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau a gwireddu buddion yn dal yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer aeddfedu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn barhaus.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgymerydd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	03 Medi 2026	I'w adolygu gan y Pwyllgor, craffu arno a rhoi sicrwydd.
Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	03 Medi 2026	I'w adolygu gan y Pwyllgor, craffu arno a rhoi sicrwydd.
Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth	25 Awst 2026	Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth
Y Pwyllgor Archwilio	18 Awst 2026	I'w adolygu gan y Pwyllgor, craffu ar sicrwydd.
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	13 Awst 2026	I'w adolygu gan y Pwyllgor, craffu arno a rhoi sicrwydd.
Y Pwyllgor Gweithredol	29 Gorffennaf 2026	Trafod fersiwn ddrafft Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd er mwyn adrodd a dilysu ymhellach.
Grŵp Craffu ar Risgiau	20 Gorffennaf 2026	Fersiwn ddrafft Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i adolygu a'i gymeradwyo ar yr amod bod adborth a diwygiadau'r

		Cyfarwyddwr Gweithredol yn cael eu cwblhau.
Cyfarwyddwyr Gweithredol	Mehefin - Gorffennaf 2026	Dosbarthu risgiau drafft Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'w hadolygu, eu herio a'u dilysu.
Y Tîm Trawsnewid a Gwella	Parhaus	Cydweithio'n parhau i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn y Porth ac archwilio cyfleoedd i integreiddio adrodd yn y dyfodol.

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms

BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
ADP	Cynllun Cyflawni Blynnyddol
EC	Y Pwyllgor Gweithredol

FFRAMWAITH SICRWYDD Y BWRDD 2026-2027

1. Y SEFYLLFA/SITUATION

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi cael ei adnewyddu i adlewyrchu Bwriadau Strategol a Chynllun Tymor Canolig Integredig diwygiedig y Bwrdd Iechyd. Mae'r fframwaith wedi cael ei adolygu drwy Gyfarwyddwyr Gweithredol, y Grŵp Craffu ar Risgiau, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, ac mae'r prif risgiau strategol bellach wedi cael eu dilysu a'u cyhoeddi yn y Porth Rheoli Risgiau. Mae'r fframwaith diwygiedig yn rhoi sail gryfach ar gyfer goruchwyllo a sicrhau risgiau strategol a bydd yn parhau i aeddfedu wrth i dystiolaeth o ganlyniadau a gwireddu buddion ddatblygu.

2. Y CEFNDIR/BACKGROUND

Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd (y Fframwaith) wedi cael ei adnewyddu ar ôl i Fwriadau Strategol a Chynllun Tymor Canolig Integredig diwygiedig y Bwrdd Iechyd gael eu cymeradwyo. Mae adolygiad cynhwysfawr wedi cael ei gynnal i gysoni'r prif risgiau strategol â'r fframwaith strategol diweddaraf, gan ymgorffori bygythiadau cysylltiedig, rheolaethau, ffynonellau sicrwydd a chamau lliniaru. Mae camau gweithredu sy'n weddill o'r Fframwaith blaenorol wedi cael eu mapio a'u hymgorffori yn y fframwaith diwygiedig i sicrhau parhad o ran goruchwyllo ac atebolrwydd.

3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

Mae'r prif risgiau strategol wedi cael eu hadolygu a'u herio drwy Bwyllgorau perthnasol y Bwrdd, a oedd yn ystyried y rheolaethau cysylltiedig, y camau lliniaru, y ffynonellau sicrwydd ac yn nodi bylchau sicrwydd yn eu priod gylchoedd gwaith. Roedd Pwyllgorau'n cefnogi fersiwn ddiwygiedig o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn croesawu'r cysondeb cryfach rhwng Bwriadau Strategol y Bwrdd Iechyd, amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y prif risgiau a'r trefniadau sicrwydd.

Daeth craffu gan y pwyllgor i'r casgliad bod trefniadau llywodraethu, goruchwyllo a rheoli risgiau wedi'u sefydlu ac ar waith; fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau tystiolaeth o effeithiolrwydd, effaith sefydliadol a lleihau risgiau amlwg. Thema gyson a ddaeth i'r amlwg o adolygiad y Pwyllgor oedd yr angen i wella sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, adrodd ar wireddu buddion a ffynonellau tystiolaeth annibynnol i gynnal mwy o hyder bod rheolaethau'n cyflawni'r canlyniadau strategol a fwriadwyd.

Gyda'i gilydd, roedd y Pwyllgorau'n cefnogi'r sefyllfa sicrwydd bresennol ac yn cymeradwyo datblygiad parhaus y fframwaith wrth iddo aeddfedu, gan roi mwy a mwy o sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch rheoli'r prif risgiau strategol a chyflawni amcanion strategol.

Themâu Allweddol sy'n Dod i'r Amlwg yn dilyn Craffu gan y Pwyllgor

Nododd adolygiad o Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd drwy Bwyllgorau nifer o themâu sy'n codi dro ar ôl tro ar draws y prif risgiau strategol;

- **Cynaliadwyedd y Gweithlu:** Mae recriwtio, cadw, cynllunio olyniaeth a chapasiti sefydliadol y gweithlu yn parhau i fod yn heriau sylweddol sy'n effeithio ar gydnerthedd gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau strategol.
- **Y Galw am Wasanaeth, Mynediad at y Gwasanaeth a Chapasiti'r Gwasanaeth:** Mae pwysau parhaus ar y galw, bregusrwydd gwasanaethau, heriau mynediad a chyfyngiadau capasiti yn parhau i fod yn risgiau sylweddol ar draws gofal brys a gofal mewn argyfwng, gofal wedi'i gynllunio, gwasanaethau canser, diagnosteg, gofal sylfaenol, gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl a meysydd gwasanaeth bregus eraill.
- **Trawsnewid a Newid Strategol:** Mae darparu rhaglenni strategol mawr gan gynnwys Sylfeini ar gyfer y Dyfodol, Cymunedol o'r Cychwyn, Cynllunio Gwasanaethau Clinigol, Ymchwil ac Arloesi, Trawsnewid Digidol a thrawsnewid sefydliadol ehangach yn dal yn hanfodol er mwyn cyflawni uchelgeisiau strategol y Bwrdd Iechyd. Mae cynnydd yn barhaus, ond mae'r angen am dystiolaeth sy'n dangos manteision cynaliadwy ac effaith hirdymor yn parhau.
- **Cynaliadwyedd Ariannol:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol sy'n ymwneud ag adferiad ariannol, cyflawni arbedion rheolaidd, rhaglenni gwerth a chynaliadwyedd, trefniadau comisiynu a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae adnewyddu BAF Risk 26_05 wedi cryfhau amlygrwydd a goruchwyliaeth o'r risgiau ariannol strategol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud i gysoni camau gweithredu risg â gweithgarwch gwella sydd y tu allan i elfennau'r Cynllun Gweithredu Blynyddol sydd i'w cyflawni.
- **Iechyd y Boblogaeth a Lleihau Anghydraddoldebau:** Cydnabyddir yr heriau parhaus; sy'n gysylltiedig ag anhwylderau hirdymor y gellir eu hatal, anghydraddoldebau iechyd, amrywiad yn y nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio a brechu, a'r angen i ddangos gwelliannau hirdymor i iechyd y boblogaeth drwy drefniadau atal a phartneriaeth.
- **Aeddfedrwydd Sicrwydd a Gwireddu Buddion:** Yr angen i gryfhau sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, adrodd ar wireddu buddion a ffynonellau sicrwydd annibynnol. Er bod trefniadau llywodraethu, rheolaethau a mecanweithiau monitro ar waith yn gyffredinol, mae angen tystiolaeth gryfach o hyd sy'n dangos bod rheolaethau'n cyflawni gwelliannau mesuradwy ac yn lleihau risgiau strategol dros amser.
- **Sylwadau'r Pwyllgor Archwilio:** Croesawodd y Pwyllgor Archwilio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddiwygio, gan gydnabod bod gwell cysondeb rhwng amcanion strategol, risgiau, rheolaethau a threfniadau sicrwydd. Daeth y

Pwyllgor i'r casgliad bod sicrwydd ar hyn o bryd yn dibynnu'n fwy ar dystiolaeth o weithgarwch a chyflawni rhaglenni na chanlyniadau amlwg a gwireddu buddion. Er bod trefniadau rheoli perfformiad yn darparu tystiolaeth o gynnydd, mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau a ffynonellau sicrwydd annibynnol. Felly, cymeradwydd y Pwyllgor y sefyllfa sicrwydd bresennol a chefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu trefniadau adrodd.

4. **RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO A GORUCHWYLIAETH LLYWODRAETHU/** **KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION AND GOVERNANCE OVERSIGHT**

Mae Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd (y Fframwaith) wedi cryfhau dull y Bwrdd Iechyd o nodi, monitro a goruchwyllo ei brif risgiau strategol. Mae'r fframwaith wedi cael ei adolygu drwy'r Pwyllgor Gweithredol, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, gan ddarparu sail gryfach ar gyfer goruchwyliaeth a sicrwydd strategol. Roedd gwaith craffu'r Pwyllgor yn croesawu'r gwell cysondeb rhwng Bwriadau Strategol, amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig, y prif risgiau, rheolaethau a threfniadau sicrwydd, gan dynnu sylw at yr angen i gryfhau tystiolaeth o effeithiolrwydd, gwireddu buddion, effaith sefydliadol a lleihau risgiau.

Mae'r sefyllfa sicrwydd bresennol ar ei chryfaf mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, prosesau goruchwyllo a rheolaethau rheoli. Er bod y trefniadau hyn yn rhoi sicrwydd bod risgiau strategol yn cael eu rheoli'n weithredol, mae angen gwneud rhagor o waith i gryfhau sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau a dangos effeithiolrwydd rheolaethau o ran lleihau amlygiad i risgiau strategol. Nododd y Pwyllgor Archwilio bod sicrwydd ar hyn o bryd yn dibynnu'n fawr ar dystiolaeth o weithgarwch a chyflawni rhaglenni na chanlyniadau mesuradwy a gwireddu buddion.

Wrth i'r fframwaith gael ei sefydlu, bydd craffu parhaus drwy'r Pwyllgor Gweithredol, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd, gyda chefnogaeth adroddiadau Trefniadau Sicrwydd ac Atebolrwydd (AAA), yn cryfhau'r gwaith o driongli gwybodaeth am risgiau, perfformiad a sicrwydd.

Er gwaethaf y sefyllfa gyffredinol, mae nifer o risgiau strategol yn dangos trefniadau sicrwydd mwy aeddfed ac aseswyd eu bod yn darparu Sicrwydd Rhesymol, gan gynnwys Ansawdd (4H), Cynllunio Gwasanaethau Clinigol, Arweinyddiaeth Glinigol a Gweithio Rhyngbroffesiynol (4C), a Digidol, Data a Gwybodaeth (4D). Felly, gall y Bwrdd gymryd sicrwydd bod trefniadau cadarn ar waith i nodi, monitro a rheoli prif risgiau strategol y Bwrdd Iechyd, gan gydnabod bod parhau i ddatblygu sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn parhau i fod yn faes ffocws allweddol.

5. **ARGYMHELLION/RECOMMENDATIONS**

Gofynnir i'r aelodau:



- **NODI** Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd a'r sefyllfa sicrwydd bresennol.
- **CAEL SICRWDYDD** bod trefniadau priodol ar waith i nodi, monitro a rheoli prif risgiau strategol y Bwrdd Iechyd.
- **NODI'R** themâu sicrwydd a'r sylwadau sy'n deillio o waith craffu'r Pwyllgor a'r Pwyllgor Archwilio.
- **CEFNOGI** gwaith parhaus i gryfhau sicrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gwireddu buddion a thystiolaeth o effaith strategol.
- **CYMERADWYO** datblygiad parhaus Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a threfniadau adrodd cysylltiedig.

ATODIADAU

➤ Atodiad 1 – BAF

Nodyn Adrodd: Adolygir camau gweithredu yn unol â threfniadau rheoli'r rhaglen y cytunwyd arnynt. Nid oes angen rhoi diweddariadau misol ar gyfer pob cam gweithredu pan fydd cerrig milltir cyflawni yn disgyn mewn chwarteri yn y dyfodol. Mae'r maes 'Dyddiad y Diweddariad Diwethaf' yn dangos pryd cafodd pob cam ei adolygu ddiwethaf gan berchennog y cam gweithredu.

- Atodiad 2 - Camau Gweithredu Agored wedi'u Mapio o Fframwaith Sicrwydd presennol y Bwrdd 2024-2025 er gwybodaeth.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	Dewiswch eitem.
Link to Strategic Intentions	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Mae pob un yn berthnasol.
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Mae'r papur hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn cefnogi trefniadau rheoli risgiau strategol y Bwrdd Iechyd drwy ddatblygu a gweithredu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar ei newydd wedd sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol.
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol.

<i>Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a?</i> Templed WP8a	Canlyniad/Outcome: Do/Yes:	Naddo
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	Amh.
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒ Adroddiad gweinyddol
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Amh
Cydymffurfriad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
Ansawdd <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> Quality <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Dewiswch eitem.	Adroddiad gweinyddol.

	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru iachach	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒ Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒ Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Do (Rhowch ragor o fanylion isod) Effaith gadarnhaol drwy wella goruchwyliaeth, sicrwydd a thryloywder y Bwrdd o ran rheoli risgiau strategol.	
Effaith ar Adnoddau	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	

*(Pobl / Ariannol)***Resource Impact***(People / Financial)*

Mae'r adnoddau presennol wedi cael eu defnyddio i adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Rhagwelir arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol drwy integreiddio â threfniadau adrodd y Porth a chysoni â phrosesau adrodd y Cynllun Cyflawni Blynnyddol.

Trugaredd
CompassionAgored
OpennessParch
Respect

Bwrdd Iechyd

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BARODRWYDD I DDERBYN RISG 2026-2027

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Jody Evans Pennaeth Cynorthwyol Rheoli Risgiau
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Er Sicrwydd

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Yn dilyn cyfarfod anffurfiol y Bwrdd ym mis Awst 2026, adolygodd y Bwrdd ei Ddatganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg sefydliadol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amgylchedd gweithredu presennol y Bwrdd Iechyd, ei flaenoriaethau strategol a'i uchelgais i sicrhau gwelliant cynaliadwy. Ystyriodd Aelodau'r Bwrdd adborth ar y fframwaith presennol a myfyrio ar y cydbwysedd rhwng rheoli risgiau yn effeithiol a'r angen i gefnogi gwella, trawsnewid ac arloesi.

Cadarnhaodd yr adolygiad, er bod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal ffocws cryf ar ansawdd, diogelwch, cynaliadwyedd ariannol a chydymffurfiaeth reoleiddiol, rhaid iddo hefyd fod yn barod i gymryd risgiau gwybodus sy'n cael eu llywodraethu'n dda lle mae hyn yn cefnogi gwella gwasanaethau, gwydnwch sefydliadol a chynaliadwyedd hirdymor.

Mae'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg diwygiedig yn ymgorffori nifer o newidiadau sy'n deillio o drafodaethau'r Bwrdd, gan gynnwys:

- datganiad cyffredinol cryfach sy'n cydnabod y gallai cynnal y sefyllfa bresennol ynddo'i hun beri risg;
- mwy o eglurder ynghylch perfformiad amseroedd aros a niwed i gleifion sy'n deillio o oedi mewn gofal;

- dull diwygiedig o ymdrin â risgiau rheoleiddio a chydymffurfio sy'n adlewyrchu disgwyliadau'r Bwrdd o ran llywodraethu a chydymffurfio statudol;
- disodli'r maes Enw Da â maes Cynaliadwyedd Hirdymor; a
- mwy o bwyslais ar arweinyddiaeth wasgaredig, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o fewn trothwyon parodrwydd i dderbyn risg y cytunwyd arnynt.

Bwriad y fframwaith diwygiedig yw cefnogi penderfyniadau cyson a thryloyw, cryfhau atebolrwydd sefydliadol, a rhoi mwy o eglurder ynghylch goddefiad y Bwrdd tuag at risg ar draws meysydd allweddol. Gofynnir am gymeradwyaeth y Bwrdd i weithredu'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg diwygiedig ar gyfer 2026/27.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Gweithdy'r Bwrdd	Awst 2026	I'w adolygu, ei graffu a chytuno arno.
Aelodau o'r Bwrdd	Gorffennaf 2026	Ar gyfer ymgynghori.

Acronymau / Rhestr Termiau
Acronyms / Glossary of Terms

BAF	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
ADP	Cynllun Cyflawni Blynnyddol
EC	Y Pwyllgor Gweithredol

PARODRWYDD I DDERBYN RISG 2026/27

1. Y SEFYLLFA/SITUATION

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg diwygiedig ar gyfer 2026/27 yn dilyn trafodaeth a gwaith mireinio yn y Bwrdd Anffurfiol ym mis Awst 2026.

2. Y CEFNDIR/BACKGROUND

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol i'r cyd-destun sefydliadol a'r amcanion strategol.

Mae parodrwydd i dderbyn risg yn darparu fframwaith y gall y Bwrdd ei ddefnyddio i fynegi'r lefel a'r math o risg y mae'n fodlon ei derbyn wrth gyflawni ei amcanion. Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, blaenoriaethu adnoddau, uwchgyfeirio risgiau sylweddol ac atebolrwydd sefydliadol.

Cymeradwywyd y datganiad parodrwydd blaenorol yn 2025/26 ac roedd yn cynnwys pum maes:

- Ansawdd
- Ariannol
- Rheolaethol/Cydymffurfio
- Enw da
- Arloesi

Roedd Bwrdd Anffurfiol Awst 2026 yn gyfle i Aelodau ystyried a oedd y meysydd hyn yn parhau i ddisgrifio dull y Bwrdd o ymdrin â risgiau yn gywir yng nghyd-destun adfer gwasanaethau, heriau ariannol, blaenoriaethau trawsnewid a datblygu sefydliadol.

3. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED / SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

Prif Ganlyniadau'r Gweithdy

Wrth ystyried y Fframwaith Parodrwydd i Dderbyn Risg roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Bwrdd Iechyd barhau i fabwysiadu dull cytbwys o reoli risgiau, gan gydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â newid a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynnal y trefniadau presennol.

Wrth wneud hynny, cadarnhaodd yr aelodau y dylai diogelwch cleifion, cydymffurfiaeth statudol a chynaliadwyedd ariannol barhau i fod yn ystyriaethau

allweddol, gan alluogi arloesi, trawsnewid, gwydnwch sefydliadol a phenderfyniadau dirprwyedig o fewn paramedrau sydd wedi'u diffinio'n glir.

Felly, mae'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg arfaethedig yn adlewyrchu dull mwy gofalus o ymdrin â risgiau Ansawdd, Cynaliadwyedd Ariannol a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol, gan fod yn fwy parod i gefnogi Arloesi, Trawsnewid, Cynaliadwyedd a Gwydnwch Sefydliadol lle mae trefniadau llywodraethu a sicrwydd priodol ar waith.

Parodrwydd arfaethedig i dderbyn risg 2026/27

Argymhellir y lefelau parodrwydd isod:

Maes	Parodrwydd	Goddefiant
Ansawdd a Diogelwch	Agored	≤15
Cynaliadwyedd Ariannol a Stiwardiaeth	Agored	≤15
Rheoleiddiol a Chydymffurfio	Agored	≤15
Cynaliadwyedd Hirdymor	Ceisio	≤20
Creadigrwydd ac Arloesi	Ceisio	≤20

Mae Cynaliadwyedd Hirdymor wedi disodli Risg i Enw da. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor bod enw da yn ganlyniad i berfformiad a phenderfyniadau ar draws pob maes risg yn hytrach na chategori risg annibynnol. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu parodrwydd CEISIO gyda throthwy o ≤20, gan gydnabod yr angen i fynd ar drywydd newid trawsnewidiol a derbyn lefelau uwch o risgiau wedi'u rheoli i sicrhau gwydnwch a chynaliadwyedd sefydliadol hirdymor.

Bwriad y Parodrwydd i Dderbyn Risg yw cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cymesur, tryloyw ac ar sail gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'n darparu datganiad clir o lefel y risg y mae'r Bwrdd yn fodlon ei derbyn wrth fynd ar drywydd ei amcanion strategol ac mae'n helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cydbwysu risgiau, cyfleoedd, buddion a chanlyniadau yn briodol.

Bwriad y trothwyon parodrwydd i dderbyn risg yw arwain y lefel o graffu, sicrwydd ac uwchgyfeirio sydd ei hangen yn hytrach na phenderfynu a all penderfyniad fwrw ymlaen ai peidio. Yn gyffredinol, gellir rheoli risgiau o fewn parodrwydd drwy drefniadau llywodraethu arferol. Mae risgiau sy'n mynd y tu hwnt i barodrwydd yn gofyn am ystyriaeth benodol o'r manteision, y mesurau lliniaru a'r dewisiadau amgen cysylltiedig, ynghyd â goruchwyliaeth ychwanegol drwy strwythurau Gweithredol, Pwyllgorau neu'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Nid yw mynd y tu hwnt i barodrwydd yn atal penderfyniad rhag mynd rhagddo'n awtomatig; fodd bynnag, mae angen penderfyniad ymwybodol a thryloyw i dderbyn y risg, ynghyd â threfniadau sicrwydd ac atebolrwydd priodol i gefnogi hynny.

Fframwaith Uwchgyfeirio'r Bwrdd

Sefyllfa Risg	Diffiniad	Cam gweithredu
O fewn y parodrwydd	Mae'r risg ar y trothwy parodrwydd y cytunwyd arno neu'n is na hynny.	Rheolir drwy drefniadau gweithredol, rheoli a phwyllgorau rheolaidd gyda rheolaethau a sicrwydd priodol.
Dynesu at barodrwydd	Mae'r risg yn nesáu at y trothwy parodrwydd y cytunwyd arno neu'n dangos tuedd gynyddol.	Mwy o oruchwyliaeth gan reolwyr ac adolygu camau lliniaru. Ystyried gwell prosesau monitro ac adrodd.
Yn uwch na'r parodrwydd	Mae'r risg yn uwch na'r trothwy parodrwydd y cytunwyd arno.	Uwchgyfeirio i'r fforwm Gweithredol, Pwyllgor neu Fwrdd priodol. Angen ystyriaeth benodol o risgiau, manteision, mesurau lliniaru ac opsiynau eraill.
Llawer uwch na'r parodrwydd	Mae'r risg yn sylweddol uwch na'r trothwy parodrwydd neu mae goblygiadau strategol posibl.	Goruchwyliaeth ffurfiol y Bwrdd. Mae angen cyfiawnhad clir, cynlluniau lliniaru, amserlenni a threfniadau sicrwydd. Adrodd yn rheolaidd nes bydd y sefyllfa'n gwella neu nes cytunir ar benderfyniad arall.

4. RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO A GORUCHWYLIAETH LLYWODRAETHU/ KEY RISKS / MATTERS FOR ESCALATION AND GOVERNANCE OVERSIGHT

Mae'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yn rhan o Fframwaith Rheoli Risg ehangach y sefydliad a bydd y diweddariadau'n cael eu hadlewyrchu mewn prosesau rheoli risgiau, canllawiau a threfniadau adrodd.

Bydd y lefelau parodrwydd yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o ystyried amlygiad i risg a goddefiant ar draws risgiau strategol, corfforaethol a gweithredol.

5. ARGYMHELLION/RECOMMENDATIONS

Gofynnir i aelodau:

- **NODI'R** Adroddiad;
- **CYMERADWYO'R** Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg diwygiedig ar gyfer 2026/27;



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

- **CYTUNO** bod y parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig yn cael ei roi ar waith ar draws y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei ymgorffori yn y trefniadau [RM01 - Fframwaith Rheoli Risg](#) a'r prosesau adrodd.

ATODIADAU

- Atodiad 1 - Datganiad Diwygiedig - Parodrwydd i Dderbyn Risg



Trugaredd
Compassion



Agored
Openness



Parch
Respect

ASESIAD / ASSESSMENT

Cysylltiad â'r Bwriadau Strategol	Dewiswch eitem.
Link to Strategic Intentions	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod: Mae pob un yn berthnasol.
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Mae'r papur hwn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rheoli Risg.

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS

Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' i gydymffurfio â thair rhan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Dyletswydd Gyffredinol): https://www.llyw.cymru/dyletswydd-cydraddoldeb-y-sector-cyhoeddus.html Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [HTML] LLYW.CYMRU	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol.
Deddf Cydraddoldeb 2010 - Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol A yw BIPBC wedi darparu tystiolaeth o 'Sylw Dyledus' o ran cydymffurfio â'r Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol?	Ydy/Yes: ☐	Nac ydy/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os nac ydy, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol.
Ydych chi wedi llenwi Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb Integredig WP8a? Templed WP8a	Canlyniad/Outcome: Do/Yes:	Naddo
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:	Amh.

	If no, please include rationale: Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad Gweinyddol
Deddf Hawliau Dynol <i>A yw pryderon sy'n ymwneud â Hawliau Dynol yn cael sylw yn Wp8a?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
Cydymffurfio â gofynion o ran y Gymraeg? <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith?</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒ Adroddiad gweinyddol
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Amh
Cydymffurfiad o ran rhoi 'Sylw Dyledus' i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog <i>A roddodd WP8a sylw i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Dewiswch eitem. Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:	Adroddiad gweinyddol.

	If more than one applies, please list below:	
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Cymru iachach	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: Na - Ddim yn berthnasol	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
Cyfreithiol Legal	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Adroddiad gweinyddol.
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	Amh
Enw Da Reputational	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Effaith gadarnhaol drwy wella goruchwyliaeth, sicrwydd a thryloywder y Bwrdd o ran rheoli risgiau strategol.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Mae'r adnoddau presennol wedi cael eu defnyddio i adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Rhagwelir arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol drwy integreiddio â threfniadau adrodd	

	y Porth a chysoni â phrosesau adrodd y Cynllun Cyflawni Blynnyddol.
--	--

f

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Philippa Peake-Jones, Pennaeth Llywodraethiant Corfforaethol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	Ardystio i'w gymeradwyo gan y Bwrdd

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion llywodraethiant corfforaethol allweddol ers y cyfarfod blaenorol ac mae'n gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer nifer o newidiadau a diweddariadau sy'n ymwneud â llywodraethiant. Mae'r rhain yn cynnwys diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Cadw a Dirprwyo, Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgorau, a'r adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y Pwyllgorau.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgarwch llywodraethiant a wnaed i gefnogi agenda gwella'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys paratodau ar gyfer yr Adolygiad Annibynnol dan Arweiniad Da, materion a ystyriwyd mewn sesiwn breifat, a datblygiad parhaus trefniadau llywodraethiant a sicrwydd.

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Lywodraethiant Gwybodaeth o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth (PFIG) i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) er mwyn cysoni goruchwyliaeth â'r agenda ddigidol ehangach. O ganlyniad, cynigir bod PFIG yn cael ei ailenwi'n Bwyllgor Perfformiad a Chyllid. Bwriad y newidiadau hyn yw gwella eglurder cyfrifoldebau'r pwyllgor, lleihau gorgyffwrdd a chryfhau trefniadau llywodraethiant.



Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp) Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)		
Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Amh.		

Acronymau / Rhestr Termiau Acronyms / Glossary of Terms	
Amh.	Amherthnasol
PFIG	Y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth
NW	Gogledd Cymru
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
TAW	Treth ar Werth
EIMA	Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
GGI	Sefydliad Llywodraethu Da
SoRD	Cynllun Cadw a Dirprwyo
S12(2)	Meddygon Cymeradwy Adran 12(2)
Y DU	Y Deyrnas Unedig
FfSB	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
IMTP	Cynllun Tymor Canolig Integredig
CRC	Cofrestr Risgiau Corfforaethol

ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

1. Y SEFYLLFA SITUATION

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am faterion allweddol sy'n berthnasol i lywodraethiant corfforaethol.

2 Y CEFNDIR BACKGROUND

- 2.1 Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â'i Reolau Sefydlog. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â hyn.
- 2.2 Mae'n hanfodol bod gan y Bwrdd drefniadau cadarn ar waith ar gyfer Llywodraethiant Corfforaethol a gallai methu â gwneud hynny gael goblygiadau cyfreithiol i'r Bwrdd Iechyd.

3 MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED SPECIFIC MATTERS FOR CONSIDERATION

3.1 CRYNODEB O'R BUSNES A DRAFODWYD YN SESIWN BREIFAT Y BWRDD IECHYD AR 30 GORFFENNAF 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 7.5.3, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi adroddiad ar unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn sesiwn breifat i gyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod cyfarfod preifat y Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2026:

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
26.164	Cynllun Cyflawni Gofal wedi'i Gynllunio	➤ NODWYD mai optimeiddio capasiti mewnol fydd y prif fodel cyflawni o hyd, gyda mewnoli ac allanoli'n cael eu defnyddio lle bo angen yn unig i fynd i'r afael â bylchau capasiti ac i gyflawni safonau perfformiad gorfodol. ➤ CEFNOGWYD y Weithrediaeth i gomisiynu rhagor o weithgarwch mewnol ac	Masnachol Sensitif

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		allanol ar ôl cadarnhau dyraniadau cyllid ar gyfer y ceisiadau Gofal wedi'i Gynllunio - Rhan 1 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru sy'n gyfanswm o £16.28 miliwn ar draws arbenigeddau y cytunwyd arnynt i gefnogi'r gwaith o leihau amseroedd aros a dileu amseroedd aros o 104 wythnos ac i sicrhau nad oes unrhyw glaf yn aros mwy nag 8 wythnos am brofion diagnostig. ➤ CYMERADWYWYD (ar yr amod bod pwynt 2 a chyllid yn cael ei sicrhau) defnyddio contractau presennol, amrywiadau i gontractau, estyniadau, trefniadau o'r GIG i'r GIG ac ymarferion caffael lle bo angen i sicrhau'r capasiti angenrheidiol. ➤ NODWYD pan nad yw'r capasiti mewnoli/allanoli mewnol cyfredol yn ddigonol neu nad yw contractau ar waith i gyflawni'r adferiad gofynnol, bydd caffael yn cael ei wneud yn unol â fframweithiau comisiynu cenedlaethol a rhanbarthol a bydd egwyddorion gwerth am arian a gosod contractau yn cael eu goruchwyllo drwy'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth (PFIG). ➤ NODWYD Mae cyllid adfer i gefnogi'r gwaith o gaffael capasiti diagnosteg a thrin	

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
		ychwanegol, yn amodol ar gadarnhad o ddyraniad cyllid a chydymffurfio ag amodau cyllido cysylltiedig (fel y cyfeirir atynt ym mhwynt 2). ➤ CEFNOGWYD gweithredu fframwaith monitro a sicrwydd cadarn, gan gynnwys adrodd yn fisol ar y gweithgarwch a gyflawnir, gwariant, lleihau rhestrau aros, perfformiad 104 wythnos a chyflawni'r targed diagnostig 8 wythnos ➤ CYMERADWYWYD y dull comisiynu fel galluogwr hanfodol i Raglen Adfer Gofal wedi'i Gynllunio'r Bwrdd, gan gydnabod y byddai methu â sicrhau capasiti ychwanegol yn cynyddu'r risg o beidio â chyflawni yn sylweddol yn erbyn amcanion adfer Llywodraeth Cymru a'r llwybrau perfformiad cysylltiedig	
26.165	Gwasanaeth Deintyddol Gogledd Cymru - Newid y System Rheoli Cleifion Electronig	➤ CYMERADWYWYD yr Achos Busnes Amlinellol ar gyfer newid System Rheoli Cleifion electronig Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru i: • Ddechrau caffael cychwynnol (wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2026) • Symud ymlaen at Achos Busnes Llawn gyda chostau, buddion a chynllun cyflawni wedi'u cadarnhau	Sensitif i Fusnes
26.166	Adroddiad Cymeradwyo	➤ NODWYD yr adroddiad;	Sensitif i Fusnes

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
	Contractau a Thendrau	➤ CYMERADWYWYD Dyfarnu Contract i Cisco Enterprise am 5 mlynedd ➤ CYTUNWYD â chymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol mewn egwyddor i ymestyn contract EIMA am hyd at 30 mis o 1^{af} Ebrill 2027 gyda chymalau terfynu blynyddol. ➤ CEFNOGWYD cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol mewn egwyddor i ddyfarnu unrhyw ymgodiad o ran chwyddiant ar gyfer y 3ydd Sector os cytunir ar hynny ar gyfer 2027/28 i sicrhau cysondeb ar draws holl gontractau trydydd sector BIPBC.	
26.167	Adroddiad y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Preifat)	➤ NODWYD sefyllfa bresennol y ddwy risg breifat, gyda'r naill a'r llall yn parhau i fod yn uwch na'r awydd. ➤ CEFNOGWYD cynnydd parhaus ar y seilwaith digidol allweddol a chamau gweithredu seiberddiogelwch. ➤ CYMERADWYWYD trefniadau llywodraethiant a goruchwyllo parhaus i sicrhau bod risgiau yn cael eu lleihau'n amserol.	Sensitif i Fusnes
26.168	Adroddiad Cyfreithiol	➤ NODWYD cynnwys yr adroddiad.	Eitemau Cyfrinachol wedi'u rhannu
26.169	Adroddiad Ansawdd Cyfrinachol	➤ NODWYD cynnwys yr adroddiad.	Person y gellir ei adnabod

Eitem ar yr Agenda	Pwnc (gan gynnwys naratif)	Penderfyniad y Bwrdd	Rhesymeg dros eitem Breifat
26.170	Pwyllgor Gweithredol (Eitemau Preifat)	Penderfynwyd bod y Bwrdd yn: ➤ NODI adroddiad y Pwyllgor Gweithredol.	Eitemau Cyfrinachol wedi'u rhannu

3.2 BWRDD ANFFURFIOL – 27 Awst 2026

Cyfarfu'r Bwrdd mewn sesiwn ddatblygu anffurfiol ar 27 Awst 2026. Yn ystod y sesiwn, cymerodd yr aelodau ran mewn trafodaeth wedi'i hwyluso gyda chynrychiolydd o'r GGI, a fydd yn gweithio gyda'r Bwrdd fel datblygwr dros y deuddeg mis nesaf. Yn ogystal, bu'r aelodau'n cymryd rhan mewn Gweithdy Strategol i ddechrau datblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf yn ogystal â thrafod yr awydd o ran Rheoli Risg ar gyfer y flwyddyn nesaf.

3.3 GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae angen adroddiad rheolaidd ar ddogfennau y gosodwyd y sêl gyffredin arnynt. Gofynnir i'r Bwrdd nodi bod Sêl y Bwrdd Iechyd wedi'i gosod ar y dogfennau a restrir isod.

Rhif	Teitl	Llwybr Cymeradwyo	Dyddiad Llofnodi a Selio	Rhif y Sêl
250	Cytundeb Lesio - Swyddfa A016 Canolfan Hamdden Bae Colwyn (Parc Eirias)	Grŵp Buddsoddi Cyfalaf 16.04.26		

3.4 NEWIDIADAU I'R CYNLLUN CADW A DIRPRWYO

Ar ôl ystyried y diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd, gan gynnwys y Cynllun Cadw a Dirprwyo (SoRD), cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio'r newidiadau arfaethedig ac argymhellodd eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo (Atodiad 1).

Crynodeb o'r Newidiadau

- Cydnabod y **Dirprwy Brif Weithredwr fel swyddog Haen 2**, gydag awdurdod ariannol dirprwyedig o hyd at **£500,000**, gan gysoni awdurdod dirprwyedig â chyfrifoldebau'r rôl a chryfhau gwydnwch y sefydliad.

- Diwygio **hierarchiaethau cymeradwyo Oracle** i adlewyrchu statws Haen 2 y Dirprwy Brif Weithredwr a sicrhau bod terfynau cymeradwyo'r system yn cyd-fynd â'r fframwaith dirprwyo.
- Cynnwys y **Dirprwy Brif Weithredwr yn y fframwaith cymeradwyo ymgynghoriaeth**, gan alluogi cymeradwyo contractau ymgynghori hyd at **£500,000**.
- Eglurhad **mai dim ond pan fydd cynigion yn mynd y tu hwnt i awdurdod dirprwyedig swyddog unigol y bydd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gweithredol**, yn hytrach na thrwy ddefnyddio trothwy ariannol ar wahân.
- Diwygio **Tabl 12A(4)** i ddileu'r gofyniad i'r Pwyllgor Gweithredol gymeradwyo lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus unigol hyd at **£200,000 y flwyddyn** lle mae Cytundeb Cyn Lleoliad sy'n cydymffurfio ar waith. Yn hytrach, byddai'r penderfyniadau hyn yn cael eu cymeradwyo drwy drefniadau dirprwyedig lleol ac adrannol presennol, gan gynnal y rheolaethau presennol ar gyfer:
 - o lleoliadau dros £200,000 y flwyddyn;
 - o achosion eithriadol; ac
 - o achosion heb Gytundeb Cyn Lleoliad sy'n cydymffurfio

Bydd y datganiad ychwanegol yn cael ei gynnwys dan yr egwyddorion ariannol (a nodir ar dudalen 32 y Cynllun Cadw a Dirprwyo).

- *Bydd terfynau ariannol dirprwyedig yn cael eu cymhwyso i gyfanswm gwerth disgwylledig rhaglen, prosiect neu gaffael dros ei gylch oes cyfan. Ni ddylai gwariant gael ei rhannu, ei wneud o gam i gam na'i hollti'n gymeradwyaethau ar wahân er mwyn osgoi terfynau awdurdod dirprwyedig.*

3.5 CYLCH GORCHWYL AC ADRODDIADAU BLYNYDDOL Y PWYLLGOR

Fel rhan o'r cylch adolygu llywodraethiant blynyddol, mae'r Cylch Gorchwyl (Atodiad 2) ar gyfer Pwyllgorau'r Bwrdd wedi cael ei adolygu i sicrhau eu bod yn parhau i gyd-fynd â gofynion statudol, fframwaith llywodraethiant y Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau'r sefydliad. Mae Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor am 2025/26 hefyd wedi cael eu cwblhau, gan roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Pwyllgor a chyflawni eu priod gyfrifoldebau yn ystod y flwyddyn (Atodiad 3).

Argymhellir gymeradwyo'r bwriad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Lywodraethiant Gwybodaeth o'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Llywodraethiant Gwybodaeth (PFIG) i'r Pwyllgor Cynllunio, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (PPHP) er mwyn cysoni goruchwyliaeth â'r agenda ddigidol ehangach.

Gan adlewyrchu'r ffaith bod y cyfrifoldeb hwn wedi'i dynnu o'i gylch gwaith, argymhellir ymhellach y dylid ailenwi'r Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a

Llywodraethiant Gwybodaeth yn **Bwyllgor Perfformiad a Chyllid**. Bydd y newidiadau hyn yn rhoi mwy o eglurder pwrpas, yn lleihau gorgyffwrdd rhwng pwyllgorau ac yn sicrhau bod cyfrifoldebau'r pwyllgor yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau llywodraethiant a strategol y Bwrdd Iechyd.

3.6 **CLINIGWYR CYMERADWY A MEDDYGON ADRAN 12(2)**

Gofynnir i'r Bwrdd nodi a chadarnhau'r cymeradwyaethau yn unol â gofynion Dogfen Ganllaw Llywodraeth Cymru "Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cymeradwyo Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) Gorffennaf 2018 ar gyfer Clinigwyr Cymeradwy", Cyfarwyddiadau Deddf Iechyd Meddwl GIG Cymru 1983 (Clinigwyr Cymeradwy) (Cymru) 2018 a "Dogfen Meini Prawf a Phroses Adran 12(2) Cymru Gyfan ar gyfer cymeradwyaethau Meddygon Cymeradwy Adran 12(2)".

Mae'r atodiadau canlynol wedi'u cynnwys yn y pecyn ategol.

Atodiad 4.1: Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)

Atodiad 4.2: Meddygon Adran 12(2) (Cymru Gyfan).

3.7 **PWYLLGOR PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU**

Mae'r Adroddiad Sicrwydd o gyfarfod 16 Gorffennaf 2026 Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasaethau wedi'i atodi yn Atodiad 5

3.8 **ADOLYGIAD STRATEGOL O GYD-BWYLLGOR CANOLBARTH CYMRU (MWJC)**

Ynghlwm fel Atodiad 6 ceir yr wybodaeth ddiweddaraf am waith MWJC gan gynnwys yr Adolygiad Strategol o MWJC, Blaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Canolbarth Cymru a Rhaglen Waith RHCW.

3.9 **ADRODDIADAU LOG TROSGLWYDDO**

Yn unol â'r ymrwymiad a amlinellwyd yn yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol diwethaf, mae trefniadau wedi cael eu cryfhau i sicrhau eglurder ynghylch materion i'w hystyried gan y Pwyllgor a'r rhai y mae angen i'r Bwrdd eu goruchwyllo. Mae'r amserlen a ddeilliodd o hyn wedi'i chynnwys yn Atodiad 7 i'w hadolygu.

4 **YMCHWILIAD COVID-19 Y DU**

Cyhoeddwyd Adroddiad Modiwl 5, sy'n ymwneud â Chaffael a Dosbarthu Offer a Chyflenwadau, ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r 11 argymhelliad wedi'u cyfeirio'n bennaf at lywodraethau'r DU a llywodraethau datganoledig ac yn canolbwyntio ar wella parodrwydd ar gyfer pandemig drwy reoli pentyrru cyflenwadau'n gryfach, gallu caffael, gwydnwch y gadwyn gyflenwi,

capasiti gweithgynhyrchu domestig, llywodraethiant, tryloywder, arbenigedd y gweithlu, a defnyddio data modern a systemau digidol i gefnogi'r gwaith o gaffael a dosbarthu offer gofal iechyd mewn argyfwng. Mae'r prif wersi a ddysgwyd yn ymwneud â chryfhau gwydnwch y gadwyn gyflenwi, rheoli stoc, gallu caffael, data a thechnoleg, tryloywder, trefniadau llywodraethiant a pharodrwydd am argyfwng.

Bydd y Grŵp Llywio Darganfod a Dysgu yn datblygu'r hyn a ddysgwyd o'r adroddiad hwn ac adroddiadau Modiwlau eraill Ymchwiliad Covid-19 y DU.

5 RISGIAU ALLWEDDOL / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO KEY RISKS BOARD ASSURANCE FRAMEWORK / MATTERS FOR ESCALATION

Does dim risgiau na materion i'w huwchgyfeirio.

6 ARGYMHELLION RECOMMENDATIONS

6.1 Gofynnir i'r aelodau:

- **NODI'R** diweddariadau llywodraethiant corfforaethol sydd yn yr adroddiad, gan gynnwys y crynodeb o'r busnes a ystyriwyd mewn sesiwn breifat, gosod y Sêl Gyffredin, diweddariad yr Adolygiad dan Arweiniad Da, Rheoli Polisi Corfforaethol, dysgu Ymchwiliad Covid-19 y DU a Fframwaith Sicrwydd diwygiedig y Bwrdd.
- **CYMERADWYO'R** diwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd, gan gynnwys y Cynllun Cadw a Dirprwyo, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Archwilio.
- **CYMERADWYO** Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor a **NODI** Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2025/26.
- **NODI A CHADARNHAU'R** cymeradwyaethau Clinigwyr Cymeradwy a Meddygon Adran 12(2) sydd wedi'u cynnwys yn yr atodiadau ategol.
- **NODI'R** sicrwydd a ddarperir drwy Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- **NODI'R** wybodaeth ddiweddaraf am waith MWJC gan gynnwys yr Adolygiad Strategol o MWJC, Blaenoriaethau a Chynllun Cyflawni Canolbarth Cymru a Rhaglen Waith RHCW
- **ADOLYGU** amserlen y Log Trosglwyddo.

ASESIAD / ASSESSMENT

Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities

4. Creu System Gofal Iechyd Fodern sy'n Canolbwyntio ar Bobl

Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod:
If more than one applies, please list below:

Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	BAF24-01 Creu Sefydliad Effeithiol ac Atebol CRR-16 – Arweinyddiaeth/Mesurau Arbennig

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-Gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> <u>Quality</u> <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Arweinyddiaeth	Meysydd Ansawdd Meysydd Ansawdd Mae pob un yn berthnasol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:

<u>Deddf Llesiant</u> <u>Cenedlaethau'r Dyfodol -</u> <u>Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future</u> <u>Generations Act – Wellbeing</u> <u>Goals</u>	Amherthnasol	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog A ydych chi wedi ystyried Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog: Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf</i> <i>Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar</i> <i>Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>Have you undertaken a Data</i> <i>Protection Impact Assessment</i> <i>Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr</i> <i>effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the</i> <i>counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm:	Ddim yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn

	If no, please include rationale:	
Cyfreithiol Legal	Oes (Rhowch ragor o fanylion isod) Mae goblygiadau cyfreithiol yn yr eitemau Hawliadau Uchel eu Gwerth yr adroddwyd arnynt	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Resource Impact (People / Financial)	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		13/08/2026	Adroddiad: Pwyllgor Pobl a Diwylliant
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn parhau i gyfarfod bob dau fis. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant - BIPBC	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae pryderon sylweddol o ran y gweithlu a diwylliant wedi cael eu hadrodd yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Glan Clwyd. Nododd adborth staff faterion yn ymwneud â phwysau llwyth gwaith, gorflinder, diogelwch seicolegol, arweinyddiaeth, safonau ymddygiad a pherthnasoedd tîm. Roedd staff yn gyson yn disgrifio heriau llif cleifion fel sbardun allweddol i lawer o'r pwysau a brofwyd yn yr adran. - Er bod llawer o ymgysylltu wedi digwydd â staff a bod camau gwella'n cael eu datblygu, pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd dangos gwelliant gweladwy a mesuradwy i gynnal hyder ac ymgysylltiad staff. Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau cyflawni clir, amserlenni, mesurau canlyniadau a threfniadau goruchwyllo llywodraethu i gefnogi gwelliant. - Mae dangosyddion y gweithlu yn parhau i ddangos heriau sefydliadol, gan gynnwys lefelau absenoldeb salwch parhaus ac amrywioldeb yng nghyfraddau cwblhau Adolygiadau Datblygu ac Arfarnu Personol (PADR), a allai effeithio ar lesiant, ymgysylltiad a diwylliant sefydliadol y gweithlu os na roddir sylw iddynt. - Nododd y Pwyllgor y pwysau parhaus ar draws rhannau o'r gweithlu, gan gynnwys heriau recriwtio, cadw a phresenoldeb mewn rhai grwpiau staff a meysydd gwasanaeth.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i ddeall profiad staff yn yr Adran Achosion Brys yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gydag ymgysylltu helaeth â staff a dadansoddiad thematig yn cynnwys lefel sylweddol uwch o gyfranogiad nag arolygon blaenorol.	



		Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod y canfyddiadau'n llywio rhaglen wella gydlynol sy'n cynnwys timau gweithredol, datblygu sefydliadol a'r gweithlu. • Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod rhaglenni datblygu arweinyddiaeth, gwella diwylliant ac ymgysylltu â'r gweithlu yn parhau i gael eu cryfhau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae amcanion datblygu arweinyddiaeth wedi cael eu cyflawni i raddau helaeth, gyda thystiolaeth gadarnhaol yn dod i'r amlwg ynghylch hyder arweinyddiaeth, sgiliau cyfathrebu, ymddygiadau arweinyddiaeth dosturiol a galluogrwydd arwain. • Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch cyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, gyda Llywodraeth Cymru yn asesu'r Bwrdd Iechyd yn annibynnol fel un sydd ar Lefel 3 o ran aeddfedrwydd ar draws meysydd allweddol, gan nodi cryfderau o ran llywodraethu, aliniad strategol a dealltwriaeth o anghydraddoldebau'r gweithlu a'r boblogaeth. • Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod cynnydd yn parhau i gael ei wneud mewn perthynas â safonau'r Gymraeg, datblygu'r gweithlu a darparu gwasanaethau dwyieithog, gyda lefelau cynyddol o ymgysylltiad gan staff â dysgu'r Gymraeg a threfniadau monitro cydymffurfio cadarn ar waith. • Nododd y Pwyllgor gynnydd calonogol mewn gweithgarwch recriwtio'r gweithlu, gan gynnwys lleoli nyrsys sydd newydd gymhwyso yn llwyddiannus a gostyngiadau mewn gwariant asiantaethau ar draws nifer o grwpiau staff. • Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod trefniadau Codi Llais Heb Ofn yn parhau i aeddfedu, gyda mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth a chamau gweithredu ar y gweill i gryfhau llywodraethu, goruchwyllo, gwelededd a dysgu sefydliadol.
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: • Bydd angen canolbwyntio'n barhaus ar y sefydliad i fynd i'r afael â heriau diwylliannol, ymddygiadol a'r heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu a nodwyd o fewn gwasanaethau Gofal Brys, gan gydnabod y berthynas rhwng diwylliant y gweithlu, llesiant staff, profiad cleifion a pherfformiad gwasanaethau. • Dylai sicrwydd yn y dyfodol ganolbwyntio fwyfwy ar ddangos canlyniadau, effaith a gwelliannau mesuradwy yn hytrach na chyflawni gweithgarwch yn unig, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb, datblygu arweinyddiaeth, gwella diwylliant a rhaglenni llesiant y gweithlu.



		Bydd parhau i ddatblygu dangosfyrddau diwylliant sefydliadol, metrigau'r gweithlu a thriogly gwybodaeth am y gweithlu yn hanfodol i gryfhau sicrwydd ynghylch diwylliant, effeithiolrwydd arweinyddiaeth a phrofiad y gweithlu ar draws y Bwrdd Iechyd.
2d	Adolygu Risgiau	Adolygodd y Pwyllgor risgiau o fewn ei gylch gwaith a nododd ei fod yn goruchwyllo risgiau sy'n ymwneud â'r canlynol yn barhaus: - Ymgysylltiad a diwylliant y gweithlu. - Galluogrwydd arwain a datblygiad sefydliadol. - Llesiant a phresenoldeb staff. - Capasiti a chadernid y gweithlu. - Cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chydymffurfiaeth â'r Gymraeg. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod y risgiau hyn yn parhau i gael eu monitro'n weithredol drwy'r fframwaith llywodraethu sefydledig.
2e	Rhannu gwersi	Roedd y Pwyllgor yn cydnabod gwerth: - Y fethodoleg ymgysylltu â staff a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad o ddiwylliant yr Adran Achosion Brys. - Datblygu trefniadau cymorth niwroamrywiaeth a rhwydweithiau staff. - Datblygu arweinyddiaeth a mentrau arweinyddiaeth dosturiol. - Datblygu'r gweithlu o ran y Gymraeg a threfniadau cynnig rhagweithiol.
3	Camau i'w hystyried	Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol: - Nodi'r heriau diwylliannol a'r gweithlu a nodwyd mewn gwasanaethau Gofal Brys a'r rhaglen wella gysylltiedig. - Nodi'r cynnydd cadarnhaol a adroddwyd mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant, darparu'r Gymraeg, recriwtio'r gweithlu a threfniadau Codi Llais Heb Ofn. - Cefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu adroddiadau gweithlu, diwylliant a sicrwydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar draws y Bwrdd Iechyd.
4	Barn Sicrwydd Gyffredinol:	Mae'r Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol bod trefniadau llywodraethu, gweithlu a datblygu sefydliadol priodol ar waith ar draws ei feysydd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith i ddangos gwelliant cynaliadwy yn niwylliant y gweithlu, llesiant staff, effeithiolrwydd arweinyddiaeth a chanlyniadau sefydliadol, yn enwedig mewn meysydd sy'n wynebu pwysau gweithredol sylweddol.



Bwrdd Iechyd

IECHYD, DIOGELWCH A DIOGELEDD ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2025-2026

Dyddiad y Cyfarfod	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi	Caeedig / Preifat
	Sensitif i Fusnes
Enw a Theitl Awdur yr Adroddiad	Lynne Bushell Pennaeth Iechyd, Diogelwch a Diogeledd
Enw a theitl yr Aelod o'r Tîm Gweithredol Arweiniol	Stuart Keen Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Ystadau

Pwrpas yr Adroddiad	I'w Gymeradwyo
---------------------	----------------

Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar Iechyd, Diogelwch a Diogeledd ar gyfer 2025-2026 ac yn rhoi trosolwg i'r Bwrdd o berfformiad sefydliadol, risgiau allweddol, meysydd cynnydd cadarnhaol a blaenoriaethau strategol ar gyfer 2026-2027.

Gan gydnabod bod y Bwrdd Iechyd ar daith, ac er mai Sicrwydd Rhannol yw'r sefyllfa sicrwydd gyffredinol o hyd, mae'r adroddiad yn dangos cynnydd sylweddol yn aeddfedrwydd trefniadau rheoli iechyd a diogelwch y Bwrdd Iechyd dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r sefydliad wedi symud o fynd i'r afael â'r gwendidau llywodraethiant a sicrwydd sylfaenol a nodwyd mewn Archwiliad Mewnol a dadansoddiad o fylchau sefydliadol yn 2023-2024, i sefydlu Fframwaith Rheoli Iechyd a Diogelwch strwythuredig sydd wedi'i gefnogi gan brosesau sicrwydd, archwilio a dilysu yn 2025-2026.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni rhaglen sylweddol o welliant. Yn 2023-2024, roedd y sefydliad yn ymateb i Archwiliad Mewnol Sicrwydd Cyfyngedig ac yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau llywodraethiant a sicrwydd. Erbyn 2024-2025, roedd y rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Archwiliad Mewnol wedi eu cwblhau, roedd trefniadau llywodraethiant wedi cael eu cryfhau ac roedd gwelliannau i'w gweld ym maes perfformiad digwyddiadau, a chydymffurfiaeth â rheolau codi â chario. Yn ystod 2025-2026, rhoddodd y sefydliad Fframwaith Rheoli Iechyd a Diogelwch ffurfiol ar waith, cyflwyno Safonau Iechyd a Diogelwch y GIG, sefydlu prosesau archwilio a dilysu a

datblygu model sicrwydd strwythuredig. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn aeddfedrwydd sefydliadol ac yn rhoi sicrwydd cryfach na'r hyn oedd ar gael tair blynedd yn ôl ynghylch perfformiad iechyd a diogelwch.

Dros y 36 mis diwethaf rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- Sefydlu trefniadau goruchwyllo clir gan y Weithrediaeth a'r Bwrdd ar gyfer iechyd a diogelwch.
- Rhoi Fframwaith Rheoli Iechyd a Diogelwch ffurfiol ar waith sy'n cyd-fynd â safonau cydnabyddedig y GIG.
- Cyflwyno rhaglen hunanasesu Safonau Iechyd a Diogelwch y GIG ar draws y sefydliad.
- Datblygu prosesau archwilio, dilysu a thriongli data strwythuredig i wella sicrwydd.
- Cryfhau'r Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol (SOSHG) a chefnogi trefniadau llywodraethiant.
- Gwneud cynnydd a chwblhau'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Archwiliad Mewnol sy'n deillio o adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig 2024.
- Datblygu Dadansoddiad cynhwysfawr o Anghenion Hyfforddi Iechyd a Diogelwch i gefnogi dull seiliedig ar risg o sicrhau cymhwysedd.
- Gwella ansawdd adrodd am ddigwyddiadau a dealltwriaeth y sefydliad o risg.

Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant parhaus ar draws sawl maes perfformiad, gan gynnwys:

- Gostyngiad yn nifer yr achosion o ddamweiniau ac anafiadau ymysg staff o 1,044 yn 2023-2024 i 985 yn 2025-2026.
- 44% o gynnydd yn lefelau cydymffurfiaeth â Lefel 2 Codi a Chario dros bedair blynedd, gan fwrw tua 81% yn ystod 2025-2026.
- Mae'r lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gorfodol yn parhau i fod yn uwch nag 85% ar draws y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth.
- Mae'r rhan fwyaf o argymhellion yr Archwiliad Mewnol sy'n deillio o adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig 2024 wedi cael eu cwblhau.
- Mae cyflwyno prosesau hunanasesu, dilysu archwiliadau a thriongli data wedi gwella dealltwriaeth y sefydliad o gydymffurfiaeth a risg yn sylweddol.
- Mae'r sefydliad bellach yn gallu nodi bylchau rhwng cydymffurfiaeth ymddangosiadol a gwirioneddol gan dargedu gweithgarwch gwella yn unol â hynny.
- Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r bylchau a nodwyd yn yr adroddiad yn adlewyrchu prosesau craffu sefydliadol gwell, mwy o dryloywder a dull mwy aeddfed o ymdrin â sicrwydd yn hytrach na dirywiad mewn perfformiad. Mae'r bwrdd yn fwy abl i nodi, mesur a mynd i'r afael â meysydd y mae angen eu gwella drwy brosesau sicrwydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Nodi Adroddiad Perfformiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Diogeledd 2025-2026.
- Cymryd sicrwydd o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ym maes llywodraethiant iechyd a diogelwch, sicrwydd a goruchwyliaeth sefydliadol dros y tair blynedd diwethaf.
- Cydnabod y sefyllfa Sicrwydd Rhannol gyffredinol a chydabod ein bod ar daith ond ein bod ni'n parhau i gymryd camau breision.
- Cadarnhau'r blaenoriaethau strategol ar gyfer 2026-27.
- Cefnogi datblygiad parhaus systemau iechyd a diogelwch sefydliadol, trefniadau llywodraethiant a gallu'r gweithlu.

Yr ymgysylltu (mewnol/allanol) a wnaed hyd yma (gan gynnwys derbyn/ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion	Dyddiad	Canlyniad, Tystiolaeth a Data
Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol (SOSHG)	Parhaus	Goruchwyllo risgiau iechyd a diogelwch, llywodraethiant, monitro archwiliadau a datblygu polisi yn rheolaidd.
Pwyllgor Gweithredol	Gorffennaf 2026	Ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a'r sefyllfa sicrwydd.
Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant	Awst 2026	Derbyn yr adroddiad sicrwydd blynyddol ac ystyried blaenoriaethau strategol.

Byrfoddau / Rhestr Termiau

COSHH	Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd
HSE	Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
OSHMS	System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol
RIDDOR	Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus
SOSHG	Grŵp Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Strategol
DAH	Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi



IECHYD, DIOGELWCH A DIOGELEDD ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2025-2026

1. SEFYLLFA

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a diogeled yn ystod 2025-2026 ac yn tynnu sylw at y cynnydd a gyflawnwyd mewn meysydd y mae angen parhau i ganolbwyntio arnynt.

2. CEFNDIR

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd statudol dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 i sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant staff, cleifion, ymwelwyr a phawb arall y mae ei weithgareddau'n effeithio arnynt.


Mae'r tair blynedd diwethaf wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol a gwelliant o ran rheoli iechyd a diogelwch ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn 2023-2024, roedd y sefydliad yn ymateb i Archwiliad Mewnol Sicrwydd Cyfyngedig ar y cyd, ac yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau llywodraethiant a sicrwydd. Yn dilyn hynny, cafodd dadansoddiad cynhwysfawr o'r bylchau ei gwblhau a'i ddefnyddio fel sail i raglen wella.

Yn ystod 2024-2025, canolbwyntiodd y sefydliad ar gryfhau trefniadau llywodraethiant, bwrw ymlaen ag argymhellion yr archwiliad, ailadeiladu capasiti gwasanaethau, gwella mecanweithiau adrodd a datblygu rhaglen hunanasesu Safonau Iechyd a Diogelwch y GIG. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Archwiliad Mewnol wedi'u cwblhau.

Yn ystod 2025-2026, cafodd y gwaith hwn ei aeddfedu ymhellach drwy roi Fframwaith Rheoli Iechyd a Diogelwch ar waith yn ogystal â rhaglenni archwilio a dilysu strwythuredig, a dechrau datblygu Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi a gwella trefniadau sicrwydd. Mae'r datblygiadau hyn wedi sefydlu sylfeini sefydliadol cryfach. Y camau nesaf yw gwella'r ddealltwriaeth o risg ar draws y Bwrdd Iechyd.

3. Y DAITH



4. MATERION PENODOL I'W HYSTYRIED

Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y canlynol:

- Y Cynnydd a gyflawnwyd yn erbyn y daith wella tair blynedd.
- Y broses o weithredu'r Fframwaith Rheoli Iechyd a Diogelwch a'i heffeithiolrwydd.
- Canlyniadau proses hunanasesu Safonau Iechyd a Diogelwch y GIG, gan gynnwys canfyddiadau archwilio, dilysu a sicrwydd.
- Tueddiadau perfformiad sy'n ymwneud â diogelwch y gweithlu, adrodd am ddigwyddiadau a chydymffurfio â rheolau hyfforddiant.
- Y blaenoriaethau strategol a nodwyd ar gyfer 2026-2027.

5. PRIF RISGIAU / MATERION I'W HUWCHGYFEIRIO

Er gwaetha'r cynnydd, mae nifer o risgiau sylweddol yn parhau:

- Mae trais ac ymddygiad ymosodol tuag at staff yn parhau i beri risg sylweddol i'r sefydliad.
- Mae angen rhagor o aeddfedrwydd a chymorth digidol ar drefniadau rheoli risg iechyd a diogelwch. Gofynnir i'r bwrdd gefnogi'r gofyniad hwn.
- Mae hyfforddiant a sicrwydd cymhwysedd yn gofyn am ddatblygu parhaus drwy weithredu'r dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.
- Mae pwysau ar gapasiti'r gweithlu'n parhau i effeithio ar y ddarpariaeth mewn sawl maes gwasanaeth.
- Mae angen cryfhau effeithiolrwydd llywodraethiant ac ymgysylltu sefydliadol i gael sicrwydd cyson.

6. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- **Cymeradwyo** Adroddiad Perfformiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Diogeledd 2025-2026.
- **Cymryd anogaeth** o'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth gryfhau llywodraethant, sicrwydd a goruchwyliaeth Sefydliadol, nid dros y 12 mis diwethaf yn unig ond dros y 36 mis diwethaf.
- **Cydnabod** y daith wella sylweddol a wnaed yn dilyn Archwiliad Mewnol 2024 a'r dadansoddiad o'r bylchau iechyd a diogelwch.
- **Cadarnhau'r** blaenoriaethau strategol ar gyfer 2026-27, gan gynnwys:
 - o Datblygu Fframwaith Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch;
 - o Gweithredu ateb rheoli risg digidol;
 - o Gweithredu'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi Iechyd a Diogelwch;
 - o Cryfhau trefniadau ymchwilio i ddigwyddiadau;
 - o Datblygu trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd SOSHG ymhellach.
- **Cefnogi** ffocws sefydliadol parhaus ar ddiogelwch y gweithlu, yn enwedig atal trais ac ymddygiad ymosodol.

ASESIAD	
Cysylltiad â'r Blaenoriaethau Strategol	2. Datblygu strategaeth a newid hirdymor
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
Egwyddorion Cynllunio	Pobl yn Gyntaf Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Risg Cydymffurfio a Llywodraethu Iechyd a Diogelwch (CRR 25-10), sgôr risg o 16 ar hyn o bryd. Mae'r risgiau cysylltiedig yn cynnwys risgiau Cydymffurfio â Chodi a Chario a Gwasanaethau Diogelwch.
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u>	Cymru lachach
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:

ASESIADAU O'R EFFAITH		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi ymgymryd ag Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i>	Do: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Mae'r adroddiad hwn er sicrwydd yn unig ac nid yw'n cyflwyno polisi

		newydd na gwasanaeth newydd.
Asesiad o'r Effaith Seico-Gymdeithasol <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Do: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Adroddiad Sicrwydd yn Unig
<u>Ansawdd</u> <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ansawdd?</i>	Galluogwyr Ansawdd Dysgu, Gwella ac Ymchwil	Meysydd Ansawdd Diogel
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:
<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nodau Llesiant</u>	Cymru iachach	

Effaith Amgylcheddol/Cynaliadwyedd (5R)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
	Na - Ddim yn berthnasol	
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:	
Y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog <i>Ydych chi wedi ystyried y Ddyletswydd i roi Sylw Dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog?</i>	Do: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Dim effaith uniongyrchol
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>	Do: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad:	
	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Dim data personol
Asesiad o'r Effaith Gwrth-dwyll <i>Ydych chi wedi ystyried yr effeithiau gwrth-dwyll</i>	Do: ☐	Naddo / No: ☒
	Canlyniad:	

	Os nad ydych, nodwch y rhesymeg:	Dim effaith benodol
Cyfreithiol	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Dyletswyddau statudol dan Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch	
Enw Da	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Gall methu â mynd i'r afael â materion effeithio ar enw da'r sefydliad.	
Effaith Adnoddau (<i>People / Financial</i>)	Do (Rhowch ragor o fanylion isod)	
	Mae capasiti'r gweithle a'r angen i fuddsoddi mewn systemau a staffio wedi'u nodi.	



Health Board

ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL GWASANAETHAU'R GYMRAEG 2025-2026

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Open/ Public
	Not Applicable
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author name and title	Eleri Hughes-Jones, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Teresa Owen Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	For Approval

Crynodeb Gweithredol Executive Summary

Mae Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cymraeg 2025-2026 yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu cyfrif blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau) dros y flwyddyn adrodd.

Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi parhau i gryfhau ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo uchelgeisiau Fframwaith 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru yn ystod 2025–2026. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswydd statudol y Bwrdd Iechyd o dan Safon 120 i adrodd yn flynyddol ar:

- Gwynion
- Cynllunio'r gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg



Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni cynnydd sylweddol yn erbyn ei amcanion, gan ddangos dull aeddfed a rhagweithiol o ymgorffori ystyriaethau Cymraeg o fewn llywodraethu, cyflenwi gwasanaethau, datblygu'r gweithlu a diwylliant sefydliadol. Mae monitro cydymffurfiaeth, trefniadau llywodraethu cryfach a rhaglenni gwella wedi'u targedu wedi cyfrannu at welliannau mesuradwy ar draws ystod o Safonau'r Gymraeg, tra hefyd yn gwella profiadau cleifion, teuluoedd a chymunedau sy'n siarad Cymraeg.

Mae cyflawniadau allweddol yn ystod y cyfnod adrodd yn cynnwys:

- Cryfhau cydymffurfiaeth statudol trwy raglen hunanasesu a monitro gynhwysfawr.
- Parhau i weithredu cynllun pum-mllynedd Safon 110 Ymgynghoriadau Clinigol, i gynyddu gallu'r sefydliad i ddarparu ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gwell gwelededd o'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd drwy well cyfathrebu dwyieithog, arwyddion a hunaniaeth gorfforaethol.
- Mwy o gyfranogiad mewn hyfforddiant Cymraeg, gyda dros 1,000 o staff yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu yn ystod y flwyddyn a'r holl dargedau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Cymraeg Gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru wedi'u cyflawni'n llwyddiannus.
- Ymgysylltiad ehangach ag ysgolion, prifysgolion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y dyfodol i hyrwyddo sgiliau iaith Gymraeg fel cymhwysedd proffesiynol hanfodol ym maes gofal iechyd.
- Cyflwyno gweithgareddau diwylliannol, hyrwyddo ac ymgysylltu yn llwyddiannus a gryfhaodd ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac atgyfnerthu ei phwysigrwydd wrth ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn parhau i fod yn gadarn. Mae Fforwm Strategol y Gymraeg yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth weithredol, gyda chefnogaeth fframwaith rheoli risg gweithredol. Arhosodd yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg o fewn lefelau goddefgarwch cymedrol neu fach trwy gydol y flwyddyn ac nid oedd angen unrhyw ddwysáu.

Mae gweithgarwch monitro wedi dangos gwelliannau sylweddol mewn lefelau cydymffurfio ar draws gwasanaethau. Dangosodd adolygiadau cymharol symudiad sylweddol o gydymffurfiaeth gymysg tuag at berfformiad cyson uchel, gyda gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau teleffoni, cofnodi dewis iaith, cyfarfodydd a phrosesau ymgysylltu, dogfennaeth, gwasanaethau derbyn a hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Nododd canfyddiadau monitro hefyd gyfleoedd ar gyfer gwelliant pellach, yn enwedig o ran gwelededd "Cynnig Rhagweithiol" a rhyngweithiadau pwynt cyswllt cyntaf mewn lleoliadau clinigol aciwt.

Mae cynnydd o ran datblygu'r gweithlu yn parhau i fod yn gryfder sefydliadol sylweddol. Mae sgiliau Cymraeg bellach wedi'u cofnodi ar gyfer 96.34% o'r gweithlu, gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cynyddodd y nifer o staff



sy'n mynd drwy hyfforddiant Cymraeg i 1,037 o gyfranogwyr, a pharhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg i wella gallu dwyieithog ar draws gwasanaethau. Mae mentrau newydd, gan gynnwys y *rhaglen Codi Hyder*, yn cefnogi datblygu gweithlu dwyieithog mwy hyderus.

Parhaodd y Tîm Cyfieithu i chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi cydymffurfiaeth statudol a mynediad teg at wybodaeth, gan gyfieithu dros 4.6 miliwn o eiriau yn ystod y flwyddyn a darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgareddau recriwtio. Parhaodd y tîm hefyd i gynhyrchu incwm allanol trwy gytundebau gwasanaeth cyfieithu gyda sefydliadau partner.

Wrth edrych ymlaen, bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ymgorffori ystyriaethau Cymraeg ymhellach o fewn dylunio a darparu gwasanaethau, cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau clinigol drwy'r rhaglen Safon 110, ehangu mentrau datblygu'r gweithlu wedi'u targedu, a chryfhau trefniadau sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2026–2029 a byddant yn helpu i sicrhau bod cleifion sy'n siarad Cymraeg ledled Gogledd Cymru yn gallu cael mynediad cyson at ofal diogel, o ansawdd uchel ac sy'n canolbwyntio ar y person yn eu hiaith ddewisol.

Cyflwynir adroddiad ychwanegol hefyd fel rhan o ofynion adrodd Cynllun Pum Mlynedd 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Mae'r Adroddiad Diweddar 'Mwy na Geiriau' 2024-2025 yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn adrodd i fynd i'r afael â'r amcanion o fewn y cynllun.

Gan fod Llywodraeth Cymru wedi alinio'r amcanion rhywfaint â Safonau'r Gymraeg, mae cynllun blynyddol Gwasanaethau Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi'i ddiweddarau i ymgorffori'r amcanion hyn.

Felly, mae cynnwys y ddau adroddiad wedi'i alinio. Mae'r fformatau adrodd ychydig yn wahanol gan fod mecanweithiau adrodd yn cael eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru yn y drefn honno.

Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiadau.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)

Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Executive Committee	11/8/26	Cymeradwywyd
People and Culture Committee	13/8/26	Cymeradwywyd

Acronymau / Rhestr Termau Acronyms / Glossary of Terms	
N/A	

Adroddiadau ynghlwm.

Atodiad 1 – Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cymraeg 2025-2026

Atodiad 2 – Adroddiad Cynnydd 'Mwy na Geiriau' 2025-2026

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	3. Improve Access, Outcomes and Experience
	Mae'r adroddiad yn cefnogi blaenoriaethau strategol trwy wella mynediad cyfartal i wasanaethau, gwella ansawdd a diogelwch gofal trwy well cyfathrebu, a chryfhau profiad cleifion trwy alluogi unigolion i dderbyn gofal yn eu dewis iaith. Mae hefyd yn cyfrannu at ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	People First Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	N/A

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Equality Act 2010 Public Sector Equality Duty: Has BCUHB provided evidence of 'Due Regard' to compliance with the three parts of the Public Sector Equality Duty (General Duty): https://www.gov.wales/public-sector-equality-duty-html Public Sector Equality Duty [HTML] GOV.WALES	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	N/A
Equality Act 2010 - Socio-economic Duty Has BCUHB provided evidence of 'Due Regard' to compliance of ther Socio-economic Duty when making strategic decisions?	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	N/A
	Canlyniad/Outcome: Do/Yes:	Naddo/No: ☒

<i>Have you completed an Integrated Equality Impact Assessment WP8a?</i> WP8a Template	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale: Canlynaid/Outcome:	N/A
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Human Rights Act <i>Have Human Right based concerns been addressed within WP8a</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	N/A
Compliance to the Welsh Language requirements? <i>Have you undertaken an Impact Assessment</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
Compliance to giving 'Due Regard' to the principles of the Armed Forces Covenant <i>Have the principles of the Armed Forces Covenant been addressed within WP8a</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	N/A
Ansawdd <i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> Quality <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	N/A
	Galluogwyr Ansawdd Enablers of Quality Culture and Valuing People Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	A Healthier Wales Supports better communication between staff and patients, leading to safer, more effective care and improved health outcomes. A More Equal Wales Ensures Welsh speakers can access services in their preferred language, reducing inequality and promoting fair access to healthcare. A Wales of Cohesive Communities Strengthens community connections by valuing and promoting the Welsh language within local healthcare settings. A Wales of Vibrant Culture and Thriving Welsh Language Actively promotes and normalises the use of Welsh in everyday healthcare, supporting its growth and sustainability. A Prosperous Wales Develops a skilled and confident bilingual workforce, supporting sustainable public services.	
Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (5Rs) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below: No - Not Applicable	
Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment <i>Have you undertaken a Data Protection Impact Assessment Screening?</i>	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome: Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	Naddo/No: ☒ N/A
Asesiad o Effaith ar Atal Twyll	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒

<i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	N/A
Cyfreithiol Legal	Yes (Include further detail below) Mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ac y gellir darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys: 1. Darparu gwasanaethau, cyfathrebiadau ac arwyddion dwyieithog 2. Galluogi cleifion i ddefnyddio'r Gymraeg heb orfod gofyn amdano (Cynnig Rhagweithiol) 3. Cefnogi staff i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg 4. Bodloni'r gofynion a nodir yn hysbysiad cydymffurfio'r sefydliad a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg	
Enw Da Reputational	Yes (Include further detail below) Gall methu â bodloni'r rhwymedigaethau hyn arwain at gamau rheoleiddiol a risg enw da, gan wneud cydymffurfiaeth yn ofyniad statudol i'r Bwrdd Iechyd.	
Effaith ar Adnoddau <i>(Pobl / Ariannol)</i> Resource Impact <i>(People / Financial)</i>	There is no direct impact on resources as a result of the activity outlined in this report.	



Adroddiad Materion Allweddol Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		06/08/2026	Adroddiad: Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl
Cworwm wedi'i gyrraedd:		Do	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Ystyriodd y Pwyllgor yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor Cydymffurfiaeth Iechyd Meddwl a Galluedd Meddyliol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
2a	Rhybudd	Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno rhybuddio aelodau'r Bwrdd: - Yn ystod y chwarter diwethaf, caniatwyd i nifer anarferol o uchel o gleifion gael eu rhyddhadau (wyth i gyd), chwech gan y Tribiwnlys Iechyd Meddwl a dau gan Reolwyr Cyswllt yr Ysbyty. Mae hyn yn cael ei adolygu er mwyn deall y rheswm am y cynnydd, unrhyw ffactorau cyffredin yn amgylchiadau'r cleifion a ryddhawyd, ac unrhyw oblygiadau o ran ymarfer o fewn ein wardiau cleifion mewnol. - Mae pryderon cynyddol ynghylch argaeledd Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy gyda'r oedi wrth sicrhau gweithiwr cymwys yn ffactor tebygol sydd yn cyfrannu at ddigwyddiadau difrifol.	
2b	Sicrwydd	Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno sicrhau aelodau'r Bwrdd: - bod cynnydd sylweddol yn parhau i ddigwydd o ran gweinyddu'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (llai o ôl-groniad, gwell cydymffurfiaeth o ran hyfforddiant a chyfradd llawer is o wallau gweinyddol) gyda threfniadau gweithredu effeithiol. - Rheolwyr Cyswllt Ysbyty annibynnol ychwanegol wedi'u recriwtio, gyda lefel uchel o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant. - Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol yn gweithio'n dda. Mae monitro parhaus yn digwydd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fodloni'r gofynion statudol.	
2c	Cynghori	Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn dymuno cynghori aelodau'r Bwrdd:	

		• bod gan y dyfarniad diweddar gan y Goruchaf Lys yn yr achos a ddygwyd gan Dwrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon, ar gymhwysedd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, oblygiadau sylweddol o ran gweinyddu'r trefniadau; fydd yn debygol o arwain at lai o gleifion yn dod o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, ond yn hytrach, bydd proses asesu fwy cymhleth. Mae gwaith ar y gweill i roi'r newidiadau angenrheidiol ar waith, a bydd diweddariadau pellach yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd, maes o law. • Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i themâu ehangach a materion generig sy'n deillio o ganfyddiadau adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a oedd yn canolbwyntio ar Wasanaeth Anableddau Dysgu Conwy, cyd wasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd.
2d	Adolygiad o Risgiau	Cytunodd y Pwyllgor â'r camau gweithredu arfaethedig i liniaru'r risg y gellid gweld diffyg parhad o ran cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol oherwydd deddfwriaeth caffael.
2e	Rhannu dysgu	Cafodd y Pwyllgor drafodaeth dda ar y cwestiwn a yw derbyn cleifion yn wirfoddol i ofal cleifion mewnol yn beth cadarnhaol (yn unol â'r egwyddor o achosi'r cyfyngiad angenrheidiol lleiaf) neu'n arwydd o'r methiant i ddarparu cefnogaeth fwy priodol a chynharach yn y gymuned. Mae'r olaf yn ffocws pwysig ar gyfer Strategaeth Iechyd Meddwl newydd Llywodraeth Cymru.
3	Camau gweithredu i'w hystyried gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad	Cytunodd y Pwyllgor y dylid derbyn diweddariad ar y gwasanaethau Anableddau Dysgu yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad er mwyn goruchwyllo'r system, yn dilyn adroddiad diweddar gan AGIC.



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		01/09/2026	Adroddiad: Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Pwyllgor Cronfeydd Elusennol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
2a	Rhybuddio	Hoffai'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: Dylid dysgu gwersi o'r heriau a wynebwyd wrth sicrhau cworwm ar gyfer y cyfarfod, er mwyn sicrhau y gellir bodloni gofynion llywodraethiant yn gyson yn y dyfodol.	
2b	Sicrwydd	Hoffai'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol roi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Mae'r tîm elusennol yn parhau i weithredu gyda swyddogaethau allweddol yn eu lle ar gyfer codi arian, cyfathrebu, gofal rhoddwyr a rheoli arian, ac mae proses recriwtio ar waith i lenwi rôl y Cyfrifydd Elusennol. - Mae angen cynllun cyfathrebu gweithredol pwrpasol ar gyfer cyfathrebiadau elusennol er mwyn cefnogi amcanion codi arian ac ymgysylltu â rhoddwyr. - Ar yr un pryd â chynnal dull cyfathrebu elusennol clir, byddai alinio â strategaeth gyfathrebu ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio, cysondeb a dysgu ar y cyd.	
2c	Hysbysu	Hoffai'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol hysbysu aelodau'r Bwrdd am y canlynol: Mae'r paratodau ar gyfer menter codi arian elusennol Marathon Llundain 2027 yn mynd rhagddynt yn llwyddiannus, gyda phum lle elusennol wedi'u sicrhau a'r cyfranogwyr wedi cael eu dewis yn dilyn diddordeb brwd gan staff.	
2d	Adolygu Risgiau	Dim risgiau wedi'u nodi ar wahân i'r rhai a nodir yn yr Adroddiad Rheoli Buddsoddiadau.	

2e	Rhannu gwersi	
3	Camau i'w hystyried gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Dim camau gweithredu i'w rhannu.



Bwrdd Iechyd Adroddiad Materion Allweddol			
Dyddiad y Bwrdd		24/09/2026	
Dyddiad y Pwyllgor		07/09/2026	Adroddiad: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
A oedd Cworwm:		Oedd	
1	Agenda	Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn parhau i gyfarfod bob chwarter. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr agenda sydd ynghlwm: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	
2a	Rhybuddio	Dymuna'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid rybuddio aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Codwyd pryderon am bresenoldeb isel yn gyson sy'n cyfyngu ar ehangder y gynrychiolaeth a gallu'r Grŵp i ddarparu ymgysylltiad a sicrwydd ystyrlon. - Mae lefel y drafodaeth a'r cyfraniad gweithredol yn ystod cyfarfodydd yn gyfyngedig, gan gyfyngu rhagor ar effeithiolrwydd y Grŵp a'r gwerth y gall ei gynnig, roedd pum Aelod (gan gynnwys yr Is-gadeirydd) yn bresennol.	
2b	Hysbysu	Fel Grŵp Cynghori o'r Bwrdd, mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn awyddus i gynghori aelodau'r Bwrdd am y canlynol: - Cyflwynwyd diweddariadau ar y strategaeth newydd ar gyfer gofal iechyd yng Ngogledd Cymru, Cynllunio, ac Adolygiad Dan Arweiniad Da Llywodraeth Cymru. - Cyflwynwyd adroddiad dysgu am fyfyrddodau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. - Darparwyd enghreifftiau o arloesi a gwelliannau i wasanaethau ar draws BIPBC, gan gynnwys manylion rhaglen frechu Llud yr Ymennydd B. - Dosbarthwyd Diweddariad ar y Rhaglen Diwylliant ac Arweinyddiaeth i'r holl aelodau. - Mae'r Grŵp yn parhau i ganolbwyntio ar atal, gweithio mewn partneriaeth a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. - Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn parhau ynghylch gwasanaethau ysbyty Llannerch Banna a Thywyn. Rhoddwyd manylion datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra i'r Grŵp.	
2c	Adolygu Risgiau	Ni adroddwyd ar unrhyw risgiau	

2d	Rhannu gwersi	Dim
3	Camau i'w hystyried gan	Dim camau i'w hystyried gan y Bwrdd na Phwyllgorau eraill.

Bwrdd Iechyd

ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDOL

Dyddiad y Cyfarfod Date of Meeting	24 Medi 2026
Statws Cyhoeddi Publication Status	Agored/ Cyhoeddus
	Amherthnasol
Enw a theitl Awdur(on) yr Adroddiad Report Author(s) name and title	Catrin Williams, Pennaeth y Swyddfa Gorfforaethol
Enw a theitl Aelod Arweiniol o'r Tîm Gweithredol Lead Executive Team Member name and title	Pam Wenger, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol
Pwrpas yr Adroddiad Report Purpose	I'w Nodi

Crynodeb Gweithredol **Executive Summary**

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi parhau i helpu'r Prif Weithredwr i gyflawni ei chyfrifoldebau fel Swyddog Atebol drwy oruchwylio perfformiad y sefydliad, ansawdd a diogelwch, y gweithlu, llywodraethiant, risg a chyflawni strategol. Mae'r Pwyllgor wedi darparu fforwm ar gyfer arwain, herio a gwneud penderfyniadau'n Weithredol ar y cyd, gan sicrhau bod Cyfarwyddwyr Gweithredol yn parhau i fod yn atebol am gyflawni yn erbyn blaenoriaethau a chyfrifoldebau statudol y cytunwyd arnynt.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae ffocws sylweddol wedi bod ar gryfhau trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a sicrwydd. Ystyriodd y Pwyllgor ddatblygiad parhaus Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y Fframwaith Llywodraethiant Gweithredol a'r Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd, gan gydnabod pwysigrwydd atebolrwydd clir, gwneud penderfyniadau effeithiol a threfniadau sicrwydd cadarn i gefnogi gwelliant sefydliadol. Er bod cynnydd wedi'i wneud, roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd i wreiddio'r trefniadau hyn yn gyson ar draws y sefydliad.

Roedd y Pwyllgor hefyd wedi parhau i oruchwylio rhaglenni adfer a thrawsnewid gweithredol mawr gan gynnwys Gofal wedi'i Gynllunio, Gofal Brys a Gofal

Argyfwng, gwasanaethau lechyd Meddwl, a chyflawni'r Cynllun Cyflawni Blynnyddol. Roedd y trafodaethau'n adlewyrchu cynnydd a heriau parhaus o ran dangos cyflawniad yn erbyn disgwyliadau, sicrhau bod rhaglenni'n cael eu llywodraethu'n glir, a dangos tystiolaeth o effaith gweithgarwch gwella. Ceisiodd y Pwyllgor fireinio nifer o adroddiadau ymhellach i gryfhau'r cysylltiadau rhwng perfformiad, risgiau, adnoddau a'r manteision disgwylidig.

Ar draws ansawdd, gweithlu a diwylliant y sefydliad, ystyriodd y Pwyllgor amrywiaeth o adroddiadau yn ymwneud â phrofiad cleifion, llesiant staff, trefniadau codi llais, staff nyrsio a llywodraethiant ansawdd. Er y cafwyd sicrwydd mewn nifer o feysydd, roedd trafodaeth Weithredol wedi cydnabod pa mor bwysig yw parhau i driongli gwybodaeth o nifer o ffynonellau er mwyn deall achosion sylfaenol sy'n peri pryder, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, a chefnogi gwelliant parhaus.

Nododd y Pwyllgor nifer o feysydd lle mae angen sylw Gweithredol parhaus, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglen LIMS 2.0, cyflawni agweddau ar y Cynllun Cyflawni Blynnyddol, a'r angen i gryfhau trefniadau llywodraethu a goruchwyllo mewn rhaglenni gwella a gwasanaethau sy'n wynebu heriau. Mae'r materion hyn yn adlewyrchu cymhlethdod parhaus taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant, a bydd yn parhau i gael ei adolygu'n Weithredol.

Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi darparu mecanwaith lle mae'r Prif Weithredwr wedi arfer goruchwyliaeth, atebolrwydd a her ar draws blaenoriaethau sefydliadol allweddol. Mae trafodaethau'r Pwyllgor yn dangos ffocws parhaus ar fynd i'r afael â meysydd gwan, cryfhau trefniadau sicrwydd a chefnogi gwelliant, gan gydnabod bod nifer o heriau sylweddol yn dal i fod o ran gweithrediad, perfformiad a llywodraethiant.

Ymgysylltu (mewnol/allanol) yr ymgwymerwyd ag ef hyd yma (gan gynnwys derbyn/ ystyried yn y Pwyllgor/Grŵp)
Engagement (internal/external) undertaken to date (including receipt/consideration at Committee/Group)

Pwyllgor / Grŵp / Unigolion Committee / Group / Individuals	Dyddiad Date	Canlyniad, Tystiolaeth a Data Outcome, Evidence and Data
Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn		

Acronymau / Rhestr Termiau
Acronyms / Glossary of Terms

--	--

ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDOL

Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi cwrdd ar 15 Gorffennaf, 29 Gorffennaf ac 11 Awst 2026. Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar

ddarparu ac adfer gwasanaethau, sicrhau ansawdd a'r gweithlu, datblygu llywodraethiant, a chynllunio strategol. Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod yn breifat ac felly efallai yr adroddir ar rai eitemau busnes yn gyfrinachol, ar wahân, yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd Iechyd.

1.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2026

1.1 Contractau a Chymeradwyaethau Cyfalaf

Adroddir ar eitemau yn y papur preifat.

1.2 Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaeth Diogelu Iechyd gydag Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru

Ystyriodd y Pwyllgor gytundeb arfaethedig i sefydlu partneriaeth diogelu iechyd gynaliadwy ac integredig gyda chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gan y Pwyllgor.

1.3 Ymateb i Dywydd Poeth a Pharatoi ar ei gyfer

Adolygodd y Pwyllgor yr ymateb i dywydd poeth a gwersi diweddar yn ymwneud â'r galw, rhannau o'r ystâd sy'n agored i niwed, monitro tymheredd a threfniadau uwchgyfeirio. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, gan gefnogi rhagor o waith drwy drefniadau 'parodrwydd am argyfwng' i gryfhau'r gwaith o fonitro a chynllunio ymateb.

1.4 Adroddiad y Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio a Llywodraethiant y Rhaglen

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio a diweddariad Bwrdd y Rhaglen. Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar gyflwyno cofnod integredig cliriach o adferiad, trawsnewid, cynhyrchiant a chyflawniad, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac arwain rhaglenni yn parhau i gyd-fynd â'r dull adfer sy'n datblygu. Penderfyniad: Nodwyd y diweddariadau gan y Pwyllgor a gofynnwyd am fireinio naratif y Bwrdd a threfniadau llywodraethu'r rhaglen ymhellach.

1.5 Adroddiad Cynnydd Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Edrychodd y Pwyllgor ar adroddiad drafft y Bwrdd, gan geisio cysylltiadau cliriach rhwng camau gwella, y manteision disgwylidig, canlyniadau perfformiad, risgiau ac adnoddau. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnodd am iddo gael ei ddatblygu ymhellach cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.

1.6 Adroddiad y Bwrdd ar Iechyd Meddwl

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad Iechyd Meddwl drafft a gofynnodd am naratif sicrwydd cliriach ar draws y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cynnydd yn erbyn gwaith sy'n flaenoriaeth a rhaglen y Cofnod Iechyd Electronig Iechyd Meddwl.

Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnodd am iddo gael ei fireinio ymhellach cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.

1.7 Adroddiad Perfformiad Blynyddol Iechyd, Diogelwch a Diogeledd 2025/26

Croesawodd y Pwyllgor y cynnydd o ran cryfhau llywodraethiant iechyd a diogelwch a thrafododd alinio'n agosach â threfniadau risg corfforaethol, ansawdd a llesiant y gweithlu. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad, yn amodol ar ddiwygiadau, i'w ystyried ymhellach gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

1.8 Arolwg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn Ysbyty Gwynedd

Aeth y Pwyllgor ati i adolygu diweddariad yr arolwg a thrafod yr angen am drefniadau llywodraethu, uwchgyfeirio a sicrwydd clir a chyson ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio yn y dyfodol. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y diweddariad a chytunodd y dylid adolygu'r trefniadau goruchwyllo.

1.9 Adroddiad Ansawdd Integredig y Bwrdd

Adolygodd y Bwrdd yr Adroddiad Ansawdd Integredig sy'n datblygu, a thrafododd ei gysondeb â mesurau adrodd ar berfformiad a risg, meincnodi, cyflwyno data, ac ymdrin â materion sensitif. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a chytunodd i'w fireinio ymhellach i gryfhau'r naratif sicrwydd.

1.10 Fframwaith Llywodraethiant Gweithredol

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf am y fframwaith sy'n datblygu ac roedd yn cefnogi'r bwriad i sefydlu trefniadau clir a chymesur ar gyfer bod yn atebol a gwneud penderfyniadau. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cyfeiriad rydym yn mynd iddo a chytunodd y dylai'r fframwaith ddychwelyd i gael ei hystyried ymhellach.

1.11 Y Llwyfan ar gyfer Rheoli'r Bwrdd a Gweinyddu Cyfarfodydd

Ystyriodd y Pwyllgor y cyfeiriad arfaethedig ar gyfer disodli'r llwyfan presennol ag ateb sy'n defnyddio Microsoft 365. Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r cyfeiriad arfaethedig.

1.12 Cam-alinio Demograffeg a Gohebiaeth Glinigol

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor yr ymateb a nododd y sicrwydd a roddwyd ynghylch rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â cham-alinio demograffeg.

1.13 Adroddiad Blynyddol y Peiriannydd Awdurdodi (Dadhalogi)

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol a chymeradwyodd y cynllun gweithredu cysylltiedig.

2.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2026

2.1 Contractau a Chymeradwyaethau Masnachol

Adroddir ar eitemau yn y papur preifat.

2.2 Diweddariad LIMS 2.0

Edrychodd y Pwyllgor ar yr oedi sy'n effeithio ar y rhaglen Cymru gyfan a'r risgiau o ran darparu'r ateb trallwysuadau gwaed, gan gynnwys y cymorth cyfyngedig o ran amser sydd ar gael ar gyfer y llwyfan presennol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y sefyllfa a chytunodd i gysylltu ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar frys i gael eglurder ynglŷn â statws, risgiau, amserlenni, a threfniadau wrth gefn y rhaglen.

2.3 Cynllun Cyflawni ar gyfer Niwroddatblygiad Plant

Ystyriodd y Pwyllgor fesurau i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng gweithgarwch asesu carlam a'r gallu i drin plant y mae angen eu monitro a'u trin yng nghyswllt ADHD. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor ehangu'r capasiti triniaethau dros dro gan ddefnyddio hyd at £476,000 o gyllid llithriadau anghylchol CAMHS, a chytunodd y dylid monitro'r ddarpariaeth drwy ddull buddion a llwybr y cytunir arnynt.

2.4 Adroddiad Ansawdd Integredig

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad misol cyntaf mewn fformat diwygiedig wedi'i gydgrynhoi a thrafododd risgiau ansawdd rheolaidd, perfformiad o ran cwynion, camau adolygu allanol, a phryderon ynghylch endosgopi. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad, cytunodd fod pryderon ynghylch endosgopi yn dal i gael eu goruchwyllo'n weithredol a gofynnodd am feincnodi ac olrhain camau gwella yn gliriach mewn adroddiadau yn y dyfodol.

2.5 Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymorth a Llesiant Staff 2025/26

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ar ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth a nododd yr angen i gryfhau cefnogaeth ragweithiol ac integreiddio ag Iechyd Galwedigaethol. Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r adroddiad blynyddol.

2.6 Adroddiad Chwarterol Codi Llais yn Ddiogel

Edrychodd y Pwyllgor ar yr adroddiad a thrafod yr angen i driongli data pryderon gyda thystiolaeth ehangach ar ddiwylliant, profiadau staff a diogelwch seicolegol. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r gwaith parhaus ar ddysgu sefydliadol, diwylliant a diogelwch seicolegol.

2.7 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd o ran cysoni risgiau a sicrwydd â blaenoriaethau strategol, a thrafododd yr angen am asesiadau perchnogaeth, atebolrwydd a sicrwydd cywir. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cynnydd a'r mireinio pellach sydd ei angen cyn rhoi hyn ar waith drwy'r trefniadau llywodraethu y cytunir arnynt.

2.8 Y Grŵp Cyflawni Gweithredol ar gyfer Llywodraethu a Rheoleiddio

Roedd y Pwyllgor wedi cael adroddiad cyntaf y Cadeirydd ac wedi nodi ei ffocws arfaethedig ar oruchwylio rheoleiddwyr, parodrwydd ar gyfer arolygiadau, ac argymhellion monitro. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r rhaglen waith.

2.9 Archwiliad Mewnol: Cynlluniau i Wella Gwasanaethau sy'n Wynebu Heriau

Roedd y Pwyllgor wedi cael adolygiad Sicrwydd Cyfyngedig a oedd yn nodi amrywiadau o ran aeddfedrwydd a llywodraethiant cynlluniau gwella. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y canfyddiadau a'r rhaglen waith sy'n mynd rhagddi i gryfhau goruchwyliaeth, llywodraethiant a sicrwydd.

2.10 Grŵp Newid Gwasanaethau a Chynllunio Strategol

Adolygodd y Pwyllgor y rhagolygon cyflawni yn erbyn y Cynllun Cyflawni Blyneddol a thynnodd sylw at yr angen am ymyrraeth Weithredol lle'r oedd camau gweithredu mewn perygl. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor adroddiad y Cadeirydd a'r pryderon a godwyd ynghylch y rhagolygon cyflawni.

2.11 Adroddiad Sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Craffu ar Risg

Ystyriwyd yr adroddiad drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad drwy eithriad.

3.0 Cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Awst 2026

3.1 Trefniadau Contractio a Chomisiynu Rhanbarthol

Ystyriodd y Pwyllgor gytundebau cyn-lleoli a byw â chymorth rhanbarthol a luniwyd i ddarparu trefniadau comisiynu a llywodraethu cyson. Penderfyniad: Roedd y Pwyllgor wedi cymeradwyo cyfranogiad yn y ddau gytundeb, gan nodi bod lleoliadau unigol, gwariant ac ymrwymïadau gwasanaethau yn parhau i fod yn destun prosesau cymeradwyo sefydledig.

3.2 Adroddiad Ymgysylltu â Dinasyddion a'u Profiadau

Adolygwyd y themâu o adborth dinasyddion gan y Pwyllgor, a phwysleisiwyd yr angen i ddangos yn glir sut mae adborth yn llywio'r broses o ddysgu a gwella

gwasanaethau. Penderfyniad: Nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor a chymeradwywyd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Pobl, Partneriaethau a Gwella Iechyd.

3.3 Lefelau Staff Nyrsio

Adolygodd y Pwyllgor gydymffurfiaeth â gofynion staff nyrsio statudol a thrafododd risgiau'r gweithlu sy'n ymwneud â gwelyau uwchgyfeirio a'r gwahaniaethau rhwng sefydliadau a ariennir a sefydliadau a gyfrifir. Penderfyniad: Nodwyd yr adroddiad a'r sicrwydd a ddarparwyd gan y Pwyllgor, a gofynnwyd am iddo gael ei fireinio ymhellach cyn i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau ei ystyried.

3.4 Amser wedi'i Neilltuo ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Ystyriodd y Pwyllgor y sefyllfa weithredu dros dro ar gyfer neilltuo amser datblygu proffesiynol gwarchodedig i gofrestreion clinigol. Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor y dylid cydnabod hyfforddiant statudol a gorfodol o fewn y dyraniad gwarchodedig o 52 awr a nodir yn yr ystyriaethau ehangach o ran gweithlu, gwasanaeth ac arian.

3.5 Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol

Ystyriwyd yr adroddiad drwy'r agenda caniatâd oherwydd cyfyngiadau amser. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r sicrwydd a roddwyd ynghylch goruchwyllo'r prif risgiau strategol.

3.6 Fframwaith Llywodraethiant ac Atebolrwydd

Ystyriwyd yr adroddiad drwy'r agenda caniatâd oherwydd cyfyngiadau amser. Penderfyniad: Cymeradwyodd y Pwyllgor y diwygiadau a nodir yn y papur.

3.7 Adroddiad Monitro Blynnyddol Gwasanaethau'r Gymraeg 2025/26

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cynnydd yn erbyn gofynion statudol y Gymraeg.

3.8 Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2024-2028

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r cynllun.

3.9 Bwrdd y Rhaglen Newid Mawr mewn Gofal Brys a Gofal Argyfwng

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor adroddiad AAA Bwrdd y Rhaglen.

3.10 Arolwg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru: Uned Ablett

Ystyriwyd yr eitem drwy'r agenda cydsyniad. Penderfyniad: Nododd y Pwyllgor ganfyddiadau'r arolwg a'r cynnydd yn erbyn y cynllun gwella cysylltiedig.

ASESIAD / ASSESSMENT	
Cyswllt â'r Blaenoriaethau Strategol Link to Strategic Priorities	    
	1. Creu sefydliad effeithiol
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Yr Egwyddorion Dylunio Design Principles	Symleiddio, Safoni, a Mabwysiadu Arferion Gorau Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
Fframwaith Risgiau Corfforaethol a Sicrwydd y Bwrdd Corporate Risks and Board Assurance Framework	Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR) Manylion y risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y Gofrestr Risg Gorfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd)

ASESIADAU O EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS		
Cydraddoldeb <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys gofynion Safonau'r Gymraeg)</i> Equality <i>Have you undertaken an Equality Impact Assessment Screening (which includes the requirements of the Welsh Language Standards)</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Amherthnasol</i>
Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol <i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd-gymdeithasol?</i> Socio-Economic Impact Assessment <i>Have you undertaken a Socio-Economic Impact Assessment</i>	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☒
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Amherthnasol</i>
<u>Ansawdd</u>	Galluogwyr Ansawdd	Meysydd Ansawdd

<i>A ydych chi wedi ymgymryd â phrawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd?</i> Quality <i>Have you undertaken a Quality Impact Assessment Screening?</i>	Enablers of Quality Mae pob un yn berthnasol	Domains of Quality Dewiswch eitem.
	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:
<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Nodau Llesiant</u> <u>Wellbeing of Future Generations Act – Wellbeing Goals</u>	Dewiswch eitem.	

Effaith Amgylcheddol / Cynaliadwyedd (y 5R) Environmental /Sustainability Impact (5Rs)	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny isod: If more than one applies, please list below:	
	Dewiswch eitem.	
Dyletswydd Sylw Dyladwy Cyfamod y Lluoedd Arfog Armed Forces Covenant Due Regard Duty Have you considered the Armed Forces Covenant Due Regard Duty?	Os oes mwy nag un yn berthnasol, rhestrwch hynny: If more than one applies, please list:	
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	
Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data <i>A ydych chi wedi cynnal prawf Sgrinio o'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i> Data Protection Impact Assessment	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	
	Do/Yes: ☐	Naddo/No: ☐
	Canlyniad/Outcome:	
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	

<i>A ydych chi wedi cynnal Asesiad Sgrinio o'r Effaith ar Ddiogelu Data?</i>		
Asesiad o'r Effaith ar Atal Twyll <i>A ydych chi wedi ystyried yr effeithiau ar atal twyll?</i> Counter Fraud Impact Assessment <i>Have you considered the counter fraud impacts</i>	Do/Yes: ☐ Canlyniad/Outcome:	Naddo/No: ☒
	Os naddo, dylech gynnwys y rheswm: If no, please include rationale:	<i>Amherthnasol</i>
Cyfreithiol Legal	Nid oes goblygiadau cyfreithiol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Enw Da Reputational	Nid oes effaith uniongyrchol ar enw da'r Bwrdd Iechyd o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	
Effaith ar Adnoddau (Pobl / Ariannol) Resource Impact (People / Financial)	Nid oes effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn.	